# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mercher, 13 Mehefin 2012**
**Wednesday, 13 July 2012**

**Cynnwys**
**Contents**


3 Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro
Election of Temporary Deputy Presiding Officer

3 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

23 Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

44 Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau
Motions to Elect Members to Committees

44 Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar Un Corff Amgylcheddol
The Environment and Sustainability Committee's Report on the Single Environment Body

60 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Arian Ewropeaidd
Welsh Conservatives Debate: European Funding

87 Dadl Plaid Cymru: Economïau Lleol
Plaid Cymru Debate: Local Economies

114 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

122 Dadl Fer: Treftadaeth—Ein Gorffennol a'n Dyfodol
Short Debate: Heritage—Our Past and Future


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro
## Election of Temporary Deputy Presiding Officer

**The Presiding Officer:** In the absence of the Deputy Presiding Officer, I ask the Assembly to elect a temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary meeting. Therefore, I invite nominations

**Y Llywydd:** Yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd, gofynnaf i'r Cynulliad ethol Dirprwy Lywydd dros dro ar gyfer y Cyfarfod Llawn heddiw. Felly, rwyf yn gwahodd enwebiadau.

**Peter Black:** I nominate Sandy Mewies.

**Peter Black:** Rwyf yn enwebu Sandy Mewies.

**The Presiding Officer:** I therefore declare that Sandy Mewies is elected as temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary meeting

**Y Llywydd:** Rwyf yn datgan felly fod Sandy Mewies wedi cael ei hethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro ar gyfer y Cyfarfod Llawn heddiw.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
## Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

### Fformiwla Barnett

### The Barnett Formula

***1. Alun Ffred Jones:*** *Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch diwygio neu ddisodli Fformiwla Barnett. OAQ(4)0134(FIN)*

***1. Alun Ffred Jones:*** *What representations has the Welsh Government made to the UK Government with regard to reforming or replacing the Barnett Formula. OAQ(4)0134(FIN)*

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae trafodaethau rhynglywodraethol ar ddiwygio setliad ariannol Cymru yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Rydym yn ceisio sicrhau trefn gyllidol decach ar gyfer Cymru.

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** Intergovernmental talks on reforming Wales's financial settlement are underway. We are seeking a fairer funding deal for Wales.

**Alun Ffred Jones:** Based on projected 2010-11 figures, Gerry Holtham estimated that Wales was being underfunded by £450 million per annum through the Barnett formula. Now that we have the Treasury outrun figures for 2010-11, has the Welsh Government calculated the current situation with regard to the underfunding? Is it better or is it worse? That is crucial if a Barnett floor is introduced.

**Alun Ffred Jones:** Yn seiliedig ar ragamcanion ar gyfer 2010-11, amcangyfrifodd Gerry Holtham fod Cymru ar ei cholled o £450 miliwn y flwyddyn yn sgîl fformiwla Barnett. Gan ein bod wedi cael ffigurau'r gwariant gwirioneddol gan y Trysorlys ar gyfer 2010-11 erbyn hyn, a yw Llywodraeth Cymru wedi pwyso a mesur y sefyllfa bresennol o ran y diffyg cyllid? A yw'r sefyllfa'n well ynteu'n waeth? Mae hynny'n hollbwysig os cyflwynir terfyn isaf

**Jane Hutt:** We are assessing the current situation in terms of our funding position. Gerry Holtham provided us with that assessment of £450 million at that time. We are updating that, but my key objective in the intergovernmental talks I am having on financial reform is to seek the Holtham floor, which would halt convergence.

**Paul Davies:** Given your discussions with the UK Government, could you give us an update on the implementation of a Barnett floor?

**Jane Hutt:** I thank the opposition finance spokesperson, Paul Davies, for the question. I updated the Assembly on 17 April with a written statement on the progress of the talks. Welsh Government and Treasury officials are working closely together on the evidence base that supports our case for change and the aim is for that work to be completed before the summer recess. I have in my diary a meeting with the Chief Secretary to the Treasury in early July to progress this.

**Paul Davies:** The Welsh Government has made it clear that it does not wish to have taxation powers unless there is reform of the Barnett formula. Could you confirm therefore that, if a Barnett floor were put in place, that would be enough reform for the Welsh Government to take on taxation powers?

**Jane Hutt:** We are seeking constructive discussions on all financial issues. We are open-minded on the case for tax devolution. We have not sought the powers to vary income tax rates. The imperative is ensuring that we have the best solution in terms of financial reform in order to have budget stability with the funding floor, as I have just mentioned. That, of course, opens up—and we await the Silk Commission’s view on this—further tax devolution opportunities.

**The Presiding Officer:** Question 2, OAQ(4)0132(FIN), question 3,

ar gyfer fformiwla Barnett.

**Jane Hutt:** Rydym yn asesu'r sefyllfa bresennol o ran ein cyllid. Rhoddodd Gerry Holtham yr asesiad hwnnw inni o £450 miliwn bryd hynny. Rydym yn diweddaru hynny, ond fy mhrif amcan yn y trafodaethau rhynglywodraethol yr wyf yn eu cael ar ddiwygiadau ariannol yw ceisio cael terfyn isaf Holtham, a fyddai'n atal y cydgyfeirio.

**Paul Davies:** O ystyried eich trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am weithredu terfyn isaf fformiwla Barnett?

**Jane Hutt:** Diolch i lefarydd yr wrthblaid ar gyllid, Paul Davies, am y cwestiwn. Rhoddais yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad ar 17 Ebrill gyda datganiad ysgrifenedig ar hynt y trafodaethau. Mae Llywodraeth Cymru a swyddogion y Trysorlys yn cydweithio'n agos ar y sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi ein hachos dros newid, a'r nod yw cwblhau'r gwaith hwnnw cyn toriad yr haf. Mae gennyf gyfarfod gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi’i nodi yn fy nyddiadur ar gyfer dechrau mis Gorffennaf er mwyn bwrw ymlaen â hyn.

**Paul Davies:** Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir nad yw'n dymuno cael pwerau trethu oni bai bod fformiwla Barnett yn cael ei ddiwygio. A allwch gadarnhau felly, pe byddai terfyn isaf Barnett yn cael ei weithredu, y byddai hynny'n ddigon i Lywodraeth Cymru ymgymryd â phwerau trethu?

**Jane Hutt:** Rydym yn gobeithio cael trafodaethau adeiladol ar yr holl faterion ariannol. Rydym yn cadw'r meddwl yn agored o ran yr achos dros ddatganoli treth. Nid ydym wedi ceisio pwerau i amrywio cyfraddau treth incwm. Yr hyn sy'n hanfodol yw sicrhau bod gennym yr ateb gorau o ran diwygio ariannol er mwyn cael sefydlogrwydd cyllideb gyda'r terfyn isaf ar gyfer y cyllid, fel yr wyf newydd ei grybwyll. Mae hynny, wrth gwrs, yn cynnig cyfleoedd datganoli treth pellach—ac rydym yn aros barn Comisiwn Silk am hyn.

**Y Llywydd:** Mae cwestiwn 2, OAQ(4)0132(FIN), cwestiwn 3,

OAQ(4)0136(FIN), and question 4, OAQ(4)0125(FIN), have been withdrawn.

OAQ(4)0136(FIN), a chwestiwn 4, OAQ(4)0125(FIN), wedi cael eu tynnu'n ôl.

**Seilwaith**

**Infrastructure**

***5. Elin Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i fuddsoddi mewn gwella seilwaith yng Ngheredigion. OAQ(4)0126(FIN)*

***5. Elin Jones:*** *Will the Minister provide an update on plans to invest in infrastructure improvement in Ceredigion. OAQ(4)0126(FIN)*

**Jane Hutt:** Rydym yn cyfrannu £3.5 miliwn i'r ysgol newydd yn Llanbedr Pont Steffan sy'n werth £5.5 miliwn, ac rydym yn galluogi'r awdurdod lleol i wneud gwelliannau i ffyrdd drwy'r fenter benthyca llywodraeth leol.

**Jane Hutt:** We are contributing £3.5 million to the new £5.5 million Lampeter school, and are enabling the local authority to deliver highways improvements through the local government borrowing initiative.

**Elin Jones:** Mae Cyngor Sir Ceredigion ar hyn o bryd yn gwneud asesiad o gostau trwsio is-adeiledd yng Ngheredigion yn dilyn y llifogydd yn ardal Aberystwyth dros y penwythnos. Rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ymrwymiad ddoe y byddai'n barod i edrych ar gefnogaeth gyllidol i'r cyngor sir os oes angen. Gofynnaf i chi hefyd, fel Gweinidog Cyllid, os bydd Cyngor Sir Ceredigion angen cefnogaeth ariannol i drwsio'r is-adeiledd angenrheidiol, i sicrhau y byddech yn gweithio gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i roi'r gefnogaeth honno i Gyngor Sir Ceredigion.

**Elin Jones:** Ceredigion County Council is currently undertaking an assessment of the costs of repairing the infrastructure in Ceredigion following the floods in the Aberystwyth area over the weekend. The Minister for Local Government and Communities gave a commitment yesterday that he would be willing to look at financial support for the county council if required. I also ask you, as Minister for Finance, to ensure that, if Ceredigion County Council requires financial support to repair the necessary infrastructure, you will work with the Minister for local government to give that support to Ceredigion County Council.

**Jane Hutt:** I can assure the Member for Ceredigion that I am working very closely with the Minister for Local Government and Communities on this matter. We recognise that responding to these circumstances places significant strain on local authorities and their partner bodies. As was said yesterday, in response to the Minister's statement, local authorities are able to apply to the Welsh Government for financial assistance to deal with severe emergencies. We are working closely with them in terms of assessment of their needs, and, in terms of infrastructure, that clearly involves me as the Minister for Finance.

**Jane Hutt:** Gallaf sicrhau'r Aelod dros Geredigion fy mod yn gweithio'n agos iawn gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y mater hwn. Rydym yn cydnabod bod ymateb i'r amgylchiadau hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar awdurdodau lleol a'u cyrff partner. Fel y dywedwyd ddoe, mewn ymateb i ddatganiad y Gweinidog, mae awdurdodau lleol yn gallu gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gymorth ariannol i ymdrin ag argyfyngau difrifol. Rydym yn gweithio'n agos gyda hwy er mwyn asesu eu hanghenion, ac, o ran seilwaith, mae hynny'n amlwg yn fy nghynnwys i fel y Gweinidog Cyllid.

**Paul Davies:** A number of my constituents in north Pembrokeshire regularly travel to Ceredigion for work and leisure purposes, and I am sure you will appreciate that it is essential that there is an appropriate transport infrastructure between Pembrokeshire and

**Paul Davies:** Mae nifer o'm hetholwyr yng ngogledd sir Benfro yn teithio'n rheolaidd i Geredigion i weithio ac at ddibenion hamdden, ac rwyf yn siŵr y byddwch yn gwerthfawrogi ei bod yn hanfodol bod seilwaith trafnidiaeth priodol ar gael rhwng

Ceredigion. Can the Minister tell us what discussions she has had with the Minister for Local Government and Communities about improving the transport infrastructure between the two counties?

sir Benfro a Cheredigion. A all y Gweinidog ddweud wrthym pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ynghylch gwella'r seilwaith trafnidiaeth rhwng y ddwy sir?

**Jane Hutt:** The issue of the transport infrastructure became very clear with the impact of the flooding events over the past weekend. In terms of strategic developments, the Wales infrastructure investment plan will steer all future considerations of investment priorities. However, I also believe that the local government borrowing initiative, which we are supporting, will enable both Ceredigion and Pembrokeshire county councils to spend money on improving their transport infrastructure.

**Jane Hutt:** Daeth y seilwaith trafnidiaeth yn glir iawn wrth weld effaith y llifogydd dros y penwythnos diwethaf. O ran datblygiadau strategol, bydd y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn llywio'r holl ystyriaethau ar flaenoriaethau buddsoddi yn y dyfodol. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn credu y bydd y fenter benthyca llywodraeth leol, a gefnogir gennym, yn galluogi Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro i wario arian ar wella eu seilwaith trafnidiaeth.

**William Powell:** Yesterday, during the response to the flooding statement, my colleague, Lord Elis-Thomas, raised the issue of the Dyfi bridge on the A487 and the particular complications around the restoration of that bridge, which is a long-term local aspiration and particularly important for links between Ceredigion and Powys. Will the Minister make a commitment to work in close partnership with Carl Sargeant and the Minister for heritage to consider putting in place funding that would enable that long-awaited restoration and development to be delivered?

**William Powell:** Ddoe, yn ystod yr ymateb i'r datganiad llifogydd, cododd fy nghyd-Aelod, yr Arglwydd Elis-Thomas, y mater yn ymwneud â phont Dyfi ar yr A487 a chymhlethdodau penodol yn ymwneud ag adfer y bont honno. Mae hyn yn un o'r dyheadau lleol ers tro byd ac yn hynod bwysig o ran y cysylltiadau rhwng Ceredigion a Phowys. A wnaiff y Gweinidog addo gweithio mewn partneriaeth agos â Carl Sargeant a'r Gweinidog Treftadaeth i ystyried rhoi arian a fyddai'n galluogi'r gwaith adfer a datblygu hir-ddisgwyliedig hwnnw i gael ei wneud?

**Jane Hutt:** Building on the responses yesterday to the Minister's statement, this is a matter that, again, has come to the fore as a result of recent events, and the Member from Dwyfor Meirionnydd has raised this in the Senedd. I will certainly be liaising with the two Ministers involved in terms of prospects.

**Jane Hutt:** Gan adeiladu ar yr ymatebion ddoe i ddatganiad y Gweinidog, mae hwn yn fater sydd wedi dod i'r amlwg, unwaith eto, o ganlyniad i ddigwyddiadau diweddar, ac mae'r Aelod dros Ddwyfor Meirionnydd wedi codi hyn yn y Senedd. Yn sicr, byddaf yn cysylltu â'r ddau Weinidog dan sylw o ran y posibilrwydd.

## Y Portffolio Addysg a Sgiliau

## The Education and Skills Portfolio

***6. Mark Isherwood:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb gyffredinol a ddyrennir i'r portffolio Addysg a Sgiliau. OAQ(4)0129(FIN)*

***6. Mark Isherwood:*** *Will the Minister make a statement on the overall budget allocation to the Education and Skills portfolio. OAQ(4)0129(FIN)*

**Jane Hutt:** The final budget, approved by the Assembly, set the budget for the education and skills portfolio. The budget for 2012-13 is £1,836 million, consisting of £161 million capital and £1,675 million revenue.

**Jane Hutt:** Mae'r gyllideb derfynol, a gymeradwywyd gan y Cynulliad, yn gosod y gyllideb ar gyfer y portffolio addysg a sgiliau. Y gyllideb ar gyfer 2012-13 yw £1,836 miliwn, sy'n cynnwys cyfalaf o £161

miliwn a £1,675 miliwn o refeniw.

**Mark Isherwood:** When Save the Children launched its recent report 'Communities, Families and Schools Together: A Route to Reducing the Impact of Poverty on Achievement in Schools across Wales', it recognised that the Welsh Government had made reducing the poverty gap one of its priorities for schools in Wales, and that it had introduced significant grant funding to support this. It concluded, however, that the poverty gap was not being narrowed and was a major cause of low performance by the education system in Wales. As Minister responsible for finance, what action are you taking to ensure that that money is targeted and monitored to achieve the outcomes that the Welsh Government has set for itself?

**Mark Isherwood:** Pan lansiodd Achub y Plant ei adroddiad diweddar 'Communities, Families and Schools Together: A Route to Reducing the Impact of Poverty on Achievement in Schools across Wales', roedd yn cydnabod mai un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yng Nghymru oedd lleihau'r bwlch tlodi, a'i bod wedi cyflwyno cyllid grant sylweddol i gefnogi hyn. Ond daeth i'r casgliad nad oedd y bwlch tlodi yn cael ei leihau, a bod hyn yn un o'r prif bethau a oedd yn gyfrifol am berfformiad isel y system addysg yng Nghymru. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gyllid, pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod yr arian yn cael ei dargedu a'i fonitro er mwyn sicrhau'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod iddi'i hun?

**Jane Hutt:** I reassure Mark Isherwood that the Welsh Government recognises, as he acknowledged, the link between deprivation and poor outcomes, and breaking that link forms the core of the school effectiveness framework. The Welsh Government has always targeted funding at pupils from deprived areas. The final budget for 2012-13 reflected the Assembly's scrutiny discussions and created a pupil deprivation grant, which amounts to some £32 million in 2012-13, as a result of our budget agreement with the Welsh Liberal Democrats. That will be directed at schools and provide £450 per child eligible for free school meals. I am sure that that will have a direct impact in supporting the needs of pupils in terms of the Save the Children report.

**Jane Hutt:** Rwyf yn sicrhau Mark Isherwood bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod, fel y dywedodd, y cyswllt rhwng amddifadedd a chanlyniadau gwael, ac mae torri'r cyswllt hwnnw yn graidd i'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn wastad wedi targedu cyllid at ddisgyblion o ardaloedd difreintiedig. Roedd y gyllideb derfynol ar gyfer 2012-13 yn adlewyrchu trafodaethau craffu'r Cynulliad gan greu grant amddifadedd disgyblion, ac mae hyn yn gyfystyr â £32 miliwn yn 2012-13, o ganlyniad i'n cytundeb cyllideb gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Bydd hynny'n cael ei gyfeirio at ysgolion ac yn rhoi £450 y plentyn sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Rwyf yn siŵr y bydd hynny'n cael effaith uniongyrchol wrth gefnogi anghenion disgyblion o ran adroddiad Achub y Plant.

### Yr Agenda Cydraddoldeb

### The Equality Agenda

***7. Mohammad Asghar:*** *Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hybu'r agenda cydraddoldeb yng Nghymru. OAQ(4)0124(FIN)*

***7. Mohammad Asghar:*** *What is the Minister doing to promote the equality agenda in Wales. OAQ(4)0124(FIN)*

**Jane Hutt**: On 2 April, I was pleased to launch my strategic equality plan and equality objectives, both of which will play a vital part in the promotion of the equality agenda in Wales.

**Jane Hutt**: Ar 2 Ebrill, roeddwn yn falch o lansio fy nghynllun cydraddoldeb strategol a'r amcanion cydraddoldeb. Bydd y ddau ohonynt yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o hyrwyddo'r agenda cydraddoldeb yng Nghymru.

**Mohammad Asghar:** Thank you very much for that reply, Minister. You may remember that I wrote to you recently about an illegal Travellers' site on Welsh Government-owned land near the gates of Queensway Meadows industrial estate in Newport. I am advised that the Welsh Government tolerates such illegal sites so long as they adhere to certain conditions. Companies on the estate have complained that the site is disrupting their businesses and giving the wrong impression to their customers. Does the Minister agree that such unauthorised and illegal Travellers' sites can cause a considerable nuisance to local people and businesses, which sets back the equality agenda in Wales?

**Mohammad Asghar:** Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. Efallai y byddwch yn cofio imi ysgrifennu atoch yn ddiweddar am safle Teithwyr anghyfreithlon ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ger pyrth ystâd ddiwydiannol Queensway Meadows yng Nghasnewydd. Dywedir wrthyf fod Llywodraeth Cymru yn goddef safleoedd anghyfreithlon o'r fath ar yr amod eu bod yn cadw at amodau penodol. Mae cwmnïau ar yr ystâd wedi cwyno bod y safle yn amharu ar eu busnesau ac yn rhoi'r argraff anghywir i'w cwsmeriaid. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod y safleoedd Teithwyr hyn sy'n anghyfreithlon a heb ganiatâd yn achosi cryn dipyn o niwsans i bobl a busnesau lleol, ac yn golygu bod yr agenda cydraddoldeb yn cymryd cam yn ôl yng Nghymru?

**Jane Hutt:** In response to the question from the Member, I have to say that, in the absence of any Traveller sites in Newport, the Welsh Government has tolerated an encampment on its land. In terms of compliance with the Welsh Government's requirements, there have been appropriate arrangements for support made in partnership with Newport City Council. It is the responsibility of the local authority to undertake accommodation needs assessments for Gypsies and Travellers and to provide for their needs in their local development plans. Therefore, we have to look at each unauthorised encampment and assess it on its own merits using guidance published by the Welsh Government.

**Jane Hutt:** Mewn ymateb i'r cwestiwn gan yr Aelod, rhaid imi ddweud, yn absenoldeb unrhyw safleoedd Teithwyr yng Nghasnewydd, fod Llywodraeth Cymru wedi goddef gwersyll ar ei thir. O ran cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru, mae trefniadau cefnogi priodol wedi'u gwneud mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Casnewydd. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw asesu anghenion llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac i ddarparu ar gyfer eu hanghenion yn eu cynlluniau datblygu lleol. Felly, mae'n rhaid inni edrych ar bob gwersyll heb ganiatâd a'i asesu yn ôl ei deilyngdod gan ddefnyddio canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Kenneth Skates:** Minister, the difficult decisions being made with regard to public funding have impacted upon everyone in our communities and upon the arts in Wales. Concerns about the impact of funding cuts in Wales have been expressed by many individuals and groups and have led to new questions about the viability of many cultural venues and events, such as the Llangollen International Musical Eisteddfod, held in my constituency. Minister, will you work with other Ministers and the Arts Council of Wales to examine how the new funding environment is impacting on minority groups in particular and ensure that smaller companies providing arts for minorities are assisted to secure their long-term viability?

**Kenneth Skates:** Weinidog, mae'r penderfyniadau anodd a wneir o ran arian cyhoeddus wedi effeithio ar bawb yn ein cymunedau ac ar y celfyddydau yng Nghymru. Mae sawl unigolyn a grŵp wedi mynegi pryderon am effaith toriadau cyllid yng Nghymru, ac mae hyn wedi arwain at gwestiynau newydd ynghylch hyfywedd llawer o leoliadau a digwyddiadau diwylliannol, fel Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, a gynhelir yn fy etholaeth. Weinidog, a wnewch chi weithio gyda Gweinidogion eraill a Chyngor Celfyddydau Cymru i weld sut y mae'r amgylchedd cyllido newydd yn effeithio ar grwpiau lleiafrifol yn arbennig, a sicrhau bod cwmnïau llai sy'n darparu celfyddydau ar gyfer lleiafrifoedd yn cael cymorth er mwyn

sicrhau eu hyfywedd dros yr hirdymor?

**Jane Hutt:** I thank Ken Skates for that question. You have identified the impact of budgetary reductions that fall on important policy areas such as the arts. The Llangollen eisteddfod is funded by the arts council and it has looked at how it can protect that very important event in the Welsh cultural calendar. In response to your specific points about how it can be opened up in terms of access for minority groups in particular, the work that I understand that the arts council is doing with Disability Arts Cymru, the Black Voluntary Sector Network Wales and Voluntary Arts Wales is all helping to address that issue and need.

**Jane Hutt:** Diolch i Ken Skates am y cwestiwn hwnnw. Rydych wedi nodi effaith y gostyngiadau cyllidebol ar feysydd polisi pwysig fel y celfyddydau. Mae eisteddfod Llangollen yn cael ei hariannu gan gyngor y celfyddydau ac mae wedi edrych ar sut y gall warchod y digwyddiad pwysig iawn yng nghalendr diwylliannol Cymru. Mewn ymateb i'ch pwyntiau penodol ynghylch sut y gellir ei wneud yn fwy hygyrch i grwpiau lleiafrifol yn benodol, yn ôl yr hyn a ddeallaf mae'r gwaith a wneir gan gyngor y celfyddydau gyda Celfyddydau Anabledd Cymru, Rhwydwaith Sector Gwirfoddol i Bobl Groenddu Cymru a Celfyddydau Gwirfoddol Cymru i gyd yn helpu i fynd i'r afael â'r mater a'r angen hwnnw.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** Minister, this week, we heard some disturbing news from Bangor University, where social scientists have found that attitudes towards immigration in Wales were among the most negative in the whole of the UK. We should be careful to point out that the sample used was very small—it was only 130—and the scientists concerned have stressed the need for further work. However, do you agree that the study warrants further investigation to ascertain whether we have a particular problem here, whether this reflects growing racism and, if it does, what can be done to put the situation right? Will you agree to contact the researchers in Bangor University to see what further work can be done on this?

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Weinidog, yr wythnos hon, clywsom newyddion ysgytwol o Brifysgol Bangor, lle mae gwyddonwyr cymdeithasol wedi canfod bod agweddau at fewnfudo yng Nghymru ymysg y rhai mwyaf negyddol yn y DU gyfan. Dylem nodi mai sampl bach iawn a ddefnyddiwyd—dim ond 130—ac mae'r gwyddonwyr dan sylw wedi pwysleisio'r angen am waith pellach. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno bod yr astudiaeth yn cyfiawnhau ymchwiliad pellach i weld a oes problem benodol yma, a yw hyn yn adlewyrchu hiliaeth sydd ar gynnydd ac, os ydyw, beth y gellir ei wneud i unioni'r sefyllfa? A wnewch gytuno i gysylltu â'r ymchwilwyr ym Mhrifysgol Bangor i weld pa waith pellach y gellir ei wneud ar hyn?

1.45 p.m.

**Jane Hutt:** I thank the leader of Plaid Cymru for that question. I think that the results of the study on attitudes towards immigration did raise concerns, certainly with me as Minister for equalities. I am glad that she has recognised, as the authors have, that there are limitations to the survey, given that it was based on a relatively small sample. As you say, we have to be careful about drawing conclusions on apparent differences in attitudes across the UK without further analysis. Certainly, I would wish to seek that. As part of our community cohesion programme, we are working with local

**Jane Hutt:** Diolch i arweinydd Plaid Cymru am y cwestiwn hwnnw. Credaf fod canlyniadau'r astudiaeth ar agweddau at fewnfudo wedi codi pryderon, yn sicr o'm rhan i fel y Gweinidog dros gydraddoldeb. Rwyf yn falch ei bod wedi cydnabod, fel y mae'r awduron wedi'i wneud, fod cyfyngiadau i'r arolwg, o ystyried ei fod yn seiliedig ar sampl cymharol fach. Fel y dywedwch, rhaid inni fod yn ofalus ynghylch dod i gasgliad ar wahaniaethau amlwg mewn agweddau ar draws y DU heb ddadansoddiad pellach. Yn sicr, byddwn yn awyddus i weld hynny. Fel rhan o'n rhaglen cydlyniant

authorities and other organisations to enhance understanding, shared values and tolerance within local communities. Indeed, our strategic equality plan is quite clear on our actions to foster good relations and to support people to live without racism and discrimination.

cymunedol, rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i wella dealltwriaeth, gwerthoedd a rennir a goddefgarwch mewn cymunedau lleol. Yn wir, mae ein cynllun cydraddoldeb strategol yn weddol glir o ran ein camau gweithredu i feithrin cysylltiadau da ac i gefnogi pobl i fyw heb hiliaeth a gwahaniaethu.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Minister, has the Welsh Government responded to the Home Office's equal civil marriage consultation, and if not, does it intend to do so? If so, will you put a copy of the Government response in the Library?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Weinidog, a yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar briodasau sifil cyfartal, ac os nad yw, a yw'n bwriadu gwneud hynny? Os felly, a wnewch chi roi copi o ymateb y Llywodraeth yn y Llyfrgell?

**Jane Hutt:** This is a non-devolved matter. Organisations across Wales, including our faith communities forum stakeholders, are aware of the consultation and will be responding directly to the UK Government. It is important that a consultation event was held in Wales in May. That was organised by the LGBT Excellence Centre, which facilitated the Government Equalities Office consultation event. As the Minister for equalities, I am supportive of the UK Government's proposals, and I welcome the comments made in April by the Archbishop of Wales.

**Jane Hutt:** Mae hwn yn fater heb ei ddatganoli. Mae sefydliadau ledled Cymru, gan gynnwys rhanddeiliaid ein fforwm cymunedau ffydd, yn ymwybodol o'r ymgynghoriad, a byddant yn ymateb yn uniongyrchol i Lywodraeth y DU. Roedd yn bwysig bod digwyddiad ymgynghori wedi'i gynnal yng Nghymru ym mis Mai. Trefnwyd hynny gan Ganolfan Rhagoriaeth Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, a fu'n hwyluso digwyddiad ymgynghori Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth. Fel y Gweinidog dros gydraddoldeb, rwyf yn cefnogi cynigion Llywodraeth y DU, a chroesawaf y sylwadau a wnaed ym mis Ebrill gan Archesgob Cymru.

'All life-long committed relationships deserved the welcome, pastoral care and support of the Church'.

'Mae perthynas ymrwymedig am oes yn haeddu croeso, gofal bugeiliol a chefnogaeth yr Eglwys'.

Although this is a non-devolved issue, we have a strong view and support these proposals.

Er bod hyn yn fater heb ei ddatganoli, mae gennym farn gref ac rydym yn cefnogi'r cynigion hyn.

**Vaughan Gething:** Minister, I, too, am generally supportive of the UK Government's consultation and proposals on equality and marriage for same-sex couples. However, I would ask whether the Government has a view on the current proposal that religious organisations that can perform marriages be banned from performing marriages for same-sex couples. Do the Minister and the Government share my view that this is an area in which the

**Vaughan Gething:** Weinidog, rwyf finnau hefyd, ar y cyfan, yn cefnogi ymgynghoriad a chynigion Llywodraeth y DU ar gydraddoldeb a phriodas i gyplau o'r un rhyw. Ond, byddwn yn gofyn a oes gan y Llywodraeth farn am y cynnig presennol bod sefydliadau crefyddol sy'n gallu gwasanaethu priodasau yn cael eu gwahardd rhag gwasanaethu priodasau ar gyfer cyplau o'r un rhyw. A yw'r Gweinidog a'r Llywodraeth o'r un farn â mi fod hwn yn faes lle mae angen i'r

Government needs to think again? Should it not permit those religious organisations that do wish to celebrate loving, committed, same-sex relationships with a marriage to do so, as I know the Unitarians and Quakers wish to do, without requiring any faith groups that do not wish to do so to perform such ceremonies?

Llywodraeth feddwl eto? Oni ddylai ganiatáu i'r sefydliadau crefyddol hynny sy'n dymuno dathlu perthynas gariadus ac ymroddedig rhwng pobl o'r un rhyw gyda phriodas wneud hynny, gan fy mod yn gwybod bod yr Undodiaid a'r Crynwyr yn dymuno gwneud hynny, ac na fyddai angen i unrhyw grwpiau ffydd nad ydynt yn dymuno gwneud hynny berfformio seremonïau o'r fath?

**Jane Hutt:** That is an important contribution from the Member for Cardiff South and Penarth to this important consultation and debate. Our powers and roles are limited in this respect, given that this is a non-devolved issue, but I am certain that those views will be reflected.

**Jane Hutt:** Mae hynny’n gyfraniad pwysig i'r ymgynghoriad a'r ddadl bwysig hon gan yr Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth. Mae ein pwerau a'n rôl yn gyfyngedig yn hyn o beth, o ystyried bod hwn yn fater heb ei ddatganoli, ond rwyf yn sicr y bydd y safbwyntiau hynny yn cael eu hadlewyrchu.

### Fformiwla Barnett

### The Barnett Formula

***8. Mark Drakeford:*** *Pa asesiad y mae’r Gweinidog wedi’i wneud o’r canlyniadau i gyllideb Cymru os na chaiff fformiwla Barnett ei diwygio. OAQ(4)0128(FIN)*

***8. Mark Drakeford:*** *What assessment has the Minister made of the consequences for the Welsh budget, were the Barnett formula to continue unreformed. OAQ(4)0128(FIN)*

**Jane Hutt:** The Holtham commission produced compelling evidence that the Barnett formula leaves Wales underfunded in relation to its needs. In the absence of reform, this problem will persist and, over time, get worse.

**Jane Hutt:** Rhoddodd comisiwn Holtham dystiolaeth gref fod fformiwla Barnett yn gadael Cymru heb ddigon o gyllid mewn perthynas â'i hanghenion. Os na chaiff ei ddiwygio, bydd y broblem hon yn parhau a bydd yn gwaethygu dros amser.

**Mark Drakeford:** That is an interesting reply, Minister. Conventional wisdom has suggested that, at times of public expenditure cuts, the Barnett squeeze goes into reverse and the case for a Barnett floor is weakened. However, your final sentence suggests that that is not the case, and that the most recent analysis suggests that, even at a time of public expenditure restraint, Barnett convergence will continue. Is that the view of the Welsh Government? Is it a view shared by the Treasury? If it is shared, has the significance of that finding been strongly communicated to it?

**Mark Drakeford:** Mae hynny'n ateb diddorol, Weinidog. Y gred yn gyffredinol, ar adegau o doriadau mewn gwariant cyhoeddus, yw bod y gwrthwyneb i wasgfa Barnett yn digwydd gan wanhau'r achos dros derfyn isaf ar gyfer fformiwla Barnett. Fodd bynnag, mae eich brawddeg olaf yn awgrymu nad yw hynny'n wir, a bod y dadansoddiad diweddaraf yn awgrymu y bydd cydgyfeirio Barnett yn parhau, hyd yn oed mewn cyfnod o ymatal mewn gwariant cyhoeddus. Ai dyna farn Llywodraeth Cymru? A yw'r Trysorlys o'r un farn? Os yw o’r un farn, a yw arwyddocâd y canfyddiad hwnnw wedi cael ei gyfleu’n bendant iddo?

**Jane Hutt:** I certainly agree with the Member for Cardiff West’s question, and the point that he made about the urgency of securing the Barnett floor. Based on the evidence of the Holtham commission and other studies, such as that conducted by the House of Lords Barnett Formula Select

**Jane Hutt:** Rwyf yn sicr yn cytuno gyda chwestiwn yr Aelod dros Orllewin Caerdydd, a'r pwynt a wnaeth am y brys i sicrhau terfyn isaf Barnett. Yn seiliedig ar dystiolaeth comisiwn Holtham ac astudiaethau eraill, fel yr un a gynhaliwyd gan Bwyllgor Dethol Tŷ’r Arglwyddi ar Fformiwla Barnett, mae'n

Committee, it is clear that there is no case for further convergence in our relative funding. Our relative funding is already below the level that is necessary, given our relative needs. Even if there is only modest additional convergence in the next spending review period and in subsequent review periods, that would be completely unacceptable. An important development that I have shared with the Assembly is that Treasury and Welsh Government finance officials have agreed, acknowledged and come together in recognising the negative impact of convergence, so action is urgently needed.

amlwg nad oes achos dros gydgyfeirio pellach yn ein cyllid cymharol. Mae ein cyllid cymharol eisoes yn is na'r lefel angenrheidiol, o ystyried ein hanghenion cymharol. Hyd yn oed os dim ond rhywfaint bach o gydgyfeirio ychwanegol a welir yng nghyfnod yr adolygiad nesaf o wariant ac yn y cyfnodau adolygiad dilynol, byddai hynny'n gwbl annerbyniol. Un datblygiad pwysig rwyf wedi ei rannu gyda'r Cynulliad yw bod swyddogion cyllid y Trysorlys a Llywodraeth Cymru wedi cytuno, cydnabod a dod at ei gilydd i gydnabod effaith negyddol y cydgyfeirio, felly mae angen gweithredu ar frys.

**Nick Ramsay:** Minister for finance, I am sure that you will be aware that the shadow chancellor, Ed Balls, has previously defended the Barnett formula and said that Wales has disproportionately benefitted from spending outside the Barnett formula, including European aid, unemployment benefits and tax credits. I am sure that you would agree that these comments are not at all helpful, and will you join me in welcoming the UK Government’s recognition that the Barnett formula is heading towards the end of its life? Could you give us an update on your discussions with the UK Government on issues such as the Barnett floor and a future replacement for the Barnett formula?

**Nick Ramsay:** Y Gweinidog Cyllid, rwyf yn siŵr y byddwch yn gwybod bod canghellor yr wrthblaid, Ed Balls, wedi amddiffyn fformiwla Barnett yn y gorffennol, gan ddweud bod Cymru wedi elwa'n anghyfartal o wariant y tu allan i fformiwla Barnett, gan gynnwys cymorth Ewropeaidd, budd-daliadau diweithdra a chredydau treth. Rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno nad yw'r sylwadau hyn yn fuddiol o gwbl, ac a wnewch chithau hefyd groesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth y DU fod fformiwla Barnett yn dod at ddiwedd ei oes? A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am eich trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar faterion fel terfyn isaf Barnett a beth a ddaw yn lle fformiwla Barnett yn y dyfodol?

**Jane Hutt:** I will respond to the second part of your question, Nick Ramsay, because that will go on record and it will be extremely helpful to me when I meet the Chief Secretary to the Treasury in the next couple of weeks. There was a recognition by the Welsh Conservatives’ finance spokesperson—I am sorry, the business, enterprise, technology and science spokesperson; my apologies to Paul Davies, who I know also shares your view—that this is an important point with cross-party agreement in Wales. Gerry Holtham’s independent commission gave us clear evidence that we needed to reform and, in the long term, replace the Barnett formula with a formula based on need. However, he said that, in the meantime, we should implement the funding floor.

**Jane Hutt:** Gwnaf ymateb i ail ran eich cwestiwn, Nick Ramsay, oherwydd bydd hynny'n mynd ar gof a chadw, a bydd yn ddefnyddiol iawn imi pan fyddaf yn cwrdd â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yn ystod yr wythnosau nesaf. Cafwyd cydnabyddiaeth gan lefarydd cyllid y Ceidwadwyr Cymreig—mae'n ddrwg gennyf, llefarydd busnes, menter, technoleg a gwyddoniaeth; fy ymddiheuriadau i Paul Davies, sydd hefyd o'r un farn â chi, mi wn—fod hyn yn bwynt pwysig gyda chytundeb trawsbleidiol yng Nghymru. Drwy gomisiwn annibynnol Gerry Holtham, cawsom dystiolaeth glir fod angen diwygio ac, yn y tymor hir, disodli fformiwla Barnett â fformiwla sy'n seiliedig ar angen. Fodd bynnag, dywedodd y dylem, yn y cyfamser, weithredu ar yr arian gwaelodol.

In response to your first point, in my recent

Mewn ymateb i'ch pwynt cyntaf, yn fy

discussions with the shadow chancellor and the shadow Chief Secretary to the Treasury, Rachel Reeves, they have recognised, acknowledged and accepted the analysis by Gerry Holtham, and support us in our intergovernmental discussions.

nhrafodaethau diweddar gyda changhellor yr wrthblaid a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yr wrthblaid, Rachel Reeves, maent wedi sylwi, cydnabod a derbyn dadansoddiad Gerry Holtham, ac maent yn ein cefnogi yn ein trafodaethau rhynglywodraethol.

**Llyr Huws Gruffydd:** Gerry Holtham identified the figure of 115% to calculate Wales's relative needs compared with England. It is imperative that Wales is not sold short when it comes to public funding, and that any floor does not lock in any underfunding. Will the Welsh Government commit to agreeing only to a Barnett formula that at least matches Holtham's calculations?

**Llyr Huws Gruffydd:** Nododd Gerry Holtham y ffigur o 115 y cant i gyfrifo anghenion cymharol Cymru o'i gymharu â Lloegr. Mae'n hanfodol nad yw Cymru yn cael cam pan ddaw'n fater o arian cyhoeddus, ac nad yw unrhyw derfyn isaf yn rhwymo unrhyw ddiffyg cyllid. A fydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gytuno i fformiwla Barnett dim ond os yw o leiaf yn cyfateb i gyfrifiadau Holtham?

**Jane Hutt:** This is about intergovernmental talks and negotiation, and we have made progress with those talks. As I said, Welsh Government and Treasury officials are working closely together on the evidence base. With the cross-party support from the Assembly, we are reaching a point at which we believe that we will secure an adequate agreement on a floor to halt convergence.

**Jane Hutt:** Mae hyn yn ymwneud â thrafodaethau a negodiadau rhynglywodraethol, ac rydym wedi gwneud cynnydd o ran y trafodaethau hynny. Fel y dywedais, mae swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Trysorlys yn cydweithio'n agos ar y sylfaen dystiolaeth. Gyda chefnogaeth drawsbleidiol yn y Cynulliad, rydym yn cyrraedd pwynt lle rydym yn credu y byddwn yn sicrhau cytundeb digonol ar y terfyn isaf er mwyn atal y cydgyfeirio.

**Y System Cyfnewid Cyllidebau Ddiwygiedig**

**The Modified Budget Exchange System**

***9. Julie James:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y System Cyfnewid Cyllidebau Ddiwygiedig. OAQ(4)0127(FIN)*

***9. Julie James:*** *Will the Minister provide an update on the Modified Budget Exchange System. OAQ(4)0127(FIN)*

**Jane Hutt:** This is the first year for which the budget exchange mechanism has been in operation, and in due course I will be reporting to the Finance Committee on the outturn figures for the past financial year and on the operation of this mechanism.

**Jane Hutt:** Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r mecanwaith cyfnewid cyllidebau fod ar waith, a byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid maes o law ar y ffigurau alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac ar sut y mae'r mecanwaith hwn wedi gweithio.

**Julie James:** Thank you for that, Minister. I understand that under the previous end-year flexibility regime, the Labour Government at Westminster empowered the Welsh Government to roll over underspent funds, which avoided the end-year spending rush so unconducive to good financial management, value for money or indeed proper procurement. I understand that this scheme was ripped up by the current Conservative-

**Julie James:** Diolch ichi am hynny, Weinidog. Deallaf, o dan y drefn flaenorol ar gyfer hyblygrwydd diwedd blwyddyn, fod y Llywodraeth Lafur yn San Steffan wedi rhoi'r grym i Lywodraeth Cymru drosglwyddo arian na chafwyd ei wario. Roedd hyn yn osgoi'r rhuthr gwario diwedd blwyddyn sydd mor anffafriol o ran rheolaeth ariannol dda, gwerth am arian neu, yn wir, caffael priodol. Rwyf ar ddeall bod Llywodraeth bresennol y

Liberal Democrat Government in London, which then refused to give back the £385 million that we had saved for the people of Wales. Minister, considering the present economic climate, the previous discussion about Holtham and the recommendations to streamline EYF, how important would that £385 million be for the people of Wales?

Democratiaid Rhyddfrydol-Ceidwadwyr yn Llundain wedi rhwygo'r cynllun hwn, ac wedyn wedi gwrthod rhoi'n ôl y £385 miliwn yr oeddem wedi'i gadw ar gyfer pobl Cymru. Weinidog, o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, y drafodaeth flaenorol am Holtham a'r argymhellion i symleiddio'r Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn, pa mor bwysig fyddai'r £385 miliwn hwnnw i bobl Cymru?

**Jane Hutt:** I thank Julie James for that question, and I confirm that the previous end-year flexibility scheme allowed us to access any unspent funds from previous financial years. The Holtham commission also recommended that the Welsh Government have a free hand in accessing unspent resources. That additional flexibility is a key tool that we have to take advantage of opportunities for economic stimulus and growth, particularly in the current economic climate, as you say. It would help us to continue our commitment to support growth and jobs in Wales. However, I have to say that the Chief Secretary to the Treasury did listen to the finance Ministers from Wales, Scotland and Northern Ireland about the budget exchange mechanism that was forthcoming as a result of negotiations. Therefore, it was an improvement on what had originally come out of the UK coalition Government's ending of the EYF arrangements.

**Jane Hutt:** Diolch i Julie James am y cwestiwn hwnnw, a gallaf gadarnhau bod y cynllun blaenorol ar gyfer hyblygrwydd diwedd blwyddyn wedi rhoi cyfle inni gael gafael ar unrhyw arian a oedd heb ei wario o flynyddoedd ariannol blaenorol. Roedd comisiwn Holtham hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael rhwydd hynt i allu defnyddio adnoddau a oedd heb eu gwario. Mae'r hyblygrwydd ychwanegol hwnnw yn arf allweddol sydd gennym i fanteisio ar gyfleoedd i greu ysgogiad a thwf economaidd, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol, fel y dywedwch. Byddai'n gymorth inni barhau â'n hymrwymiad i gefnogi twf a swyddi yng Nghymru. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud bod Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi gwrando ar Weinidogion Cyllid Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon am y mecanwaith cyfnewid cyllidebau a oedd ar y gweill o ganlyniad i drafodaethau. Felly, roedd hyn yn welliant ar yr hyn a ddaeth yn wreiddiol ar ôl i Lywodraeth glymblaid y DU derfynu trefniadau Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn.

**Paul Davies:** In response to a question I asked you during your evidence to the Finance Committee on this very point, you talked about having a system with an ability to access flexibility. Can you elaborate on that by detailing exactly how flexible you would like the system to be?

**Paul Davies:** Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnais ichi yn ystod eich tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar yr union bwynt hwn, buoch yn sôn am gael system a oedd yn gallu sicrhau hyblygrwydd. A allwch ymhelaethu ar hynny drwy ddweud yn union pa mor hyblyg yr hoffech i'r system fod?

**Jane Hutt:** I thank the Conservative spokesperson for finance. It is important, as Gerry Holtham outlined in his independent report, that we have a free hand in accessing unspent resources to enable us to make plans for jobs and growth. The figure of £385 million that we feel should lie in our resources and not with the UK Government is made up of £163 million in near cash, £1 million in capital and £221 million in non-

**Jane Hutt:** Diolchaf i lefarydd y Ceidwadwyr ar gyllid. Fel yr amlinellodd Gerry Holtham yn ei adroddiad annibynnol, mae'n bwysig bod gennym rwydd hynt i allu defnyddio adnoddau heb eu gwario a fydd yn ein galluogi i wneud cynlluniau ar gyfer swyddi a thwf. Mae'r ffigur o £385 miliwn a ddylai, yn ein barn ni, fod yn rhan o'n hadnoddau ni, ac nid gyda Llywodraeth y DU, yn cynnwys £163 miliwn mewn asedau

cash. It would be good financial management to enable us to use these resources, particularly the near cash, to the greatest possible benefit. That would give us the opportunity to plan for our Wales infrastructure investment plan more effectively with regard to the future use of capital as well as revenue.

y gellid eu troi'n arian parod, £1 miliwn mewn cyfalaf a £221 miliwn mewn asedau nad ydynt yn arian parod. Byddai ein galluogi i ddefnyddio'r adnoddau hyn, yn enwedig yr asedau y gellir eu troi'n arian parod, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl yn rheolaeth ariannol dda. Byddai hynny'n rhoi cyfle inni gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer ein cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru o ran defnyddio cyfalaf yn y dyfodol yn ogystal â refeniw.

**The Presiding Officer:** Question 10 is next, from Paul Davies. Sorry, no, it is from David Rees. You are not the Conservative spokesperson for finance, are you? [*Laughter*.]

**Y Llywydd:** Cwestiwn 10 yw'r nesaf, gan Paul Davies. Mae'n ddrwg gennyf, gan David Rees. Nid chi yw llefarydd y Ceidwadwyr ar gyllid, ie? [*Chwerthin.*]

**David Rees:** No, I definitely do not sit on those benches.

**David Rees:** Na, nid wyf yn sicr yn eistedd ar y meinciau hynny.

**The Presiding Officer:** David Rees, I beg your pardon.

**Y Llywydd:** David Rees, mae'n ddrwg gennyf.

### Buddsoddi Cyfalaf

### Capital Investment

***10. David Rees:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddull gweithredu Llywodraeth Cymru yng nghyswllt buddsoddiad cyfalaf. OAQ(4)0130(FIN)*

***10. David Rees:*** *Will the Minister make a statement on the Welsh Government's approach to capital investment. OAQ(4)0130(FIN)*

**Jane Hutt:** The 'Wales Infrastructure Investment Plan for Growth and Jobs', published last month, sets out the Welsh Government's approach to infrastructure investment, including the prioritisation of nationally significant schemes, the use of innovative finance and a pipeline of capital schemes.

**Jane Hutt:** Fis diwethaf, cyhoeddwyd 'Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi', ac ynddo nodir dull gweithredu Llywodraeth Cymru yng nghyswllt buddsoddi mewn seilwaith, gan gynnwys blaenoriaethu cynlluniau o bwys cenedlaethol, defnyddio cyllid mewn ffyrdd arloesol a'r cynlluniau cyfalaf sydd yn yr arfaeth.

**David Rees:** The Welsh Government's decision to invest in Wales is greatly welcomed. That is unlike the UK coalition Government, which has cut capital by more than 40%. To ensure that the £1.5 billion announced for the Wales infrastructure investment plan provides maximum benefit for Wales, will the Welsh Government seek assurances from those public bodies receiving investment, such as Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board in my area, which is getting £20 million to develop a new mental health unit in Port Talbot, that procurement contracts will

**David Rees:** Rhoddir croeso mawr i benderfyniad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi yng Nghymru. Mae hynny'n wahanol i Lywodraeth glymblaid y DU, sydd wedi torri dros 40 y cant oddi ar gyfalaf. Er mwyn sicrhau bod y £1.5 biliwn a gyhoeddwyd ar gyfer y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn dwyn y budd mwyaf posibl i Gymru, a wnaiff Llywodraeth Cymru geisio cael sicrwydd gan y cyrff cyhoeddus hynny sy'n derbyn buddsoddiad, fel Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn fy ardal, sy'n cael £20 miliwn i ddatblygu uned iechyd meddwl newydd ym

include social clauses and focus on local job markets?

Mhort Talbot, y bydd contractau caffael yn cynnwys cymalau cymdeithasol ac yn canolbwyntio ar farchnadoedd swyddi lleol?

**Jane Hutt:** I thank David Rees, the Member for Aberavon, for that question. We have set out in our Wales infrastructure investment plan how we will prioritise our investment and optimise value for money, ensuring that the potential benefits at local level, including community benefits, are integrated with the procurement process. That is a core part of our approach.

**Jane Hutt:** Diolch i David Rees, yr Aelod dros Aberafan, am y cwestiwn hwnnw. Rydym wedi nodi yn ein cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru sut y byddwn yn blaenoriaethu ein buddsoddiad ac yn cael y gwerth gorau posibl am arian, gan sicrhau bod y manteision posibl ar lefel leol, gan gynnwys manteision i'r gymuned, yn cael eu hintegreiddio yn y broses gaffael. Mae hynny'n rhan greiddiol o'n dull gweithredu.

**Suzy Davies:** Minister, your Wales infrastructure investment plan recognises the need to make better use of assets. When considering the disposal of surplus Government real estate, what consideration have you given to offering capital investment locally by giving first refusal on buildings and land to strong community organisations on suitable market-based terms before offering them on general sale?

**Suzy Davies:** Weinidog, mae eich cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru yn cydnabod yr angen i ddefnyddio asedau’n well. Wrth ystyried gwaredu eiddo tiriog y Llywodraeth sydd dros ben, pa ystyriaeth rydych wedi'i rhoi i gynnig buddsoddiad cyfalaf yn lleol drwy roi'r cynnig cyntaf ar adeiladau a thir i sefydliadau cymunedol cadarn ar delerau marchnad addas cyn cynnig eu gwerthu i'r cyhoedd?

**Jane Hutt:** This is where a cross-governmental approach kicks in. Indeed, we already facilitate that via the Minister for Local Government and Communities and, indeed, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science. Therefore, I am sure that we can share examples with the Member of the use of that flexibility.

**Jane Hutt:** Dyma lle mae dull gweithio traws-lywodraethol yn cychwyn. Yn wir, rydym eisoes yn hwyluso hynny drwy waith y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ac, yn wir, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Felly, rwyf yn sicr y gallwn rannu enghreifftiau gyda'r Aelod am ddefnyddio'r hyblygrwydd hwnnw.

**Ieuan Wyn Jones:** Rhwng 2010 a 2014, bydd Llywodraeth Cymru wedi colli £770 miliwn o arian cyfalaf. Yn eich cynllun buddsoddi seilwaith, dywedwch eich bod wedi llwyddo i godi £176 miliwn. Pa gynlluniau sydd gennych i godi’r gweddill, sef £594 miliwn?

**Ieuan Wyn Jones:** Between 2010 and 2014, the Welsh Government will have lost £770 million of capital funding. In your infrastructure investment plan, you state that you have managed to raise £176 million. What plans do you have to raise the rest, which is £594 million?

2.00 p.m.

**Jane Hutt:** On the opportunities that we have for innovative investment sources, we have already made progress in terms of non-dividend investment vehicles and we have raised an additional £1 billion of innovative finance. Clearly, we need to progress with our inter-governmental talks in terms of accessing borrowing and we need to progress, as we are with the support of Gerry

**Jane Hutt:** O ran y cyfleoedd sydd gennym ar gyfer ffynonellau buddsoddi arloesol, rydym eisoes wedi gwneud cynnydd o ran cyfryngau buddsoddi di-ddifidend ac rydym wedi codi swm ychwanegol o £1 biliwn o gyllid ar gyfer arloesi. Yn amlwg, mae angen inni symud ymlaen gyda'n trafodaethau rhynglywodraethol o ran cael benthyca ac mae angen inni fwrw ymlaen, fel yr ydym

Holtham, on the various initiatives that we are taking forward. The local government borrowing initiative, the levering of housing bonds and the Welsh housing partnership are just some examples.

gyda chefnogaeth Gerry Holtham, â'r amrywiol gynlluniau rydym yn eu cyflwyno. Mae'r fenter benthyca llywodraeth leol, sicrhau bondiau tai a phartneriaeth tai Cymru yn rhai o'r enghreifftiau.

**Ieuan Wyn Jones:** I have looked at the infrastructure investment plan document in some detail, and, in that document, you say that

**Ieuan Wyn Jones:** Rwyf wedi edrych ar ddogfen y cynllun buddsoddi yn y seilwaith yn eithaf manwl, ac, yn y ddogfen honno, rydych yn dweud hyn

'The…Government…has a strong track record of delivering innovative financing approaches to support the delivery of priority infrastructure'.

'Mae gan…y Llywodraeth…enw da eisoes am fynd ati i ariannu mewn ffyrdd arloesol er mwyn helpu i gyflawni seilwaith â blaenoriaeth'.

The only two schemes that I have been able to identify are the modest sums of £170 million raised through the local government borrowing initiative and the £6 million by the Welsh housing partnership. What is the evidence in hard cash and hard projects to support your assertion of a strong track record?

Yr unig ddau gynllun rwyf wedi gallu eu nodi yw'r symiau cymedrol o £170 miliwn a godwyd drwy'r fenter benthyca llywodraeth leol a'r £6 miliwn gan bartneriaeth tai Cymru. Beth yw'r dystiolaeth ar ffurf arian sychion a phrosiectau pendant i gefnogi'r honiad bod gennych enw da am gyflawni?

**Jane Hutt:** We can also go back—indeed, under you stewardship as Minister—to areas of small business enterprise, for example the bespoke investment funds, including the first UK JEREMIE fund with a capital value of £150 million. That includes £75 million of European Investment Bank funding, a £40 million SME investment fund, the £6 million microbusiness fund and the £25 million life sciences investment fund. Public-private investment in the waste management sector has also enabled us to procure revenue-funded residual waste treatment facilities and the total capital value of these projects is in the region of £760 million. It is clear that we have to progress on the models, structures and initiatives. The £170 million worth of investment in highways improvements over the next three years is certainly a good start.

**Jane Hutt:** Gallwn fynd yn ôl hefyd—yn wir, o dan eich stiwardiaeth chi fel Gweinidog—i feysydd o fentrau busnes bach, er enghraifft y cronfeydd buddsoddi pwrpasol, gan gynnwys y gronfa JEREMIE gyntaf yn y DU â gwerth cyfalaf o £150 miliwn. Mae hynny'n cynnwys £75 miliwn o arian Banc Buddsoddi Ewrop, £40 miliwn o'r gronfa fuddsoddi busnesau bach a chanolig, £6 miliwn o'r gronfa microfusnesau a £25 miliwn o'r gronfa fuddsoddi gwyddorau bywyd. Mae buddsoddiad cyhoeddus-preifat yn y sector rheoli gwastraff hefyd wedi ein galluogi i gaffael cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol a ariennir gyda refeniw, ac mae cyfanswm gwerth cyfalaf y prosiectau hyn oddeutu £760 miliwn. Mae'n amlwg bod yn rhaid inni ddatblygu'r modelau, y strwythurau a'r cynlluniau. Mae'r buddsoddiad gwerth £170 miliwn mewn gwelliannau i briffyrdd dros y tair blynedd nesaf yn sicr yn ddechrau da.

### Trefniadau Ariannol Diwedd Blwyddyn

### End-of-year Financial Arrangements

***11. Aled Roberts:*** *Pa fewnbwn sydd gan y Gweinidog i'r trefniadau ariannol diwedd blwyddyn ar gyfer Adrannau Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0135(FIN)*

***11. Aled Roberts:*** *What input does the Minister have into the end of year financial arrangements for Welsh Government Departments. OAQ(4)0135(FIN)*

**Jane Hutt:** I regularly monitor the financial position at the year end to ensure that the Welsh Government makes the best possible use of the resources available to it.

**Jane Hutt:** Rwyf yn monitro'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd blwyddyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddi yn y ffordd orau bosibl.

**Aled Roberts:** O ystyried y taliad ychwanegol o £12 miliwn i'r byrddau iechyd lleol eleni, a oes gennych unrhyw fwriad fel Llywodraeth i edrych unwaith eto ar y gwaharddiad statudol ar hyblygrwydd ariannol diwedd blwyddyn yn y gwasanaeth iechyd?

**Aled Roberts:** Given the payment of an additional £12 million to the local health boards this year, do you have any intention as a Government to look once again at the statutory prohibition of end-of-year flexibility in the health service?

**Jane Hutt:** It is important that we recognise that it was a repayable brokerage that was made available to health boards. They were allowed to draw down a small amount from their allocation for the next financial year, which is being managed within the overall NHS budget. I draw attention to the Public Accounts Committee's report 'A Picture of Public Services'—of which you will be aware as a Member of that committee—which recommended that LHBs are enabled to make more effective use of funding across financial years in line with local authorities.

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig inni sylweddoli mai broceriaeth ad-daladwy oedd hyn, a oedd ar gael i fyrddau iechyd. Cawsant ganiatâd i dynnu ychydig bach o'u dyraniad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sy'n cael ei reoli o fewn cyllideb gyffredinol y GIG. Tynnaf sylw at adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus'—byddwch yn ymwybodol ohono gan eich bod yn Aelod o'r pwyllgor hwnnw—a oedd yn argymell bod y Byrddau Iechyd Lleol yn cael cyfle i ddefnyddio cyllid yn fwy effeithiol ar draws y blynyddoedd ariannol yn unol â'r awdurdodau lleol.

**Darren Millar:** Minister, what discussions have there been around flexibility within the NHS budgets for this year, given the fact that this is the biggest single cut in NHS finances in the history of the Welsh NHS and given the challenge that that proposes to NHS bodies in Wales? The £12.5 million may well have been some sort of transfer between one year and the next, but it is not statutorily permitted on the current basis. What discussions have you had with the Minister for health regarding the need that she may have for some year-end flexibility in the current financial year?

**Darren Millar:** Weinidog, pa drafodaethau a gafwyd ynghylch hyblygrwydd yng nghyllidebau'r GIG ar gyfer y flwyddyn hon, o ystyried mai hwn yw'r toriad unigol mwyaf yng nghyllid y GIG yn hanes GIG Cymru ac o ystyried yr her i gyrff y GIG yng Nghymru a ddaw yn sgîl hynny? Efallai bod y £12.5 miliwn wedi bod yn rhyw fath o drosglwyddo arian rhwng un flwyddyn a'r nesaf, ond nid yw'n rhywbeth a ganiateir yn statudol ar hyn o bryd. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog Iechyd ynghylch ei hangen i gael rhywfaint o hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn y flwyddyn ariannol gyfredol?

**Jane Hutt:** The Welsh Government is protecting NHS funding in cash terms, despite the significant cuts to the Welsh budget made by your UK Government. We are spending over 43% of our budget on health and, once again, the NHS has delivered significant savings while continuing to improve services. Again, it is important to put on record that, in 2012, savings of £290 million, more than 5%, have been delivered and that this has been done

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cymru yn diogelu arian y GIG yn nhermau arian parod, er gwaethaf y toriadau sylweddol i gyllideb Cymru gan Lywodraeth y DU. Rydym yn gwario dros 43 y cant o'n cyllideb ar iechyd ac, unwaith eto, mae'r GIG wedi sicrhau arbedion sylweddol gan barhau i wella gwasanaethau ar yr un pryd. Unwaith eto, mae'n bwysig cofnodi bod arbedion o £290 miliwn wedi'u gwneud yn 2012, fwy na 5 y cant, a bod hyn wedi cael ei wneud wrth

while maintaining delivery against clinical performance, such as faster stroke treatment and a reduction in emergency readmissions to hospital. I hope that you will welcome that, Darren Millar.

gynnal darpariaeth yr un pryd yn erbyn perfformiad clinigol, fel triniaeth strôc gyflymach a gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu haildderbyn ar frys i'r ysbyty. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn croesawu hynny, Darren Millar.

To respond on the issues around flexibility, the Minister for health has commissioned an external financial review of the organisations that particularly need the flexibility that you clearly must have in any service. That flexibility provides the NHS with the same flexibility that already exists in other parts of the public sector, and it is relevant in terms of recognising appropriate accountability.

I ymateb i'r materion sy'n ymwneud â hyblygrwydd, mae'r Gweinidog Iechyd wedi comisiynu adolygiad ariannol allanol o'r sefydliadau sydd ag angen neilltuol am yr hyblygrwydd y mae'n rhaid ichi ei gael mewn unrhyw wasanaeth. Mae'r hyblygrwydd hwnnw yn rhoi'r un hyblygrwydd i'r GIG sydd eisoes yn bodoli mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, ac mae'n berthnasol o ran cydnabod atebolrwydd priodol.

**Bethan Jenkins:** Mae fy nghwestiwn yn dilyn yr hyn yr oedd Aled Roberts yn ei ddweud o ran y ffaith y gwnaed yr asesiad cyllidebol a rhoddwyd yr arian hwn i’r byrddau iechyd. Pa hyder sydd gennych fel Gweinidog na fydd hyn yn digwydd yn y dyfodol ac na fydd yn gosod cynsail i fyrddau iechyd ofyn am arian ychwanegol ac, o ganlyniad, cael mwy o broblemau yn yr hirdymor nag y byddent wedi eu cael yn wreiddiol?

**Bethan Jenkins:** My question follows on from what Aled Roberts was saying in terms of the fact that a financial assessment was made and that this funding was provided to the health boards. What confidence do you have as a Minister that this will not happen in the future and that it will not set a precedent for health boards to seek additional funding and, as a result, face more problems in the long term than they would have done otherwise?

**Jane Hutt:** I understood Aled Roberts’s question as being very constructive and helpful in recognising the fact, as did the Public Accounts Committee, that we needed this kind of flexibility in terms of how we manage our finances and the finances of our important national health service in Wales. Let us remember that the total departmental expenditure limit for health and social services for this financial year is £6.469 billion, consisting of just over £6 billion revenue and £241 million capital. Therefore, when you start talking about the very small sums of money that might be needed to help with the flexibilities, let us put it in the perspective of what the national health service for Wales is delivering so effectively.

**Jane Hutt:** Roeddwn yn credu bod cwestiwn Aled Roberts yn un adeiladol a buddiol dros ben o ran ei fod yn cydnabod y ffaith, fel y gwnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, fod arnom angen y math hwn o hyblygrwydd o ran sut rydym yn rheoli ein cyllid a chyllid ein gwasanaeth iechyd gwladol pwysig yng Nghymru. Gadewch inni gofio mai £6.469 biliwn yw cyfanswm terfyn gwariant adrannol ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, a bod hyn yn cynnwys ychydig dros £6 biliwn o refeniw a £241 miliwn o gyfalaf. Felly, pan fyddwch yn dechrau siarad am y symiau bach iawn o arian y gall bod eu hangen i helpu gyda'r hyblygrwydd, gadewch inni roi hyn yng nghyd-destun yr hyn y mae'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru yn ei gyflawni mor effeithiol.

**The Presiding Officer:** Question 12, OAQ(4)0131(FIN), is withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(4)0131(FIN), yn ôl.

**Cyllid Cyfalaf**

***13. Gwyn R. Price:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiau llai o gyllid cyfalaf ar gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0137(FIN)*

**Jane Hutt:** We are seeking to minimise the damaging effects of the severe cuts to our capital budgets imposed by the UK Government through better prioritisation of investment proposals, better business planning and delivery and levering in additional funding through innovative means.

**Gwyn R. Price:** Thank you for that answer, Minister. I have asked questions before about the effect that decreased capital budgets will have on employment in Wales. Do you agree that the cost of the current double-dip recession and the UK Government's obsession with deficit and not growth could be further cuts? Do you further agree that this could be damaging to the Welsh construction industry?

**Jane Hutt:** That is coming through in the feedback from the construction industry. The strategic approaches that we set out in the Wales infrastructure investment plan to promote growth and jobs will help to mitigate the impact of these and future cuts. The council for economic renewal, which met today, with members from across the private sector and social partners, warmly welcomed the introduction of that infrastructure investment plan to help us to mitigate the impact of those UK Government cuts.

**Antoinette Sandbach:** One matter of interest in the Wales infrastructure investment plan was the commitment to announce the preferred bidder to roll out broadband to rural notspots by this summer. Given that the capital funding was made available for this purpose by the UK Chancellor nearly a year ago, can you confirm the date that your Government expects this announcement to be made, as rural households and businesses are understandably frustrated by the lack of progress since the funding was originally announced?

**Capital Funding**

***13. Gwyn R. Price:*** *Will the Minister make a statement on the effects of reduced capital funding on the Welsh Government's overall budget. OAQ(4)0137(FIN)*

**Jane Hutt:** Rydym yn ceisio lleihau effeithiau niweidiol y toriadau difrifol i'n cyllidebau cyfalaf a osodwyd gan Lywodraeth y DU, drwy roi gwell blaenoriaeth i gynlluniau buddsoddi, gwell cynllunio busnes a darparu, a denu cyllid ychwanegol drwy ddulliau arloesol.

**Gwyn R. Price:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwyf wedi gofyn cwestiynau o'r blaen am effaith cyllidebau cyfalaf llai ar gyflogaeth yng Nghymru. A ydych yn cytuno y gallai'r dirwasgiad dwbl presennol ac obsesiwn Llywodraeth y DU gyda diffyg ariannol yn lle twf arwain at ragor o doriadau? A ydych yn cytuno ymhellach y gallai hyn fod yn niweidiol i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru?

**Jane Hutt:** Mae hynny i'w weld yn yr adborth gan y diwydiant adeiladu. Bydd y dulliau strategol a nodwyd gennym yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru i hyrwyddo twf a swyddi yn helpu i liniaru effaith y toriadau hyn a'r toriadau yn y dyfodol. Roedd y cyngor adnewyddu'r economi, a oedd yn cwrdd heddiw, gydag aelodau o bob rhan o'r sector preifat a phartneriaid cymdeithasol, yn croesawu'r cynllun buddsoddi yn y seilwaith er mwyn ein helpu i liniaru effaith y toriadau hynny gan Lywodraeth y DU.

**Antoinette Sandbach:** Un mater o ddiddordeb yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru oedd yr ymrwymiad i gyhoeddi enw'r cynigydd a ffafrir i gyflwyno band eang i fannau gwan gwledig erbyn yr haf hwn. O gofio bod y cyllid cyfalaf wedi bod ar gael at y diben hwn gan Ganghellor y DU bron i flwyddyn yn ôl, a allwch gadarnhau'r dyddiad y bydd eich Llywodraeth yn disgwyl i'r cyhoeddiad hwn gael ei wneud, gan fod cartrefi a busnesau gwledig yn teimlo'n rhwystredig gyda'r diffyg cynnydd ers i'r cyllid gael ei gyhoeddi'n wreiddiol?

**Jane Hutt:** The improving telecommunications network is a key priority in our infrastructure investment plan for growth and jobs. I am sure that the Minister for business will update you on the delivery of that in terms of broadband access.

**Jane Hutt:** Mae'r rhwydwaith gwella telathrebu yn un o'r blaenoriaethau allweddol yn ein cynllun buddsoddi yn y seilwaith ar gyfer twf a swyddi. Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog Busnes yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am hynny o safbwynt mynediad band eang.

**Ieuan Wyn Jones:** The Minister will recall that, in her previous response to me on a similar question this afternoon, when I asked about innovative ways of raising capital, she referred to a number of schemes that were already in train before the current cuts were announced. For example, the Government had already secured the JEREMIE funding before the cuts were announced in the budget. I think that the Senedd would be interested to know what further innovative schemes you have introduced since the election of the new Labour Government in the Assembly to show that you have a good track record.

**Ieuan Wyn Jones:** Yn ei hymateb blaenorol imi ar gwestiwn tebyg y prynhawn yma, pan ofynnais am ffyrdd arloesol o godi cyfalaf, bydd y Gweinidog yn cofio ei bod wedi cyfeirio at nifer o gynlluniau a oedd eisoes ar y gweill cyn bod y toriadau presennol yn cael eu cyhoeddi. Er enghraifft, mae'r Llywodraeth eisoes wedi sicrhau cyllid JEREMIE cyn cyhoeddi'r toriadau yn y gyllideb. Rwyf yn meddwl y byddai gan y Senedd ddiddordeb gwybod pa gynlluniau arloesol eraill rydych wedi'u cyflwyno ers i'r Llywodraeth Lafur newydd gael ei hethol yn y Cynulliad i ddangos bod gennych hanes da o gyflawni.

**Jane Hutt:** I am grateful to Ieuan Wyn Jones for that question and will answer it directly. The Welsh housing partnership, boosted by an additional £6 million in Welsh Government funding, to lever in total additional investment of £30 million, is delivering 280 family homes for intermediate rent. There is a new Welsh mortgage guarantee scheme to increase the supply of affordable housing, and increasing access to home ownership support. There is the Welsh housing bond, which, working with registered social landlords, commits £4 million a year for 30 years to support a bond issue of over £100 million to finance the delivery of more than 1,000 affordable homes. There is an additional £5 million to double the size of the recyclable empty homes fund and £170 million in the local government borrowing initiative. All these are initiatives that have come in since the election.

**Jane Hutt:** Diolch i Ieuan Wyn Jones am y cwestiwn hwnnw, a byddaf yn ei ateb yn uniongyrchol. Mae partneriaeth tai Cymru, gyda hwb o £6 miliwn ychwanegol o gyllid Llywodraeth Cymru, i ddenu cyfanswm buddsoddiad ychwanegol o £30 miliwn, yn darparu 280 o gartrefi i deuluoedd ar gyfer rhent canolradd. Ceir cynllun gwarantu morgais newydd ar gyfer Cymru i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, a gwella mynediad at gymorth perchentyaeth. Ceir bond tai ar gyfer Cymru, sydd, gan weithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn ymrwymo £4 miliwn y flwyddyn am 30 mlynedd i gefnogi rhoi bondiau o dros £100 miliwn i ariannu'r gwaith o ddarparu mwy na 1,000 o gartrefi fforddiadwy. Ceir £5 miliwn ychwanegol i ddyblu maint y gronfa ailgylchadwy ar gyfer cartrefi gwag a £170 miliwn yn y fenter benthyca llywodraeth leol. Mae'r rhain i gyd yn gynlluniau sydd wedi'u cyflwyno ers yr etholiad.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***14. Janet Finch-Saunders:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer gogledd Cymru dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0138(FIN)*

***14. Janet Finch-Saunders:*** *Will the Minister outline her priorities for north Wales over the next 6 months. OAQ(4)0138(FIN)*

**Jane Hutt:** Our spending priorities for the

**Jane Hutt:** Cafodd ein blaenoriaethau

whole of Wales were set out in the budget for growth and jobs.

gwario ar gyfer Cymru gyfan eu nodi yn y gyllideb ar gyfer twf a swyddi.

**Janet Finch-Saunders:** I note that, during the third Assembly, you took an interest in the issue of back pain in children, recognising that 80% of people will suffer with back pain during their life and acknowledging the benefits of early preventative intervention. Will you be working with the Minister for education and with local authorities to undertake an evaluation of schools to ensure that all school furniture complies with British Standard EN 1729, which is the recognised standard, and ensure that all procurement in future recognises this standard?

**Janet Finch-Saunders:** Nodaf eich bod, yn ystod y trydydd Cynulliad, wedi dangos diddordeb yn y mater o boen cefn mewn plant, gan gydnabod y bydd 80 y cant o bobl yn dioddef gyda phoen cefn yn ystod eu bywyd, a chydnabod manteision ymyrraeth gynnar ataliol. A fyddwch yn gweithio gyda'r Gweinidog Addysg a chydag awdurdodau lleol i werthuso ysgolion er mwyn sicrhau bod yr holl ddodrefn ysgol yn cydymffurfio â Safon Brydeinig EN 1729, sef y safon gydnabyddedig, ac yn sicrhau bod yr holl broses gaffael yn y dyfodol yn cydnabod y safon hon?

**Jane Hutt:** I can assure Janet Finch-Saunders that that is a matter that the Minister for education is aware of as part of the standards in capital investment in new schools and the refurbishment of schools.

**Jane Hutt:** Gallaf sicrhau Janet Finch-Saunders fod hynny'n fater y mae'r Gweinidog Addysg yn ymwybodol ohono fel rhan o'r safonau wrth fuddsoddi cyfalaf mewn ysgolion newydd ac wrth adnewyddu ysgolion.

**Llyr Huws Gruffydd:** O gofio'r enghraifft ddiweddar yn y gogledd o ddefnydd anaddas o bres cyhoeddus ym mhartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Plas Madoc a'r enghraifft fwy diweddar yng Nghymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, a ydych chi fel Gweinidog Cyllid yn hyderus bod gan Lywodraeth Cymru systemau llywodraethiant ariannol digonol ar waith i sicrhau na fydd achosion tebyg yn codi?

**Llyr Huws Gruffydd:** Given the recent example in north Wales of the inappropriate use of public funding in the Plas Madoc Communities First partnership, and, of course, the more recent example of the All Wales Ethnic Minority Association, are you as Minister for Finance confident that the Government of Wales has adequate systems of financial governance in place to ensure that similar cases do not come up again?

**Jane Hutt:** Clearly, the due diligence lessons were learned from that and, working with my colleague, the Minister for Local Government and Communities, we are ensuring that we are learning lessons and that every safeguard is in place.

**Jane Hutt:** Yn amlwg, dysgwyd bod angen inni fod yn ofalus yn dilyn hynny a, chan weithio gyda fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, rydym yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi a bod gennym pob mesur diogelu ar waith.

### Trafodaethau â Thrysorlys y DU

### Discussions with the UK Treasury

***15. Eluned Parrott:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau parhaus y mae wedi'u cael â Thrysorlys y DU. OAQ(4)0139(FIN)*

***15. Eluned Parrott:*** *Will the Minister make a statement on any on-going discussions she's had with the UK Treasury. OAQ(4)0139(FIN)*

**Jane Hutt:** We are currently discussing with the Treasury the case for Wales to receive a fairer funding settlement and for access to borrowing powers to finance infrastructure investment.

**Jane Hutt:** Rydym wrthi'n trafod gyda'r Trysorlys yr achos i Gymru gael setliad ariannu tecach ac i gael mynediad at bwerau benthyca i ariannu buddsoddi mewn seilwaith.

**Eluned Parrott:** Diolch am eich ateb, Weinidog.

An area that has been discussed in this Chamber is that of capital allowances for enterprise zones. On what date did you submit a formal business case regarding capital allowances for enterprise zones to the UK Treasury?

**Jane Hutt:** That is a matter for the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** Thank you for that answer, Minister. When you meet with Treasury officials, our position is quite clear on localised pay rates, but there is the potential for the Welsh Government to absorb responsibility for pay for its own civil service. What discussions are you engaged in to see whether the Welsh Government is able to do this?

**Jane Hutt:** You know our position in opposing regional pay and market-facing pay, and we have made that very clear to the Chief Secretary to the Treasury. Indeed, we submitted our evidence, based on the chief economist's analysis, to the pay review bodies and to the Chancellor. Clearly, we hope that they will pull back from and rescind these inappropriate proposals that will have a negative impact on our economy and our communities.

**Eluned Parrott:** Diolch am eich ateb, Weinidog.

Un o'r meysydd sydd wedi cael ei drafod yn y Siambr hon yw lwfansau cyfalaf ar gyfer ardaloedd menter. Ar ba ddyddiad y gwnaethoch gyflwyno achos busnes ffurfiol ar lwfansau cyfalaf ar gyfer ardaloedd menter i Drysorlys y DU?

**Jane Hutt:** Mater i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yw hynny.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Pan fyddwch yn cyfarfod â swyddogion y Trysorlys, mae ein safbwynt yn glir ar gyfraddau cyflog lleol, ond mae posibilrwydd i Lywodraeth Cymru ysgwyddo cyfrifoldeb dros gyflogau ar gyfer ei gwasanaeth sifil ei hun. Pa drafodaethau rydych yn eu cynnal i weld a yw Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud hyn?

**Jane Hutt:** Rydych yn gwybod ein bod yn gwrthwynebu cyflogau rhanbarthol a chyflogau ar sail y farchnad, ac rydym wedi datgan hynny'n glir iawn wrth Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Yn wir, cyflwynwyd ein tystiolaeth, yn seiliedig ar ddadansoddiad y prif economegydd, i'r cyrff adolygu cyflogau ac i'r Canghellor. Yn amlwg, rydym yn gobeithio y byddant yn tynnu'r cynigion amhriodol hyn yn ôl ac yn eu diddymu, oherwydd byddant yn cael effaith negyddol ar ein heconomi a'n cymunedau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
## Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

### Cymorth i Siopau Bach Canol Tref

*1.* ***Elin Jones:*** *Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig i siopau bach canol tref gyda'u hardrethi busnes. OAQ(4)0138(BET)*

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** Since you tabled this question, I have made a statement on the business rates review report

### Support for Small Town-centre Shops

***1. Elin Jones:*** *What support does the Welsh Government offer small town centre shops with their business rates. OAQ(4)0138(BET)*

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Ers ichi gyflwyno'r cwestiwn hwn, rwyf wedi gwneud datganiad am adroddiad yr adolygiad

that makes a number of recommendations relating to business rates in town centres. I would welcome your comments on these.

o ardrethi busnes, sy'n gwneud nifer o argymhellion ynghylch ardrethi busnes yng nghanol trefi. Byddwn yn croesawu eich sylwadau am y rhain.

**Elin Jones:** From my experience in Ceredigion, it is independent high street retailers that are currently struggling with business rates, especially when their rateable value is over £12,000. The Brian Morgan report published yesterday recommends that the current relief threshold should be increased to assist retail businesses as part of a more targeted relief scheme. If you revise the relief scheme, will you implement this recommendation?

**Elin Jones:** O’m profiad i yng Ngheredigion, siopau annibynnol ar y stryd fawr sy'n ei chael yn anodd ymdopi ag ardrethi busnes ar hyn o bryd, yn enwedig pan mae eu gwerth ardrethol yn fwy na £12,000. Mae adroddiad Brian Morgan, a gyhoeddwyd ddoe, yn argymell y dylid codi’r trothwy presennol ar gyfer rhyddhad er mwyn cynorthwyo busnesau manwerthu fel rhan o gynllun rhyddhad mwy penodol. Os byddwch yn diwygio'r cynllun rhyddhad, a wnewch weithredu'r argymhelliad hwn?

2.15 p.m.

**Edwina Hart:** Obviously, I will be taking fully into account the recommendations that have been made by Professor Brian Morgan, as I indicated yesterday. He will have a period of discussion with interested parties during the next three months, and I will then be looking with my Cabinet colleagues at which of these recommendations we intend to implement. Your point is well made, and I would be more than happy to visit your constituency at the earliest opportunity to discuss business rate issues with any of your constituents.

**Edwina Hart:** Yn amlwg, byddaf yn ystyried argymhellion yr Athro Brian Morgan yn llawn, fel y dywedais ddoe. Bydd yn cael cyfnod o drafod â phartïon sydd â diddordeb yn ystod y tri mis nesaf, a byddaf finnau wedyn gyda fy nghyd-Weinidogion yn y Cabinet yn ystyried pa rai o'r argymhellion hyn rydym yn bwriadu eu gweithredu. Mae eich pwynt yn un dilys iawn, a byddwn yn fwy na pharod i ymweld â'ch etholaeth ar y cyfle cyntaf i drafod materion yn ymwneud ag ardrethi busnes gydag unrhyw etholwyr.

**Nick Ramsay:** Minister, I would like to broaden out the question posed by Elin Jones regarding business rates. You have mentioned the review, which was discussed yesterday. A key tenet of that review is that local authorities should be allowed to keep a proportion of their business rates at the outset, rather than their being redistributed by the Welsh Government, in order to incentivise growth locally. Do you agree with that recommendation?

**Nick Ramsay:** Weinidog, hoffwn ehangu ar y cwestiwn a ofynnwyd gan Elin Jones ynghylch ardrethi busnes. Rydych wedi sôn am yr adolygiad, a gafodd ei drafod ddoe. Un o elfennau allweddol yr adolygiad hwnnw yw y dylai awdurdodau lleol gael cadw cyfran o'u hardrethi busnes ar y cychwyn, yn hytrach na bod Llywodraeth Cymru yn eu hailddosbarthu, er mwyn cymell twf yn lleol. A ydych yn cytuno â'r argymhelliad hwnnw?

**Edwina Hart:** As I have indicated, this is an independent report and the Cabinet collectively will look at the recommendations. I have already had initial discussions with my colleague, the Minister for Local Government and Communities, about the issues that are pertinent to his portfolio with regard to rates.

**Edwina Hart:** Fel rwyf wedi’i ddweud, adroddiad annibynnol yw hwn, a bydd y Cabinet yn edrych ar yr argymhellion ar y cyd. Rwyf eisoes wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, am y materion ardrethi sy'n berthnasol i’w bortffolio ef.

**Nick Ramsay:** I am grateful to the Minister for that answer and I appreciate the fact that we had the statement yesterday. I have asked this question because it seems to me that the report has considered this as a fundamental part of the way in which local authorities can be given far greater responsibility for encouraging growth in this area. We know that some local authorities do this very well, and other local authorities do not, so I would appreciate it if you would report back as quickly as possible, following discussions with the Minister for local government, as to whether you think this is a viable way forward and whether you believe that the 50% proposed in the review as the figure that local authorities could keep at the outset is a sustainable amount.

**Nick Ramsay:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw ac yn gwerthfawrogi’r ffaith ein bod wedi cael y datganiad ddoe. Rwyf wedi gofyn y cwestiwn hwn oherwydd mae'n ymddangos i mi fod yr adroddiad wedi ystyried hyn fel rhan sylfaenol o’r modd y gellir rhoi llawer mwy o gyfrifoldeb dros hybu twf yn y maes hwn i awdurdodau lleol. Rydym yn gwybod bod rhai awdurdodau lleol yn gwneud hyn yn dda iawn, ond nad yw hynny'n wir am awdurdodau lleol eraill. Byddwn yn gwerthfawrogi felly, ar ôl cael trafodaethau gyda’r Gweinidog Llywodraeth Leol, pe baech yn adrodd yn ôl cyn gynted ag y bo modd er mwyn rhoi gwybod a ydych yn credu bod hyn yn ffordd ymarferol o symud ymlaen, ac a ydych yn credu bod y 50 y cant y mae’r adolygiad yn ei gynnig fel y ffigur y gallai awdurdodau lleol ei gadw ar y cychwyn yn swm cynaliadwy.

**Edwina Hart:** Providing I can get agreement on which recommendations to take forward and on how we deal with the financial implications, it is my intention to bring this back to Plenary at the earliest opportunity in the autumn.

**Edwina Hart:** Os caf gytundeb ar ba argymhellion i fwrw ymlaen â hwy a sut mae ymdrin â'r goblygiadau ariannol, fy mwriad yw dod â hyn yn ôl i'r Cyfarfod Llawn ar y cyfle cyntaf yn ystod yr hydref.

**The Presiding Officer:** Questions 2, OAQ(4)0132(FIN), and 3, OAQ(4)0136(FIN), have been withdrawn.

**Y Llywydd:** Mae cwestiynau 2, OAQ(4)0132(FIN), a 3, OAQ(4)0136(FIN), wedi cael eu tynnu'n ôl.

**Mewnfuddsoddiad**

**Inward Investment**

***4. Andrew R.T. Davies:*** *Sut y mae’r Gweinidog yn gweithio i ddenu mewnfuddsoddiad i Ganol De Cymru. OAQ(4)0137(BET)*

***4. Andrew R.T. Davies:*** *How is the Minister working to attract inward investment into South Wales Central. OAQ(4)0137(BET)*

**Edwina Hart:** I recognise the importance of attracting inward investment into Wales. I am ensuring that all our activities are joined up in promoting Wales as an ideal place in which to base new investment and secure jobs and growth.

**Edwina Hart:** Rwyf yn sylweddoli pa mor bwysig yw denu mewnfuddsoddiad i Gymru. Rwyf yn sicrhau bod ein holl weithgareddau gyda’i gilydd yn hyrwyddo Cymru fel lle delfrydol i seilio buddsoddiad newydd ac i sicrhau twf a swyddi diogel.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that answer. South Wales Central is home to Cardiff Airport and, over the weekend, there were reports about the expansion of Chinese tourism. In particular, the UK is a very attractive destination for many Chinese tourists. The First Minister is on record as saying that he would like to create an air link

**Andrew R.T. Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw. Mae Maes Awyr Caerdydd wedi'i leoli yng Nghanol De Cymru, a dros y penwythnos, roedd adroddiadau am ehangu twristiaeth o Tsieina. Yn benodol, mae'r DU yn gyrchfan ddeniadol i lawer o dwristiaid o Tsieina. Dywedodd y Prif Weinidog ar goedd y byddai'n hoffi creu cyswllt awyr rhwng

between China and Wales. Is the Minister in a position to say how she works with her department and officials to ensure that Wales makes the best offer to the Chinese market so that we can capitalise on the increase in Chinese tourists looking to come to this part of the United Kingdom?

Tsieina a Chymru. A yw'r Gweinidog mewn sefyllfa i ddweud sut mae hi'n gweithio gyda'i hadran a'i swyddogion i sicrhau bod Cymru yn gwneud y cynnig gorau i'r farchnad Tsieineaidd er mwyn inni allu manteisio ar y cynnydd mewn twristiaid o Tsieina sy'n awyddus i ddod i'r rhan hon o'r Deyrnas Unedig?

**Edwina Hart:** I thank the leader of the opposition for his question and also for the support that he has given in terms of wanting us to ensure the development of the airport to its full potential, so that we have good links into Wales for businesses. If the airport puts in the necessary resources, we will be able to assist. We collaborate very closely in the department with people who are interested. We also discuss the possibility of new routes. However, we have to ensure that there is a partnership between the Government and the airport on this. The First Minister’s task force initiative will help to take this forward.

**Edwina Hart:** Diolch i arweinydd yr wrthblaid am ei gwestiwn a hefyd am ei gefnogaeth yn dymuno inni sicrhau bod y maes awyr yn cael ei ddatblygu i'w lawn botensial, er mwyn gwneud yn siŵr bod gennym gysylltiadau da ar gyfer ymweld â Chymru at ddibenion busnes. Os bydd y maes awyr yn buddsoddi'r adnoddau angenrheidiol, byddwn yn gallu cynorthwyo yn hyn o beth. Rydym yn cydweithio’n agos iawn yn yr adran â phobl sydd â diddordeb. Rydym hefyd yn trafod y posibilrwydd o lwybrau newydd. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau bod partneriaeth rhwng y Llywodraeth a’r maes awyr yn hyn o beth. Bydd menter tasglu’r Prif Weinidog yn helpu i fwrw ymlaen â hyn.

**Vaughan Gething:** As you will be aware, transport in terms of speed, capacity and convenience is an important factor in any economic inward investment decision. Have you undertaken an assessment of the impact on the ability to attract inward investment, particularly in the Vale of Glamorgan, if the UK Government disagrees with all parties in this Chamber and does not deliver full electrification of the south Wales Valleys network?

**Vaughan Gething:** Fel y byddwch yn gwybod, mae trafnidiaeth, o safbwynt cyflymder, capasiti a hwylustod, yn ffactor pwysig mewn unrhyw benderfyniad am fewnfuddsoddi economaidd. A ydych wedi cynnal asesiad o'r effaith ar y gallu i ddenu mewnfuddsoddiad, yn enwedig ym Mro Morgannwg, os bydd Llywodraeth y DU yn anghytuno â phob plaid yn y Siambr hon ac yn peidio â thrydaneiddio rhwydwaith Cymoedd y de yn llawn?

**Edwina Hart:** The discussions that have been held in my department indicate that if the UK Government does not commit to full electrification, it could seriously hamper efforts to attract high-quality inward investment to south Wales, and further west.

**Edwina Hart:** Yn ôl y trafodaethau sydd wedi cael eu cynnal yn fy adran i, os na fydd Llywodraeth y DU yn ymrwymo i drydaneiddio’n llawn, gallai hyn amharu'n ddifrifol ar ymdrechion i ddenu mewnfuddsoddiad o safon uchel i'r de ac ymhellach i'r gorllewin.

**Leanne Wood:** Minister, South Wales Central has suffered particularly badly as a result of the decline in manufacturing. We have lost many factories—Burberry and Bosch will be familiar names to most people here—and those jobs have yet to be replaced, in most cases. You have recently unveiled strategies to transform the ailing Welsh

**Leanne Wood:** Weinidog, mae Canol De Cymru wedi dioddef yn arbennig o ganlyniad i ddirywiad yn y diwydiant gweithgynhyrchu. Rydym wedi colli llawer o ffatrïoedd—bydd Burberry a Bosch yn enwau cyfarwydd i'r rhan fwyaf o bobl yma—ac nid oes swyddi newydd wedi dod yn lle'r rheini yn y rhan fwyaf o achosion. Yn ddiweddar, rydych

economy based upon innovation. How will these strategies be monitored? Have targets been set? How will we know whether the outcomes actually point to success? It would also be useful to know whether you have a plan B in case those strategies fail.

wedi datgelu strategaethau sy’n seiliedig ar arloesi i drawsnewid economi simsan Cymru. Sut y bydd y strategaethau hyn yn cael eu monitro? A oes targedau wedi cael eu pennu? Sut y byddwn yn gwybod a yw'r canlyniadau wir yn cyfeirio at lwyddiant? Byddai hefyd yn ddefnyddiol gwybod a oes gennych gynllun wrth gefn rhag ofn na fydd y strategaethau hynny'n llwyddo.

**Edwina Hart:** We live in very difficult times and the instruments that are available to us as a Government are very limited, given that we only have responsibility for the economy in Wales and those levers. The macroeconomic issues are matters for the UK Government. I believe that what we have done recently in terms of investment, particularly with the funds that we have established, has given confidence to business. I was party to a meeting with the Confederation of British Industry recently at which it was said that there was general confidence with what we have undertaken. However, it is certainly our intention to look at how innovation can help to develop and bring more jobs into Wales. I would be happy to outline all those strategies, perhaps in the debate later in this session.

**Edwina Hart:** Rydym yn byw mewn cyfnod anodd iawn ac mae'r adnoddau sydd ar gael i ni fel Llywodraeth yn gyfyngedig iawn, o gofio mai dim ond am economi Cymru rydym ni’n gyfrifol, ac mai ar gyfer hynny’n unig y mae gennym ni adnoddau. Materion i Lywodraeth y DU yw'r materion macro-economaidd. Rwyf yn credu bod yr hyn rydym wedi'i wneud yn ddiweddar o ran buddsoddi, yn enwedig gyda'r cyllid rydym wedi'i sefydlu, wedi rhoi hyder i fusnesau. Bûm mewn cyfarfod gyda Chydffederasiwn Diwydiant Prydain yn ddiweddar, lle dywedwyd bod hyder cyffredinol yn yr hyn rydym wedi'i wneud. Fodd bynnag, rydym yn bendant yn bwriadu edrych ar y modd y gall arloesi helpu i ddatblygu a dod â mwy o swyddi i Gymru. Byddwn yn fwy na pharod i amlinellu'r holl strategaethau hynny, efallai yn y ddadl yn ddiweddarach yn y sesiwn hon.

**Eluned Parrott:** Minister, you have stated that your department is looking at the branding of Wales in relation to inward investors. In the past, a rather hackneyed image of the south Wales Valleys in my region has been used, and the people of my region are keen to project a more modern image abroad. What progress has been made towards developing that brand strategy and what opportunity is there for it to be nuanced to reflect the different character of the different areas of Wales?

**Eluned Parrott:** Weinidog, rydych wedi datgan bod eich adran yn edrych ar frandio Cymru mewn perthynas â mewnfuddsoddwyr. Yn y gorffennol, mae delwedd y Cymoedd yn fy rhanbarth i wedi bod yn ystrydebol braidd, ac mae'r bobl yn fy rhanbarth yn awyddus i gyfleu delwedd fwy modern dramor. Pa gynnydd a wnaed tuag at ddatblygu'r strategaeth brandio honno a pha gyfleoedd sydd i'w haddasu er mwyn adlewyrchu cymeriad gwahanol ardaloedd gwahanol yng Nghymru?

**Edwina Hart:** I am pleased to say that we are making good progress and an innovative appointment will be made shortly to my department to take forward the branding issues. I very much sympathise with your comments about the nuances that are necessary to fully reflect Wales, to sell Wales and to demonstrate the benefits of coming to Wales.

**Edwina Hart:** Rwyf yn falch o ddweud ein bod yn gwneud cynnydd da, ac y bydd apwyntiad arloesol yn cael ei wneud yn fuan yn fy adran er mwyn gweithredu ar y materion brandio. Rwyf yn llwyr ddeall eich sylwadau am yr addasiadau sy'n angenrheidiol i adlewyrchu Cymru'n llawn, i werthu Cymru ac i gyfleu’r manteision o ddod i Gymru.

**Julie Morgan:** Now that Labour has a

**Julie Morgan:** Gan fod gan y Blaid Lafur

majority on Cardiff Council, it will be seeking to implement its manifesto commitment to build a science park. What encouragement or assistance can the Minister give to the development of a science park in or near Cardiff?

fwyafrif ar Gyngor Caerdydd yn awr, bydd yn ceisio gweithredu’r ymrwymiad yn ei maniffesto i adeiladu parc gwyddoniaeth. Pa anogaeth neu gymorth y gall y Gweinidog ei roi i ddatblygu parc gwyddoniaeth yng Nghaerdydd neu gerllaw Caerdydd?

**Edwina Hart:** We hope to have a close working relationship with all local authorities in Wales to help them to develop what is innovative and affordable and in the best interest of their localities, such as the employment prospects within their areas.

**Edwina Hart:** Rydym yn gobeithio cael perthynas waith agos gyda’r holl awdurdodau lleol yng Nghymru i'w helpu i ddatblygu'r hyn sy'n arloesol ac yn fforddiadwy ac er lles gorau eu hardaloedd, fel y rhagolygon cyflogaeth yn eu hardaloedd.

**Diwydiant Amaeth**

**Agriculture Industry**

***5. William Powell:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y diwydiant amaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. OAQ(4)0141(BET)*

***5. William Powell:*** *Will the Minister make a statement on the agricultural industry in Mid and West Wales. OAQ(4)0141(BET)*

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** My position on the agriculture industry in Mid and West Wales is that it continues to enjoy the support of this Government, which the agriculture industry in other parts of Wales enjoys as well.

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Yn fy marn i, mae’r diwydiant amaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i gael cefnogaeth y Llywodraeth hon, yn yr un modd â'r diwydiant amaeth mewn rhannau eraill o Gymru.

**William Powell:** I thank the Deputy Minister for that answer. As you are aware, the sustainable farming and food delivery group in 2008 highlighted the strategic importance of local authority farm holdings for the future of the industry. Given the current economic climate, local authorities are naturally under significant pressure to capitalise some of these assets, which is a real danger. This issue has been particularly highlighted in recent weeks by the agriculture and rural affairs broadcaster, Kate Humble. What steps can you, Deputy Minister, take to ensure that the potential danger of the disappearance of farm holdings is arrested?

**William Powell:** Diolch i’r Dirprwy Weinidog am yr ateb hwnnw. Fel y gwyddoch, yn 2008, gwnaeth y grŵp cyflawni bwyd a ffermio cynaliadwy dynnu sylw at bwysigrwydd strategol daliadau fferm awdurdodau lleol ar gyfer dyfodol y diwydiant. O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, mae awdurdodau lleol yn naturiol o dan gryn dipyn o bwysau i droi rhai o’r asedau hyn yn gyfalaf, sy'n berygl go iawn. Mae'r mater hwn wedi cael ei amlygu'n benodol yn ystod yr wythnosau diwethaf gan y darlledydd amaethyddiaeth a materion gwledig, Kate Humble. Pa gamau y gallwch chi eu cymryd, Ddirprwy Weinidog, i sicrhau bod y perygl y bydd daliadau fferm yn diflannu yn cael ei atal?

**Alun Davies:** The last Welsh Government report demonstrated that land in local authority holdings has increased in the last year. However, the Member will be aware, given that he is a member of Powys County Council, that local authorities also have a responsibility in this. You will also be aware,

**Alun Davies:** Roedd adroddiad diwethaf Llywodraeth Cymru yn dangos bod tir mewn daliadau awdurdodau lleol wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn diwethaf. Fodd bynnag, bydd yr Aelod yn ymwybodol, gan gofio ei fod yn aelod o Gyngor Sir Powys, fod gan awdurdodau lleol hefyd gyfrifoldeb yn hyn o

as a member of Powys County Council, that recent substantial rent increases, other demands on investment and other changes to contractual arrangements are making life very difficult for those tenants who are currently enjoying tenancies in that area. I encourage you to play a role in a different chamber to support tenancies in that area.

beth. Byddwch hefyd yn ymwybodol, fel aelod o Gyngor Sir Powys, fod y cynnydd sylweddol mewn rhent, pwysau eraill ar fuddsoddiadau, a newidiadau eraill i drefniadau cytundebol a welwyd yn ddiweddar yn gwneud bywyd yn anodd iawn i'r tenantiaid hynny sydd â thenantiaethau yn yr ardal honno ar hyn o bryd. Rwyf yn eich annog i chwarae rhan mewn siambr wahanol i gefnogi tenantiaethau yn yr ardal honno.

On a wider issue, you will be aware that, in a previous Assembly, the Rural Development Sub-committee also reported on this matter. The Government at that time accepted the recommendations of that sub-committee and we will continue to use that report to inform our policy in this area. If the Member has further suggestions or recommendations that he wishes to make, then I am more than happy to accept recommendations or representations on the matter.

Ar fater ehangach, byddwch yn ymwybodol, mewn Cynulliad blaenorol, y bu i'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig adrodd ar y mater hwn hefyd. Ar yr adeg honno, derbyniodd y Llywodraeth argymhellion yr is-bwyllgor hwnnw a byddwn yn parhau i ddefnyddio'r adroddiad hwnnw i lywio ein polisi yn y maes hwn. Os oes gan yr Aelod awgrymiadau neu argymhellion eraill i'w rhannu, rwyf yn fwy na pharod i dderbyn argymhellion neu sylwadau ar y mater.

**Russell George:** In light of the recent flooding events in mid Wales, a number of farmers in my constituency are concerned about the Environment Agency’s management of the Clywedog reservoir. The reservoir has been used to store excessive rainfall in recent years and has been utilised well to protect people living further down the valley. However, it has come to my attention that the dam has been left to overflow in recent months, and, with the recent heavy rainfall, it has continued to overflow, forcing farmers to move livestock away from their river pastures, which have then flooded. A lot of debris has been left behind, fences have been damaged and some farmers have had their silage crops flattened and contaminated by dirty floodwater. Will the Deputy Minister look at this issue with his colleague, the Minister for the environment, because local farmers, quite rightly, want to know why the Environment Agency did not act properly to regulate the Gweryd dam for the benefit of the people living downstream?

**Russell George:** Yn wyneb y llifogydd diweddar yn y canolbarth, mae nifer o ffermwyr yn fy etholaeth yn poeni am y modd y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoli cronfa ddŵr Clywedog. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r gronfa wedi cael ei defnyddio i storio dŵr glaw mewn cyfnodau o law trwm, ac wedi cael ei defnyddio'n effeithiol i warchod pobl sy'n byw ymhellach i lawr y cwm. Fodd bynnag, rwyf wedi cael ar ddeall bod yr argae wedi cael ei gadael i orlifo yn ystod y misoedd diwethaf, a chyda'r glaw trwm yn ddiweddar, mae wedi parhau i orlifo, gan orfodi ffermwyr i symud da byw oddi ar eu tir pori wrth yr afon, sydd wedi dioddef llifogydd wedi hynny. Mae llawer o weddillion wedi cael eu gadael ar ôl, mae ffensys wedi cael eu difrodi ac mae cnydau silwair rhai ffermwyr wedi’u gwastatáu ac wedi'u halogi gan lifddwr budr. A wnaiff y Dirprwy Weinidog edrych ar y mater hwn gyda’i gyd-Weinidog, Gweinidog yr Amgylchedd, gan fod ffermwyr lleol, a hynny'n gwbl briodol, am wybod pam na wnaeth Asiantaeth yr Amgylchedd weithredu'n briodol i reoleiddio argae Gweryd er budd y bobl sy'n byw i lawr yr afon?

**Alun Davies:** The Minister is in his place and has heard your question. The Minister for local government and emergency services

**Alun Davies:** Mae'r Gweinidog yn ei le ac wedi clywed eich cwestiwn. Bu'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Brys

also visited those areas on Sunday and Monday. I believe that a statement was made on the matter in the Assembly yesterday and a debate took place. The Ministers concerned heard your question and will respond.

hefyd yn ymweld â rhai o'r ardaloedd hynny ddydd Sul a dydd Llun. Credaf y gwnaethpwyd datganiad ar y mater yn y Cynulliad ddoe a bod dadl wedi'i chynnal. Mae'r Gweinidogion dan sylw wedi clywed eich cwestiwn a byddant yn ymateb.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Heb geisio rhagweld datganiad y Dirprwy Weinidog ar Glastir a fydd yn cael ei wneud cyn hir, a all ddweud wrth y Senedd os yw'n teimlo ei fod bellach yn dechrau ennill y ddadl ddeallusol ar y mater?

**Lord Elis-Thomas:** Without attempting to anticipate the Deputy Minister's upcoming statement on Glastir, can he tell the Senedd whether he feels that he is now starting to win the intellectual argument on this issue?

**Alun Davies:** Nid wyf yn siŵr fy mod am ateb y cwestiwn ar y termau hynny. [*Chwerthin*.] Rwyf wedi dweud y byddaf yn gwneud datganiad ar y pwnc ddiwedd y mis, er efallai y bydd ddechrau mis nesaf, ond fe fydd datganiad cyn diwedd y tymor, cyn y toriad. Rwy'n meddwl ein bod yn ennill y ddadl ar Glastir a bod y ddadl yng Nghymru a'r ddadl sy'n rhan o'r trafodaethau CAP yn dangos mai cynlluniau megis Glastir yw'r ffordd ymlaen. Rwyf hefyd yn meddwl bod y gwaith a wnaed gan fy rhagflaenydd yn rhywbeth y byddwn yn parhau i'w werthfawrogi.

**Alun Davies:** I am not sure that I wish to answer the question in those terms. [*Laughter*.] I have said that I will make a statement on the subject at the end of the month, although it may be at the start of next month, but there will be a statement before the end of term, before recess. I think that we are winning the argument on Glastir and that the argument in Wales and as part of the discussions on CAP show that schemes such as Glastir are the way forward. I also think that the work undertaken by my predecessor is something that we will continue to appreciate.

**The Presiding Officer:** Question 6, OAQ(4)0148(BET), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Mae Cwestiwn 6, OAQ(4)0148(BET), wedi ei dynnu'n ôl.

**Busnesau Bach a Chanolig yn Abertawe**

**SMEs in Swansea**

***7. Julie James:*** *A wnaiff y Gweinidog roi amlinelliad o'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i dyfu Busnesau Bach a Chanolig yn Abertawe. OAQ(4)0145(BET)*

***7. Julie James:*** *Will the Minister give an outline of the support the Welsh Government has given to grow SMEs in Swansea. OAQ(4)0145(BET)*

**Edwina Hart:** Our plans for growth across Wales are set out in the programme for government.

**Edwina Hart:** Mae ein cynlluniau ar gyfer twf ledled Cymru wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

**Julie James:** Thank you for that, Minister. Can you expand specifically on how you are targeting business support at existing and start-up SMEs in Swansea that sometimes experience difficulties in getting the right sort of support to grow their business in the way in which they would like?

**Julie James:** Diolch am hynny, Weinidog. A allwch ymhelaethu'n benodol sut rydych yn targedu cymorth busnes at fusnesau bach a chanolig newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yn Abertawe, sydd weithiau'n ei chael yn anodd cael cymorth priodol i dyfu eu busnes yn y ffordd o'u dewis?

**Edwina Hart:** We target support at existing and start-up SMEs through a variety of ways, including a sector approach, a business start-up service and the High Potential Starts

**Edwina Hart:** Rydym yn mynd ati mewn amrywiol ffyrdd i dargedu cymorth at fusnesau bach a chanolig newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys drwy ddefnyddio

project. Our business start-up service aims to increase the number and survivability of businesses. We have the £2 million High Potential Starts project and the regional service centre, which is a good environment for them to be attracted to, and a network of one-stop shops across Wales. The one-stop shops will be in place by January 2013 as per the microbusiness report.

dull gweithredu sy’n edrych ar y sector, gwasanaeth cychwyn busnes, a'r prosiect Busnesau Newydd a chanddynt Botensial Mawr. Mae ein gwasanaeth cychwyn busnes yn anelu at gynyddu nifer y busnesau a'u gallu i oroesi. Mae gennym y prosiect Busnesau Newydd a chanddynt Botensial Mawr sy’n werth £2 filiwn, a'r ganolfan gwasanaethau rhanbarthol, sy'n amgylchedd da iddynt gael eu denu ato, yn ogystal â rhwydwaith o siopau un stop ar draws Cymru. Bydd y siopau un stop ar waith erbyn mis Ionawr 2013 yn unol â'r adroddiad microfusnes.

**Suzy Davies:** Minister, the majority of SMEs in our town and city centres are, by and large, retailers that are forced to compete with out-of-town retailers that have the luxury of free parking, of course. Swansea business improvement district has negotiated with the car park operator NCP to offer shoppers three hours parking for £1 in Swansea city centre. What conversations might you have with the Minister for local government to ensure that local authorities take the same sort of approach that Swansea BID has taken to work with businesses in the town centre to encourage car parking in those town centres?

**Suzy Davies:** Weinidog, ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o fusnesau bach a chanolig yng nghanol ein trefi a'n dinasoedd yn siopau sy'n cael eu gorfodi i gystadlu â siopau ar gyrion y trefi neu'r dinasoedd sydd wrth gwrs yn gallu cynnig parcio am ddim. Mae ardal gwella busnes Abertawe wedi bod yn trafod ag NCP, y gweithredwr meysydd parcio, er mwyn cynnig tair awr o barcio am £1 i siopwyr yng nghanol dinas Abertawe. Pa drafodaethau y gallech eu cael â'r Gweinidog Llywodraeth Leol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r un math o ddulliau ag ardal gwella busnes Abertawe i weithio gyda busnesau yng nghanol eu trefi i hybu meysydd parcio yng nghanol y trefi hynny?

**Edwina Hart:** The Minister for local government has heard your comment. I have had no representations from local authorities concerning this issue. These are matters for the individual local authorities that have just been re-elected in May.

**Edwina Hart:** Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol wedi clywed eich sylw. Nid wyf wedi cael dim sylwadau gan awdurdodau lleol ynghylch y mater hwn. Materion i'r awdurdodau lleol unigol sydd newydd gael eu hail-ethol ym mis Mai yw'r rhain.

**Bethan Jenkins:** Weinidog, mae eich Llywodraeth wedi rhyddhau ystadegau y bore yma yn dangos bod dechreuadau adeiladu tai ar gyfer chwarter cyntaf 2012 wedi gostwng am y tro cyntaf ers 2008-09. Ar hyn o bryd, mae’r ffigur yn sefyll ar tua 50% o’r adeiladu a oedd cyn y dirywiad economaidd. O gofio bod gwaith adeiladu yn un o gonglfeini cynllun adfywio economi Abertawe a ddechreuwyd gan eich rhagflaenydd, pa gamau a ydych yn eu cymryd i sicrhau bod busnesau bach a chanolig eu maint yn y sector penodol hwn yn cael help i dyfu?

**Bethan Jenkins:** Minister, your Government has released statistics this morning that demonstrate that new house building has fallen in the first quarter of 2012 for the first time since 2008-09. Currently, the figure stands at around 50% of the building that was taking place before the economic decline. Bearing in mind that construction is one of the corner stones of the economic regeneration scheme for Swansea, which was started by your predecessor, what steps are you taking to ensure that small and medium-sized enterprises in this sector are given help to grow?

**Edwina Hart:** We had a useful discussion this morning at the economic renewal council, at which the Minister for housing was present, about some of the issues concerning housing, the needs of the housing sector and the need to look at procurement and various other issues. These are issues that my department is looking at in conjunction with the Minister for housing.

**Edwina Hart:** Cawsom drafodaeth ddefnyddiol y bore yma yn y cyngor adnewyddu'r economi—ac roedd y Gweinidog Tai yn bresennol—am rai o'r problemau sy'n ymwneud â thai, am anghenion y sector tai ac am yr angen i edrych ar gaffael ac amrywiol faterion eraill. Mae'r rhain yn faterion y mae fy adran yn edrych arnynt ar y cyd â'r Gweinidog Tai.

**Sector Addysg Uwch**

**Higher Education Sector**

***8. Christine Chapman:*** *Sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog busnesau i weithio gyda'r sector addysg uwch. OAQ(4)0140(BET)*

***8. Christine Chapman:*** *How is the Welsh Government encouraging businesses to work with the higher education sector. OAQ(4)0140(BET)*

**Edwina Hart:** We encourage Welsh universities and colleges to collaborate with businesses through initiatives such as knowledge transfer partnerships, the academic expertise for business programme and the youth entrepreneurship strategy. Our science strategy also promotes collaboration with the education sector through the National Science Academy.

**Edwina Hart:** Rydym yn annog prifysgolion a cholegau Cymru i gydweithio â busnesau drwy gyfrwng mentrau fel partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth, y rhaglen arbenigedd academaidd i fusnesau a'r strategaeth entrepreneuriaeth ieuenctid. Mae ein strategaeth gwyddoniaeth hefyd yn hybu cydweithio â'r sector addysg drwy gyfrwng yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol.

2.30 p.m.

**Christine Chapman:** Closer links between the business and academic communities are important if both are to thrive in twenty-first century Wales and I welcome the measures that the Welsh Government has already taken, in particular, the fact that engagement with businesses and industry is now a requirement for both higher and further education providers in Wales. Businesses must also be made aware of the advantages of such engagement. How can we do that and, in particular, how can we ensure that smaller businesses and businesses from those parts of Wales that do not have easy geographical links with providers play a full role in the process?

**Christine Chapman:** Mae cysylltiadau agosach rhwng cymunedau busnes ac academaidd yn bwysig os ydynt am ffynnu yn yr unfed ganrif ar hugain yng Nghymru. Rwyf yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u cymryd, yn enwedig y ffaith bod ymgysylltu â busnesau a diwydiannau yn awr yn ofynnol ar gyfer darparwyr addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru. Rhaid i fusnesau hefyd fod yn ymwybodol o fanteision ymgysylltu o'r fath. Sut y gallwn wneud hynny ac, yn benodol, sut y gallwn sicrhau bod busnesau llai a busnesau o'r rhannau hynny o Gymru nad oes ganddynt gysylltiadau daearyddol hwylus â darparwyr yn chwarae rhan lawn yn y broses?

**Edwina Hart:** You raise some interesting points there, particularly concerning smaller businesses. The Welsh higher education sector has a strong record of innovation and engagement with quite small companies. The Welsh Government offers a range of initiatives, such as the Academic Expertise for Business scheme, including knowledge

**Edwina Hart:** Rydych yn codi pwyntiau diddorol, yn enwedig o ran busnesau llai. Mae gan sector addysg uwch Cymru hanes cryf o arloesi ac ymgysylltu â chwmnïau eithaf bach. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig amrywiaeth o fentrau, fel y cynllun Arbenigedd Academaidd i Fusnesau, gan gynnwys partneriaethau trosglwyddo

transfer partnerships, which engage with employers' employees. The expanded sectoral approach, going from six to nine sectors, will also help with this engagement. Last year, we further developed our relationship with anchor companies. However, with regard to discussions, I will ask my sectors whether they feel that they can do more in relation to SMEs.

gwybodaeth, sy'n ymgysylltu â chyflogeion cyflogwyr. Bydd yr ymagwedd sectorol ehangach, sy'n mynd o chwe sector i naw sector, hefyd yn helpu â'r gwaith ymgysylltu hwn. Y llynedd, buom yn datblygu ein perthynas â chwmnïau angor ymhellach. Fodd bynnag, o ran trafodaethau, byddaf yn holi fy sectorau a ydynt yn teimlo y gallant wneud rhagor mewn perthynas â busnesau bach a chanolig.

**William Graham:** What assessment have you made of the Wilson review into business-university collaboration and how do you intend to use the findings of that review to progress the relationship between universities and businesses in Wales?

**William Graham:** Pa asesiad rydych wedi'i wneud o adolygiad Wilson o gydweithio rhwng busnesau a phrifysgolion, a sut rydych yn bwriadu defnyddio canfyddiadau'r adolygiad hwnnw i wella'r berthynas rhwng prifysgolion a busnesau yng Nghymru?

**Edwina Hart:** We have regular discussions with that sector and it is important that we also continue our dialogue with the Minister for Education and Skills. We are trying to ensure that universities and colleges are aware of what business requires and vice versa to enhance anything that we can do. However, I will take this matter up in further discussions with the Minister for education, if that would be of help to the Member.

**Edwina Hart:** Rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'r sector hwnnw, ac mae'n bwysig ein bod hefyd yn parhau i drafod â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. Rydym yn ceisio sicrhau bod prifysgolion a cholegau yn ymwybodol o'r hyn y mae ar fusnesau ei angen ac i'r gwrthwyneb er mwyn hybu unrhyw beth y gallwn ei wneud. Fodd bynnag, codaf y mater hwn mewn trafodaethau pellach â'r Gweinidog Addysg, os bydd hynny'n help i'r Aelod.

**Alun Ffred Jones:** A wnewch chi ymuno â mi wrth longyfarch Coleg Menai ar ei gynllun prentisiaeth, sy'n cael ei weld fel un arloesol o ran y cydweithio rhwng y sector breifat a'r coleg arbennig hwn? Mae myfyrwyr o'r coleg ar eu ffordd i Siapan i ehangu eu gorwelion yn dilyn llwyddiannau pellach. Mae'n briodol ein bod yn llongyfarch y coleg ar y llwyddiannau hyn.

**Alun Ffred Jones:** Will you join me in congratulating Coleg Menai on its apprenticeship scheme, which is viewed as innovative in terms of the collaboration between the private sector and this particular college? Students from the college are on their way to Japan to expand their horizons following further successes. It is appropriate that we congratulate the college on these successes.

**Edwina Hart:** I very much join you in congratulating them. I am delighted to see that they are furthering their studies and education via a trip to Japan. That international element is also important.

**Edwina Hart:** Rwyf yn bendant yn ymuno â chi i'w llongyfarch. Rwyf yn hynod falch o weld eu bod yn datblygu eu hastudiaethau a'u haddysg drwy gyfrwng taith i Siapan. Mae'r elfen ryngwladol honno hefyd yn bwysig.

**Aled Roberts:** With regard to links between your Government, industry and the HE and FE sectors, you will be aware of innovative projects in north Wales. I am referring in particular to the advanced composite materials facility and the Toyota lean manufacturing facility. There have been proposals by the Directorate-General for

**Aled Roberts:** O ran cysylltiadau rhwng eich Llywodraeth, diwydiannau a'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach, byddwch yn ymwybodol o brosiectau arloesol yn y gogledd. Rwyf yn cyfeirio'n benodol at y cyfleuster deunyddiau cyfansawdd datblygedig a chyfleuster gweithgynhyrchu darbodus Toyota. Cafwyd cynigion gan y

Competition to change the rules with regard to state aid so that, after 2013, large firms would be excluded from the framework for such schemes in 3c areas. That is based on research—

Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ar gyfer Cystadleuaeth i newid rheolau cymorth gwladwriaethol fel y byddai cwmnïau mawr, ar ôl 2013, yn cael eu heithrio o'r fframwaith ar gyfer cynlluniau o'r fath mewn ardaloedd 3c. Mae hynny'n seiliedig ar waith ymchwil—

**The Presiding Officer:** Order. Can you come to the question?

**Y Llywydd:** Trefn. A allwch fwrw ymlaen â'r cwestiwn?

**Aled Roberts:** That is based on research that states that there has been little positive impact, which is different from the Flintshire experience. Do you share those concerns and has your department made any representations to the UK Government with regard to the changes?

**Aled Roberts:** Mae hynny'n seiliedig ar waith ymchwil sy'n nodi na fu llawer o effaith gadarnhaol, sy'n wahanol i'r profiad yn sir y Fflint. A ydych yn rhannu'r pryderon hynny, ac a yw eich adran wedi gwneud unrhyw sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch y newidiadau?

**Edwina Hart:** I am aware of the issues that you raise. I would have to check to see whether my department has formally made any representations on that issue and I will respond to you by placing a letter in the Library.

**Edwina Hart:** Rwyf yn ymwybodol o'r materion rydych yn eu codi. Byddai'n rhaid imi holi a yw fy adran wedi gwneud unrhyw sylwadau ffurfiol ar y mater hwnnw, a byddaf yn ymateb ichi drwy roi llythyr yn y Llyfrgell.

### Mynediad Band Eang

### Broadband Access

***9. David Rees:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Llywodraeth Cymru i wella mynediad band eang yng Nghymru. OAQ(4)0143(BET)*

***9. David Rees:*** *Will the Minister provide an update on the Welsh Government's work to improve broadband access in Wales. OAQ(4)0143(BET)*

**Edwina Hart:** We have completed the procurement process for the next generation broadband for Wales project and are preparing to award the contract. As outlined in the programme for government, the project will seek to ensure that homes and businesses across Wales have access to high-speed broadband by 2015.

**Edwina Hart:** Rydym wedi cwblhau'r broses caffael ar gyfer prosiect band eang y genhedlaeth nesaf i Gymru, ac yn paratoi i ddyfarnu'r contract. Fel yr amlinellwyd yn y rhaglen lywodraethu, bydd y prosiect yn ceisio sicrhau bod cartrefi a busnesau ledled Cymru yn gallu manteisio ar fand eang cyflym erbyn 2015.

**David Rees:** Since I tabled my question, BT has made further announcements on improving broadband access through Valleys communities through copper-based infrastructure, which is to be welcomed, but that is not as fast as fibre optics. However, given your answer, could you provide more detail or timescales for the next generation broadband projects across Wales?

**David Rees:** Ers imi gyflwyno fy nghwestiwn, mae BT wedi gwneud cyhoeddiadau eraill ar wella mynediad band eang drwy gymunedau'r Cymoedd, a hynny drwy gyfrwng rhwydwaith copr. Rhaid croesawu hyn, ond nid yw'r cysylltiad mor gyflym â chysylltiad ffibr optig. Fodd bynnag, o ran eich ateb, a allech roi mwy o fanylion neu amserlenni ar gyfer prosiectau band eang y genhedlaeth nesaf ar draws Cymru?

**Edwina Hart:** It is intended that the fibre-

**Edwina Hart:** Y gobaith yw y bydd rhaglen

optic based next generation programme will be available across Wales by 2015. This project will tackle a range of geographical issues, including the harder-to-reach and easier coverage areas simultaneously. That will include broadband slow spots and notspots, targeting rural and deprived areas.

y genhedlaeth nesaf sy’n defnyddio ffibr optig ar gael ledled Cymru erbyn 2015. Bydd y prosiect hwn yn mynd i'r afael ag ystod o faterion daearyddol, gan gynnwys yr ardaloedd hawdd ac anodd eu cyrraedd ar yr un pryd. Bydd hynny'n cynnwys mannau araf a mannau gwan ar gyfer derbyn band eang, gan dargedu ardaloedd gwledig ac ardaloedd difreintiedig.

**Nick Ramsay:** You may or may not be aware that BT is currently in the process of providing high-speed broadband to nearly 7,000 homes and businesses in Abergavenny in my constituency—I can see that you are aware of that, as you are nodding—as part of its programme in south-east Wales to provide fibre broadband. Recent research has shown—again, I am sure you are aware of this—that, over 15 years, such improvements in broadband can add to the economic welfare of an average town by around £100 million. Given the massive benefits of such developments, can you tell us how you are liaising with providers such as BT to make sure that, where resources are limited, their investment is targeted so that Wales as a whole and communities in Wales can get the most possible benefit from broadband at the earliest opportunity?

**Nick Ramsay:** Efallai y byddwch yn ymwybodol bod BT wrthi'n darparu band eang cyflym i bron i 7,000 o gartrefi a busnesau yn y Fenni yn fy etholaeth—gwelaf eich bod yn ymwybodol o hynny gan eich bod yn nodio—fel rhan o'i raglen yn y de-ddwyrain i ddarparu band eang ffibr. Yn ôl gwaith ymchwil diweddar—eto, rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o hyn—dros 15 mlynedd, gall gwelliannau o'r fath mewn band eang ychwanegu tua £100 miliwn at les economaidd tref gyffredin. O ystyried manteision enfawr datblygiadau o'r fath, a allwch ddweud wrthym sut rydych yn cysylltu â darparwyr fel BT i sicrhau, lle mae adnoddau'n gyfyngedig, fod eu buddsoddiad yn cael ei dargedu er mwyn i Gymru gyfan a chymunedau Cymru allu cael y budd mwyaf posibl o fand eang ar y cyfle cyntaf?

**Edwina Hart:** It is essential that we take on board the points that you made about the appropriate liaison and understanding that we get value for money. I will be making a statement, when I am able to do so, on the full details of the broadband contract.

**Edwina Hart:** Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried y pwyntiau a wnaed gennych am y cyswllt a'r ddealltwriaeth briodol ein bod yn cael gwerth am arian. Byddaf yn gwneud datganiad, pan fyddaf yn gallu gwneud hynny, am fanylion llawn y contract band eang.

**Kirsty Williams:** When will you be able to give us the full details of that statement? Given that, in my experience, it can be a long and frustrating process to get the private sector to install even a phone line in parts of my constituency, what steps will you take to ensure that my constituency is not left further behind? Secondly, the next time you see Labour MP Graham Jones, could you tell him that, far from being about having faster internet shopping, having decent internet infrastructure in places such as Brecon and Radnorshire is an economic necessity and a matter of social justice?

**Kirsty Williams:** Pryd y byddwch yn gallu rhoi'r manylion llawn inni am y datganiad hwnnw? Gan gofio, o’m profiad i, y gall cael y sector preifat i osod hyd yn oed llinell ffôn mewn rhannau o fy etholaeth fod yn broses hir a rhwystredig, pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau nad yw fy etholaeth yn cael ei gadael ar ôl fwy byth? Yn ail, y tro nesaf y byddwch yn gweld yr AS Llafur Graham Jones, a allech ddweud wrtho fod cael seilwaith rhyngrwyd priodol mewn lleoedd fel Brycheiniog a Sir Faesyfed yn rheidrwydd economaidd ac yn fater o gyfiawnder cymdeithasol, a bod mwy iddo na galluogi pobl i siopa ar y rhyngrwyd yn gyflymach?

**Edwina Hart:** I am afraid that that name does not ring any bells with me; there are 600-odd of them in the other place. In terms of dealing with issues to do with broadband, it is quite clear as far as I am concerned that what will be introduced in the contract will be most helpful. I can understand some of your frustrations as I have similar problems as a Gower AM with connections even for telephones.

**Edwina Hart:** Mae arnaf ofn nad yw'r enw hwnnw'n canu cloch i mi; mae oddeutu 600 ohonynt yn Nhŷ’r Cyffredin. O ran ymdrin â materion yn ymwneud â band eang, mae'n eithaf amlwg o'm rhan i y bydd yr hyn a fydd yn cael ei gyflwyno yn y contract yn ddefnyddiol iawn. Gallaf ddeall rhai o'ch rhwystredigaethau gan fod gennyf fi broblemau tebyg fel AC yn y Gŵyr gyda chysylltiadau ffôn hyd yn oed.

**Ardaloedd Menter**

**Enterprise Zones**

***10. Eluned Parrott:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd at sefydlu Ardaloedd Menter yng Nghymru. OAQ(4)0144(BET)*

***10. Eluned Parrott:*** *Will the Minister make a statement on progress towards the establishment of Enterprise Zones in Wales. OAQ(4)0144(BET)*

**Edwina Hart:** I will be making a statement to update Members on progress with enterprise zones on 3 July.

**Edwina Hart:** Byddaf yn gwneud datganiad i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau ynghylch datblygiadau yng nghyswllt yr ardaloedd menter ar 3 Gorffennaf.

**Eluned Parrott:** I am sure you will agree that critical to the success of our enterprise zones will be our ability to provide potential investors with the kind of facilities and infrastructure they need. I am aware of some transport issues being addressed at the St Athan enterprise zone, but is the Minister content that enterprise zones across Wales have the infrastructure they need to succeed?

**Eluned Parrott:** Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno y bydd ein gallu i roi i fuddsoddwyr posibl y math o adnoddau a seilwaith y mae eu hangen arnynt yn allweddol i lwyddiant ein hardaloedd menter. Rwyf yn gwybod am rai materion trafnidiaeth sy'n cael sylw yn ardal fenter Sain Tathan, ond a yw'r Gweinidog yn fodlon bod gan ardaloedd menter ledled Cymru y seilwaith y mae ei angen arnynt i lwyddo?

**Edwina Hart:** No, I am not content. The enterprise zone chairs and the boards are currently looking at what infrastructure requirements they want—that might include buildings and transport, and I have had very good discussions with my colleague, the Minister with responsibility for transport, on this—and at what further things they want. The boards are doing that currently and they will report back to me.

**Edwina Hart:** Na, nid wyf yn fodlon. Mae byrddau a chadeiryddion yr ardaloedd menter wrthi'n edrych ar y gofynion seilwaith y mae eu hangen arnynt—gallai'r rhain gynnwys adeiladau a thrafnidiaeth, ac rwyf wedi cael trafodaethau da iawn gyda'm cyd-Weinidog, y Gweinidog sy'n gyfrifol am Drafnidiaeth, ynghylch hyn—a beth arall y mae ei angen arnynt. Mae'r byrddau wrthi'n gwneud hynny ar hyn o bryd a byddant yn adrodd yn ôl imi.

**Eluned Parrott:** That is very interesting. Turning to Cardiff, securing the Green Investment Bank would have been a real boost for the Cardiff enterprise zone. In your letter of 25 May regarding that bid, for which I thank you, you say that the availability of suitable property, especially grade A office accommodation, is one of the two major issues to be addressed. However, in scrapping Cardiff’s planned central business district, the

**Eluned Parrott:** Mae hynny’n ddiddorol iawn. Gan droi at Gaerdydd, byddai sicrhau'r Banc Buddsoddi Gwyrdd wedi bod yn hwb go iawn i ardal fenter Caerdydd. Yn eich llythyr dyddiedig 25 Mai ynghylch y cais hwnnw-ac rwyf yn diolch ichi amdano-dywedwch mai argaeledd eiddo addas, yn enwedig swyddfeydd gradd A priodol, yw un o’r ddau fater allweddol sydd angen sylw. Fodd bynnag, ar ôl penderfynu peidio â bwrw

local authority cabinet member, Russell Goodway, gave as his reason his opinion that Cardiff has enough office space. Is there enough office space in Cardiff or not?

ymlaen â’r ardal fusnes ganolog a oedd wedi'i bwriadu ar gyfer Caerdydd, dywedodd Russell Goodway, aelod o gabinet yr awdurdod lleol, mai’r rheswm am hynny oedd bod gan Gaerdydd ddigon o swyddfeydd yn ei dyb ef. A oes digon o swyddfeydd yng Nghaerdydd ai peidio?

**Edwina Hart:** The enterprise zone itself is looking at what it requires in terms of office space. That is an ongoing discussion between me and the chairs of the enterprise zone across the piece, including Cardiff.

**Edwina Hart:** Mae'r ardal fenter ei hun yn edrych ar yr hyn y mae arni ei angen o ran swyddfeydd. Mae hynny'n drafodaeth barhaus rhyngof fi a chadeiryddion yr ardaloedd menter i gyd, gan gynnwys Caerdydd.

**Andrew R.T. Davies:** Minister, thankfully, in South Wales Central we have two enterprise zones, one in St Athan and the other in Cardiff central business district. Are you able to say what three key things are delivered by the enterprise zones to attract new investment that are different from what is offered in other parts of Wales? Is there more attractive planning or more favourable business rates? In order to succeed, it is key that they mark themselves out as having a different offer from other parts of Wales, and, indeed, other parts of the United Kingdom.

**Andrew R.T. Davies:** Weinidog, yn ffodus, mae gennym ddwy ardal fenter yng Nghanol De Cymru, un yn Sain Tathan a'r llall yn ardal fusnes Caerdydd canolog. A allwch ddweud pa dri pheth allweddol sy'n cael eu cyflwyno gan yr ardaloedd menter i ddenu buddsoddiad newydd sy'n wahanol i'r hyn a gynigir mewn rhannau eraill o Gymru? A oes cynllunio mwy deniadol neu ardrethi busnes mwy ffafriol? Er mwyn llwyddo, mae'n allweddol eu bod yn dangos bod ganddynt rywbeth gwahanol i'w gynnig na'r hyn sydd ar gael mewn rhannau eraill o Gymru ac, yn wir, mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

**Edwina Hart:** With regard to St Athan, you are most fortunate in that it markets itself in terms of what space is available and the skills of the local people; we have had enormous interest in that. It is interesting that you raise the issue of planning, as it is one of the issues raised with me with regard to enterprise zones and regulation, in terms of how quickly things can be done and what can be done. I am discussing that with the Minister with responsibility for planning, because he intends to bring forward new planning legislation. There was a most useful contribution on business rates and enterprise zones in the business rates report from Professor Brian Morgan yesterday, which will be subject to discussion during the summer months.

**Edwina Hart:** O ran ardal Sain Tathan, rydych yn ffodus iawn ei bod yn marchnata ei hun o ran faint o le sydd ar gael a sgiliau'r bobl leol; bu diddordeb mawr yn hynny. Mae'n ddiddorol eich bod yn codi'r mater cynllunio, gan ei fod yn un o'r materion a godwyd gyda mi mewn perthynas ag ardaloedd menter a rheoleiddio, o ran pa mor gyflym y gellir gwneud pethau a beth y gellir ei wneud. Rwyf yn trafod hynny â'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio, gan ei fod yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth gynllunio newydd. Roedd yr adroddiad ar ardrethi busnes a gyhoeddwyd gan yr Athro Brian Morgan ddoe yn cynnwys cyfraniad defnyddiol iawn ar ardrethi busnes ac ardaloedd menter. Bydd hwn yn destun trafodaeth yn ystod misoedd yr haf.

**Llyr Huws Gruffydd:** Pa rôl a ydych yn ei weld i’r bwrdd uchelgais economaidd newydd sydd wedi cael ei sefydlu gan awdurdodau lleol y gogledd, efallai o ran sicrhau bod y parthau menter yn y gogledd yn dod â budd economaidd ehangach i’r

**Llyr Huws Gruffydd:** What role do you see for the new economic ambitions board that has been established by local authorities in north Wales, perhaps in ensuring that the enterprise zones in north Wales bring broader economic benefits to the region?

rhanbarth?

**Edwina Hart:** I saw a press release on this matter recently. I cannot say that I have looked at it in any particular detail. It sought to say something, but I am not sure there is genuine collaboration between all of the authorities.

**Edwina Hart:** Gwelais ddatganiad i'r wasg ar y mater hwn yn ddiweddar. Ni allaf ddweud fy mod wedi edrych arno yn fanwl dros ben. Roedd yn ceisio dweud rhywbeth, ond nid wyf yn siŵr a oes cydweithio gwirioneddol rhwng yr holl awdurdodau.

**Sandy Mewies:** Minister, the announcement earlier this year that part of the Deeside enterprise zone would be eligible for enhanced capital allowances was a very welcome one. Are you in a position to give a further update on discussions with the Treasury to ensure that there is maximum flexibility in order to make the best use of these allowances in Wales?

**Sandy Mewies:** Weinidog, croesawyd yn fawr y cyhoeddiad yn gynharach eleni y byddai rhan o ardal fenter Glannau Dyfrdwy yn gymwys ar gyfer lwfansau cyfalaf uwch. A ydych mewn sefyllfa i roi diweddariad pellach ar drafodaethau gyda'r Trysorlys i sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf posibl er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r lwfansau hyn yng Nghymru?

**Edwina Hart:** Thank you for that question. We are still discussing issues with HM Treasury. However, I was advised by my officials in May that HM Treasury and HM Revenue and Customs officials had stated categorically the intention to prevent any other aid, including research and development and training assistance being made available to support investments by businesses that qualify for enhanced capital allowances. There are technical issues, but this has apparently been included in the draft Finance Bill, so we have to make further representations. If that was to occur, the benefit of enhanced capital allowances might not necessarily provide a benefit if you cannot provide all the training and other benefits on top. Therefore, this is quite a serious issue for the Welsh Government as we look at the other enterprise zones and what we can offer.

**Edwina Hart:** Diolch am y cwestiwn hwnnw. Rydym yn dal i drafod materion gyda Thrysorlys EM. Fodd bynnag, cefais wybod gan fy swyddogion ym mis Mai fod swyddogion Trysorlys EM a Chyllid a Thollau EM wedi dweud yn bendant fod bwriad i atal unrhyw gymorth arall, gan gynnwys cymorth ym maes ymchwil a datblygu a hyfforddiant, rhag cael ei ddarparu i gefnogi buddsoddiadau gan fusnesau sy'n gymwys i gael lwfansau cyfalaf uwch. Ceir materion technegol, ond mae'n debyg bod hyn wedi'i gynnwys yn y Bil Cyllid drafft, felly rhaid inni gyflwyno sylwadau pellach. Pe bai hynny'n digwydd, os nad oes modd darparu'r holl hyfforddiant a'r manteision eraill, mae'n bosibl na fyddai manteision lwfansau cyfalaf uwch yn fanteisiol. Felly, mae hwn yn fater pur ddifrifol i Lywodraeth Cymru wrth inni edrych ar yr ardaloedd menter eraill a'r hyn y gallwn ei gynnig.

### Cyfleoedd Busnes yng Nghanol Trefi

### Business Opportunities in Town Centres

***11. Russell George:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddatblygu cyfleoedd busnes yng nghanol trefi Cymru. OAQ(4)0146(BET)*

***11. Russell George:*** *What is the Welsh Government doing to develop business opportunities in Welsh town centres. OAQ(4)0146(BET)*

**Edwina Hart:** I am exploring a range of options and have asked the Powys local growth zones task and finish group, as part of its work, to look at the specific issues affecting the key market towns of Brecon, Llandrindod Wells and Newtown. I hope that the work that it is undertaking might provide

**Edwina Hart:** Rwyf yn edrych ar amrywiaeth o opsiynau ac wedi gofyn i grŵp gorchwyl a gorffen ardaloedd twf lleol Powys, fel rhan o'i waith, edrych ar y materion penodol sy'n effeithio ar Aberhonddu, Llandrindod a'r Drenewydd, sy'n drefi marchnad pwysig. Rwyf yn

a template for other parts of Wales.

gobeithio y gall y gwaith y mae'n ei wneud fod yn batrwm ar gyfer rhannau eraill o Gymru.

**Russell George:** Thank you for your answer, Minister. Professor Morgan believes, in comparing Wales to other parts of the UK, that there should be more Government support for business improvement districts. He raises the point that BIDs in other parts of the UK are beginning to change and specialise to fit the market, with the creation of super-BIDs and sector-specific BIDs. What is the Minister’s initial view of this recommendation? Would she be prepared to pilot a sector-specific BID in mid Wales?

**Russell George:** Diolch ichi am eich ateb, Weinidog. Wrth gymharu Cymru â rhannau eraill o'r DU, mae'r Athro Morgan yn credu y dylid cael mwy o gefnogaeth gan y Llywodraeth ar gyfer ardaloedd gwella busnes. Mae'n codi'r pwynt bod ardaloedd gwella busnes mewn rhannau eraill o'r DU yn dechrau newid ac arbenigo er mwyn cyd-fynd â'r farchnad, drwy greu gwell ardaloedd gwella busnes ac ardaloedd gwella busnes sector-benodol. Beth yw barn gychwynnol y Gweinidog am yr argymhelliad hwn? A fyddai hi'n barod i dreialu ardal gwella busnes sector-benodol yn y canolbarth?

**Edwina Hart:** Like Suzy Davies, I have found the Swansea business improvement district, which she alluded to in an earlier question, to be very successful. We have had discussions with various colleagues here about the usefulness of BIDs. I am certainly quite in favour of them in terms of the way in which they can operate within local environments and that will certainly form part of my considerations during the summer.

**Edwina Hart:** Mae ardal gwella busnes Abertawe, y cyfeiriodd Suzy Davies ati mewn cwestiwn blaenorol, yn llwyddiannus iawn yn fy marn innau hefyd. Rydym wedi cael trafodaethau ag amrywiol gydweithwyr yma ynghylch pa mor ddefnyddiol yw ardaloedd gwella busnes. Rwyf fi'n sicr o'u plaid o ran y ffordd y maent yn gallu gweithredu mewn amgylcheddau lleol, a bydd hynny'n sicr yn rhan o'm hystyriaethau yn ystod yr haf.

**Alun Ffred Jones:** High streets in town centres are under extreme pressure and family firms and shops have been squeezed out of business because of competition from out-of-town shops in the main. I was speaking to the manager of a town shopping centre in my constituency on Saturday who said that between a quarter and a third of the premises in that particular shopping centre are lying empty. Do you recognise that swift action is needed to address this problem?

**Alun Ffred Jones:** Yng nghanol trefi, mae'r stryd fawr o dan bwysau aruthrol, ac mae siopau a busnesau teuluol wedi cael eu gwasgu o fusnes oherwydd cystadleuaeth gan siopau ar gyrion y dref yn bennaf. Roeddwn yn siarad â rheolwr canolfan siopa mewn tref yn fy etholaeth ddydd Sadwrn, a dywedodd fod rhwng chwarter a thraean o'r adeiladau yn y ganolfan siopa benodol honno yn wag. A ydych yn cydnabod bod angen cymryd camau ar fyrder i fynd i'r afael â'r broblem hon?

**Edwina Hart:** I recognise that action is needed on the problem, but we also have to recognise that people’s shopping patterns have changed. When people say to me that it is a shame about the shops on the high street, I look at the Tesco, Sainsbury’s and other bags in the back of their car. Therefore, there is an issue about how things have changed in society and how people have planned for things. I want to take what action I can to protect the high street, but we have to look at what town centres should look like in the

**Edwina Hart:** Rwyf yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â'r broblem, ond rhaid inni gydnabod hefyd bod patrymau siopa pobl wedi newid. Pan fydd pobl yn dweud wrthyf ei bod yn drueni am y siopau ar y stryd fawr, rwyf yn edrych ar y bagiau Tesco, Sainsbury’s ac eraill yng nghefn eu car. Felly, ceir mater sut mae pethau wedi newid mewn cymdeithas a sut mae pobl wedi cynllunio ar gyfer pethau. Rwyf am gymryd y camau y gallaf eu cymryd i warchod y stryd fawr, ond rhaid inni ystyried sut y dylai canol

future. They might not all be about retail, but about people living there and services being provided there in order to get the necessary regeneration.

trefi edrych yn y dyfodol. Efallai na fydd y camau hynny i gyd yn ymwneud â siopau. Efallai y byddant yn ymwneud â'r bobl sy'n byw yno a’r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yno er mwyn adfywio yn ôl yr angen.

**Economi Dwyrain De Cymru**

**Economy of South Wales East**

***12. Mohammad Asghar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhagolygon i economi Dwyrain De Cymru dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0135(BET)*

***12. Mohammad Asghar:*** *Will the Minister make a statement on the prospects for the economy of South Wales East in the next six months. OAQ(4)0135(BET)*

**Edwina Hart:** The prospects for south-east Wales reflect the high level of uncertainty within the wider UK economy. The Welsh Government is doing all it can to promote growth and jobs in the difficult context of the continuing eurozone crisis and UK Government’s austerity programme, which is going far too fast.

**Edwina Hart:** Mae'r rhagolygon ar gyfer y de-ddwyrain yn adlewyrchu'r lefel uchel o ansicrwydd o fewn economi ehangach y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i hyrwyddo twf a swyddi yng nghyd-destun anodd yr argyfwng y mae ardal yr ewro yn dal i’w wynebu, yn ogystal â rhaglen lem Llywodraeth y DU, sy'n mynd yn rhy gyflym o lawer.

**Mohammad Asghar:** Thank you very much for that answer, Minister. The economy of South Wales East would be greatly improved by increasing the number of new business start-ups. The UK Government has recently announced a start-up loan scheme aimed at 18 to 24-year-olds to give the next generation of entrepreneurs the finance and support to get their business ideas off the ground. What is the Welsh Government doing to encourage, develop and support young entrepreneurs in Wales?

**Mohammad Asghar:** Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddai cynyddu nifer y busnesau newydd sy'n cychwyn yn rhoi hwb sylweddol i economi Dwyrain De Cymru. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynllun benthyciadau i gychwyn sydd wedi'i anelu at bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed. Y bwriad yw rhoi cyllid a chefnogaeth i'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid er mwyn iddynt roi eu syniadau busnes ar waith. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog, i ddatblygu ac i gefnogi entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru?

2.45 p.m.

**Edwina Hart:** I concur that we have to support young entrepreneurs, and we have quite a lot of work going on within that area. On funds and investment to encourage small and medium-sized enterprises, we have launched a £14 million investment fund, which we expect to support the creation of 4,000 jobs, and we have set up a £6 million microbusiness loan fund to support at least 300 businesses. Therefore, we are putting cash into the system to help and assist. However, these uncertain times make it difficult for people to take life-changing decisions about making an investment.

**Edwina Hart:** Rwyf yn cytuno ei bod yn rhaid inni gefnogi entrepreneuriaid ifanc, ac mae gennym gryn dipyn o waith yn mynd rhagddo yn hynny o beth. O ran cyllid a buddsoddiad i hybu busnesau bach a chanolig, rydym wedi lansio cronfa fuddsoddi gwerth £14 miliwn. Y gobaith yw y bydd y gronfa honno'n cefnogi'r gwaith o greu 4,000 o swyddi. Rydym hefyd wedi sefydlu cronfa fenthyciadau gwerth £6 miliwn ar gyfer microfusnesau i gefnogi o leiaf 300 o fusnesau. Felly, rydym yn rhoi arian i mewn i'r system i helpu ac i gynorthwyo. Fodd bynnag, mae'r cyfnod ansicr hwn yn ei gwneud yn anodd i bobl

wneud penderfyniadau am fuddsoddi a allai newid eu bywydau.

**Jocelyn Davies:** Elizabeth Haywood of the south-east Wales economic forum told the Welsh Affairs Committee yesterday that the Severn crossing will probably come under the control of the Assembly Government in 2017, and that, if the toll continued, it should be used to fund infrastructure projects within the south-east Wales region. What is your view?

**Jocelyn Davies:** Ddoe, dywedodd Elizabeth Haywood o fforwm economaidd y de-ddwyrain wrth y Pwyllgor Materion Cymreig y bydd croesfan Hafren yn dod o dan reolaeth Llywodraeth y Cynulliad yn 2017 yn ôl pob tebyg, ac y dylid ei defnyddio i gyllido prosiectau seilwaith rhanbarth y de-ddwyrain os bydd y doll yn parhau. Beth yw eich barn chi am hynny?

**Edwina Hart:** I am interested in the comments from Elizabeth that you refer to. I have not had the opportunity to read her comments on that in full, but that would have to be looked at in due course if those circumstances arose.

**Edwina Hart:** Mae sylwadau Elizabeth yr ydych yn cyfeirio atynt o ddiddordeb imi. Nid wyf wedi cael cyfle i ddarllen ei sylwadau ynghylch hynny yn llawn, ond byddai’n rhaid edrych ar hynny maes o law pe bai’r amgylchiadau hynny'n codi.

### Y Diwydiant Twristiaeth

### The Tourism Industry

***13. Darren Millar:*** *Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i gefnogi’r diwydiant twristiaeth. OAQ(4)0134(BET)*

***13. Darren Millar:*** *What action is the Minister taking to support the tourism industry. OAQ(4)0134(BET)*

**Edwina Hart:** The programme for government sets out the actions being undertaken to support the tourism industry in Wales.

**Edwina Hart:** Mae’r rhaglen lywodraethu yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru.

**Darren Millar:** Thank you for that answer, Minister. I was pleased to read in a letter that you sent to me recently that you are currently working on a faith tourism action plan for Wales. I have been calling for that for some time. What are you going to do in the interim before that faith tourism action plan is drawn up to support the high-quality tourism opportunities that Wales can offer to people who are interested in a spiritual journey?

**Darren Millar:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Roeddwn yn falch o ddarllen mewn llythyr y gwnaethoch ei anfon ataf yn ddiweddar eich bod wrthi’n gweithio ar gynllun gweithredu twristiaeth ffydd ar gyfer Cymru. Rwyf wedi bod yn galw am hynny ers tro byd. Beth rydych yn mynd i'w wneud yn y cyfamser cyn i'r cynllun gweithredu hwnnw ar gyfer twristiaeth ffydd gael ei lunio, er mwyn cefnogi’r cyfleoedd twristiaeth o ansawdd uchel y gall Cymru eu cynnig i bobl sydd â diddordeb mewn taith ysbrydol?

**Edwina Hart:** I hope that we can implement the action plan quicker than we imagined so that we can use it as our starting basis. It is important that we market Wales correctly. I hope that when we have a new person in post to look at the branding and marketing, we can look at the niche marketing arrangements to develop the potential that we have in Wales to encourage that market.

**Edwina Hart:** Rwyf yn gobeithio y gallwn roi'r cynllun gweithredu ar waith yn gyflymach nag yr oeddem wedi'i ddychmygu er mwyn inni allu ei ddefnyddio fel man cychwyn. Mae’n bwysig ein bod yn marchnata Cymru'n briodol. Pan fydd gennym rywun newydd yn y swydd i edrych ar frandio a marchnata, rwyf yn gobeithio y gallwn edrych ar y trefniadau marchnata arbenigol i ddatblygu'r potensial sydd

gennym yng Nghymru i hybu'r farchnad honno.

**Bethan Jenkins:** Byddwch yn gwybod bod llwybr treftadaeth ddiwydiannol Ewrop yn cynnwys llwybr rhanbarthol de Cymru, gan gynnwys pum safle treftadaeth ddiwydiannol yn fy ardal i. O gofio’r farchnad gynyddol ym maes twristiaeth treftadaeth ddiwydiannol, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella a hybu’r llwybr rhanbarthol hwnnw? A oes gennych strategaeth ehangach i fanteisio ar y farchnad hon, sy’n tyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn?

**Bethan Jenkins:** You will be aware that the European route of industrial heritage encompasses the south Wales regional route, which includes five industrial heritage sites in my area. Bearing in mind the increasing market for industrial heritage tourism, what is the Welsh Government doing to improve and promote that regional route? Do you have a broader strategy for taking advantage of this market, which is growing year on year?

**Edwina Hart:** As I indicated in my response to Darren Millar, in the tourism strategy, we do not just look at faith but at all markets to see where the niche markets are. We are trying to develop that pattern. In due course, when the tourism panel presents its plan about how we are taking things forward, I am sure that many of these questions will be addressed.

**Edwina Hart:** Fel y dywedais yn fy ymateb i Darren Millar, yn y strategaeth twristiaeth, nid dim ond marchnadoedd ffydd rydym yn eu hystyried. Rydym yn edrych ar bob marchnad er mwyn dod o hyd i'r marchnadoedd arbenigol. Rydym yn ceisio datblygu'r patrwm hwnnw. Maes o law, pan fydd y panel twristiaeth yn cyflwyno ei gynllun ynglŷn â sut rydym yn bwrw ymlaen â phethau, rwyf yn siŵr y bydd llawer o’r cwestiynau hyn yn cael eu hateb.

**Busnesau Bach a Chanolig eu Maint**

**Small and Medium-sized Enterprises**

***14. Ann Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i’w gwneud yn haws i Fusnesau Bach a Chanolig allu cael gafael ar gyllid. OAQ(4)0139(BET)*

***14. Ann Jones:*** *Will the Minister provide an update on what actions the Welsh Government is taking to improve access to finance for SMEs. OAQ(4)0139(BET)*

**Edwina Hart:** I thank the Member for that question, because we have made clear commitments to support business throughout Wales, and our plans are set out in the programme for government.

**Edwina Hart:** Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw, gan ein bod wedi gwneud ymrwymiadau clir i gefnogi busnesau ledled Cymru. Mae ein cynlluniau wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

**Ann Jones:** Thank you for that response, Minister. I am sure that the many small and medium-sized businesses in my constituency of the Vale of Clwyd will be pleased to hear that the Welsh Government has some plans in action to assist them during what is a difficult time for businesses. What more could the Minister do to ensure that businesses in my constituency and across Wales are aware of what help is available when they have ideas, and of the areas in which the Welsh Government can help? Many businesses tell me that they fear going down a route because they are unsure whether they are on the right

**Ann Jones:** Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Rwyf yn siŵr y bydd y nifer o fusnesau bach a chanolig yn fy etholaeth yn Nyffryn Clwyd yn falch o glywed bod gan Lywodraeth Cymru gynlluniau ar waith er mwyn eu cynorthwyo yn ystod cyfnod digon anodd i fusnesau. Beth arall y gallai'r Gweinidog ei wneud i sicrhau bod busnesau yn fy etholaeth i ac ar draws Cymru yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael pan fydd ganddynt syniadau, ac o'r meysydd lle mae Llywodraeth Cymru yn gallu helpu? Mae llawer o fusnesau’n dweud wrthyf eu bod yn ofni dilyn trywydd gan eu bod yn

path, and time is money to many small and medium-sized enterprises. Can the Government do any more to assist them?

ansicr a ydynt ar y trywydd cywir, ac mae amser yn arian i lawer o fusnesau bach a chanolig. A all y Llywodraeth wneud unrhyw beth arall i'w cynorthwyo?

**Edwina Hart:** This is an issue that I come across all the time when I talk to people. I talk to a lot of people who really should know what we can offer and I find that even they do not know, so it must be difficult for small businesses to get the information that they require. The regional centre service provides good general information to small local businesses. That service has a network of 12 centres located across Wales. We will have to look at how we will publicise the network of one-stop shops when they come into being in January. In the Vale of Clwyd, the funding that we have given is projected to create 25 new jobs, just on the basis of that limited fund. I will give further consideration to how we can advertise more and get the contacts correct so that SMEs are certain about where to go for help and assistance.

**Edwina Hart:** Mae hwn yn fater yr wyf yn dod ar ei draws drwy'r amser pan fyddaf yn siarad â phobl. Rwyf yn siarad â llawer o bobl a ddylai wybod beth rydym yn gallu ei gynnig, ac yn gweld nad ydynt hwy hyd yn oed yn gwybod, felly mae’n rhaid ei bod yn anodd i fusnesau bach gael y wybodaeth y mae ei hangen arnynt. Mae gwasanaeth y ganolfan ranbarthol yn darparu gwybodaeth gyffredinol dda i fusnesau lleol bach. Mae gan y gwasanaeth hwnnw rwydwaith o 12 o ganolfannau ledled Cymru. Bydd yn rhaid inni edrych ar sut y byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhwydwaith o siopau un stop pan fyddant yn cael eu sefydlu ym mis Ionawr. Yn Nyffryn Clwyd, mae'r cyllid rydym wedi'i roi yn debygol o greu 25 o swyddi newydd, dim ond ar sail y gronfa gyfyngedig honno. Byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i sut y gallwn hysbysebu mwy a sicrhau bod y cysylltiadau'n gywir er mwyn gwneud yn siŵr bod busnesau bach a chanolig yn gwybod yn iawn ble i gael help a chymorth.

**William Graham:** Minister, you will know that Finance Wales helps larger firms in particular, given the sums of money involved, and that its interest rate is not always the most competitive but it has been successful in rearranging those loans with perhaps more conventional lenders. Do you feel that there is a greater role for Finance Wales? Further to what you were saying in answer to a previous question, should there be greater recognition of its role in financing Wales?

**William Graham:** Weinidog, byddwch yn gwybod bod Cyllid Cymru yn helpu cwmnïau mwy yn arbennig, gan ystyried y symiau o arian dan sylw, ac nad ei gyfradd llog ef yw'r un fwyaf cystadleuol bob amser. Serch hynny, mae wedi bod yn llwyddiannus wrth aildrefnu'r benthyciadau hynny gyda benthycwyr mwy confensiynol efallai. A ydych yn teimlo bod mwy o rôl i Cyllid Cymru? Yn dilyn yr hyn roeddech yn ei ddweud wrth ateb cwestiwn blaenorol, a ddylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'w rôl yn cyllido Cymru?

**Edwina Hart:** I think that Finance Wales has a good role to play. Since I have been Minister, I have certainly put more funds with it. It is going to run the microbusiness fund, for example. Its profile is perhaps not as high as it should be, which I will certainly address when I meet the chair and the chief executive at one of our regular meetings.

**Edwina Hart:** Credaf fod gan Cyllid Cymru rôl dda i'w chwarae. Ers i mi fod yn Weinidog, rwyf yn sicr wedi rhoi mwy o arian iddo. Mae'n mynd i reoli'r gronfa microfusnes, er enghraifft. Efallai nad yw ei broffil mor uchel ag y dylai fod, a byddaf yn sicr yn rhoi sylw i hynny pan fyddaf yn cael cyfarfod â'r cadeirydd a'r prif weithredwr yn un o'n cyfarfodydd rheolaidd.

**The Presiding Officer:** Question 15,

**Y Llywydd:** Mae Cwestiwn 15,

OAQ(4)0142(BET), is withdrawn.

OAQ(4)0142(BET), wedi'i dynnu'n ôl.

## Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau
## Motions to Elect Members to Committees

*Cynnig NDM5010 Rosemary Butler*

*Motion NDM5010 Rosemary Butler*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Rebecca Evans (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn lle Keith Davies (Llafur).*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Rebecca Evans (Labour) as a member of the Children and Young People Committee in place of Keith Davies (Labour).*

*Cynnig NDM5011 Rosemary Butler*

*Motion NDM5011 Rosemary Butler*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Keith Davies (Llafur) yn aelod o Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn lle Rebecca Evans (Llafur).*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Keith Davies (Labour) as a member of the Environment and Sustainability Committee in place of Rebecca Evans (Labour).*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

**The Presiding Officer:** Unless there are any objections, I propose that the votes on the motions be grouped. The question is that the motions be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, under Standing Order No. 12.36, the motions are agreed.

**Y Llywydd:** Oni bai fod unrhyw wrthwynebiadau, cynigiaf fod y pleidleisiau ar y cynigion yn cael eu grwpio. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynigion. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, o dan Reol Sefydlog Rhif 12.36, derbynnir y cynigion.

*Derbyniwyd y cynigion.*
*Motions agreed.*

## Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar Un Corff Amgylcheddol
## The Environment and Sustainability Committee's Report on the Single Environment Body

*Cynnig NDM5008 Dafydd Elis-Thomas*

*Motion NDM5008 Dafydd Elis-Thomas*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*The National Assembly for Wales:*

*Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei Ymchwiliad ar yr achos busnes dros un corff amgylcheddol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ebrill 2012.*

*Notes the report of the Environment and Sustainability Committee on its Inquiry into the business case for a single environment body which was laid in the Table Office on 27 April 2012.*

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Cynigiaf y cynnig.

**Lord Elis-Thomas:** I move the motion.

Mae'n bleser gennyf agor y ddadl hon. Cawsom sylwadau cryfion yn uniongyrchol a hefyd drwy'r cyfryngau yng Nghymru ynglŷn â phryderon rhanddeiliaid am sefydlu un corff amgylcheddol—neu Corff Adnoddau Naturiol Cymru, fel y gallwn ei alw bellach, mae'n debyg. Cytunwyd cynnal ymchwiliad byr i'r achos hwn gan benodi ymgynghorwyr arbennig i'n cynorthwyo. Rhan o strategaeth y pwyllgor hwn, fel nifer o'r pwyllgorau mawr eraill sydd gennym bellach, oedd inni wneud gwaith estynedig dros gyfnod. Gwelwch ffrwyth llafur y gwaith hwnnw ar ynni ac ar bolisi cynllunio yn weddol fuan, gobeithio. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ceisio ymateb i newidiadau i bolisi cyhoeddus, ac yn arbennig fel yr oeddent yn cael eu harloesi gan y Llywodraeth. Cymerwyd cyfnod dros bedwar cyfarfod ym misoedd Ionawr a Chwefror i gwblhau'r gwaith, a bu rhyw gasglu tystiolaeth lafar, dosbarthu holiaduron yn eang, a cheisio barn.

It is my pleasure to open this debate. We received robust comments directly and through the media in Wales about stakeholders' concerns about the establishment of a single environment body—or the Natural Resources Body for Wales, as I suppose we can now call it. We agreed to hold a brief inquiry into this issue, appointing special advisers to assist us. It was part of the strategy of this committee, as is the case with many of the large committees that we now have, to carry out extended work over a period of time. You will see the fruits of our labour on energy and planning policy relatively soon, I hope. However, we are also trying to respond to changes happening in public policy, particularly as they were being innovated by Government. We took a period of four meetings during January and February to conclude this work, and we gathered oral evidence, issued questionnaires widely and canvassed opinion.

Goddiweddwyd y gwaith hwn gan bolisi yn esblygu ar ran y Llywodraeth, ac nid wyf yn cwyno am hynny, mewn gwirionedd, ond bydd gennyf rywbeth pellach i'w ddweud amdano ymhen rhyw ddau funud—neu am effeithiau hynny, o leiaf. Fodd bynnag, gwelsom ymgynghoriad 'Cynnal Cymru Fyw' ac 'Adnoddau Naturiol Cymru' yn ymddangos yn ystod ein hymchwiliadau, a bu inni gymryd sylw manwl o'r rhain ond bu inni geisio canolbwyntio ar yr achos busnes, fel y dywedais. Mae'r gwaith hwn yn parhau. Dyna'r rhybudd i'r Gweinidog a gwn ei fod yn ymwybodol o hynny. Byddwn yn dechrau yr wythnos nesaf gan ystyried Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012, a fydd yn sefydlu'r corff newydd o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae honno'n ffurf benodol ac anarferol neu newydd, o leiaf, o sefydlu cyrff cyhoeddus, ond, beth bynnag y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn dweud amdanaf, pwy ydwyf i i gwyno am ddefnyddio deddfwriaeth yn San Steffan i sefydlu cyrff datganoledig yng Nghymru?

This work was overtaken by the evolving policy of the Government, and I am not complaining about that, if truth be told, but I may have something further to say on that in a few moments—or about the impact of it, at least. However, we saw the 'Sustaining a Living Wales' and the 'Natural Resources Wales' consultations launched during the course of our investigations, and we took detailed note of these, but we did try to concentrate on the business case, as I said. This work does continue. That is the warning to the Minister, and I know that he is very much aware of that. Next week, we will start our consideration of the Natural Resources Body for Wales (Establishment) Order 2012, which will establish the new body under the Public Bodies Act 2011. That is a specific and unusual or a new way, at least, of establishing public bodies, but, whatever the Secretary of State might have to say about me, who am I to complain about the use of Westminster legislation to establish devolved bodies in Wales?

Mae un egwyddor gyffredinol yr hoffwn wneud sylw amdani. Mae'r corff adnoddau naturiol yn cael ei greu i ddarparu llywodraethiad o safon yng Nghymru o fewn fframwaith yr amgylchedd naturiol, ond dim ond yn ddiweddar y mae'r polisi hwn wedi mynd allan i ymgynghoriad. Mae wedi bod

There is one general principle that I would like to pass comment on. The natural resources body is being created to provide quality governance in Wales within the natural environment framework, but it is only recently that this policy has gone out to consultation. It has been a surprise to us that,

yn syndod i ni ein bod wedi bod yn dioddef yn ystod yr ymchwiliad, fel y dywedais, o syndrom rhoi'r drol o flaen y ceffyl, Weinidog. Nid ydym wedi cael cyd-destun lle mae'r polisi yn cael ei ddatblygu tra bo'r cyrff yn cael eu ffurfio, ond, i raddau, fel arall.

during our inquiry, we have been suffering from a syndrome of putting the cart before the horse, Minister. We have not had a context in which the policy is being developed while the body was being configured, but, rather, it was the other way around.

Af yn awr i edrych yn fanwl ar ein hargymhellion. I ddechrau gyda'n hargymhellion sy'n ymwneud â choedwigaeth, nid wyf am wastraffu amser y lle hwn gyda moment sentimental, ond mae'r rhai sy'n fy adnabod yn gwybod fy mod wedi fy magu yng nghysgod Coedwig Gwydyr ac wedi treulio 20 mlynedd llawen iawn ger Coed y Brenin yn Nolgellau. Bellach, rwyf wedi ffeindio fy ffordd yn ôl i Goedwig Gwydyr. Felly, mae coedwigaeth yn agos iawn nid yn unig at fy nghalon ond at fy holl fywyd. Rwy'n hoff iawn o redeg ar hyd llwybrau'r goedwig—os gallaf eu dilyn. Gwn fod y Gweinidog hefyd yn mwynhau ymarfer yn yr un cyfeiriadau.

I will now turn to look in detail at our recommendations. To begin with our recommendations relating to forestry, I do not want to waste time in this place on a sentimental moment, but those who know me will know that I was brought up in the shadow of the Gwydyr Forest and spent a happy 20 years near Coed y Brenin in Dolgellau. I have by now found my way back to Gwydyr Forest. Therefore, forestry is close not only to my heart but to my whole existence. I am very fond of jogging along the forest trails—if I am able to follow them. I know that the Minister also enjoys exercising in the same kind of locations.

Fodd bynnag, mae'r ymateb dadleuol hwn yn parhau yn ystyriaeth inni ac nid ydym wedi'n perswadio bod ein pryderon bod y risgiau sy'n parhau wrth uno'r Comisiwn Coedwigaeth a'r ddau gorff arall wedi'u lleddfu. Mae ymgynghoriad ar 'Adnoddau Naturiol Cymru' yn dangos bod y pryderon hyn gyda ni o hyd. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog sicrhau ei fod yn gwerthfawrogi'r risg ychwanegol o gynnwys y Comisiwn Coedwigaeth ac, er ein bod yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi derbyn ein hargymhelliad, carem glywed rhagor y prynhawn yma, ac yn nes ymlaen, am sut y caiff y risgiau hyn eu lliniaru.

However, this contentious response remains a consideration for us, and we have yet to be persuaded that the risks that remain in unifying the Forestry Commission with the two other bodies have been assuaged. The consultation on 'Natural Resources Wales' demonstrates that these concerns remain. We asked the Minister to ensure that he fully appreciated the additional risk of including the Forestry Commission in these plans, and, while we welcome the fact that the Minister has accepted our recommendation, we would like to hear more this afternoon, and at a later date, about how these risks could be mitigated.

Mae'r ail argymhelliad ynglŷn â chael swyddogaethau caniatáu a chynghori yn rhan o'r un corff. Mae hyn wedi bod yn bryder imi ers blynyddoedd mewn lle arall, mewn Senedd arall cyn dod i fan hyn, pan oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cael ei sefydlu. Rwy'n meddwl bod Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi llwyddo i ymdopi yn weddol gyda'r gwrthdaro hwn, ond rydym yn nodi ymrwymiad y Gweinidog i sicrhau tryloywder ym mhrosesau penderfynu'r corff newydd. Byddwn yn parhau â'r craffu cyson ar y mater hwn i sicrhau nad oes gwrthdaro gormodol yn digwydd. Rydym yn

The second recommendation is about having the permitting and advisory functions as part of the single body. This issue has been of concern to me for years in another place, in another Parliament before I came here, when the Countryside Council for Wales was being set up. I believe that the Countryside Council for Wales has managed to deal relatively well with this conflict, but we note the Minister's commitment to ensure transparency in the new body's decision-making processes. We will continue to conduct regular scrutiny of this issue to ensure that there is not too much of a conflict. We appreciate the Minister's

gwerthfawrogi ymrwymiad y Gweinidog o ran yr hyn a elwir yn furiau Tsieineaidd, ond rwy'n parhau i fod â chonsýrn nad ydym yn glir sut y bydd y corff newydd yn gweithredu yn y cyfeiriad hwn.

commitment in relation to the creation of what are called Chinese walls, but I remain concerned that we are not clear about how exactly the new body will operate in that direction.

Mae'r trydydd argymhelliad ynglŷn â'r cyfnod trawsnewid. Diolch yn fawr i'r Gweinidog am dderbyn yr argymhelliad hwn, ond rydym yn awyddus i gael sicrwydd na fydd lleihad yn effeithlonrwydd y cyrff wrth i'r cyfnod hwn fynd rhagddo.

The third recommendation is about the transition period. I thank the Minister very much for accepting that recommendation, but we are eager to get an assurance that there will be no diminution in the efficiency of these bodies as this period takes place.

Mae'r pedwerydd argymhelliad yn ymwneud â mater pwysig, yn fy marn i, sef diwylliant sefydliadol. Rwyf eto yn ddiolchgar i'r Gweinidog am dderbyn yr argymhelliad hwn. Bûm yn y sefyllfa hon o'r blaen pan gyfunwyd Arolygiaeth Llygredd Ei Mawrhydi a'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol ar lefel Cymru a Lloegr, gydag effeithiau ar Gymru. Nid wyf yn sicr y gallwn roi fy llaw ar fy nghalon a dweud nad oedd y corff a ddaeth i fod ar ôl hynny, ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedyn, mewn gwirionedd wedi symud yn gyflym i greu diwylliant newydd. Rwy'n gobeithio, felly, fel yr ydym ni'n siarad, fod pobl yn dod â fersiynau terfynol eu ceisiadau am swyddi prif weithredwr a chadeirydd y corff hwn i gael eu hystyried ar frys, oherwydd mae'r dyddiad cau yr wythnos hon. Rwy'n gobeithio y cawn arweiniad clir. Yn yr achos hwn, fel y dywedwyd wrthym sawl gwaith mewn tystiolaeth, mae arweiniad clir gan brif weithredwr a chadeirydd yn hanfodol. Mae gennym arweiniad clir gan y Gweinidog, os caf ddweud hynny yn ei wyneb, ac rwy'n gobeithio y bydd yn gallu parhau i roi'r arweiniad hwnnw yn gadarn. Rwy'n diolch iddo am ei ymateb adeiladol hyd yn hyn i adroddiad y pwyllgor ac rwy'n edrych ymlaen at ymateb i'r ddadl.

The fourth recommendation relates to an important issue, in my opinion, namely organisational culture. I am again grateful to the Minister for accepting this recommendation. I have been here before, when Her Majesty's Inspectorate of Pollution and the National Rivers Authority at an England and Wales level were merged, thereby having an impact on Wales. I am not certain that I could put my hand on my heart and say that the body that came into existence at that time, to be followed by the Environment Agency, did, in reality, move quickly to create a new culture. I hope, therefore, that, as we speak, people are submitting their final applications for the posts of chief executive and chair of the new body for urgent consideration, because the closing date is this week. I hope that we will have clear leadership. In this case, as we have heard in evidence on several occasions, clear leadership from a chief executive and chair is crucial. We have clear leadership from the Minister, if I may say so in his presence, and I hope that he will be able to continue to give that strong leadership. I thank him for his constructive response to date to the committee report and I look forward to replying to the debate.

**Russell George:** I echo the words of thanks made by the Chair for those who took part in this short but focused inquiry into the business case for the single environment body. Of course, a particular vote of thanks must go to the committee clerks for all their help in producing what is the committee's first published report. The Chair has covered some of the details in the report, but I wanted to highlight a few points and re-emphasise some of the points that he has already made.

**Russell George:** Rwyf yn ategu diolchiadau'r Cadeirydd i'r rheini a gymerodd ran yn yr ymchwiliad byr ond penodol hwn i'r achos busnes dros gael un corff amgylcheddol. Wrth gwrs, rhaid diolch yn arbennig i'r clercod pwyllgor am eu holl gymorth yn cynhyrchu adroddiad cyhoeddedig cyntaf y pwyllgor. Mae'r Cadeirydd wedi sôn am rai o'r manylion sydd yn yr adroddiad, ond roeddwn am dynnu sylw at ychydig o bwyntiau ac ailbwysleisio

rhai o'r pwyntiau y mae ef wedi'u gwneud eisoes.

We want a single environment body that is streamlined, that is transparent and that allows stakeholders and members of the public to understand easily what it does, but fundamentally, we want an organisation that delivers. However, what the Government has done, and continues to do, is push forward on creating an organisation that is still unsure of what it wants it to deliver.

Rydym am weld un corff amgylcheddol sydd wedi'i symleiddio, sy'n dryloyw ac sy'n caniatáu i randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd ddeall yn rhwydd yr hyn y mae'n ei wneud, ond yn ei hanfod, rydym am gael sefydliad sy'n cyflawni. Serch hynny, yr hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud, ac yn parhau i'w wneud, yw gyrru ymlaen i greu sefydliad sy'n dal yn ansicr ynghylch yr hyn y mae am ei gyflawni.

3.00 p.m.

Recommendation 1 is on the protection of the commerciality and expertise of Forestry Commission Wales, and I have to say, Minister, that the sector is still not convinced that you and your officials have listened to their concerns, particularly about the potential for conflicts of interest that look likely to occur regarding the development of forestry land and renewable energy projects. While I welcome the Minister's acceptance of this recommendation, he still has a lot of work to do to convince them that option 4 of the business case is the preferred and most beneficial option moving forward.

Mae a wnelo Argymhelliad 1 ag amddiffyn gallu masnachol ac arbenigedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru, ac mae'n rhaid imi ddweud, Weinidog, nad yw'r sector yn argyhoeddedig eto eich bod chi a'ch swyddogion wedi gwrando ar eu pryderon, yn enwedig ynghylch y posibilrwydd o wrthdaro rhwng buddiannau sy'n debygol o godi yng nghyswllt datblygu tir coedwig a phrosiectau ynni adnewyddadwy. Er fy mod yn croesawu bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwn, mae ganddo gryn dipyn o waith i'w wneud eto i'w hargyhoeddi hwy mai opsiwn 4 yn yr achos busnes yw'r un gorau a'r dewis mwyaf manteisiol wrth symud ymlaen.

I am disappointed that the Minister has not accepted recommendation 3 of the report, and the issue of conflict resolution between the different functions of the new environment body is a principal factor on which all stakeholders want an assurance. It was evident from the responses to the natural resources consultation that stakeholders want confidence that there will be an appropriate separation between permitting and regulating functions. If the Minister is not prepared to accept the committee's recommendation, we need some specific detail from him on how he perceives that this will be robustly managed.

Rwyf yn siomedig nad yw'r Gweinidog wedi derbyn argymhelliad 3 o'r adroddiad, ac mae mater datrys gwrthdaro rhwng gwahanol swyddogaethau'r corff amgylcheddol newydd yn ffactor o bwys y mae'r holl randdeiliaid am gael sicrwydd yn ei gylch. Roedd yn amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar adnoddau naturiol bod rhanddeiliaid am deimlo'n ffyddiog y bydd bwlch priodol rhwng swyddogaethau caniatáu a rheoleiddio. Os nad yw'r Gweinidog yn barod i dderbyn argymhelliad y pwyllgor, mae angen inni gael rhywfaint o fanylion penodol ganddo am sut mae'n meddwl y caiff hyn ei reoli'n gadarn.

In terms of risk, particularly with cross-border issues regarding the EA, there are concerns about charges. Will the Minister clarify whether the new environment body will set its own charges from 1 April next year and whether those charges will be in line with the current England and Wales charges?

O ran risg, yn enwedig o ran materion trawsffiniol yng nghyswllt Asiantaeth yr Amgylchedd, mae pryderon ynglŷn â thaliadau. A wnaiff y Gweinidog egluro a fydd y corff amgylcheddol newydd yn pennu ei daliadau ei hun o 1 Ebrill y flwyddyn nesaf ac a fydd y taliadau hynny'n unol â'r taliadau

We do not want to see any Welsh inflation factor emerging.

presennol yng Nghymru a Lloegr? Nid ydym am weld ffactor chwyddiant yn codi yng Nghymru.

In terms of governance and structure, the report rightly identifies that the Minister has set demanding timescales for the establishment of the body, and the concerns from stakeholders are that the process has been rushed through, which, in the long term, may have an impact not only on the delivery outcomes, but on the culture of and working relationship between the staff employed to run the new body. I assume that the Minister has read the natural resources consultation response from Unison on this point and, if he has not, I would urge him to do so because the findings are telling.

O ran llywodraethu a strwythur, mae'r adroddiad yn llygad ei le'n dweud bod y Gweinidog wedi pennu amserlenni uchelgeisiol ar gyfer sefydlu'r corff, a phryder rhanddeiliaid yw bod y broses wedi cael ei rhuthro, ac y gallai hynny, yn y tymor hir, effeithio nid yn unig ar y canlyniadau o ran cyflawni, ond ar y diwylliant ac ar y berthynas weithio rhwng y staff a gyflogir i redeg y corff newydd. Rwyf yn tybio bod y Gweinidog wedi darllen ymateb Unsain i'r ymgynghoriad ar adnoddau naturiol ynglŷn â'r pwynt hwn ac, os nad yw, byddwn yn pwyso arno i wneud hynny oherwydd mae'r canfyddiadau'n arwyddocaol.

To conclude, this was an excellent report on the SEB business case. I know that the Chair is keen to return to the policy context of the SEB in the future, and I look forward to the committee undertaking that specific piece of work.

I gloi, roedd yr adroddiad hwn am yr achos busnes dros sefydlu un corff amgylcheddol yn rhagorol. Gwn fod y Cadeirydd yn awyddus i ddychwelyd at gyd-destun polisi'r un corff amgylcheddol yn y dyfodol, ac rwyf yn edrych ymlaen at weld y pwyllgor yn ymgymryd â'r darn penodol hwnnw o waith.

**Keith Davies:** Rwyf innau hefyd yn croesawu'r cyfle i gyfrannu, a byddaf yn edrych ar un agwedd yn arbennig. Bu creu un corff amgylcheddol yn ymrwymiad maniffesto gan y Blaid Lafur er mwyn sylweddoli amcanion 'Cymru Fyw'. Ar hyd y broses, adnabuwyd manteision clir sy'n syrthio i dri chategori, sef amcanion gwell, gwerth am arian a datganoli.

**Keith Davies:** I also welcome the opportunity to contribute, and I will be concentrating on one specific aspect. The creation of a single environmental body was a Labour Party manifesto commitment in order to realise the objectives of 'A Living Wales'. Throughout the process, clear benefits were identified that fall into three categories, namely better objectives, value for money and decentralisation.

Un o fwriadau'r drydedd fantais yw amddiffyn swyddi yng Nghymru. Gan y bydd sefydliad weddol fawr yn cael ei greu yma, mae'n naturiol inni geisio defnyddio'r adnoddau sydd gennym. Ar y funud, ffurfir gwasanaeth labordy cenedlaethol y Deyrnas Unedig gan bedwar labordy. Mae tri yn Lloegr, yng Nghaerwysg, Nottingham a Leeds, ac un yng Nghymru, sef Llanelli. Yn amlwg, bydd angen labordy newydd ar y corff amgylcheddol newydd. Weinidog, gwyddoch fy mod wedi codi'r pwynt eisoes ynglŷn â sicrhau bod y cyfrifoldeb am labordy Llanelli'n cael ei drosglwyddo i'r corff newydd, yn hytrach nag aros o dan Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr. Rwyf

One of the intentions of the third benefit is to protect jobs in Wales. As a relatively large institution will be created, it is natural that we should try to use the resources that we have. At the moment, the UK's national laboratory service consists of four laboratories. There are three in England, in Exeter, Nottingham and Leeds, and one in Wales, which is in Llanelli. Obviously, the new environmental body will require a new laboratory. Minister, you know that I have already made the point that responsibility for the Llanelli laboratory should transfer to the new body, rather than remaining with the Environment Agency in England. I have visited the laboratory several times and the staff and I have met you there,

wedi ymweld â'r labordy sawl gwaith ac rwyf i a'r staff wedi cwrdd â chi yno, a bydd ymweliad arall yn digwydd yfory. Byddai trosglwyddiad o'r fath yn gwireddu'r amcan i gadw costau'n isel ac, am fod y labordy wedi bodoli ers 1968, mae ganddo enw da rhyngwladol yn y maes amgylcheddol. Os na ddigwydd y trosglwyddiad, bydd pryderon am ddyfodol y labordy gan y bydd yn dal i fod o dan reolaeth gwasanaeth labordy cenedlaethol Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr. Fel y pwysleisiwyd, yr amcan yw amddiffyn swyddi a defnyddio'r adnoddau sydd gennym.

and another visit will take place tomorrow. Such a transfer would realise the aim of keeping costs low and, as the laboratory has existed since 1968, it has a good reputation internationally in the environmental field. If the transfer does not occur, there will be concerns about the future of the laboratory as it will still be under the control of the national laboratory service of the Environment Agency in England. As has been emphasised, the aim is to protect jobs and to use the resources that are to hand.

Fel y gwelsoch, Weinidog, mae'r cyfleusterau yn Llanelli yn rhai penigamp ac o'r ansawdd gorau. Mae sawl aelod o staff wedi'u cyflogi yno ac yn ymarfer sgiliau a gwybodaeth gwych—sgiliau yr hoffwn eu cadw yng Nghymru ac yn labordy Llanelli. Gwelir y labordy fel canolfan ymchwil, dadansoddi a datblygu arbenigol. Y staff sy'n gweithio yno yw rhai o'r mwyaf talentog a phrofiadol yn y gwasanaeth labordy cenedlaethol, gyda 76% o'r gweithlu â dros 10 mlynedd o brofiad. Yn eu plith, mae saith aelod o'r Gymdeithas Cemeg Frenhinol a thri chemegydd siartredig.

As you have seen, Minister, the facilities in Llanelli are excellent and of the best quality. A number of members of staff are employed there and employ excellent skills and knowledge—skills that I would like to retain in Wales and in Llanelli's laboratory. The laboratory is seen as a specialist research, analysis and development centre. The staff who work there are some of the most talented and experienced in the national laboratory service, with 76% of the workforce having more than 10 years of experience. Amongst them are seven members of the Royal Society of Chemistry and three chartered chemists.

Mae'r gefnogaeth flaenorol a ddarparwyd gan y labordy yn cynnwys gwaith a wnaed adeg trychineb y Sea Empress, lle bu'n dadansoddi llygredd olew crai—dadansoddiad a gafodd gydnabyddiaeth ryngwladol—ac yn creu dulliau newydd i fonitro effaith y *slick*. Cynigir sawl prosiect arbenigol yno, gan gynnwys systemau dadansoddi ar-lein sy'n arwain y byd, ynghyd â sawl enghraifft arall o'r gwaith y gallai gynnig i'r corff amgylcheddol newydd. Mae cemeg dyfroedd amgylcheddol, samplau goddefol a chyngor arbenigol ddim ond yn dair enghraifft ohonynt. Weinidog, gan fod datblygiad cynaliadwy yn ystyriaeth sylfaenol i Lywodraeth Cymru, hoffwn orffen gan ddweud fod gan y labordy a sawl contract y tu fas i Gymru a all gyfrannu'n ariannol at gostau'r corff newydd.

Previous support provided by the laboratory includes work undertaken during the Sea Empress disaster, when it analysed crude oil pollution—an analysis that received international recognition—and created new ways of monitoring the effects of the slick. Several specialist projects are offered there, including world-leading online analysis systems, as well as several other examples of work that it could offer to the new environmental body. Environmental marine chemistry, passive sampling and specialist advice are only three such examples. Minister, as sustainable development is a fundamental consideration for the Welsh Government, I would like to conclude by saying that the laboratory has several contracts from outside Wales that could contribute to meeting the costs of the new body.

Rwy'n falch o gael y cyfle i gyfrannu heddiw, a gobeithiaf y byddwch yn ystyried y mater hwn wrth sefydlu'r corff newydd.

I am pleased to have the opportunity to contribute today, and I hope that you will consider this matter when establishing the new body.

**William Powell:** It gives me pleasure for me to take part in this debate, and I join my colleagues in paying tribute to the committee team for the support it offered us in this important piece of work. The inquiry heard from a number of stakeholders across related industries and from experts in the field, and our recommendations highlight the fact that there are some serious cross-party concerns about aspects of the way in which the merger has been handled.

**William Powell:** Mae'n bleser mawr gennyf gyfrannu at y ddadl hon, ac ymunaf â'm cyd-Aelodau i roi teyrnged i dîm y pwyllgor am y cymorth a gynigiodd inni yn y darn o waith pwysig hwn. Clywodd yr ymchwiliad gan nifer o randdeiliaid o ddiwydiannau perthnasol a chan arbenigwyr yn y maes, ac mae ein hargymhellion yn tynnu sylw at y ffaith bod pryderon difrifol ar draws y pleidiau ynglŷn â rhai agweddau ar y ffordd yr ymdriniwyd â'r uno.

While my party also had this as a manifesto commitment in the last Assembly election, it is clear that, in certain respects, the Welsh Government has not done enough up to this point to justify what is seen by many as a rushed integration timeline. Nor has it done enough to dispel some of the concerns of staff members and other stakeholders. Staff from the CCW, Environment Agency Wales and the Forestry Commission feel in some cases that they have been left in the dark, and some are clearly concerned about their future employment prospects beyond April 2013. In conversations that I have had with specific staff members, it is clear that, in some cases, very little guidance has been given from further up in the organisations as to the nature of the process that is under way. In some cases, I have even heard that the only contact that certain heads of section had was a request for an itemised inventory of the equipment in their department and its possible second-hand value. That was indeed a cause for concern when I heard it from staff members, whom I shall not identify.

Er bod yr ymrwymiad hwn ym maniffesto fy mhlaid innau hefyd yn etholiad diwethaf y Cynulliad, mae'n amlwg, o ran rhai agweddau, nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon hyd yn hyn i gyfiawnhau'r hyn sydd, ym marn llawer, yn amserlen uno frysiog. Nid yw wedi gwneud digon ychwaith i leddfu rhai o bryderon aelodau'r staff a rhanddeiliaid eraill. Mae staff Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth yn teimlo, mewn ambell achos, eu bod wedi cael eu gadael yn y tywyllwch, ac mae rhai'n amlwg yn poeni am eu rhagolygon gwaith ar ôl mis Ebrill 2013. Wrth sgwrsio ag aelodau penodol o'r staff, mae'n amlwg, mewn ambell achos, mai ychydig iawn o ganllawiau sydd wedi dod oddi uwch yn y sefydliadau ynglŷn â natur y broses sydd ar y gweill. Mewn ambell achos, rwyf hyd yn oed wedi clywed mai'r unig gysylltiad a fu â rhai penaethiaid adrannau oedd cais am restr wedi'i heitemeiddio o'r offer yn eu hadran a'i werth ail-law posibl. Pan glywais hynny gan aelodau staff, nad wyf am eu henwi, roedd yn wir yn destun pryder.

It is clear that the new body has to be a success, and it has to carry with it the trust of the whole team. An integrated approach is therefore really important. For this to occur, staff need to know what is going on and the rationale behind the merger—they need to understand it and buy into it. Perhaps the clearest example of a cause for concern, as we have already heard, involves the inclusion of Forestry Commission Wales in the overall SEB package. Throughout the evidence-taking sessions, the committee heard concerns expressed time and again about the potential of the merger to undermine the commercial acumen of the forestry sector in

Mae'n amlwg ei bod yn rhaid i'r corff newydd lwyddo, a'i bod yn rhaid iddo ennyn ymddiriedaeth y tîm i gyd. Felly, mae mynd ati mewn ffordd gyfannol yn wirioneddol bwysig. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i'r staff wybod beth sy'n digwydd a'r rhesymwaith sy'n sail i'r uno—mae angen iddynt ei ddeall a'i gefnogi. Efallai mai'r enghraifft egluraf o rywbeth sy'n destun pryder, fel y clywsom eisoes, yw bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi'i gynnwys ym mhecyn cyffredinol yr un corff amgylcheddol. Drwy gydol y sesiynau tystiolaeth, clywodd y pwyllgor bryderon dro ar ôl tro ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai'r

Wales. This is important. One of Wales's leading timber companies, BSW Timber Ltd, stated that while the industry understands the reasoning behind the SEB proposals, there is concern that by merging the three organisations, the valuable stakeholder engagement and vital commercial activities of FCW could be diminished. These concerns must not be taken lightly, especially given that we are dealing with a sector in which threats and mismanagement take decades to manifest themselves in the form of output and forestry harvesting. This is a long-term business, and we need to be aware of that.

uno danseilio gallu masnachol y sector coedwigaeth yng Nghymru. Mae hyn yn bwysig. Dywedodd un o brif gwmnïau coed Cymru, BSW Timber Ltd, er bod y diwydiant yn deall y rhesymeg sy'n sail i'r cynigion ar gyfer creu un corff amgylcheddol, mae lle i boeni y gallai uno'r tri sefydliad amharu ar yr ymgysylltu gwerthfawr â rhanddeiliaid a gweithgareddau masnachol hollbwysig y Comisiwn. Ni ddylid tanbrisio'r pryderon hyn, yn enwedig gan ein bod yn ymdrin â sector lle y bydd degawdau'n mynd heibio cyn i fygythiadau a chamreoli eu hamlygu eu hunain ar ffurf allbwn a chynaeafu coedwigoedd. Busnes tymor hir yw hwn, ac mae angen inni fod yn ymwybodol o hynny.

While I am pleased to see that the Welsh Government has decided to accept the report's first recommendation, which would ensure that the commercial acumen is maintained, I am disappointed to see that, once again, we do not have outlined specific steps as to how that can be enacted in practice. The last time we discussed this merger, Kirsty Williams called on the Government to make a specific place on the board of the new body available for somebody with direct forestry expertise. I repeat that request today, as it is very important for the governance of the SEB going forward.

Er fy mod yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu derbyn argymhelliad cyntaf yr adroddiad, a fyddai'n sicrhau bod modd cynnal y gallu masnachol, rwyf yn siomedig o weld, unwaith eto, nad oes gennym gamau penodol ar glawr yn dweud sut y gellir rhoi hynny ar waith yn ymarferol. Y tro diwethaf inni drafod yr uno hwn, galwodd Kirsty Williams ar y Llywodraeth i greu lle penodol ar fwrdd y corff newydd i rywun ag arbenigedd uniongyrchol ym maes coedwigaeth. Rwyf yn ailadrodd y cais hwnnw heddiw, gan ei fod yn bwysig iawn ar gyfer llywodraethiant yr un corff amgylcheddol yn y dyfodol.

I would also be grateful if the Minister could outline what specific steps he is willing to take and what plans he has to address the n issue of cross-border forestry services outlined in section 5 of our report.

Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe gallai'r Gweinidog sôn am ba gamau penodol y mae'n barod i'w cymryd a pha gynlluniau sydd ganddo i fynd i'r afael â mater gwasanaethau coedwigaeth trawsffiniol y sonnir amdanynt yn adran 5 ein hadroddiad.

Finally, I express my regret at the Government's decision to reject recommendation 3, thereby refusing to make separate arrangements to keep permitting and the advisory services separate. This has the potential to be very harmful to the work of the overall body. Throughout the evidence sessions, it was mentioned time and again that it is very important, as our Chair has pointed out today, that the Chinese walls are maintained so that confidence in the work of the single environmental body is maintained. Nevertheless, as a whole, I hope that this report will be accepted as a valuable contribution to the analysis of the creation of

Yn olaf, hoffwn ddweud fy mod yn gresynu wrth benderfyniad y Llywodraeth i wrthod argymhelliad 3, a thrwy hynny i wrthod gwneud trefniadau ar wahân er mwyn cadw bwlch rhwng gwasanaethau caniatáu a chynghori. Gallai hyn fod yn niweidiol iawn i waith y corff drwyddo draw. Drwy gydol y sesiynau tystiolaeth, crybwyllwyd dro ar ôl tro ei bod yn bwysig iawn, fel y mae ein Cadeirydd wedi dweud heddiw, bod y muriau Tsieineaidd yn cael eu cynnal, er mwyn cynnal ymddiriedaeth yng ngwaith yr un corff amgylcheddol. Serch hynny, yn gyffredinol, rwyf yn gobeithio y derbynnir bod yr adroddiad hwn yn gyfraniad

this important body for the future of Wales's environment.

gwerthfawr at ddadansoddi creu'r corff pwysig hwn ar gyfer dyfodol amgylchedd Cymru.

**Antoinette Sandbach:** I, too, am grateful for the opportunity to speak in this debate, and I thank not only the committee staff, but the witnesses who took so much time to give evidence to the committee. It is clear, as William Powell just said, that there are serious and grave cross-party concerns reflected in this report on the establishment of a single environmental body, particularly the inclusion of Forestry Commission Wales. One of the outstanding concerns relates to the business case, which has been published before the framework of the body and its aims have been set out clearly. The results of the consultation on the natural environment framework have not been announced yet, and we are therefore still in the dark about the Welsh Government's intended policy framework, and the aims for this new body.

**Antoinette Sandbach:** Rwyf finnau'n yn ddiolchgar am y cyfle i gael siarad yn y ddadl hon, ac yn diolch, nid yn unig i staff y pwyllgor, ond i'r tystion a dreuliodd gymaint o amser yn rhoi tystiolaeth iddo. Mae'n amlwg, fel y mae William Powell newydd ddweud, bod pryderon trawsbleidiol difrifol a dwys yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn ynglŷn â sefydlu un corff amgylcheddol, yn enwedig ynglŷn â chynnwys Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae a wnelo un o'r pryderon sy'n dal i boeni pobl â'r achos busnes, sydd wedi'i gyhoeddi cyn egluro fframwaith y corff a'i amcanion. Nid yw canlyniadau'r ymgynghori ynglŷn â fframwaith yr amgylchedd naturiol wedi'u cyhoeddi eto, ac felly rydym yn dal yn y tywyllwch ynglŷn â'r fframwaith polisi y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu'i gyflwyno, a nodau'r corff newydd hwn.

There is an opportunity with the single body, particularly with the Environment Agency and the Countryside Council for Wales being merged, but it was clear in evidence to the committee that the independent assessment of the business case—especially by Mr Reader, who had been specifically employed by the Welsh Government to give an impartial view—did not include the concerns expressed by organisations about the potential for the Welsh Government to pick up costs in relation to Forestry Commission GB. It has been quite clear, because it is on the record in Hansard in another place, that the Welsh Government will be expected to pick up the costs. It has been stated on the record in Parliament that any costs associated with the setting up of the single environment body in Wales will be borne by the Welsh Government. That remains a particular concern in relation to obtaining outside, cross-border work. The business case did not address that, and neither did Mr Reader's review. He made it quite clear:

Mae creu'r un corff yn cynnig cyfle, yn enwedig wrth uno Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Wedi dweud hynny, roedd yn amlwg yn y dystiolaeth i'r pwyllgor nad oedd yr asesiad annibynnol ar yr achos busnes—yn enwedig gan Mr Reader, a oedd wedi'i gyflogi'n benodol gan Lywodraeth Cymru i gynnig barn ddiduedd—yn cynnwys y pryderon a fynegwyd gan sefydliadau ynglŷn â'r posibilrwydd y byddai Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo costau yng nghyswllt Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr. Mae wedi bod yn eithaf clir, oherwydd ei fod wedi'i gofnodi yn Hansard mewn man arall, y bydd disgwyl i Lywodraeth Cymru ysgwyddo'r costau. Mae ar glawr yn y Senedd y bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r un corff amgylcheddol yng Nghymru'n cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Mae hynny'n destun pryder o hyd yng nghyswllt cael gafael ar waith trawsffiniol o'r tu allan. Nid oedd yr achos busnes yn mynd i'r afael â hynny, ac ni wnaeth adolygiad Mr Reader ychwaith. Fe'i gwnaeth yn eithaf clir:

'I did not take that into account fully at the point at which I produced my report and completed my contract.'

Ni wneuthum ystyried hynny'n llawn wrth lunio fy adroddiad a chwblhau fy nghontract.

In fact, the report was signed off on 9 November before concerns by Forestry Commission Wales were passed to Ministers on 18 November. That remains a point of real concern.

A dweud y gwir, cwblhawyd yr adroddiad ar 9 Tachwedd cyn trosglwyddo pryderon Comisiwn Coedwigaeth Cymru i Weinidogion ar 18 Tachwedd. Mae hynny'n dal yn destun pryder gwirioneddol.

I echo William Powell's point about recommendation 3 not being accepted. Again, it was quite clear that there were real and significant concerns from stakeholders about the potential conflict. That could ensnare the Welsh Government in considerable costs around judicial review and legal expenses. It would be of concern if those types of early interactions with the single body result in judicial review because potential conflict had not been appropriately addressed.

Ategaf bwynt William Powell ynglŷn â gwrthod argymhelliad 3. Unwaith eto, roedd yn eithaf amlwg bod pryderon gwirioneddol a sylweddol gan randdeiliaid am y gwrthdaro posibl. Gallai hynny olygu y byddai Llywodraeth Cymru yn ei chael ei hun ynghlwm â chostau sylweddol yn sgîl treuliau adolygiadau barnwrol a chyfreithiol. Byddai'n destun pryder petai'r mathau hynny o ryngweithio cychwynnol â'r un corff yn arwain at adolygiad barnwrol oherwydd nad oedd gwrthdaro posibl wedi cael sylw priodol.

Finally, there are already examples, as a result of the setting up of this single body, of services to stakeholders, both in the forestry sector and other sectors, being impacted. Minister, I know that you have had a letter from me recently about forestry project officers, which deals with the point that planting under the Glastir woodland creation schemes is being delayed due to staff absences. There are real concerns. In particular, RenewableUK has contacted Assembly Members to indicate that there are concerns about ongoing support and whether or not appropriate arrangements will be in place for handover. The Minister has a long way to go to convince forestry and other stakeholders, including the agriculture industry and the energy industry, that his Government will avoid repeating the mistakes made when other public bodies have been merged.

Yn olaf, mae enghreifftiau ar gael eisoes, yn sgîl sefydlu'r un corff hwn, bod hyn yn effeithio ar wasanaethau i randdeiliaid, yn y sector coedwigaeth ac mewn sectorau eraill. Weinidog, gwn ichi gael llythyr oddi wrthyf yn ddiweddar am swyddogion prosiect coedwigaeth. Mae'n cyfeirio at y pwynt bod plannu o dan gynlluniau creu coetiroedd Glastir yn wynebu oedi oherwydd absenoldeb staff. Mae pobl yn poeni o ddifrif. Yn benodol, mae RenewableUK wedi cysylltu ag Aelodau'r Cynulliad i ddweud bod pobl yn poeni am y cymorth parhaus ac a fydd trefniadau priodol ar waith neu beidio ar gyfer y trosglwyddo. Mae gan y Gweinidog ffordd bell i fynd i argyhoeddi'r maes coedwigaeth a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y diwydiant amaethyddol, a'r diwydiant ynni, y bydd ei Lywodraeth yn osgoi ailadrodd y camgymeriadau a wnaethpwyd wrth uno cyrff cyhoeddus eraill.

3.15 p.m.

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I begin by thanking the Chair and members of the Environment and Sustainable Development Committee for their views and recommendations.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Dechreuaf drwy ddiolch i'r Cadeirydd ac i aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy am eu barn a'u hargymhellion.

Sustainability lies at the heart of the Welsh Government's agenda in Wales and we are committed to legislating on sustainable development in our programme for

Mae cynaliadwyedd wrth galon agenda Llywodraeth Cymru yng Nghymru ac rydym wedi ymrwymo i ddeddfu ar ddatblygu cynaliadwy yn ein rhaglen lywodraethu.

government. I very much believe that the creation of a new single body will contribute directly to these objectives and commitments. It is about enhancing our environment and natural resources for the present and future wellbeing of people in Wales.

Rwyf yn credu'n gryf iawn y bydd creu un corff newydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr amcanion a'r ymrwymiadau hyn. Mae a wnelo â chryfhau ein hamgylchedd a'n hadnoddau naturiol er lles pobl Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

The case for the single environment body has been well made. It is about integrating our effort and joining up so that we get better outcomes in terms of our environment and natural resources. It is about having a Wales focus, which is very much in accordance with devolution, and about making more effective use of resource, so that we get better front-line delivery. All of that is crucial. However, when it comes to whether there is an element of putting the cart before the horse in taking forward the single environment body while we are still consulting on 'Sustaining a Living Wales', I can say that I believe that the case for a single environment body stands on its own, because of the reasons that I have just given. It is absolutely in line with that greater integration and more joined-up approach that we propose in 'Sustaining a Living Wales'. Therefore, the two pieces of work are very much one and, in fact, we are taking them forward on that basis.

Mae'r achos dros un corff amgylcheddol yn un cryf. Mae a wnelo ag integreiddio ein hymdrech a chydgysylltu er mwyn inni sicrhau gwell canlyniadau i'n hamgylchedd a'n hadnoddau naturiol. Mae a wnelo â chanolbwyntio ar Gymru, sy'n gydnaws iawn â datganoli, ac a defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol, er mwyn inni gyflawni'n well ar y rheng flaen. Mae hynny i gyd yn hollbwysig. Serch hynny, o ran a oes elfen o roi'r cart o flaen y ceffyl wrth inni fwrw ymlaen â'r un corff amgylcheddol a ninnau'n dal i ymgynghori ynglŷn â 'Chynnal Cymru Fyw', gallaf ddweud fy mod yn credu bod y ddadl o blaid un corff amgylcheddol yn sefyll ar ei phen ei hun, am y rhesymau yr wyf newydd eu rhoi. Mae'n gwbl gyson â'r integreiddio helaethach a'r dull mwy cydgysylltiedig yr ydym yn ei gynnig yn 'Cynnal Cymru Fyw'. Felly, mae'r ddau ddarn o waith i raddau helaeth iawn yn un, ac, yn wir, rydym yn bwrw ymlaen â hwy ar y sail honno.

I turn to the two general issues raised in the foreword to the report. The issues regarding the inclusion of Forestry Commission Wales were properly considered in my decision. I am pleased to say that the Forestry Commission has engaged constructively with the programme team, and I have every expectation that we will reach sensible and constructive agreement on the areas where concern has been raised. I have had a number of meetings and have made a number of visits in Wales to private forestry interests, which are encouraging for the future. The business case has, of course, been internally and externally examined in taking these matters forward.

Trof at y ddau fater cyffredinol a godwyd yn y rhagair i'r adroddiad. Ystyriwyd y materion sy'n ymwneud â chynnwys Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn briodol yn fy mhenderfyniad. Yr wyf yn falch o ddweud i'r Comisiwn Coedwigaeth ymgysylltu'n adeiladol â thîm y rhaglen, ac rwyf yn wir yn disgwyl y byddwn yn sicrhau cytundeb adeiladol a chall ynglŷn â'r meysydd lle y codwyd pryder. Rwyf wedi cael sawl cyfarfod ac wedi ymweld â nifer o gyrff coedwigaeth preifat yng Nghymru, sy'n galonogol ar gyfer y dyfodol. Mae'r achos busnes, wrth gwrs, wedi cael ei archwilio'n fewnol ac yn allanol wrth fwrw ymlaen â'r materion hyn.

I now turn to the committee recommendations. I am in complete accord with the committee's views on the commercial acumen and skills that exist within the Forestry Commission. It is important that we get the culture of the new body right, and forestry will be significant in that. We will continue with our woodland

Trof yn awr at argymhellion y pwyllgor. Rwyf yn gwbl gytûn â barn y pwyllgor am y gallu a'r sgiliau masnachol sydd o fewn y Comisiwn Coedwigaeth. Mae'n bwysig inni sicrhau bod diwylliant y corff newydd yn iawn gennym, a bydd coedwigaeth yn elfen sylweddol o hynny. Byddwn yn parhau gyda'n strategaeth coetiroedd ac yn cadw'r

strategy and retain the certified woodland management status, which is important to the continued supply of timber to the markets that support our rural economy. I very much hope that the new body will make very good use of the acumen and the skills that are contained within the Forestry Commission, particularly with regard to those commercial aspects. I understand Dafydd Elis-Thomas's commitment to forestry, for example, in relation to Coed-y-Brenin and forestry across Wales; we very much share that commitment in the Welsh Government.

statws rheoli coetiroedd ardystiedig, sy'n bwysig er mwyn sicrhau bod y cyflenwad coed i'r marchnadoedd sy'n cynnal ein heconomi wledig yn parhau. Rwyf yn gobeithio'n fawr iawn y bydd y corff newydd yn defnyddio'r gallu a'r sgiliau sydd yn y Comisiwn Coedwigaeth yn dda iawn, yn enwedig gyda golwg ar yr agweddau masnachol hynny. Rwyf yn deall ymrwymiad Dafydd Elis-Thomas i goedwigaeth, er enghraifft, yng nghyswllt Coed-y-Brenin a choedwigaeth ledled Cymru; rydym ninnau yn Llywodraeth Cymru'n rhannu'r ymrwymiad hwnnw i raddau helaeth iawn.

In terms of permitting and advisory functions, as stated in our response, we very much agree, in terms of the operations of the body, that there will be a need to have distinct, robust and effective processes in place to ensure that decisions and outcomes are clear and transparent. We will expect to see information published on decisions—decision documents explaining internal advice that led to those decisions and documents recording the decisions. However, where other organisations are concerned, we believe that it is important to have as early as possible involvement of advisory staff, properly integrated into the permitting process, because that is the best way to deliver good environmental outcomes and a robust and predictable service to customers.

O ran y swyddogaethau caniatáu a chynghori, fel y dywedwyd yn ein hymateb, rydym yn cytuno i raddau helaeth iawn, o ran gweithrediadau'r corff, y bydd angen prosesau cadarn ac effeithiol, ar wahân, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau a chanlyniadau'n glir ac yn dryloyw. Byddwn yn disgwyl gweld gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi am benderfyniadau—dogfennau penderfynu'n esbonio'r cyngor mewnol a arweiniodd at y penderfyniadau hynny a dogfennau'n cofnodi'r penderfyniadau. Serch hynny, o ran sefydliadau eraill, credwn ei bod yn bwysig cynnwys staff cynghori cyn gynted ag y bo modd, gan eu hintegreiddio'n iawn i'r broses ganiatáu, oherwydd dyna'r ffordd orau o sicrhau canlyniadau amgylcheddol da a gwasanaeth cadarn a rhagweladwy i gwsmeriaid.

With regard to the third recommendation, I have noted the comments that have been made regarding the need to maintain the delivery and business continuity provided by the three bodies in the period leading up to vesting day. It is vital that we see a continued delivery of statutory obligations, together with the outputs agreed with the Welsh Government. To that end, officials in my department hold regular review meetings with the bodies to look at the delivery of outputs agreed between us. In addition, the programme team regularly meets the chief executives and non-executive directors of the three bodies to discuss workload and resource demand associated with the development of the new body. I remain satisfied that, at present, the programme and the bodies are adequately resourced to deliver what has been agreed.

O ran y trydydd argymhelliad, rwyf wedi nodi'r sylwadau ynglŷn â bod angen sicrhau bod y dilyniant o ran cyflawni ac o ran busnes a ddarperir gan y tri chorff yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod hyd at y diwrnod breinio. Mae'n hanfodol inni weld parhad yn narpariaeth y dyletswyddau statudol, ynghyd â'r allbynnau y cytunir arnynt gyda Llywodraeth Cymru. At y diben hwnnw, bydd swyddogion yn fy adran yn cynnal cyfarfodydd adolygu rheolaidd â'r cyrff i edrych ar gyflawni'r allbynnau y byddwn wedi cytuno arnynt. At hynny, bydd tîm y rhaglen yn cyfarfod â'r prifweithredwyr ac â chyfarwyddwyr anweithredol y tri chorff yn rheolaidd i drafod y llwyth gwaith a'r galw am adnoddau sy'n gysylltiedig â datblygu'r corff newydd. Yr wyf yn fodlon o hyd bod gan y rhaglen a'r cyrff ddigon o adnoddau, ar hyn o bryd, i gyflawni'r hyn y cytunwyd

arno.

On the fourth recommendation, I am pleased to confirm that work has already begun on creating a new and coherent organisational culture. We recognise that that is extremely important to the proper functioning of the new body in the way that we would all want to see. The senior management teams in the organisations have already held a series of staff meetings. On staff issues, we have had a wide range of events and it is important that we persist with that. Staff are crucial to the delivery and success of the transitional arrangements and the new body itself. Therefore, a series of staff meetings have been held by the senior management teams to explore what the changes mean for staff and for the future. Programme team members have attended these meetings to provide context and detailed work on corporate identity and change management is already in progress. It is vital, as Dafydd Elis-Thomas mentioned, once the new board and management team have been appointed, that the intensity of the work increases. We would expect a three to five-year plan to be set in place initially to give clarity as to how the organisational culture will inform the early work of the body.

O ran y pedwerydd argymhelliad, rwyf yn falch o gadarnhau bod gwaith wedi dechrau eisoes ar greu diwylliant sefydliadol newydd a chydlynol. Sylweddolwn fod hynny'n eithriadol o bwysig er mwyn i'r corff newydd weithredu'n briodol yn y ffordd y byddem i gyd am ei weld yn gweithredu. Mae'r uwch dimau rheoli yn y sefydliadau eisoes wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd staff. O ran materion sy'n ymwneud â staff, rydym wedi cynnal ystod eang o ddigwyddiadau ac mae'n bwysig inni ddyfalbarhau â hyn. Mae'r staff yn hollbwysig er mwyn cyflawni'r trefniadau pontio a sicrhau eu bod yn llwyddo ynghyd â sicrhau llwyddiant y corff newydd ei hun. Felly, mae cyfres o gyfarfodydd staff wedi'u cynnal gan yr uwch dimau rheoli i archwilio beth fydd y newidiadau'n ei olygu i'r staff ac i'r dyfodol. Mae aelodau tîm y rhaglen wedi mynychu'r cyfarfodydd hyn er mwyn darparu'r cyd-destun ac mae'r gwaith manwl ar hunaniaeth gorfforaethol a rheoli newid eisoes ar waith. Mae'n hollbwysig, fel y dywedodd Dafydd Elis-Thomas, ar ôl i'r bwrdd a'r tîm rheoli newydd gael eu penodi, bod y gwaith yn dwysáu. Byddem yn disgwyl gweld sefydlu cynllun tair i bum mlynedd i ddechrau er mwyn cynnig eglurdeb ynghylch sut y bydd diwylliant y sefydliad yn sail i waith cynnar y corff.

On some of the other points mentioned, I say to Keith Davies that our plans include the transfer of the Llanelli laboratory into the new body to support its work in Wales. We greatly value the expertise of the Llanelli laboratory, as described by Keith Davies. On Russell George's point about charges levied by the new body, the second Order that we will take forward, in dealing with the transfer of functions, will deal with continuity around charges and direct comparability, so I can give the Member that assurance.

O ran rhai o'r pwyntiau eraill a grybwyllwyd, dywedaf wrth Keith Davies fod ein cynlluniau'n cynnwys trosglwyddo labordy Llanelli i'r corff newydd i gynnal ei waith yng Nghymru. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr arbenigedd labordy Llanelli, fel y'i disgrifiwyd gan Keith Davies. O ran pwynt Russell George am y taliadau a godid gan y corff newydd, bydd yr ail Orchymyn y byddwn yn bwrw ymlaen ag ef, wrth ymdrin â throsglwyddo swyddogaethau, yn ymdrin â chysondeb o ran taliadau a chymharedd uniongyrchol, felly gallaf sicrhau'r Aelod ynglŷn â hynny.

I have listened carefully to the comments made this afternoon. I remain convinced of the need for the single environment body. We are developing a Wales-focused body, created to support our sustainable development policies and to deliver outcomes for the benefit of the people of Wales. It will

Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar y sylwadau y prynhawn yma. Rwyf yn argyhoeddedig o hyd bod angen yr un corff amgylcheddol. Rydym yn datblygu corff sy'n canolbwyntio ar Gymru ac sydd wedi'i greu i gefnogi ein polisïau datblygu cynaliadwy ac i sicrhau canlyniadau er budd pobl Cymru. Bydd yn

provide a better use of resources for front-line delivery. I thank the committee for its report and this debate, which has assisted us in taking this agenda forward.

cynnig gwell ffordd o ddefnyddio adnoddau er mwyn cyflawni ar y rheng flaen. Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am ei adroddiad ac am y ddadl hon, sydd wedi ein cynorthwyo i fwrw ymlaen â'r agenda hon.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Diolch i aelodau'r pwyllgor a gymerodd ran yn y ddadl a diolch yn arbennig i'r Gweinidog am fanteisio ar y cyfle a gynigiwyd iddo i roi ychydig mwy o sicrwydd inni ar y materion yr oeddem yn gofidio amdanynt. Canolbwyntiodd Russell George a William Powell, yn ddigon teg, ar argymhelliad 2, ymhlith pethau eraill, ond rwy'n meddwl y byddwn am sicrhau bod y trefniadau llywodraethiant a'r gwahaniaeth pwyslais rhwng caniatáu a chynghori yn cael eu dilyn yn ofalus wrth i'r sefydliad gael ei gychwyn ac wrth iddo aeddfedu.

**Lord Elis-Thomas:** I thank members of the committee who participated in the debate and I give particular thanks to the Minister for taking the opportunity afforded to him to give us a little more assurance on the issues that we were concerned about. Russell George and William Powell, quite fairly, concentrated on recommendation 2, among other things, but I think that we would want to ensure that the governance arrangements and the difference of emphasis in permitting and advising would be carefully abided by as the organisation is established and as it matures.

Nid oeddwn am godi hen gwestiynau anodd megis y pwerdy i lawr ym Mhenfro, ond rydym wedi gweld enghreifftiau lle roedd gwahanol bwyslais gan y cyrff hyn ar wahân, felly bydd cyd-gysylltu caniatadau yn hollbwysig. Fel dywedodd y Gweinidog yn y sicrwydd a gawsom, bydd yn cyhoeddi'r trafodion a'r papurau ynglŷn â dod i'r sefyllfa honno ac, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, y cyngor manwl a gwyddonol hefyd a geir mewn achlysuron fel hyn. Nid wyf yn credu bod y goleuni wedi llewyrchu yn ddigonol yn y gorffennol ar ein systemau penderfyniadau cynllunio ni. Rwy'n ddiolchgar iawn hefyd i William a Russell am roi sylw i'r argymhellion hynny a'r argymhellion ynglŷn â choedwigaeth.

I did not want to raise old difficult questions such as those concerning the power station down in Pembroke, but we have seen examples where there has been a different emphasis by these separate bodies, therefore the co-ordination of permitting powers will be crucial. As the Minister said in the assurance that we were given, he will publish the deliberations and the papers related to achieving that position and, to the extent that it is possible, the detailed and scientific advice that is provided in such cases. I do not believe that sufficient light has been shone in the past on our planning decision-making regimes. I am also very grateful to William and Russell for covering those recommendations and the recommendations about forestry.

Diolch i Antoinette Sandbach unwaith eto am fod yn llais eglur dros goed yng Nghymru. Mae coedwigaeth fasnachol yng Nghymru yn saff tra bod gennym Antoinette, sy'n dirfeddianwraig yn ei hawl ei hun yn fy rhan i o'r gogledd. Mae ei chyfraniad hi yn lleisio barn y busnes hwn yn allweddol bwysig. Rwy'n meddwl bod y pwyslais yr ydym wedi ei gael wedi sicrhau'r ymateb priodol.

I thank Antoinette Sandbach once again for being a clear advocate for forestry in Wales. Commercial forestry in Wales is safe whilst we have Antoinette, who is a landowner in her own right in my part of north Wales. Her contribution in being an advocate for this sector is crucially important. I think that the emphasis that we have heard has engendered the appropriate response.

Hoffwn hefyd groesawu Keith i'r pwyllgor ac i'r teulu amgylchedd a chynaliadwyedd yn y lle hwn. Rwy'n gwybod am ei ddiddordeb anferthol yn y maes hwn ar hyd y blynyddoedd, ac yn enwedig yr agweddau

I also welcome Keith to the committee and to the environment and sustainability family in this place. I know of his huge interest in this sector over a number of years, particularly in the educational aspects of it. I look forward

addysgol. Edrychaf ymlaen at gydweithio ymhellach gydag ef ar hyn. Mae ymchwil gwyddonol o bob math a'r ymchwil o safon ryngwladol y cyfeiriodd ato o ran y sefyllfa yn Llanelli yn allweddol bwysig. Fi yw'r cyntaf, fel rhywun sy'n gyfaill personol i lawer iawn o staff y cyrff sy'n cael eu huno, i ddiolch am hynny. Maent wedi rhoi llawer o'u hynni mewn sefyllfa anodd ac maent wedi dangos ymroddiad. Felly, mae'n bwysig inni sicrhau ein bod yn edrych ar eu holau. Mae cynnal lleoliadau corff amgylcheddol mewn gwahanol rannau o Gymru yn rhywbeth rydym i gyd am ei weld yn parhau.

to collaborating further on this. Scientific research of all kinds and the research of international standard to which he referred in relation to the situation in Llanelli are crucially important. I am the first, as one who is a personal friend of many of the staff of the bodies that are to be merged, to say thanks for that. They have employed a great amount of their energy in a difficult situation and they have shown commitment. Therefore, it is important that we ensure that we look after them. Maintaining the environmental body sites in various parts of Wales is something that we would all want to see continued.

Rydym wedi cael dadl ddefnyddiol iawn o safbwynt ymrwymiad y Gweinidog. Byddwn yn parhau i ddilyn y cwrs cyfuno hwn oherwydd mae'n gyfuniad gwirioneddol gynhyrfus i bawb ohonom sydd wedi byw yng nghanol amgylchedd Cymru, fel y mae'r rhan fwyaf ohonom, ar hyd y blynyddoedd.

We have had a very useful debate in terms of the Minister's commitment. We will continue to follow the story of this merger because it is a truly exciting development for every one of us who has lived in the middle of Wales's environment, as most of us have, over the years.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r rhanddeiliaid a'r tystion a gyfrannodd at waith y pwyllgor. Fel dywedodd Antoinette, rhoesant lawer o amser i ni a chawsom dystiolaeth hynod o finiog. Roedd yn bleser arbennig i mi i gydweithio unwaith eto gyda'r Athro Terry Marsden fel un o'n ymgynghorwyr—gŵr y mae ei gyfraniad rhyngwladol i faterion gwledig, yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol, yn ddihareb—ac, wrth gwrs, i'r cyfreithiwr amgylcheddol nodedig, yr Athro Bob Lee, y ddau yn ymwneud â datblygiad cynaliadwy a chyfraith amgylcheddol ym Mhrifysgol Caerdydd. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad yr ydym yn ei gael i'n gwaith fel pwyllgorau gan arbenigwyr fel hyn sydd mor barod i roi o'u gwasanaeth i ni.

I also wish to thank the stakeholders and the witnesses who contributed to the committee's work. As Antoinette said, they gave us a great deal of their time and we had exceptionally focused evidence. It was a huge pleasure for me to collaborate once again with Professor Terry Marsden as one of our special advisers—a man whose international contribution to rural affairs, theoretically and practically, is the stuff of legend—and, of course, the notable environmental solicitor, Professor Bob Lee, both of whom are involved with sustainable development and environmental law at Cardiff University. We appreciate the contribution that we receive to our committee work from special advisers such as these, who are so willing to give of their time.

Hoffwn hefyd ddiolch i wasanaethau ymchwil, cyfreithiol a phwyllgorau'r Cynulliad. Nid oeddwn yn gwybod sut y byddai'r pwyllgorau newydd mawr sydd gennym yn gweithio yn ymarferol, ond rwyf wedi mwynhau yn arbennig ymwneud â staff gwasanaethau ymchwil, gweinyddol a chyfreithiol y pwyllgor hwn oherwydd eu bod yn deall sut i weithio yn agos gydag Aelodau, ac Aelodau sydd drwy ymchwiliadau o'r natur hwn yn paratoi eu hunain ar gyfer y deddfu y bydd yn rhaid ei wneud yn ystod y misoedd sydd i ddod.

I would also like to thank the Assembly's research, legal and committee services. I did not know how our new super-committees would work in practice, but I have particularly enjoyed working with this committee's staff from the research, administrative and legal services because they know how to work closely with Members, and Members who are preparing themselves through inquiries of this nature for the legislation that will have to be dealt with in the coming months. We look forward to the Minister bringing Bills to us as soon as

Gorau po gyntaf y bydd y Gweinidog yn dod â Biliau atom fel y gallwn ddechrau ar y gwaith hwnnw.

possible so that we can commence that work.

3.30 p.m.

Felly, dim ond dechrau ar ein gwaith o ofalu dros ddatblygiad y corff hwn yr ydym o fewn fframwaith yr amgylchedd naturiol. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd yn y meysydd hyn drwy'r cyfnod trawsnewid a byddwn hefyd yn chwilio am gynnydd tuag at leihau risg ar hyd y cyfnod hwnnw. Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ymrwymiadau yn y cyfeiriad hwnnw. Byddwn yn dechrau arni eto'r wythnos nesaf a ni fyddwn yn gorffen hyd nes bydd y pedwerydd Cynulliad wedi dod i ben.

Therefore, we are only beginning our work of overseeing the development of this body within the natural environment framework. We will continue to monitor progress in these areas through the transformation period and we will also look for progress towards reducing risk during that period. We are grateful to the Minister for his commitments in that direction. We will start once again next week and we will not cease until the fourth Assembly has come to an end.

**The Presiding Officer:** The proposal is to note the Environment and Sustainability Committee's report. Does anyone object? I see that there is no objection, so the motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw nodi adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad, felly derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd Dros Dro (Sandy Mewies) i'r Gadair am 3.30 p.m.*
*The Temporary Deputy Presiding Officer (Sandy Mewies) took the Chair at 3.30 p.m.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Arian Ewropeaidd
### European Funding

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The Presiding Officer has selected amendments 1, 2 and 4 in the name of Jocelyn Davies and amendment 3 in the name of Aled Roberts. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae'r Llywydd wedi dethol gwelliannau 1, 2, a 4 yn enw Jocelyn Davies a gwelliant 3 yn enw Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 2, dad-ddetholir gwelliant 3.

*Cynnig NDM5007 William Graham*

*Motion NDM5007 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn gresynu bod Llywodraethau olynol Cymru wedi methu â manteisio i'r eithaf ar botensial cronfeydd yr UE;*

*1. Regrets that successive Welsh Governments have failed to maximise the potential of EU funds;*

*2. Yn mynegi pryder nad oes gwersi wedi cael eu dysgu yn sgîl methiant cylchoedd*

*2. Expresses concern that lessons have not been learnt by the failure of previous*

*gwariant blaenorol arian Ewropeaidd ac nad yw Llywodraeth Cymru erioed wedi comisiynu adolygiad llawn o brosiectau blaenorol; ac*

*spending rounds of European funding and the Welsh Government has never commissioned a full review of previous projects; and*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda phrifysgolion Cymru a sefydliadau yn y sector gwirfoddol a'r sector preifat i ddatblygu achos busnes i sicrhau y ceir yr effaith fwyaf bosibl o brosiectau Gwariant Ewropeaidd yn y dyfodol yng Nghymru.*

*3. Calls on the Welsh Government to work with Welsh universities, voluntary and private sector organisations in developing a business case to maximise the impact of future European Spending projects in Wales.*

**Nick Ramsay:** I move the motion.

**Nick Ramsay:** Cynigiaf y cynnig.

The Welsh Conservatives have brought this debate to the floor of the National Assembly today as Governments across the European Union, including representatives of the Welsh Government, are in the process of considering the draft proposals for EU structural funds for 2014 to 2020. Many debates on EU structural funds and the European Union in general revolve around the complex terminology that is often used in Brussels. From my time as Chair of the Enterprise and Business Committee, I have become more used to that than some—conditionality and thematic concentration and all of those buzzwords—but, actually, this is a debate about the future of Wales and about allowing Wales to make the most of the opportunities open to us—opportunities that I am sure we would all, as Assembly Members, want Wales to grasp.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cyflwyno'r ddadl hon ar lawr y Cynulliad Cenedlaethol heddiw wrth i Lywodraethau ledled yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, ystyried y cynigion drafft ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE ar gyfer 2014 i 2020. Bydd llawer o'r dadleuon ynglŷn â chronfeydd strwythurol yr UE a'r Undeb Ewropeaidd yn gyffredinol yn troi o gwmpas y derminoleg gymhleth sy'n cael ei defnyddio'n aml ym Mrwsel. Ers imi dreulio cyfnod yn Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes, yr wyf wedi dod yn fwy cyfarwydd â'r derminoleg honno nag y bydd eraill—amodoldeb a chanolbwyntio thematig a'r holl eiriau ffasiynol hynny—ond, a dweud y gwir, dadl am ddyfodol Cymru yw hon ac am ganiatáu i Gymru fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar agor inni—cyfleoedd yr wyf yn siŵr y byddem i gyd, yn Aelodau'r Cynulliad, am fachu arnynt.

It is important to recognise at the outset that there is no standstill option on European funding. The ground has well and truly shifted over recent years. Anyone will know that unless they have been living on Mars. We know that we are in difficult times; the huge problems that have engulfed the eurozone over the past year will have major implications for our economy. However, even without those circumstances, it is true to say that there has been recognition at EU level that things need to be done differently. Gone are the days when an underperforming region would simply have money thrown at it without concern for the sustainability of the economy of that area at a future point. It is clear that all of us need to adapt to the new reality—a new world.

Mae'n bwysig sylweddoli ar y dechrau nad yw sefyll yn llonydd yng nghyswllt arian Ewropeaidd yn ddewis. Mae'r tir wedi symud o ddifrif dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd pawb yn gwybod hynny, onid ydynt wedi bod yn byw ar y blaned Mawrth. Gwyddom ei bod yn gyfnod anodd arnom; y bydd gan y problemau enfawr sydd wedi llethu'r ewrobarth dros y tair blynedd diwethaf oblygiadau mawr i'n heconomi. Fodd bynnag, hyd yn oed heb yr amgylchiadau hynny, mae'n wir dweud bod cydnabyddiaeth wedi bod ar lefel yr UE bod angen gwneud pethau'n wahanol. Mae'r dyddiau pan fyddai arian yn cael ei daflu at ranbarth a oedd yn tanberfformio, heb boeni dim am gynaliadwyedd economi'r ardal honno yn y dyfodol, wedi hen fynd heibio. Mae'n amlwg

bod angen inni i gyd ymaddasu i'r realiti newydd—i fyd newydd.

As I am sure the Deputy Minister for European programmes himself knows all too well—as he undertakes his flurry of discussions around the UK and in Brussels and Strasbourg, along with UK representatives and with the Council of Ministers—we are in a position now where every €1 needs to be argued for and justified. The Welsh Government needs to play its part in committing funding in a way that does not just prop up underperforming areas, but promotes local growth and allows those areas to better support themselves in future. This place is all about sustainability and this is about the sustainability of these parts of the Welsh economy.

Fel yr wyf yn siŵr y gŵyr y Dirprwy Weinidog ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd ei hun ond yn rhy dda—wrth iddo ymgymryd â llu o drafodaethau o gwmpas y Deyrnas Unedig ac ym Mrwsel a Strasbourg, ynghyd â chynrychiolwyr y Deyrnas Unedig a Chyngor y Gweinidogion—rydym mewn sefyllfa bellach lle y mae angen dadlau dros bob €1 a'i gyfiawnhau. Mae angen i Lywodraeth Cymru chwarae ei rhan drwy ymrwymo arian mewn ffordd sy'n gwneud mwy na dim ond cynnal ardaloedd sy'n tanberfformio, ond yn hybu twf lleol hefyd ac yn caniatáu i'r ardaloedd hynny eu cynnal eu hunain yn well yn y dyfodol. Cynaliadwyedd yw un o brif egwyddorion y lle hwn ac mae a wnelo hyn â chynaliadwyedd y rhannau hyn o economi Cymru.

That has not always happened in the past. It is not just our motion that expresses concern about this; many others have also done so. A Labour MEP has also pointed it out. I will not mention him by name because normally, at such a point, David Rees will jump to his feet with an intervention. So, I will hold back on mentioning his name. Suffice it to say that he is not alone. Others, inside and outside the world of politics, have spoken about the need for us to do things differently. Indeed, the Minister for enterprise has said herself, on behalf of the Government, that things could have been done differently in the past—of course they could have. That is always the case. The Welsh Government need not get too worried about us making that accusation. Yes, we do have criticisms, but things could always have been done differently. What this is about ensuring that things are done differently in the future in a way that benefits everyone in Wales.

Nid yw hyn bob tro wedi digwydd yn y gorffennol. Nid dim ond ein cynnig ni sy'n mynegi pryder am hyn; mae llawer o gynigion eraill wedi gwneud hynny hefyd. Mae ASE Llafur wedi tynnu sylw ato hefyd. Ni chrybwyllaf ei enw oherwydd, fel rheol, ar adeg felly, bydd David Rees yn neidio ar ei draed i ymyrryd. Felly, ataliaf rhag ei enwi. Mae'n ddigon dweud nad ef yw'r unig un. Mae eraill, y tu mewn i fyd gwleidyddiaeth, a'r tu allan iddo, wedi dweud bod angen inni wneud pethau'n wahanol. Yn wir, mae'r Gweinidog menter wedi dweud ei hun, ar ran y Llywodraeth y gellid bod wedi gwneud pethau'n wahanol yn y gorffennol—ac wrth gwrs, mae hynny'n wir. Mae hynny bob tro'n wir. Nid oes angen i Lywodraeth Cymru boeni gormod ein bod yn gwneud y cyhuddiad hwnnw. Ydym, rydym yn beirniadu, ond mae bob tro'n wir y gellid bod wedi gwneud pethau'n wahanol. Mae a wnelo hyn â sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud yn wahanol yn y dyfodol mewn ffordd sydd o fudd i bawb yng Nghymru.

**David Rees** *rose—*

**David Rees** *a gododd—*

**Nick Ramsay:** I clearly did not get away with it, did I?

**Nick Ramsay:** Mae'n amlwg na lwyddais i ddianc, naddo?

**David Rees:** No, you did not. Thank you for allowing me to intervene. Obviously, you know that those comments were made, but

**David Rees:** Naddo. Diolch ichi am ganiatáu imi ymyrryd. Mae'n amlwg eich bod yn gwybod bod y sylwadau hynny wedi'u

other comments were made on the fact that things were done differently during the second tranche of structural funds. Therefore, lessons had been learned and improvements were made in that second tranche. So, there was a move forward in that sense; will you recognise that?

gwneud, ond cafwyd sylwadau eraill am y ffaith bod pethau wedi'u gwneud yn wahanol yn ystod yr ail gyfran o gronfeydd strwythurol. Felly, roedd gwersi wedi'u dysgu a phethau wedi gwella yn yr ail gyfran honno. Felly, symudwyd ymlaen yn yr ystyr hwnnw; a wnewch gydnabod hynny?

**Nick Ramsay:** I was not going to quote Derek Vaughan, but, as he said, there is recognition that the first round of European funding was perhaps not spent wisely. I do not disagree with what you said, David Rees; I am just pointing out that that comment was also made by him. However, to be fair to him, other comments have also been made by others.

**Nick Ramsay:** Nid oeddwn am ddyfynnu Derek Vaughan, ond, fel y dywedodd, mae'n gydnabyddedig na chafodd cylch cyntaf arian Ewrop ei wario'n ddoeth efallai. Nid wyf yn anghytuno â'r hyn a ddywedasoch, David Rees; nid wyf ond yn dweud iddo yntau wneud y sylw hwnnw hefyd. Serch hynny, a bod yn deg ag ef, mae pobl eraill hefyd wedi gwneud sylwadau eraill.

To be fair to the Welsh Government, hindsight is a great thing. However, it is only a great thing if we face up to where mistakes have been made and try not to repeat them. This is an apt point in the cycle to do this, because, as I say, the criteria for qualifying for structural funds have changed and are changing anyway, so we will, necessarily, as a National Assembly, and as a Welsh Government, need to change the ways in which we do things. I would like the Deputy Minister to say later how the Government has learned from its previous mistakes. Let us remember that it was hoped at one point that we would not need future rounds of funding beyond the first phase, in which case, subsequent phases of funding and successes in that regard would not have been necessary. So, let us make sure that future investment is more self-sustaining.

A bod yn deg â Llywodraeth Cymru, mae'n hawdd bod yn ddoeth wrth edrych yn ôl. Serch hynny, dim ond os gwynebwn fod camgymeriadau wedi'u gwneud a cheisio peidio â'u hailadrodd y byddwn yn dangos y doethineb hwnnw. Rydym wedi cyrraedd pwynt addas yn y cylch i wneud hyn, oherwydd, fel y dywedaf, mae'r meini prawf cymhwyso ar gyfer cronfeydd strwythurol wedi newid ac wrthi'n newid beth bynnag, felly, byddwn, o reidrwydd, ni'r Cynulliad Cenedlaethol, a Llywodraeth Cymru, yn gorfod gwneud pethau'n wahanol. Hoffwn i'r Dirprwy Weinidog ddweud yn ddiweddarach sut mae'r Llywodraeth wedi dysgu yn sgîl ei chamgymeriadau blaenorol. Gadewch inni gofio mai'r gobaith ar un adeg oedd na fyddai angen rhagor o gylchoedd ariannu arnom y tu hwnt i'r cyfnod cyntaf, ac na fyddai'r cyfnodau ariannu canlynol na llwyddiannau yn y cyswllt hwnnw wedi bod yn angenrheidiol. Felly, gadewch inni sicrhau bod y buddsoddi yn y dyfodol yn fwy hunangynhaliol.

Looking to the future, how do we maximise future funding? We need engagement—proper engagement with the private sector, with business, higher education institutions and all those stakeholders who will play a part in generating future economic wealth in those areas that have been in receipt of structural funding, and which we assume will be again. As Members will know, the Enterprise and Business Committee looked at the draft proposals for structural funds for the next period and its conclusions are well worth a

Ac edrych tua'r dyfodol, sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar yr ariannu? Mae angen inni ymgysylltu—ymgysylltu'n iawn â'r sector preifat, â byd busnes, â sefydliadau addysg uwch ac â'r holl randdeiliaid hynny a fydd yn chwarae eu rhan wrth gynhyrchu cyfoeth economaidd yn y dyfodol yn y meysydd hynny sydd wedi bod yn cael arian strwythurol, ac y tybiwn y byddant yn ei gael eto. Fel y gŵyr yr Aelodau, edrychodd y Pwyllgor Menter a Busnes ar y cynigion drafft ar gyfer cronfeydd strwythurol yn y

read. I was particularly pleased during that inquiry that the Deputy Minister for European programmes said that

cyfnod nesaf ac mae'n wir yn werth darllen ei gasgliadau. Roeddwn yn arbennig o falch yn ystod yr ymchwiliad hwnnw i'r Dirprwy Weinidog ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd ddweud

'The private sector as a whole is at the forefront of how we are planning for the next round of programmes'.

Mae'r sector preifat drwyddo draw yn arwain y ffordd o ran sut rydym yn cynllunio ar gyfer y cylch nesaf o raglenni.

That was a very welcome addition to the evidence gathered by the committee. That does, however, contrast with comments from the Federation of Small Businesses that there had not been enough engagement previously. So, I look to the Deputy Minister to say how the Welsh Government is engaging with all those stakeholders who have something to give to this process, and what feedback he has had from them on how the process is going.

Roedd hwnnw'n ychwanegiad i'w groesawu'n fawr at y dystiolaeth a gasglwyd gan y pwyllgor. Mae hynny, fodd bynnag, yn gwrthgyferbynnu â sylwadau'r Ffederasiwn Busnesau Bach nad oedd digon o ymgysylltu wedi bod o'r blaen. Felly, edrychaf ymlaen at glywed y Dirprwy Weinidog yn dweud sut mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r holl randdeiliaid hynny y mae ganddynt rywbeth i'w gynnig i'r broses hon, a pha adborth y mae wedi'i gael ganddynt ynglŷn â sut mae'r broses yn mynd rhagddi.

I note that Plaid Cymru's amendment 4 refers to

Sylwaf fod gwelliant 4 Plaid Cymru yn cyfeirio at

'an innovation strategy which will inform the EU's Horizon 2020',

'strategaeth arloesi a fydd yn sail i raglen Horizon 2020 yr EU'.

that is, the EU's research and innovation programme. Like the structural funds programme, it will have a different architecture for the next round of funding. Horizon 2020 will focus on making research and innovation much more economically relevant. In fact, that was a key recommendation in the Enterprise and Business Committee's report, which called for prioritising investment through skills and research and referred to the need to develop local supply chains.

hynny yw, rhaglen ymchwil ac arloesi'r UE. Fel sy'n wir am raglen y cronfeydd strwythurol, bydd ei phensaerniaeth yn wahanol ar gyfer y cylch ariannu nesaf. Bydd Horizon 2020 yn canolbwyntio ar wneud ymchwil ac arloesi'n fwy perthnasol i'r economi. A dweud y gwir, dyna un o brif argymhellion adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes, a oedd yn galw am flaenoriaethu'r buddsoddi drwy sgiliau ac ymchwil ac roedd yn cyfeirio at yr angen i ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol.

The Welsh higher education sector has made a very powerful case for stronger alignment between the future structural funds and the Horizon 2020 programme. The goal is to increase the competitiveness of Wales's academic research. This is about building capacity, strengthening the links between research and the spending of funding. The higher education sector has also rightly called for indicators that can measure performance in research and innovation. That is common sense. There will be certain factors outside the Welsh Government's control and I am sure

Mae sector addysg uwch Cymru wedi cyflwyno dadl gref iawn o blaid rhagor o gysoni rhwng cronfeydd strwythurol y dyfodol a rhaglen Horizon 2020. Y nod yw gwneud ymchwil academaidd Cymru yn fwy cystadleuol. Mae a wnelo hyn â meithrin gallu, cryfhau'r cysylltiadau rhwng ymchwil a gwario arian. Mae'r sector addysg uwch hefyd, a hynny'n gwbl gywir, wedi galw am ddangosyddion sy'n gallu mesur perfformiad ym maes ymchwil ac arloesi. Synnwyr cyffredin yw hynny. Bydd rhai ffactoraau penodol y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth

that that point will be made by the Deputy Minister later. I know that the Welsh Government is concerned about what is called thematic concentration—the EU's new ring-fencing of spending around certain themes, which has been labelled as far too prescriptive. It means that the Welsh Government has to think in a different way. Trying to spread resources thinly over a wide range of economic areas is no longer justifiable and would not gain the type of funding that we would hope those areas that would qualify would get. Another aspect is that the Welsh Government does not control the exchange rate, so a strengthening pound may well have implications for the amount of money that we actually get from structural funding once it is converted into pounds. All of those factors make it all the more important that the funding that areas such as West Wales and the Valleys receive is made the most of.

Cymru ac rwyf yn siŵr y gwnaiff y Dirprwy Weinidog y pwynt hwnnw wedyn. Gwn fod Llywodraeth Cymru yn poeni am yr hyn a elwir yn ganolbwyntio thematig—trefniadau newydd yr UE ar gyfer neilltuo gwariant ar gyfer themâu penodol. Mae rhai'n dweud bod hyn yn rhy rhagnodol o lawer. Mae'n golygu ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru feddwl mewn ffordd wahanol. Nid oes modd cyfiawnhau bellach ymdrechion i daenu'r adnoddau'n denau dros ystod eang o feysydd economaidd. Ni fyddai hynny'n sicrhau'r math o ariannu y byddem yn gobeithio y byddai'r ardaloedd hynny a fyddai'n gymwys yn ei gael. Agwedd arall yw nad yw Llywodraeth Cymru yn rheoli'r gyfradd gyfnewid. Felly, gallai punt sy'n cryfhau ddylanwadu ar y swm o arian a gawn mewn gwirionedd yn sgîl ariannu strwythurol ar ôl iddo gael ei drosi'n bunnoedd. Mae'r ffactorau hynny i gyd hefyd yn ei gwneud yn bwysicach byth bod ardaloedd megis Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn manteisio i'r eithaf ar yr arian a gânt.

It is important that we ensure that we make the most of the opportunities that lie ahead. We need to ensure that we use every £1 and every €1 at our disposal to support transformational, long-term economic and social change to develop what we would like to see—a high-value economy. It is true to say that Wales has a chance here, not just to qualify for funding, but to think outside the box and develop a strategy that truly brings together areas like business, higher education and research in a way that we often say should be the case, but which has not always been the case in the past. Wales really does have a second chance to get it right. I urge the National Assembly to seize that chance.

Mae'n bwysig inni sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd o'n blaen. Mae angen inni sicrhau ein bod yn defnyddio pob £1 a phob €1 sydd ar gael inni i hybu newid economaidd a chymdeithasol tymor hir sy'n trawsffurfio pethau ac yn datblygu'r hyn yr hoffem ei weld—economi uchel ei gwerth. Mae'n wir dweud bod cyfle i Gymru yma, nid dim ond i fod yn gymwys am arian, ond i feddwl y tu allan i'r blwch a datblygu strategaeth sydd yn wir yn dwyn ynghyd feysydd megis busnes, addysg uwch ac ymchwil. Byddwn yn dweud yn aml mai dyma sydd ei angen ond nid yw bob tro wedi bod yn wir yn y gorffennol. Mae gan Gymru ail gyfle go iawn i sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud yn iawn. Pwysaf ar y Cynulliad Cenedlaethol i fachu ar y cyfle hwn.

*Gwelliant 1 Jocelyn Davies*

*Amendment 1 Jocelyn Davies*

*Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 1 and replace with:*

*'Yn nodi'r modd y mae Llywodraethau olynol Cymru, awdurdodau lleol, y sector preifat, Addysg Uwch a'r trydydd sector wedi defnyddio cronfeydd yr UE.'*

*'Notes the use that successive Welsh Governments, local authorities, the private sector, Higher Education and the third sector have made of EU funds.'*

*Gwelliant 2 Jocelyn Davies*

*Amendment 2 Jocelyn Davies*

*Dileu pwynt 2 ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn.*

*Delete point 2 and renumber accordingly.*

*Gwelliant 4 Jocelyn Davies*

*Amendment 4 Jocelyn Davies*

*Ym mhwynt 3, dileu popeth ar ôl y gair 'ddatblygu', gan roi 'strategaeth arloesi a fydd yn sail i raglen Horizon 2020 yr UE ar gyfer y cylch cyllido nesaf', yn ei le.*

*In point 3 delete all after 'developing' and replace with 'an innovation strategy which will inform the EU's Horizon 2020 programme for the next round of funding'.*

**Ieuan Wyn Jones:** Cynigiaf welliannau 1, 2 a 4 yn enw Jocelyn Davies.

**Ieuan Wyn Jones:** I move amendments 1, 2 and 4 in the name of Jocelyn Davies.

Mae'n bleser gennyf gymryd rhan yn y drafodaeth hynod o bwysig hon.

It gives me great pleasure to participate in this vital debate.

Rather strangely perhaps, I am going to pay a backhanded compliment to Nick Ramsay, because, based on the motion, I was expecting a very different speech from him. The motion is based on a number of misconceptions to which I shall try to draw attention, but his speech was much more balanced, and I compliment him on that.

Mae'n beth rhyfedd efallai ond rwyf am ganmol Nick Ramsey wysg fy nghefn fel petai, oherwydd, ar sail y cynnig, roeddwn yn disgwyl araith wahanol iawn ganddo. Mae'r cynnig wedi'i seilio ar nifer o gamganfyddiadau y ceisiaf dynnu sylw atynt, ond roedd ei araith yn fwy cytbwys o lawer, ac rwyf yn ei ganmol am hynny.

The reason why I say that there are a number of misconceptions in the motion is because the underlying implication of that motion is that European funding has been squandered and that there is no marked improvement in the performance of the Welsh economy. There is no clear evidence for the former and the latter is a simplistic generalisation.

Fy rheswm dros ddweud bod nifer o gamganfyddiadau yn y cynnig yw mai'r hyn sydd ymhlyg ynddo yw bod arian Ewropeaidd wedi'i wastraffu ac nad oes dim gwelliant amlwg ym mherfformiad economi Cymru. Nid oes tystiolaeth glir o'r cyntaf ac mae'r ail yn enghraifft o gyffredinoli gorsyml.

The policies of the Westminster Government have a much greater impact on the Welsh economy than European funding. After all, that is where the fiscal and macroeconomic levers are. Taxation levels play a key role in influencing the economy, and that is why the Northern Ireland and Scottish Governments would like to see corporation tax devolved. The International Monetary Fund recently said that standard macroeconomic policy levers, monetary policy and fiscal policy remained the primary tools for boosting employment through their impact on economic activity.

Mae polisïau Llywodraeth San Steffan yn dylanwadu llawer mwy ar economi Cymru nag y mae arian Ewropeaidd. Wedi'r cyfan, dyna lle mae'r ysgogiadau cyllidol a macroeconomaidd. Mae lefelau trethi'n chwarae rhan allweddol o ran dylanwadu ar yr economi, a dyna pam y byddai Llywodraeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban yn hoffi gweld datganoli treth gorfforaeth. Dywedodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol yn ddiweddar mai'r ysgogiadau polisi macroeconomaidd safonol, polisïau ariannol a pholisïau cyllidol oedd y prif arfau o hyd i hybu cyflogaeth drwy gyfrwng eu dylanwad ar weithgarwch economaidd.

To put structural funds into perspective, they account for an average expenditure of £200 million a year in Wales. The total identifiable

Er mwyn rhoi cronfeydd strwythurol yn eu gwir oleuni, maent yn cyfateb i wariant ar gyfartaledd o £200 miliwn y flwyddyn yng

public expenditure in Wales, both devolved and non-devolved, is around £25 billion a year. Therefore, European funds account for less than 1% of the total public spend in Wales on an annual basis.

Nghymru. Cyfanswm y gwariant cyhoeddus y gellir ei adnabod yng Nghymru, yn wariant sydd wedi'i ddatganoli ac yn wariant sydd heb ei ddatganoli, yw oddeutu £25 biliwn y flwyddyn. Felly, mae arian Ewrop yn cyfateb i lai nag 1 y cant o gyfanswm y gwariant cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn.

As Nick acknowledged in his speech, European funds are delivered by a range of partners. In the motion, the Conservatives refer only to the Welsh Government. The Welsh Government, of course, spends EU finds directly, but so do higher education institutions, further education institutions and local authorities.

Fel yr oedd Nick yn ei gydnabod yn ei araith, mae arian Ewropeaidd yn cael ei ddarparu gan ystod o bartneriaid. Yn y cynnig, nid yw'r Ceidwadwyr ond yn cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn gwario arian yr UE yn uniongyrchol, ond bydd sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol yn gwneud hynny hefyd.

Where I think that we can ask for much greater progress is in relation to the involvement of the private sector and the third sector. As we heard recently in the Finance Committee, the procurement rules have been a significant barrier to their involvement. Let us be clear, therefore, that there are lessons to be learned about the effective use of European funds, once we have put them into perspective. Those lessons need to be learned at a European level as well as at a Welsh level. If you speak to European Commission officials, they understand that as well as anyone.

Un man lle y gallem ofyn am fwy o gynnydd o lawer yw yng nghyswllt cynnwys y sector preifat a'r trydydd sector. Fel y clywsom yn ddiweddar yn y Pwyllgor Cyllid, mae'r rheolau caffael wedi bod yn rhwystr sylweddol rhag eu cynnwys. Gadewch inni fod yn glir felly, bod gwersi i'w dysgu am ddefnyddio cronfeydd Ewropeaidd yn effeithiol, ar ôl inni eu gweld yn eu gwir oleuni. Mae angen dysgu'r gwersi hynny ar lefel Ewropeaidd yn ogystal ag ar lefel Cymru. Os siaradwch â swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd, maent yn deall hynny gystal â neb.

We need greater co-ordination in the delivery of European funds. Nick Ramsay's speech referred to European funds more generally. However, the motion seems to refer only to structural funds. What about the rural development programme, the INTERREG programme and framework programme 7? I would argue that we have spent too much time concentrating on the European regional development fund and European structural fund programmes, and not enough competing for the high-level research money available through FP7, for example. I believe that, very often, our friends in higher education institutions in Wales have not used FP7 to the extent that they should, apart from Cardiff University.

Mae angen mwy o gydlynu wrth ddefnyddio cronfeydd Ewrop. Cyfeiriodd araith Nick Ramsay at gronfeydd Ewropeaidd yn fwy cyffredinol. Serch hynny, mae'r cynnig, i bob golwg, yn cyfeirio at gronfeydd strwythurol yn unig. Beth am y rhaglen datblygu gwledig, rhaglen INTERREG a rhaglen fframwaith 7? Byddwn yn dadlau ein bod wedi treulio gormod o amser yn canolbwyntio ar gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop a rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewrop, a dim digon yn cystadlu am yr arian ymchwil lefel-uchel sydd ar gael drwy FP7, er enghraifft. Credaf, yn aml, nad yw ein cyfeillion mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ac eithrio Prifysgol Caerdydd, wedi defnyddio FP7 i'r graddau y dylasent .

We have a myriad of different schemes coming from the European Commission, many from different directorates. It is

Mae gennym lu o wahanol gynlluniau'n deillio o'r Comisiwn Ewropeaidd, llawer ohonynt o wahanol gyfarwyddiaethau.

sometimes impossible to achieve strategic coherence. That is one of the issues that the Commission seeks to tackle in its Horizon 2020 programme on research and innovation, as Nick Ramsay acknowledged. This will replace the inflexible approach of the current FP7; in other words, if we can have greater co-ordination between structural funds, Horizon 2020 funds, as they will be known, INTERREG funds and the rural development programme, we can have a coherent approach to the development of European funding. That, I think, would be welcomed by all Governments right across the European Union.

Weithiau, mae'n amhosibl sicrhau cydlyniant strategol. Dyna un o'r problemau y mae'r Comisiwn yn ceisio mynd i'r afael â hi yn rhaglen Horizon 2020 ar ymchwil ac arloesi, fel y cydnabu Nick Ramsay. Bydd hyn yn disodli dull anhyblyg yr FP7 presennol; mewn geiriau eraill, os gallwn gydlynu'n well rhwng cronfeydd strwythurol, cronfeydd Horizon 2020, fel y'u gelwir, cronfeydd INTERREG a'r rhaglen datblygu gwledig, gallwn sicrhau dull cydlynol o ddatblygu arian Ewropeaidd. Credaf y byddai pob Llywodraeth drwy'r Undeb Ewropeaidd benbaladr yn croesawu hynny.

3.45 p.m.

We mention the need for an innovation strategy because we believe that the Government ought to bring that before the National Assembly for debate. I think that that would be a much more constructive way to move forward. I am pleased that has now been set in motion, but I would now like the Government to bring that forward in its draft form for debate in the Assembly so that we can have a constructive approach to the development of the next stage of European funding.

Rydym yn sôn bod angen strategaeth arloesi oherwydd y credwn y dylai'r Llywodraeth ddod â strategaeth o'r fath gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w thrafod. Credaf y byddai hynny'n ffordd fwy adeiladol o lawer inni fwrw ymlaen. Rwy'n falch bod hyn ar y gweill bellach, ond hoffwn yn awr i'r Llywodraeth ei chyflwyno ar ei ffurf ddrafft yn y Cynulliad er mwyn inni fynd ati i ddatblygu cam nesaf ariannu Ewropeaidd mewn ffordd adeiladol.

*Gwelliant 3 Aled Roberts*

*Amendment 3 Aled Roberts*

*Ar ôl 'brosiectau blaenorol' rhoi 'ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r fath'.*

*After 'previous projects' insert 'and calls on the Welsh Government to conduct such a review'.*

**Eluned Parrott:** I move amendment 3 in the name of Aled Roberts.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf welliant 3 yn enw Aled Roberts.

I thank the Welsh Conservatives for tabling this motion today. I always enjoy our debates on EU funding, certainly more than I think the Deputy Minister does. I do not blame him because this is uncomfortable listening. However, I acknowledge the Deputy Minister's stated target that Wales should never again qualify for structural funds. Therefore, I will try not to rehearse all the arguments we heard back in March when we last discussed this. I am also sure that the Conservative benches will provide us with plenty of statistics to demonstrate these past failings, so I want to focus today on what I think we could do differently in future.

Diolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r cynnig hwn heddiw. Byddaf bob tro'n mwynhau ein dadleuon am ariannu'r UE, yn fwy felly nag y mae'r Dirprwy Weinidog, mi gredaf. Nid wyf yn ei feio oherwydd mae hyn yn wrando anghyfforddus. Serch hynny, rwyf yn cydnabod mai targed y Dirprwy Weinidog, yn ôl ei ddatganiad, yw na ddylai Cymru fyth fod yn gymwys eto ar gyfer cronfeydd strwythurol. Felly, ceisiaf beidio ag ailadrodd yr holl ddadleuon a glywsom yn ôl ym mis Mawrth pan drafodwyd hyn o'r blaen. Yr wyf yn siŵr hefyd y bydd meinciau'r Ceidwadwyr yn rhoi digon o ystadegau inni i

ddangos y methiannau hyn yn y gorffennol, felly rwyf am ganolbwyntio heddiw ar yr hyn y credaf y gallem ei wneud yn wahanol yn y dyfodol.

It is a statement of fact to say that the Government has never conducted a thorough review of the effectiveness of EU spending. I see that the Deputy Minister is getting to his feet. Go ahead.

Mae’n ffaith nad yw’r Llywodraeth erioed wedi cynnal adolygiad trwyadl o effeithiolrwydd gwariant yr UE. Gwelaf fod y Dirprwy Weinidog yn codi ar ei draed. Ymlaen â chi.

**Alun Davies:** We published it in March, on the date of your last debate, on the last funding round.

**Alun Davies:** Fe’i cyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth, ar ddyddiad eich dadl ddiwethaf, am y cylch ariannu diwethaf.

**Eluned Parrott:** Thank you, Deputy Minister. I am aware of that particular review, but, if you will allow me to continue, I will explain what I mean. The Government argues that it follows the monitoring arrangements set out by the European Commission, but, if the aim is to learn from past performance, I think that you will agree that that bare minimum monitoring is not enough. For the most part, the rules set by the Commission are there to ensure that tendering practices are fair and transparent, as I am sure they are, but there is less emphasis on ensuring that a project, once completed, has helped to deliver the sort of economic stimulus or increased economic activity that we really want to see. That is the kind of information that I think would be helpful to you, Deputy Minister, in designing future programmes. In fact, without it, I think that it will be impossible to avoid all the mistakes of the past.

**Eluned Parrott:** Diolch, Ddirprwy Weinidog, gwn am yr adolygiad penodol hwnnw, ond, os caniatewch imi barhau, esboniaf yr hyn yr wyf yn ei olygu. Mae’r Llywodraeth yn dadlau ei bod yn dilyn y trefniadau monitro a bennwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, ond, os dysgu yn sgîl perfformiad yn y gorffennol yw'r nod, credaf y cytunwch nad yw monitro ar y lefel fwyaf sylfaenol yn ddigon. Gan mwyaf, mae’r rheolau a bennwyd gan y Comisiwn yno i sicrhau bod yr arferion tendro’n deg ac yn dryloyw, ac yr wyf yn siwr eu bod, ond, mae llai o bwyslais ar sicrhau bod prosiect, ar ôl ei gwblhau, wedi helpu i sicrhau’r math o ysgogiad economaidd neu i gryfhau’r gweithgarwch economaidd yr ydym yn wir am ei weld. Dyna’r math o wybodaeth y credaf a fyddai o fudd ichi, Ddirprwy Weinidog, o ran cynllunio rhaglenni’r dyfodol. A dweud y gwir, hebddi, credaf y byddai yn amhosibl inni osgoi holl gamgymeriadau’r gorffennol.

Of course, I recognise that the Welsh European Funding Office has conducted a limited review that showed certain failures to meet EU targets, identifying, for example, 4,849 jobs created against a target of 7,348. There are a number of targets, and I am sure that the Deputy Minister will say that those targets were set before the global recession. That is quite so, but why not conduct a more sophisticated analysis so that we can identify what has worked and what has not? Deputy Minister, you say that you are not fond of blunt-instrument statistics, so I would say that if we can conduct a more detailed and sophisticated review, you can give yourself some sharper ones to work with.

Wrth gwrs, rwyf yn sylweddoli bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cynnal adolygiad cyfyngedig a oedd yn dangos methiannau penodol i gyflawni targedau’r UE, gan ddangos, er enghraifft bod 4,849 o swyddi wedi’u creu o’u cymharu â tharged o 7,348. Mae nifer o dargedau, ac rwyf yn siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn dweud bod y targedau hynny wedi’u gosod cyn y dirwasgiad byd-eang. Digon gwir, ond pam na wnaiff ddadansoddi’r sefyllfa mewn ffordd fwy soffistigedig er mwyn inni weld beth sydd wedi gweithio a beth sydd heb? Ddirprwy Weinidog, rydych yn dweud nad ydych yn hoff o ystadegau sy’n arfau di-fin, felly byddwn yn dweud, os gallwn gynnal

adolygiad mwy manwl a soffistigedig, y gallech roi ambell arf miniocach ichi'ch hun weithio gydag ef.

We have heard some of the issues discussed—problems such as too much focus on soft themes and not enough on economic development; a failure to adequately audit the outcome of programmes, resulting in investment in the wrong programmes subsequently; and a lack of investment in the key areas for economic growth, such as skills and infrastructure. I say let us dig deeper into these issues and put them to bed. Another issue often referred to, as previously discussed, is the failure to adequately involve the private sector. In our last debate, the Deputy Minister stated that he was to launch a consultation on this area on the Monday of the following week, so perhaps he can give us an update on that in his response today.

Rydym wedi clywed rhai o'r materion a drafodwyd—problemau megis canolbwyntio gormod ar themâu meddal a dim digon ar ddatblygu economaidd; methu ag archwilio'n ddigonol ganlyniad rhaglenni, gan arwain at fuddsoddi yn y rhaglenni anghywir yn sgîl hynny; a diffyg buddsoddi yn y meysydd allweddol ar gyfer twf economaidd, megis sgiliau a seilwaith. Fy nadl i yw y dylem dyrchu'n ddyfnach i'r materion hyn a'u datrys. Mater arall y cyfeirir ato'n aml, fel y trafodwyd eisoes, yw'r methiant i gynnwys y sector preifat yn ddigonol. Yn ein dadl ddiwethaf, dywedodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn bwriadu lansio ymgynghoriad ar y maes hwn ddydd Llun yr wythnos wedyn, ac felly efallai y gallai ddweud wrthym beth yw'r diweddaraf ynglŷn â hynny yn ei ymateb heddiw.

I would say that the Government still needs to look at the evidence more broadly and use it to provide a fuller analysis of previous errors to inform a change of focus for the future. Deputy Minister, you say that you are ambitious and that you want things to change. I applaud you for that ambition, but I would say to you that you need to give yourself the tools to achieve that.

Hoffwn ddweud bod angen i'r Llywodraeth edrych o hyd ar y dystiolaeth yn fwy eang a'i defnyddio i ddarparu dadansoddiad llawnach o'r gwallau blaenorol er mwyn newid ffocws ar gyfer y dyfodol. Ddirprwy Weinidog, rydych yn dweud eich bod yn uchelgeisiol a'ch bod am i bethau newid. Rwyf yn eich cymeradwyo am yr uchelgais hwnnw, ond byddwn yn dweud wrthych fod angen ichi roi'r arfau ichi'ch hun i wneud hynny.

Turning to the amendments, when I read Plaid's amendment 1, I have to say that I thought the Government had tabled it, but let us be honest: it exists only to defend Plaid's record in Government between 2007 and 2011, when Plaid was ultimately in charge of European funding. Unfortunately, the reality is that European funding has not been effectively spent, either before, during or after Plaid formed part of the Welsh Government. We cannot support Plaid's amendment 2 either, which deletes the point about the failure of the Government to learn lessons from previous EU funding rounds. You will probably have gathered that I think that this point is important.

A throi at y gwelliannau, wrth ddarllen gwelliant 1 Plaid Cymru, rhaid imi ddweud fy mod yn meddwl mai'r Llywodraeth oedd wedi'i gyflwyno, ond gadewch inni fod yn onest, ei unig bwrpas yw amddiffyn record Plaid Cymru pan oedd hithau'n rhan o'r Llywodraeth rhwng 2007 a 2011, a phan oedd Plaid, a dweud y gwir, yn gyfrifol am arian Ewrop. Yn anffodus, y gwir yw bod arian Ewrop heb ei wario'n effeithiol, na chyn i Blaid Cymru ffurfio rhan o Lywodraeth Cymru, nac yn ysod y cyfnod hwnnw nac ychwaith wedyn. Ni allwn gefnogi gwelliant 2 Plaid Cymru ychwaith, sy'n dileu'r pwynt am fethiant y Llywodraeth i ddysgu gwersi yn sgîl cylchoedd ariannu blaenorol yr UE. Mae'n debyg y byddwch wedi casglu fy mod yn meddwl bod y pwynt hwn yn bwysig.

Finally, I would be supportive of amendment 4 if it added to the motion rather than taking away what I believe to be the critical issue of developing a broad-ranging future approach to maximising the impact of EU funding. After consideration, I am sure that we would all agree on that. Horizon 2020 is a fantastic opportunity for us and it is absolutely right that we be involved in influencing the future of that. It is also right that we look at how our universities have used it, at which have been successful and why. It is a wonderful opportunity for us, but let us not take away from the motion as it is. Let us focus on developing the business case and looking to the future, at what we can do differently to make the story different in the future.

Yn olaf, byddwn yn cefnogi gwelliant 4 petai’n cael ei ychwanegu at y cynnig yn hytrach na gwanhau mater hollbwysig, yn fy marn i, sef datblygu agwedd eang yn y dyfodol at sicrhau bod arian yr UE yn cael y dylanwad mwyaf posibl. Ar ôl ystyried, rwyf yn siŵr y byddem i gyd yn cytuno â hynny. Mae Horizon 2020 yn gyfle gwych inni ac mae’n gwbl iawn inni fod yn rhan o ddylanwadu ar ddyfodol hynny. Mae’n iawn hefyd inni edrych ar sut mae ein prifysgolion wedi’i ddefnyddio, ar ba rai sydd wedi llwyddo a pham. Mae’n gyfle rhagorol inni, ond gadewch inni beidio â gwanhau'r cynnig fel y mae. Gadewch inni ganolbwyntio ar ddatblygu’r achos busnes ac, wrth edrych tua’r dyfodol, ar yr hyn y gallem ei wneud yn wahanol i sicrhau bod y stori’n wahanol yn y dyfodol.

**Janet Finch-Saunders:** I thank Nick Ramsay AM for introducing this important debate today. The fundamental point of today’s motion, tabled by William Graham AM, is one with which we should all wholeheartedly agree. Over the past 12 years, nearly £3.1 billion has been squandered by successive Welsh Governments. European Objective 1 and convergence funding were hailed by a generation of Welsh politicians as a once-in-a-lifetime opportunity to put years of economic underperformance behind us. Unfortunately, analyses of where we are today show us that the promise and opportunity presented by European money have largely evaporated and that the situation is worsening. In 2009, gross domestic product per head in the key region of west Wales and the Valleys was 68.4% of the European Union average and the lowest of the UK’s 37 so-called NUTS 2 areas. In financial terms, while GDP per capita in those regions was £17,300 in 2000, it had fallen to just £15,700 by 2009. In simple terms—

**Janet Finch-Saunders:** Diolch i Nick Ramsay AC am gyflwyno’r ddadl bwysig hon heddiw. Mae pwynt sylfaenol cynnig heddiw, a gyflwynwyd gan William Graham AC, yn un y dylem i gyd gytuno ag ef yn frwd. Dros y 12 mlynedd diwethaf, mae bron £3.1 biliwn wedi’i wastraffu gan Lywodraethau olynol yng Nghymru. Haerodd cenhedlaeth o wleidyddion Cymru fod Amcan 1 Ewrop yn gyfle unwaith mewn oes i roi blynyddoedd o danberfformio economaidd y tu ôl inni. Yn anffodus, wrth ddadansoddi lle rydym arni ar hyn o bryd, gwelwn fod yr addewid a’r cyfle a gyflwynwyd gan arian Ewrop wedi anweddu gan mwyaf a bod y sefyllfa’n gwaethygu. Yn 2009, roedd cynnyrch mewnwladol crynswth y pen yn rhanbarth allweddol gorllewin Cymru a’r Cymoedd yn 68.4 y cant o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd a dyma’r isaf o blith y 37 ardal y Deyrnas Unedig a elwir yn ardaloedd NUTS 2. O safbwynt ariannol, tra bo’r cynnyrch mewnwladol crynswth y pen yn y rhanbarthau hynny’n £17,300 yn 2000, roedd wedi gostwng i ddim ond £15,700 erbyn 2009. I’w roi’n syml—

**Alun Davies:** Will you take an intervention?

**Alun Davies:** A wnewch ganiatáu imi ymyrryd?

**Janet Finch-Saunders:** No, I will carry on and I will finish. [*Interruption*.]

**Janet Finch-Saunders:** Na wnaf, mi af yn fy mlaen a gorffen. [*Torri ar draws.*]

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. The Member has said that she will not

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn, mae’r Aelod wedi dweud nad yw am ganiatáu ichi

take an intervention.

ymyrryd.

**Janet Finch-Saunders:** Despite generous endowments from the European Union explicitly designed to lift Wales out of poverty, we have actually got poorer. Questions have to be asked of the people and politicians whose job it was—and still is, since we have yet again qualified for aid destined for Europe’s poorest regions—to administer those funds and ensure that they achieve their objectives.

**Janet Finch Saunders:** Er gwaethaf y gwaddolion hael gan yr Undeb Ewropeaidd a oeddd wedi’u bwriadu’n benodol i godi Cymru o dlodi, rydym mewn gwirionedd wedi mynd yn dlotach. Rhaid gofyn cwestiynau i’r bobl a’r gwleidyddion a oedd yn gyfrifol—ac sy’n dal yn gyfrifol, gan ein bod unwaith eto yn gymwys i gael cymorth a fwriedir ar gyfer rhanbarthau tlotaf Ewrop—am weinyddu’r cronfeydd hynny a sicrhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion.

In 2004, the Treasury identified five key drivers of productivity in the economy, namely investment, innovation, enterprise, competition and skills. Sadly though, for the people of Wales, we still rank consistently low in terms of expenditure on research and development, entrepreneurial activity and competitiveness. We do, however, rank very highly in terms of the number of people with no qualifications whatsoever, and these are precisely the areas that European money could have helped to address. It could have been better spent on boosting enterprise, equipping our people with new skills and fostering a culture of competitiveness and enterprise.

Yn 2004, rhestrodd y Trysorlys bum sbardun cynhyrchiant allweddol yn yr economi, sef buddsoddi, arloesi, menter, cystadleuaeth a sgiliau. Yn anffodus, er hynny, i bobl Cymru, rydym yn dal yn gyson isel o ran gwariant ar ymchwil a datblygu, gweithgarwch entrepreneuraidd a chystadleurwydd. Fodd bynnag, rydym yn sgorio’n uchel iawn o ran nifer y bobl sydd heb ddim cymwysterau o gwbl, a dyma’r union feysydd y gallasai arian Ewrop eu helpu i fynd i’r afael â hwy. Gallai fod wedi’i wario’n well ar hybu menter, ar arfogi ein pobl â sgiliau newydd ac ar feithrin diwylliant cystadlu a menter.

During the 2000-13 funding period, 215 public sector projects were in receipt of the overwhelming majority of European funding: more than £1.5 billion. At the same time, an appallingly low figure of just 11 private sector projects received WEFO money. Of these 215 discrete and disparate projects, very little stands out as bringing a true economic boon for Wales. Needless to say, public sector projects can play a role in helping Wales to build the dynamic and prosperous economy that we all want to see. To exclude the private sector so emphatically is certainly not the way forward. Whereas the private sector could have provided the innovation and jobs that we need, favouring public sector projects has meant that these often grind to a juddering halt after the money has run out and provide no basis for sustainable growth for the future. As recently as January this year, Pembrokeshire County Council highlighted that it still lacks the infrastructure that is critical to any modern and competitive economy, including

Yn ystod cyfnod ariannu 2000-13, 215 o brosiectau yn y sector cyhoeddus a gafodd y rhan fwyaf helaeth o arian Ewrop: mwy na £1.5 biliwn. Ar yr un pryd, dim ond 11 prosiect yn y sector preifat, nifer echrydus o isel, a gafodd arian WEFO. O blith y 215 o brosiectau gwahanol ac amrywiol hyn, ychydig ohonynt sy’n amlwg yn cynnig hwb economaidd go iawn i Gymru. Afraid dweud y gall prosiectau’r sector cyhoeddus chwarae rhan yn helpu Cymru i feithrin yr economi ddeinamig a ffyniannus yr ydym i gyd am ei gweld. Yn sicr, nid eithrio’r sector preifat mewn ffordd mor bendant yw’r ffordd ymlaen. Lle y gallai’r sector preifat fod wedi darparu’r arloesi a’r swyddi yr oedd eu hangen arnom, mae ffafrio prosiectau’r sector cyhoeddus wedi golygu bod y rhain yn aml yn rhygnu i ben yn sydyn ar ôl i’r arian orffen ac nad ydynt yn cynnig sail o gwbl ar gyfer twf cynaliadwy i’r dyfodol. Mor ddiweddar ag ym mis Ionawr eleni, tynnodd Cyngor Sir Penfro sylw at y ffaith nad oes ganddi’r seilwaith o hyd sy’n hanfodol ar gyfer

broadband and effective transport links. Contrast that, though, with the lesson from Cornwall, where European funding enabled the county to become the first rural area in Britain to get 100% broadband coverage. They have also worked smarter than we have here in Wales, pouring money into the promotion of business-focused research and innovation in co-operation with the higher education sector. Therefore, while the situation in Wales has got worse, between 1999 and 2007, Cornwall and the Isles of Scilly had the second highest increase in gross value added of anywhere in the United Kingdom.

unrhyw economi fodern a chystadleuol, gan gynnwys band eang a chysylltiadau trafnidiaeth effeithiol. Cyferbynnwch hynny, beth bynnag, â'r wers yng Nghernyw, lle mae arian Ewrop wedi galluogi'r sir honno i sicrhau mai hi yw'r ardal wledig gyntaf ym Mhrydain i gael gwasanaeth band eang 100 y cant. Maent hefyd wedi gweithio'n glyfrach na ni yma yng Nghymru, gan dywallt arian i hybu ymchwil sy'n canolbwyntio ar fusnes ac arloesi drwy gydweithredu â'r sector addysg uwch. Felly, tra bo'r sefyllfa yng Nghymru wedi gwaethygu rhwng 1999 a 2007, yng Nghernyw ac Ynysoedd Sili y gwelwyd y cynnydd ail uchaf o ran gwerth ychwanegol crynswth ymhlith holl ardaloedd eraill y Deyrnas Unedig.

In conclusion, we need clear leadership and decisive action from this Welsh Government now that demonstrates to the Chamber and to the people of Wales that it has learned the lessons of the past as well as from the experiences of elsewhere. I urge full and positive engagement with the private, voluntary and higher education sectors. Failure to enact these changes and bring about a step change in our approach to convergence funding is not an option and risks condemning Wales to the slow lane for years to come.

I gloi, mae angen arweiniad clir a gweithredu pendant arnom yn awr gan y Llywodraeth hon yng Nghymru sy'n dangos i'r Siambr ac i bobl Cymru ei bod wedi dysgu gwersi'r gorffennol yn ogystal â gwersi yn sgîl profiadau mannau eraill. Pwysaf arnoch i ymgysylltu'n llawn ac yn gadarnhaol â'r sector preifat, y sector gwirfoddol a'r sector addysg uwch. Nid yw methu rhoi'r newidiadau hyn ar waith a newid ein hagwedd yn sylfaenol at ariannu cydgyfeiriant yn ddewis i. Perygl hynny fyddai bod Cymru'n cael ei chondemnio i'r lôn araf am flynyddoedd eto.

**Mark Drakeford:** I always approach the possibility of a debate on Europe in the Chamber in a positive spirit, generally believing that the relationship between Wales and wider Europe is one always worth exploring, and perhaps never more so than when the economic and social turmoil among our European partners has such a direct impact on our economy. Despite that general disposition, as was the case with Ieuan Wyn Jones, my heart sank when I read the tired old clichés that make up today's motion, a motion so lacking in energy and inventiveness that it can barely drag itself off the agenda for discussion. I was surprised, too, at the first contribution from the Conservative benches but, luckily, I was not to be surprised for too long because the contributions have gone badly downhill since then.

**Mark Drakeford:** Byddaf bob tro'n edrych ar y posibilrwydd o gael dadl am Ewrop yn y Siambr mewn ysbryd cadarnhaol, gan gredu'n gyffredinol bod y berthynas rhwng Cymru ac Ewrop ehangach yn un sydd bob tro'n werth ei archwilio, ac efallai nad yw hynny byth yn fwy gwir na phan fydd y terfysg economaidd a chymdeithasol ymhlith ein partneriaid yn Ewrop yn effeithio mor uniongyrchol ar ein heconomi. Er mai felly yr wyf yn teimlo'n gyffredinol, fel yr oedd yn wir am Ieuan Wyn Jones, suddodd fy nghalon pan glywais yr hen ystrydebau blinedig sydd yn y cynnig heddiw. Cynnig sydd mor brin o egni a dyfeisgarwch nes prin y gall lusgo'i hun oddi ar yr agenda i'w drafod. Roeddwn innau'n synnu hefyd at y cyfraniad cyntaf oddi ar feinciau'r Ceidwadwyr, ond, yn ffodus, ni pharhaodd y syndod yn rhy hir oherwydd mae'r cyfraniadau wedi mynd ar i oriwaered yn ddifrifol ers hynny.

I will concentrate on the third leg of the motion, because on Friday morning last week, I chaired the fourth meeting of the European programmes partnership forum, a group drawn together for the specific purpose—and this is almost to quote from the Conservative motion—of ensuring that any future European funding has the maximum possible impact in Wales. As the terms of today’s motion became known around the room up in Merthyr, there really was a sense of bafflement among those who heard about it, because these were exactly the sort of people whom the motion appears to wish to engage. The forum is made up of representatives from exactly the sort of organisations called for in the motion. The largest single group is made up of Welsh private sector business interests: the Federation of Small Businesses, the Confederation of British Industry and the Institute of Directors are all there as representative bodies. They are supplemented by a series of individuals who have successfully established major firms in Wales and who are company directors and senior executives in their own right. Alongside them, we have senior representatives—

Canolbwyntiaf ar drydedd ran y cynnig, oherwydd fore Gwener wythnos diwethaf, bûm yn cadeirio pedwerydd cyfarfod fforwm partneriaeth rhaglenni Ewrop, grŵp a dynnwyd ynghyd at ddiben penodol—a bron fy mod yn dyfynnu o gynnig y Ceidwadwyr—sef, sicrhau bod unrhyw arian a ddaw gan Ewrop yn y dyfodol yn cael y dylanwad mwyaf posibl yng Nghymru. Pan glywodd y bobl yn yr ystafell ym Merthyr am fanylion cynnig heddiw, roedd pawb mewn penbleth go iawn, oherwydd dyma’r union fath o bobl y mae’r cynnig i bob golwg yn dymuno inni ymgysylltu â hwy. Mae’r fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o’r union fath o gyrff y gelwir amdanynt yn y cynnig. Mae’r un grŵp mwyaf yn cynnwys buddiannau busnes y sector preifat: mae Ffederasiwn y Busnesau Bach, Conffederasiwn Diwydiant Prydain a Sefydliad y Cyfarwyddwyr i gyd yn gyrff sy'n cael eu cynrychioli yno. At hynny, mae nifer o unigolion sydd wedi llwyddo i sefydlu cwmnïau mawr yng Nghymru ac sy’n gyfarwyddwyr cwmnïau ac yn uwch weithredwyr eu hunain. Ochr yn ochr â hwy, mae gennym uwch gynrychiolwyr—

**Antoinette Sandbach:** Do you agree that the information that Janet mentioned, namely that only 11 private sector projects received funding, is an indication that maybe this type of partnership that you are describing should have been set up much earlier?

**Antoinette Sandbach:** A ydych yn cytuno bod yr wybodaeth a grybwyllwyd gan Janet, sef mai dim ond 11 o brosiectau’r sector preifat a gafodd arian, yn awgrymu y dylai'r math hwn o bartneriaeth yr ydych yn ei disgrifio fod wedi cael ei sefydlu’n gynharach o lawer?

**Mark Drakeford:** Absolutely not. It is a complete misunderstanding of how the current round of European funding operates. Firms tell us that they do not want to be project sponsors, having to bear the full bureaucracy of the system. They want instead to compete for contracts and they do so extremely successfully. The vast bulk of contracts for European funding is carried out by private sector firms. That is the sort of involvement they want, and that is the sort of involvement they get. The point that you make simply misunderstands the position from the point of view of private businesses.

**Mark Drakeford:** Dim o gwbl. Mae’n gamddealltwriaeth lwyr ynglŷn â sut mae cylch presennol arian Ewrop yn gweithio. Mae cwmnïau’n dweud wrthym nad ydynt am fod yn noddwyr prosiectau a gorfod ysgwyddo holl fiwrocratiaeth y system. Yn hytrach, maent am gystadlu am gontractau ac maent yn llwyddo'n eithriadol yn hynny o beth. Bydd y rhan fwyaf helaeth o'r contractau ar gyfer arian Ewropeaidd yn cael eu cyflawni gan gwmnïau’r sector preifat. Dyna’r ffordd y maent am ymwneud â'r drefn, a dyna sy'n digwydd. Mae’r pwynt yr ydych chi’n ei wneud yn camddeall y sefyllfa’n llwyr o safbwynt busnesau preifat.

Alongside senior representatives from

Ochr yn ochr ag uwchgynrychiolwyr o fyd

business, we have people from the Wales Trades Union Congress, the Wales Co-operative Centre, Jobcentre Plus and a whole series of other people who come at the same issue in a partnership way so that job and wealth creation can be seen from the point of view of individual employees and groups of workers too. Beyond the world of work, the forum includes voices from local government, further and higher education, the voluntary sector and the European Commission. These are senior figures in their field: the university sector is represented at vice-chancellor level, the TUC by its general secretary, businesses by their senior directors and so on. They need to be, too, because the real discussions about European funding are a million miles away from the platitudes and the prejudices of the motion.

busnes, mae gennym bobl o Gyngres Undebau Llafur Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Y Ganolfan Byd Gwaith a llu o bobl eraill sy'n dod at yr un broblem ar ffurf partneriaeth, er mwyn gallu gweld creu swyddi a chyfoeth o safbwynt gweithwyr unigol a grwpiau o weithwyr hefyd. Y tu hwnt i fyd gwaith, mae'r fforwm yn cynnwys lleisiau llywodraeth leol, addysg bellach ac addysg uwch, y sector gwirfoddol a'r Comisiwn Ewropeaidd. Dyma'r ffigurau amlycaf yn eu maes; mae sector y prifysgolion yn cael ei gynrychioli ar lefel is-ganghellor, y TUC gan ei ysgrifennydd cyffredinol, busnesau gan eu huwch-gyfarwyddwyr ac ati. Mae angen hynny hefyd, oherwydd nid yw'r gwir drafodaethau am arian Ewrop yn yr un byd ag ystrydebau a rhagfarnau'r cynnig.

4.00 p.m.

Last Friday's meeting had to frame its advice to the Welsh Government against a background of the documents on which we have had to rely so far for guidance on a potential third round of funding being subject to, we now know, 3,000 suggested amendments during European parliamentary consideration of the common provisions regulations alone. If that is not enough, we also have to frame advice in a context in which nothing can go forward__to the Commission on a Wales-only basis until the partnership contract at a UK level has been completed. Also, we are acting in a context where the presidency of Denmark is drawing to a close and where, with the best will in the world, the presidency of Cyprus that now follows is unlikely to be equipped with the diplomatic and economic firepower to resolve any outstanding issues that will still be on the table over the next six months. If only all of this could be reduced to the simplistic sloganeering of the motion.

Bu'n rhaid i'r cyfarfod ddydd Gwener diwethaf lunio'i gyngor i Lywodraeth Cymru ar sail cefndir y dogfennau y bu'n rhaid inni ddibynnu arnynt hyd yn hyn am ganllawiau ynglŷn â thrydydd cylch posibl yr ariannu, a hwnnw, fel y gwyddom bellach wedi bod yn destun 3,000 o welliannau a awgrymwyd wrth i senedd Ewrop ystyried rheoliadau'r darpariaethau cyffredin yn unig. Os nad yw hynny'n ddigon, rhaid inni hefyd fframio'r cyngor mewn cyd-destun lle na all dim byd fynd yn ei flaen at y Comisiwn ar sail Cymru'n unig nes bod y contract partneriaeth ar lefel y Deyrnas Unedig wedi'i gwblhau. Hefyd, rydym yn gweithredu mewn cyd-destun lle mae llywyddiaeth Denmarc yn tynnu i ben a lle, gyda phob ewyllys da yn y byd, na fydd llywyddiaeth Cyprus, a fydd yn dilyn yn awr, yn debygol o fod wedi'i harfogi â'r grym diplomatig ac economaidd i ddatrys unrhyw faterion sy'n weddill ac a fydd yn dal ar y bwrdd dros y chwe mis nesaf. O na fyddai modd cyfleu hyn oll ar ffurf sloganau arwynebol y cynnig.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. I ask that you conclude now.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. Gofynnaf ichi dynnu i ben yn awr.

**Mark Drakeford:** Unfortunately, the realities of European funding are more complex and volatile than the world in which this motion operates. Those whose businesses or research chances or third sector projects

**Mark Drakeford:** Yn anffodus, mae realiti ariannu Ewropeaidd yn fwy cymhleth a chyfnewidiol na'r byd y mae'r cynnig hwn yn gweithredu ynddo. Mae'r rheini y mae eu busnesau neu eu cyfleoedd i wneud gwaith

depend on getting this right understand this very well, and their advice has already been critical in shaping the Welsh Government's thinking. They really did deserve something a little better than the motion on today's agenda.

ymchwil neu brosiectau yn y trydydd sector yn dibynnu ar sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn iawn yn deall hyn yn berffaith dda ac mae eu cyngor eisoes wedi bod yn hollbwysig wrth lunio safbwynt Llywodraeth Cymru. Roeddent yn wir yn haeddu rhywbeth a oedd fymryn yn well na'r cynnig sydd ar yr agenda heddiw.

**Mohammad Asghar:** I am very pleased to be able to contribute to this afternoon's debate. Due to the weakness of the Welsh economy, Wales has been eligible for structural funding and has received over £3 billion in financial support in the two spending rounds between 2000 and 2013, yet the economies of west Wales and the Valleys have continued to fall behind the European average and are set to qualify for a third round of European funding. The fact is that 10 years of what Labour hailed in its own slogan as 'a once in a lifetime opportunity' to boost the economy of west Wales and the Valleys has failed to make a difference to our poorest regions, especially the one that I represent. This is a sad indictment of the way that the Welsh Government has administered the scheme.

**Mohammad Asghar:** Rwy'n falch iawn o allu cyfrannu at y ddadl prynhawn yma. Oherwydd gwendid economi Cymru, Mae Cymru wedi bod yn gymwys i gael arian strwythurol ac wedi cael dros £3 biliwn o gymorth ariannol yn y ddau gylch gwario rhwng 2000 a 2013. Eto i gyd, mae economïau gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi parhau i lusgo ar ôl cyfartaledd Ewrop ac maent ar fin cymhwyso am drydydd cylch ariannu gan Ewrop. Y ffaith yw bod y 10 mlynedd pan oedd gennym 'un cyfle mewn oes' yn ôl haeriad slogan Llafur ei hun, i hybu economi gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi methu gwneud gwahaniaeth i'n rhanbarthau tlotaf, yn enwedig hwnnw yr wyf fi'n ei gynrychioli. Mae hyn yn gondemniad trist ar y ffordd y mae Llywdraeth Cymru wedi gweinyddu'r cynllun.

We have to ask why so much has been spent to so little effect. I believe that we have to learn the lessons in the application of that funding and that the private sector needs to be more engaged, particularly the small and medium-sized enterprises. At present, EU structural funding has predominantly gone to third sector and public sector projects. These projects can often fail to become self-sustaining and are forced to stop when funding comes to an end. So far, since 2007, of the 264 projects receiving EU structural funds in Wales, only 11 were led by the private sector. This lack of engagement with the private sector has, in my opinion, been a significant factor in the failure to achieve long term economic benefits from these programmes. As Dr Rhisiart of the University of Glamorgan's business school said:

Rhaid inni ofyn pam mae cymaint wedi'i wario a hynny wedi cael cyn lleied o ddylanwad. Credaf fod yn rhaid inni ddysgu'r gwersi o ran rhoi'r arian hwnnw ar waith a bod angen ymgysylltu rhagor â'r sector preifat, yn enwedig y mentrau bychain a chanolig. Ar hyn o bryd, mae arian strwythurol yr UE wedi mynd i brosiectau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus yn bennaf. Yn aml iawn, ni fydd y prosiectau hyn yn llwyddo i ddod yn hunangynhaliol ac fe'u gorfodir i roi'r gorau iddi pan ddaw'r arian i ben. Hyd yn hyn, ers 2007, o blith y 264 prosiect sydd wedi cael arian strwythurol yr UE yng Nghymru, dim ond 11 a arweiniwyd gan y sector preifat. Mae'r diffyg ymgysylltu hwn â'r sector preifat yn fy marn i, wedi bod yn ffactor pwysig o ran methu sicrhau buddion economaidd tymor hir yn sgîl y rhaglenni hyn. Fel y dywed Dr Rhisiart o ysgol fusnes Prifysgol Morgannwg:

'One of the biggest critiques I think has been the lack of private sector involvement in the funds and this is obviously the wealth-creating part and potential of the fund.'

Un feirniadaeth fawr a welwyd, yn fy marn i, oedd diffyg ymwneud y sector preifat yn y cronfeydd, a hyn, yn amlwg, yw'r rhan o'r gronfa sy'n creu cyfoeth a photensial.

It is therefore vital that the next round of funding utilises the expertise and experiences of the private sector when developing funding schemes. This point has been recognised by the EU Directorate General for Regional Policy, which stated back in January that

Mae'n hollbwysig felly bod y cylch ariannu nesaf yn defnyddio arbenigedd a phrofiadau'r sector preifat wrth ddatblygu cynlluniau ariannu. Mae'r pwynt hwn wedi'i gydnabod gan Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Polisi Rhanbarthol yr UE, a ddywedodd yn ôl ym mis Ionawr

'consideration needs to be given to how best to engage the private sector more extensively in the future.'

mae angen ystyried beth yw'r ffordd orau o ymgysylltu â'r sector preifat yn fwy eang yn y dyfodol.

Our projects need to be based on results.

Mae angen seilio ein prosiectau ar ganlyniadau.

EU Commissioner Hahn, on his visit to Wales in April, said that fewer projects should receive aid money in the future and that there would have to be quantifiable results. Those are his words. The Welsh Government must, as a matter of urgency, learn the lessons of these past missed opportunities and develop a strategic and transparent plan for private sector involvement if it wants to succeed and achieve prosperity in Wales. It must also simplify the application process, which has been criticised for being bureaucratic, cumbersome, complex, ever-changing and frustrating—and that is the WLGA's description, not mine. It is so badly managed.

Dywedodd Comisiynydd Hahn o'r UE, pan ymwelodd â Chymru ym mis Ebrill, y dylai llai o brosiectau gael cymorth ariannol yn y dyfodol ac y byddai'n rhaid cael canlyniadau y gellid eu mesur. Dyna'i eiriau ef. Rhaid i Lywodraeth Cymru, a hynny ar frys, ddysgu gwersi'r cyfleoedd coll hyn yn y gorffennol gan ddatblygu cynllun strategol a thryloyw ar gyfer cynnwys y sector preifat os yw am lwyddo a sicrhau ffyniant yng Nghymru. Rhaid iddi hefyd symleiddio'r broses ymgeisio, sydd wedi cael ei beirniadu am fod yn fiwrocrataidd, yn drwsgl, yn gymhleth, yn newid o hyd ac yn creu rhwystredigaeth—a dyna ddisgrifiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, nid fy nisgrifiad i. Mae'n cael ei rheoli mor wael.

If the Welsh Government takes the action that we have called for today, we can reach the objective that we all want: a prosperous Wales that no longer qualifies for funding. By focusing on business growth, infrastructure investment and skills development, and by putting the emphasis on results, we can ensure EU funding projects are worth while and bring lasting economic benefits for Wales's poorest regions, including the area that I come from, along with Merthyr, Blaenau Gwent, Islwyn, Torfaen, and so on. They need funding; they are among the most impoverished areas of Wales. Labour must change that, and quickly, or there will soon be a public protest.

Os bydd Llywodraeth Cymru'n cymryd y camau yr ydym wedi galw amdanynt heddiw, gallwn gyrraedd y nod yr ydym i gyd am ei gyrraedd: Cymru ffyniannus nad yw'n gymwys ar gyfer cymorth ariannol rhagor. Drwy ganolbwyntio ar dwf busnesau, buddsoddi yn y seilwaith a datblygu sgiliau, a thrwy roi'r pwyslais ar y canlyniadau, gallwn sicrhau bod prosiectau ariannu'r UE yn rhai gwerth chweil a'u bod yn dod â buddiannau economaidd sy'n parhau i ranbarthau tlotaf Cymru, gan gynnwys yr ardal yr wyf fi'n dod ohoni, ynghyd ag i Ferthyr, Blaenau Gwent, Islwyn Tor-faen, ac ati. Mae angen arian arnynt; maent ymhlith ardaloedd tlotaf Cymru. Rhaid i Lafur newid hynny, a hynny ar frys, neu bydd protest cyhoeddus cyn bo hir.

**Antoinette Sandbach:** It is perhaps depressing that Mark Drakeford is standing

**Antoinette Sandbach:** Mae'n drist braidd bod Mark Drakeford yn sefyll ar ei draed ac

up and describing something that should have been put in place many years ago, when those types of initiatives might have resulted in the success of structural funding. The fact that it has taken until 2012 to establish such an initiative speaks for itself. This is not a tired motion; this is a motion that highlights years of failure by Labour.

yn disgrifio rhywbeth a ddylai fod wedi cael ei roi ar waith flynyddoedd lawer yn ôl, pan fyddai'r mathau hynny o gynlluniau o bosibl wedi gallu wedi sicrhau llwyddiant yn sgîl ariannu strwythurol. Mae'r ffaith inni orfod aros tan 2012 i sefydlu cynllun o’r fath yn siarad drosto’i hun. Nid cynnig blinedig yw hwn; cynnig ydyw sy’n tynnu sylw at flynyddoedd o fethiant gan Lafur.

The publication in May 2012 of the reflection exercise on EU structural funds 2014-20 indicated that there is a need to facilitate private sector engagement, minimising any bureaucratic burdens that could act as a barrier to the private sector. In fact, an application for this type of funding needs to go through eligibility rules, project selection criteria, and fit in with the strategic framework outlined in the 2007-13 funding programmes. An expression of interest form needs to be submitted to the Welsh European Funding Office, which will then assign a project development officer to the application. The applicant must then submit a formal expression of interest that will undergo an initial assessment. The project must then submit a detailed business case for a full assessment. If funding is then agreed, the project will be subject to inspection visits from the project inspection and verification team, and audits from the European fund’s audit team.

Dangosodd y cyhoeddiad ym mis Mai 2012 ar yr ymarfer adolygu diwethaf ar gronfeydd strwythurol yr UE 2014-20 fod angen hwyluso ymgysylltu â’r sector preifat, gan liniaru unrhyw feichiau biwrocrataidd a allai beri rhwystr i’r sector preifat. Yn wir, mae angen i gais am y math hwn o arian fynd drwy reolau cymhwyso, meini prawf dethol prosiectau a chydweddu â’r fframwaith strategol a restrir yn rhaglenni ariannu 2007-13. Mae angen cyflwyno ffurflen mynegi diddordeb i Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru, a fydd wedyn yn neilltuo swyddog datblygu prosiect i’r cais. Yna, rhaid i’r ymgeisydd gyflwyno ffurflen mynegi diddordeb ffurfiol er mwyn cael asesiad cychwynnol. Yna, rhaid i’r prosiect gyflwyno achos busnes manwl ar gyfer asesiad llawn. Yna, os cytunir i’w ariannu, bydd tîm arolygu a dilysu'r prosiect yn ymweld â'r prosiect, ac fe'i harchwilir gan dîm archwilio’r gronfa Ewropeaidd.

This complex and arduous process is a clear deterrent to private sector companies. It is not wonder, as Mark Drakeford says, that they want the contracts rather than the funding when you look at the process that they have to go through. Tidal Energy Ltd is one of the few private sector-led projects from the 2007-13 funding period. That company was very pleased to get the funding, but its evidence was that the application process was arduous and protracted. The Welsh Local Government Association also highlighted the point that most private sector organisations and companies have no interest in being lead project sponsor due to the bureaucracy that involves. There is a very real role for the Welsh Government here—to listen to the recommendations made during the recent reflections exercise and use them to support the private sector, which will ultimately create jobs and achieve some of the goals that

Mae’r broses gymhleth a llafurus hon yn amlwg yn rhwystr i gwmnïau’r sector preifat. Nid yw’n syndod, fel y dywed Mark Drakeford, eu bod yn dymuno cael y contractau yn hytrach na’r arian, pan edrychwch ar y broses y mae'n rhaid iddynt fynd drwyddi. Tidal Energy Ltd yw un o’r ychydig brosiectau sy’n cael ei arwain gan y sector preifat ers cyfnod ariannu 2007-13. Roedd y cwmni hwnnw’n falch iawn o gael yr arian, ond ei dystiolaeth oedd bod y broses ymgeisio’n llafurus ac yn hirfaith. Tynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sylw hefyd at y pwynt nad oes gan y rhan fwyaf o gyrff a chwmnïau'r sector preifat ddiddordeb o gwbl mewn bod yn noddwr arweiniol i brosiect oherwydd bod y broses mor fiwrocrataidd. Mae rôl go iawn i Lywodraeth Cymru yma—sef gwrando ar yr argymhellion a gafwyd yn ystod yr ymarfer adolygu diweddar a’u defnyddio i gefnogi’r sector

not only Labour, but the Conservatives would like to see: creating employment, bringing in skills and fixing permanently the benefits to Wales in areas in most need.

preifat, a fydd maes o law yn creu swyddi ac yn cyflawni rhai o’r nodau y byddai nid yn unig Llafur, ond y Ceidwadwyr, yn hoffi eu gweld: creu swyddi, dod â sgiliau yma a sicrhau bod y buddion yn rhai parhaol yng Nghymru, yn yr ardaloedd mwyaf anghenus.

I want to pick up on what Ieuan Wyn Jones said in terms of the Horizon 2020 funding and the way that universities perhaps have not been able to lever in funding. I totally agree with that point and I know that, in discussing those matters in Brussels, there was an indication that partnerships with foreign institutions that already have the experience of levering this funding between Welsh universities—what is effectively trans-border co-operation—would be favourably looked at in drawing down that funding. It is important that the vice-chancellors look to see what kind of strategic partnerships can be developed at a pan-European level.

Yr wyf am godi rhai o’r pethau a ddywedodd Ieuan Wyn Jones ynglŷn ag arian Horizon 2020 ac nad yw prifysgolion efallai wedi gallu denu arian. Rwyf yn cytuno’n llwyr â’r pwynt hwnnw a gwn, wrth drafod y materion hynny ym Mrwsel, fod awgrym y byddai partneriaethau rhwng prifysgolion Cymru a sefydliadau tramor sydd eisoes wedi cael profiad o ddenu’r arian hwn—sef cydweithredu trawsffiniol yn ei hanfod—yn cael ystyriaeth ffafriol wrth dynnu’r arian hwnnw i lawr. Mae’n bwysig bod is-gangellorion yn ystyried pa fath o bartneriaethau strategol y gellir eu datblygu ar draws Ewrop.

The final issue is drawing down or looking at the opportunity to use European Investment Bank funding. Between 2007 and 2011, Wales only received €464 million from the European Investment Bank, compared with Scotland, which managed to lever in €1.7 billion. It is important that we look at the opportunities not just in terms of structural funds, but in terms of how we can attract funds into Wales. The Welsh Government has made some improvement on this, but it would be useful to see a greater improvement.

Y pwnc olaf yw sut mae tynnu i lawr arian gan Fanc Buddsoddi Ewrop neu sut mae ystyried y cyfle i'w ddefnyddio. Rhwng 2007 a 2011, ni chafodd Cymru ond €464 miliwn gan Fanc Buddsoddi Ewrop, o’i chymharu â’r Alban, a lwyddodd i ddenu €1.7 biliwn. Mae’n bwysig inni edrych ar y cyfleoedd, nid dim ond o ran arian cronfeydd strwythurol, ond o ran sut y gallwn ddenu arian i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwella rhywfaint ar hyn ond byddai’n dda gweld pethau'n gwella eto.

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** I look forward to replying to parts of this debate, which, to be fair, started very well. Nick Ramsay made a long and very good speech without mentioning the motion at all. Had I been in his position, I would have done exactly the same. Other Members, perhaps Janet and Eluned, would have done well to follow his example and advice. We would have all been saved considerable pain this afternoon had they done so. It is no surprise that Nick did not mention the motion, because he does not believe it. That is the truth of the matter. He provided no evidence in support. I am being very generous to you, Nick. I have been in

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies):** Edrychaf ymlaen at ymateb i rannau o’r ddadl hon a ddechreuodd yn dda iawn, a bod yn deg. Gwnaeth Nick Ramsay araith hir a da iawn heb grybwyll y cynnig o gwbl. Petaswn i yn ei sefyllfa ef, byddwn wedi gwneud yr un peth yn union. Byddai Aelodau eraill, Janet ac Eluned efallai, wedi elwa o ddilyn ei esiampl a’i gyngor. Byddai wedi arbed poen sylweddol inni i gyd prynhawn yma petaent wedi gwneud hynny. Nid yw’n syndod o gwbl na chrybwyllodd Nick y cynnig, oherwydd nid yw’n ei gredu. Dyna wirionedd y peth. Ni chynigiodd ddim tystiolaeth yn gefn iddo. Rwyf yn bod yn hael iawn

office a year now, and I thought that you would be celebrating this afternoon. However, I clearly have some more work to do.

wrthych, Nick, Rwyf wedi bod yn fy swydd ers blwyddyn yn awr, a thybiais y byddech yn dathlu y prynhawn yma. Serch hynny, mae'n amlwg bod gennyf ragor o waith i'w wneud.

They say that the programmes are not delivering and that they are failing. Where is the evidence? Did they, for example, ask the European Commission what it thinks? Of course they did not. [*Interruption.*] No, I am going to make my points first. They did not ask the European Commission its views because they know very well the reputation that Wales has in Brussels and in administering and managing these funds. You only have to listen to what the Commission told one our Assembly committees in January:

Maent yn dweud nad yw'r rhaglenni'n cyflawni a'u bod yn methu. Ymhle mae'r dystiolaeth? A wnaethant ofyn, er enghraifft, i'r Comisiwn Ewropeaidd am ei farn? Wrth gwrs na wnaethant. [*Torri ar draws.*] Na, rwyf am wneud fy mhwyntiau yn gyntaf. Ni wnaethant ofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd am ei farn oherwydd gwyddant yn burion am yr enw da sydd gan Gymru ym Mrwsel ac am weinyddu a rheoli'r cronfeydd hyn. Nid oes ond yn rhaid ichi wrando ar yr hyn a ddywedodd y Comisiwn wrth un o'n pwyllgorau yn y Cynulliad ym mis Ionawr:

'The programmes in Wales on particular and different issues are considered to be exemplary in the way in which they are run and in the way…this is proceeding'.

Ystyrir bod y rhaglenni yng Nghymru ar faterion penodol a gwahanol yn rhagorol o ran sut y maent yn cael eu rhedeg ac yn y modd…y mae hyn mynd rhagddo.

The Commission went on to say that :

Aeth y Comisiwn rhagddo i ddweud:

'progress is very good compared with the average in the EU.'

mae'r cynnydd yn dda iawn o'i gymharu â'r safon gyffredin yn yr UE.

[*Interruption.*] If you listened, you might learn something. Further questions were asked in that committee about these programmes in the United Kingdom. A Commission representative then said that:

[*Torri ar draws.*] Petaech yn gwrando, efallai y dysgech chi rywbeth. Gofynnwyd rhagor o gwestiynau yn y pwyllgor hwnnw am y rhaglenni hyn yn y Deyrnas Unedig. Dywedodd un o gynrychiolwyr y Comisiwn bryd hynny:

'The programmes have already met the expectations that were set out at the start of the programmes. All in all, the progress of the competitiveness and convergence programmes is very satisfactory.'

Mae'r rhaglenni eisoes wedi bodloni'r disgwyliadau a nodwyd ar ddechrau'r rhaglenni. O dan yr amgylchiadau, mae cynnydd y rhaglenni cystadleurwydd a chydgyfeirio yn foddhaol dros ben.

Again, those are not my words; they are the words of the Commission. Jocelyn Davies, as Chair of the committee, asked whether there were areas of concern, to which the reply came that, so far, there were not. The Commission said:

Unwaith eto, nid fy ngeiriau i yw'r rheini; geiriau'r Comisiwn ydynt. Gofynnodd Jocelyn Davies, Cadeirydd y Pwyllgor, a oedd unrhyw feysydd a oedd yn destun pryder, a'r ateb a gafodd oedd nad oedd dim cyn belled. Dywedodd y Comisiwn:

'On average, you are performing better than most UK programmes in introducing ESF payment claims to the Commission.'

Ar gyfartaledd, rydych yn perfformio'n well na'r rhan fwyaf o raglenni y DU o ran cyflwyno hawliadau am arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop i'r Comisiwn.

There you have it. That is not the story that we see in the motion or in the speeches this afternoon. We are clear, from the words of the Commission itself, that the Welsh management of these programmes is not simply good, but it is exemplary.

Dyna chi. Nid dyna'r stori a welwn yn y cynnig nac yn yr areithiau y prynhawn yma. Mae'n glir i ni, yng ngeiriau'r Comisiwn ei hun, fod y ffordd y mae Cymru yn rheoli'r rhaglenni hyn nid yn unig yn dda, mae'n esiampl i eraill.

**Andrew R.T. Davies:** That is from a Commission that cannot get its own accounts signed off. My question to you is this: is it a mark of success that we are in line for the third tranche of Objective 1 convergence funding? Is that a measure of success, Deputy Minister?

**Andrew R.T. Davies:** A hynny gan Gomisiwn na all hyd yn oed gael cymeradwyo'i gyfrifon ei hun. Fy nghwestiwn i ichi yw hyn: ai arwydd o lwyddiant yw ein bod ar fin cael trydedd gyfran o arian cydgyfeiriant Amcan 1? Ai hynny yw mesur ein llwyddiant, Ddirprwy Weinidog?

**Alun Davies:** This question was asked in the same meeting. The answer then was that this sort of conversation is, in the words of the Commission, 'meaningless'. We need to understand the reasons why GDP has not experienced an increase. The committee was told:

**Alun Davies:** Gofynnwyd y cwestiwn hwn yn yr un cyfarfod. Yr ateb bryd hynny oedd bod y math hwn o sgwrs, yng ngeiriau'r Comisiwn, 'yn ddiystyr'. Mae angen inni ddeall y rhesymau pam nad yw'r cynnyrch mewnwladol crynswth wedi cynyddu. Dywedwyd wrth y pwyllgor:

'You are still under the influence of the decline of the traditional industries in Wales. GDP is not the only measure'.

Rydych yn dal o dan ddylanwad dirywiad y diwydiannau traddodiadol yng Nghymru. Nid y cynnyrch mewnwladol crynswth yw'r unig ffordd o fesur hynny.

4.15 p.m.

Those are the Commission's words. You make these assumptions and assertions, but you have nothing at all to sustain them. Let us move on from that. You have made several points, and many of the Conservative speakers this afternoon have made several points about business and the role of the private sector. I have said repeatedly in contributions to the Assembly and in statements that I have made since taking office that I expect and want to involve business in the design, administration and delivery of European programmes, both now and in the future. Let us consider what we have been doing. We launched the reflection exercise in December, but I was unhappy that we did not get a great enough response from business to it, so I introduced another exercise in March—Eluned Parrott referred to it in her contribution. We learnt a lot from that and business was very pleased about it. It was pleased to have the opportunity to talk to us in detail about the administration of these funds and their management. The message is

Geiriau'r Comisiwn yw'r rheini. Gallwch dybio a haeru fel y mynnwch, ond nid oes gennych ddim byd o gwbl i ategu hynny. Gadewch inni symud ymlaen o hynny. Rydych wedi gwneud sawl pwynt, ac mae llawer o siaradwyr y Ceidwadwyr y prynhawn yma wedi gwneud sawl pwynt am fusnes a rôl y sector preifat. Rwyf wedi dweud droeon yn fy nghyfraniadau i'r Cynulliad ac mewn datganiadau ers dod i'm swydd fy mod yn disgwyl cynnwys busnesau ac yn awyddus i wneud hynny wrth gynllunio, gweinyddu a chyflawni rhaglenni Ewropeaidd, yn awr ac yn y dyfodol. Gadewch inni ystyried yr hyn rydym wedi bod yn ei wneud. Lansiwyd yr ymarfer adolygu ym mis Rhagfyr, ond roeddwn yn anhapus chawsom ddigon o ymateb gan fyd busnes inni allu gwneud y gwaith, felly cyflwynais ymarfer arall ym mis Mawrth—cyfeiriodd Eluned Parrott ato yn ei chyfraniad. Dysgasom lawer yn sgîl hynny ac roedd byd busnes yn hapus iawn yn ei gylch. Roedd yn falch o gael y cyfle i siarad â ni'n

very clear: different organisations, businesses, companies and institutions want to play a different role in the delivery and administration of these programmes, as was pointed out by Mark Drakeford.

fanwl am weinyddu a rheoli’r cronfeydd hyn. Mae’r neges yn glir iawn: mae gwahanol sefydliadau, busnesau, cwmnïau a sefydliadau am chwarae gwahanol rôl ym mhroses cyflawni a gweinyddu’r rhaglenni hyn, fel y dywedodd Mark Drakeford.

We have involved business, both in my ministerial advisory group and in the future programmes forum that Mark chairs. The message that we have had from business and private industry has been clear and unanimous. I spoke again at the economic renewal council this morning and had the same message back. It wants the opportunity to bid for contracts and to work through procurement to deliver European projects. What we did not hear from the Conservative benches this afternoon was any analysis of what is happening or any comparative analysis with what is happening in other parts of the United Kingdom. There is already a greater opportunity for business to deliver on European programmes than in any other part of the United Kingdom—they did not mention that; they might not know that that is the case.

Rydym wedi cynnwys byd busnes, yng ngrŵp cynghori’r gweinidog a hefyd yn fforwm rhaglenni’r dyfodol y mae Mark yn ei gadeirio. Mae’r neges rydym wedi’i chael gan fyd busnes a diwydiant preifat wedi bod yn glir ac yn unfryd. Siaradais eto yng nghyngor adfywio’r economi y bore yma, a'r un neges a gefais. Mae am gael y cyfle i ymgeisio am gontractau a gweithio drwy’r drefn gaffael er mwyn cyflawni prosiectau Ewropeaidd. Yr hyn na chlywsom gan feinciau’r Ceidwadwyr y prynhawn yma oedd unrhyw ddadansoddiad o’r hyn sy’n digwydd nac unrhyw ddadansoddiad yn ei gymharu â’r hyn sy’n digwydd mewn rhannau eraill o’r Deyrnas Unedig. Mae mwy o gyfle eisoes i fusnesau gyflawni rhaglenni Ewropeaidd nag mewn unrhyw ran arall o’r Deyrnas Unedig—ni chrybwyllwyd hynny ganddynt; efallai nad ydynt yn gwybod mai dyna'r gwir.

There is an opportunity for people to take part in procurement exercises. Over 1,000 businesses in Wales are already benefitting from that, and £450 million in contract value has been placed with private business to deliver European programmes. That is a success and is business working with the Government to deliver programmes throughout the regions.

Mae cyfle i bobl gymryd rhan mewn ymarferion caffael. Mae dros 1,000 o fusnesau yng Nghymru eisoes yn elwa o hynny, ac mae gwerth £450 miliwn o gontractau wedi’i osod gyda busnesau preifat i wireddu rhaglenni Ewropeaidd. Mae hynny’n llwyddiant ac mae’n enghraifft o fyd busnes yn cydweithio â’r Llywodraeth i wireddu rhaglenni drwy'r rhanbarthau.

On the points raised by Ieuan Wyn Jones, I agree with almost all his speech and the points he made, particularly those about the need for coherence between different funds. I had a conversation in the Foreign Office on Monday about how to ensure that the UK’s position has that coherence, when we have different negotiating teams working in different programmes and projects on different issues. As a United Kingdom team, we need to be able to put forward proposals that will ensure that we have common sets of regulations that seek to administer and simplify the management of all the different funding streams that run into Wales. That is an important aspect of simplification,

O ran y pwyntiau a godwyd gan Ieuan Wyn Jones, rwyf yn cytuno â’i araith i gyd bron iawn ac â’r pwyntiau a wnaeth, yn enwedig y rheini ynglŷn â bod angen cydlynu'r gwahanol gronfeydd. Cefais sgwrs yn y Swyddfa Dramor ddydd Llun am sut mae sicrhau bod safbwynt y Deyrnas Unedig yn cael ei gydlynu fel hynny, pan fydd gennym wahanol dimau negodi’n gweithio mewn gwahanol raglenni a phrosiectau ar wahanol faterion. A ninnau’n dîm sy’n cynrychioli’r Deyrnas Unedig mae angen inni allu cyflwyno cynigion a fydd yn sicrhau bod gennym setiau cyffredin o reoliadau sy’n ceisio gweinyddu a symleiddio trefniadau rheoli’r holl lifau ariannu gwahanol sy’n llifo

ensuring that bureaucracy is kept to a minimum and ensuring that the funding that we have available to us is always used to promote and encourage economic development. That is one of the things that we have been trying to do over the last few weeks and months.

i Gymru. Mae hynny'n agwedd bwysig ar y symleiddio, gan sicrhau bod cyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl a bod yr ariannu sydd ar gael inni bob tro'n cael ei ddefnyddio i hybu ac annog datblygu economaidd. Dyna un o'r pethau rydym wedi bod yn ceisio'i wneud dros yr ychydig wythnosau a misoedd diwethaf.

Eluned made some very good points, to be fair, on issues to do with evaluation. However, I have to say to her that I brought forward the publication date of the last synthesis report to a date in March, in order to inform the debate and enable Members to have an opportunity to read through a full analysis of the first round of European programmes, which has now been completed. The clue is in the title: it is a synthesis report of a number of different evaluation programmes, audits and reviews. The purpose was to bring them all together in a single document to enable people to understand what the lessons are from those programmes and to take forward our debate in a more informed fashion—we were a bit optimistic about the Conservatives, I accept that. We wanted to take forward the debate in a more informed manner, so that when we are delivering future programmes, we will be able to do so having learnt lessons from the last programmes.

Gwnaeth Eluned nifer o bwyntiau da, a bod yn deg, am faterion yn ymwneud â gwerthuso. Serch hynny, rhaid imi ddweud wrthi imi ddod â dyddiad cyhoeddi'r adroddiad crynhoi diwethaf yn ei flaen i ddyddiad ym mis Mawrth, er mwyn cael sylfaen ar gyfer y ddadl a galluogi Aelodau i gael cyfle i ddarllen drwy ddadansoddiad llawn o'r cylch cyntaf o raglenni Ewropeaidd, sydd wedi'i gwblhau bellach. Mae'r cliw yn y teitl: adroddiad ydyw sy'n crynhoi nifer o wahanol raglenni, archwiliadau ac adolygiadau gwerthuso. Y pwrpas oedd dod â hwy i gyd ynghyd mewn un ddogfen er mwyn i bobl allu deall pa wersi sydd i'w dysgu yn sgîl y rhaglenni hynny a bwrw ymlaen â'n dadl ar sail fwy gwybodus—roeddem braidd yn optimistig am y Ceidwadwyr, rwyf yn derbyn hynny. Roeddem am fwrw ymlaen â'r ddadl mewn ffordd fwy gwybodus, er mwyn inni, wrth wireddu rhaglenni'r dyfodol, allu gwneud hynny ar sail y gwersi a ddysgwyd yn sgîl y rhaglenni diwethaf.

My time has come to an end. I have enjoyed the opportunity of putting our Conservative friends right again. I hope that they will not continue to talk down all the businesses and organisations involved in the delivery of European programmes. European programmes have been of great value and benefit to Wales. I hope that the processes and structures that we have put in place will ensure that they continue to be so in the future. I also hope that people throughout Wales will benefit from that renewed focus in our European programmes.

Mae fy amser wedi dod i ben. Rwyf wedi mwynhau'r cyfle o roi ein cyfeillion Ceidwadol ar ben ffordd unwaith eto. Rwyf yn gobeithio na wnânt barhau i ddifrïo'r holl fusnesau a'r sefydliadau sydd wrthi'n cyflawni rhaglenni Ewropeaidd. Mae rhaglenni Ewropeaidd wedi bod o werth ac o fudd mawr i Gymru. Rwyf yn gobeithio y bydd y prosesau a'r strwythurau yr ydym wedi'u rhoi ar waith yn sicrhau y byddant yn parhau felly yn y dyfodol. Rwyf yn gobeithio y bydd pobl o bob cwr o Gymru yn elwa o'r canolbwyntio newydd hwnnw yn ein rhaglenni Ewropeaidd.

**Mark Isherwood:** I thank everyone across the Chamber for the contributions made, including the valued contribution, as always, of the Deputy Minister.

**Mark Isherwood:** Diolch i bawb drwy'r Siambr am eu cyfraniadau, gan gynnwys cyfraniad gwerthfawr, fel ag erioed, gan y Dirprwy Weinidog.

Nick Ramsay began by saying that this was

Dechreuodd Nick Ramsay drwy ddweud bod

about the future of Wales and not about buzz words, and making the most of the opportunities available to us. He referred to evidence such as the recognition at EU level that things need to be done differently. Gone are the days when Europe simply throws money at underperforming economies. He said that the Welsh Government could no longer target money at propping up our poorest areas. We must face up to where mistakes have been made and avoid repeating them. We only needed rounds of funding beyond phase 1 funding because of the failure of that funding to tackle the gap in economic activity and wealth creation. He referred to stakeholders such as the Federation of Small Businesses, which has previously spoken of insufficient engagement by the Welsh Government. As he said, we need a transformational social and economic change to a high-value economy, bringing together business, higher education and research in a way that has not happened in the past. It was a valuable contribution.

a wnelo hyn â dyfodol Cymru ac nid â geiriau ffasiynol, ac â manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael inni. Cyfeiriodd at dystiolaeth megis cydnabyddiaeth ar lefel yr UE bod angen gwneud pethau'n wahanol. Mae'r dyddiau pan nad oedd Ewrop yn gwneud fawr mwy na thaflu arian at economïau sy'n tanberfformio wedi hen fynd heibio. Dywedodd na allai Llywodraeth Cymru dargedu arian rhagor at roi ysgwydd dan ein hardaloedd tlotaf. Rhaid inni wynebu'r camgymeriadau sydd wedi'u gwneud ac osgoi eu hailadrodd. Yr unig reswm yr oedd angen cylchoedd ariannu arnom y tu hwnt i arian cyfnod 1 oedd bod yr arian hwnnw wedi methu mynd i'r afael â'r bwlch mewn gweithgarwch economaidd a chreu cyfoeth. Cyfeiriodd at randdeiliaid megis y Ffederasiwn Busnesau Bach, sydd wedi sôn yn y gorffennol am ddiffyg ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru. Fel y dywedodd, mae angen newid cymdeithasol ac economaidd i'n trawsnewid yn economi uchel ei gwerth, gan ddod â busnesau, addysg uwch ac ymchwil ynghyd mewn ffordd newydd. Roedd yn gyfraniad gwerthfawr.

Ieuan Wyn Jones of Plaid Cymru said that the motion was based on misconceptions, with an underlying implication that EU funding had been squandered and that there had been no improvement in the Welsh economy. There has certainly been no relative improvement in the Welsh economy. He said that the fiscal and monetary policies of the UK Government have a far greater impact, and the fact that he was the Minister responsible for economic development between 2007 and 2011 clearly had absolutely no bearing on his comments. In fact, the latest GVA and GDP figures, which have been referred to, only go as far as 2009, although they were published earlier this year. That happened before there had even been a change in the UK Government.

Dywedodd Ieuan Wyn Jones o Blaid Cymru fod y cynnig wedi'i seilio ar gamganfyddiadau am ei fod wedi'i seilio ar yr awgrym bod arian yr UE wedi'i wastraffu ac nad oedd economi Cymru wedi gwella. Yn sicr, nid yw economi Cymru wedi gwella o safbwynt cymharol. Dywedodd fod polisïau ariannol a chyllidol Llywodraeth y Deyrnas unedig yn cael mwy o ddylanwad o lawer, ac mae'n amlwg nad oedd gan y ffaith mai ef oedd y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am ddatblygu economaidd rhwng 2007 a 2011 ddim dylanwad o gwbl ar ei sylwadau. A dweud y gwir, nid yw'r ffigurau gwerth ychwanegol crynswth a cynnyrch mewnwladol crynswth diweddaraf y cyfeiriwyd atynt, ond yn mynd cyn belled â 2009, er na chawsant eu cyhoeddi tan yn gynharach eleni. Digwyddodd hynny cyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig newid hyd yn oed.

The gross domestic product figures, published by the statistical office of the EU on 13 March, showed the total value of all goods and services produced per head and revealed that Wales as a whole, up to 2009, remained bottom of the 12 UK nations and

Roedd y ffigurau cynnyrch mewnwladol crynswth a gyhoeddwyd gan swyddfa ystadegau'r Undeb Ewropeaidd ar 13 Mawrth, yn dangos cyfanswm gwerth yr holl nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchwyd y pen ac yn datgelu bod Cymru, drwyddi draw,

regions, and had slipped even further behind the others. Wales received £1.5 billion from 2000 to 2006 in EU funding and another £1.6 billion from 2007 up to next year, 2013, yet the economies of west Wales and the Valleys have fallen further behind the European average and are the poorest in the UK. In terms of GDP, west Wales and the Valleys are behind some of the poorest regions in Europe, including Slovakia and Slovenia. GDP is the indicator used on a pan-European basis, and is a well-established benchmark for economic performance. Ieuan Wyn Jones concluded by saying that we needed a coherent approach to the development of the next phase of EU funding, and we fully agree with his conclusions.

hyd at 2009 yn dal ar waelod 12 cenedl a rhanbarth y Deyrnas Unedig, a'i bod wedi llithro ymhellach fyth ar ôl y lleill. Cafodd Cymru £1.5 biliwn o arian yr Undeb Ewropeaidd rhwng 2000 a 2006 ac £E1.6 biliwn arall rhwng 2007 a'r flwyddyn nesaf, 2013. Eto i gyd mae economïau gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi llithro ymhellach fyth ar ôl cyfartaledd Ewrop a hwy yw'r ardaloedd tlotaf yn y Deyrnas Unedig. O ran cynnyrch mewnwladol crynswth mae gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn llusgo ar ôl rhai o ranbarthau tlotaf Ewrop, gan gynnwys Slofacia a Slofenia. Cynnyrch mewnwladol crynswth yw'r dangosydd a ddefnyddir drwy Ewrop ac mae'n feincnod a ddefnyddir ers tro ar gyfer perfformiad economaidd. Daeth Ieuan Wyn Jones i ben drwy ddweud bod angen inni arddel ymagwedd gydlynol at ddatblygu cam nesaf ariannu'r Undeb Ewropeaidd, ac rydym yn cytuno'n llwyr â'i gasgliadau.

Eluned Parrott stated that the Welsh Government only conducted a limited review of previous EU spending, when we need a more sophisticated, detailed and effective review. We fully endorse that. She said that there had been a lack of investment in key areas of economic growth, and a failure to adequately involve the private sector. She concluded by saying that we should focus on the future up to 2020, and I think that everyone is on board with that.

Dywedodd Eluned Parrot mai adolygiad cyfyngedig a gynhaliwyd gan Lywodraeth ar wariant blaenorol yr EU, a bod angen adolygiad mwy soffistigedig, manwl ac effeithiol. Rydym yn ategu hynny'n llwyr. Dywedodd fod diffyg buddsoddi wedi bod mewn meysydd twf economaidd allweddol, a methu cynnwys y sector preifat ddigon. Ei chasgliad oedd y dylem ganolbwyntio ar y dyfodol hyd at 2020, a chredaf fod pawb yn cytuno â hynny.

Janet Finch-Saunders referred again to the money squandered by the Welsh Government, leaving Wales even further behind. She said that Wales ranked low in research and development, economic activity and competitiveness. She rightly said that public sector projects can help, but that the private sector can provide the innovation and the jobs needed, and that we needed a step change in approach.

Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders eto at yr arian a wastraffwyd gan Lywodraeth Cymru, gan adael Cymru ymhellach ar ei hôl hi fyth. Dywedodd fod Cymru yn isel ar restr ymchwil a datblygu, gweithgarwch economaidd a chystadleurwydd. Roedd yn llygad ei lle'n dweud y gall prosiectau'r sector cyhoeddus helpu, ond y sector preifat sy'n gallu darparu'r arloesi a'r swyddi sydd eu hangen, a bod newid mawr yn y ffordd rydym yn mynd o'i chwmpas hi.

Mark Drakeford referred to bafflement about the motion in Merthyr. I do not know about Merthyr, but many projects that have applied for funding say that even organisations with experience of the process, such as local authorities, can find it to be complex. In fact, Rhondda Cynon Taf County Borough Council stated that in January. Powys,

Cyfeiriodd Mark Drakeford at y penbleth ynglŷn â'r cynnig ym Merthyr. Ni wn am Ferthyr, ond mae llawer o brosiectau sydd wedi gwneud cais am arian yn dweud bod hyd yn oed sefydliadau sydd â phrofiad o'r broses, megis awdurdodau lleol, yn ei chael yn gymhleth. A dweud y gwir, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon

Newport, Rhondda Cynon Taf and Pembrokeshire councils have all expressed concerns regarding the application process. So, I am pleased to hear that everything is so wonderful in Merthyr, but it would appear that not everybody is quite so delighted.

Taf hynny ym mis Ionawr, mae cynghorau Powys, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf a Sir Benfro i gyd wedi mynegi pryder am y broses ymgeisio. Felly, rwyf yn falch o glywed bod popeth mor wych ym Merthyr, ond nid yw pawb yn gwirioni yn yr un modd, i bob golwg.

Mohammad Asghar said that, due to the weakness of the Welsh economy, Wales has been eligible for two rounds of EU funding and that Wales continues to fall behind the EU average and is set to qualify for another round of funding. Why has so much been spent to so little effect? Antoinette Sandbach referred to the depressing fact that the Welsh Government is only now talking about establishing the initiatives required years ago.

Dywedodd Mohammad Asghar, oherwydd gwendid economi Cymru, fod Cymru wedi bod yn gymwys ar gyfer dau gylch ariannu'r Undeb Ewropeaidd a bod Cymru yn dal i lusgo ar ôl cyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd ac ar fin cymhwyso ar gyfer cylch arall o arian. Pam mae cymaint wedi cael ei wario a hynny wedi cael cyn lleied o ddylanwad? Cyfeiriodd Antoinette Sandbach at y ffaith drist mai yn awr y mae Llywodraeth Cymru yn sôn am sefydlu’r cynlluniau yr oedd eu hangen flynyddoedd yn ol.

Of course, the Deputy Minister replied that he liked Nick’s speech; well, so did we. It was fact based and it was looking forward. Rather than addressing the evidence, the Deputy Minister then asked where the evidence was, perhaps revealing the very problem behind a decade of missed opportunities and wasted spending by the Welsh Government.

Wrth gwrs, atebodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn hoffi araith Nick; wel, a ninnau hefyd. Roedd wedi’i seilio ar ffeithiau ac roedd yn edrych tua’r dyfodol. Yn hytrach na sôn am y dystiolaeth, gofynnodd y Dirprwy Weinidog wedyn ymhle’r oedd y dystiolaeth, gan ddatgelu'r union broblem efallai sydd wedi achosi degawd o fethu cyfleoedd a gwario gwastraffus gan Lywodraeth Cymru.

When Andrew R.T. Davies asked whether it is a mark of success that Wales is in line for a third tranche of funding, the Deputy Minister said that that was a meaningless question, again perhaps revealing the mindset behind the problem over the decade when £3.1 billion has gone down the pan in many respects. He said that they had involved business—a mantra repeated by every previous Minister in his role, as Wales fell ever behind. I note that my time is nearly up, and I therefore call on Members to support the motion in order to secure the future for the people of Wales.

Pan ofynnodd Andrew R.T. Davies ai arwydd o lwyddiant yw bod Cymru ar fin cael trydedd gyfran o ariannu, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y cwestiwn hwnnw’n ddiystyr, gan ddatgelu unwaith eto efallai’r ffordd o feddwl sydd wedi bod yn wraidd i’r broblem dros ddegawd, degawd a welodd £3.1 miliwn yn cael ei wastraffu ar sawl cyfrif. Dywedodd eu bod wedi cynnwys byd busnes—mantra a ailadroddwyd gan bob cyn Weinidog yn ystod ei gyfnod yn y swydd, wrth i Gymru lusgo fwy byth ar ei hôl hi. Sylwaf fod fy amser bron ar ben, ac felly galwaf ar yr Aelodau i gefnogi’r cynnig er mwyn sicrhau’r dyfodol i bobl Cymru.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The question is that the motion without amendment be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn yw ein bod yn derbyn y cynnig heb welliant. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Dadl Plaid Cymru
## Plaid Cymru Debate

### Economïau Lleol
### Local Economies

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The Presiding Officer has selected amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendments 2 and 4 in the name of William Graham, and amendment 3 in the name of Aled Roberts. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Mae'r Llywydd wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliannau 2 a 4 yn enw William Graham, a gwelliant 3 yn enw Aled Roberts. Os bydd gwelliant 1 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol.

*Cynnig NDM5003 Jocelyn Davies*

*Motion NDM5003 Jocelyn Davies*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn croesawu'r syniadau ar gyfer dod ag adnoddau ynghyd a chydweithio i gryfhau economïau lleol fel y nodir yn 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd.'*

*1. Welcomes the ideas for pooling resources and working together to strengthen local economies as set out in 'A Greenprint for the Valleys.'*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o ddatblygu rhaglen benodol i adfywio cymunedau a thrwy hynny sicrhau bod ganddynt ddyfodol economaidd ffyniannus a chynaliadwy.*

*2. Calls on the Welsh Government to explore ways of developing a specific programme for revitalising communities thereby ensuring that they have a viable and sustainable economic future.*

**Leanne Wood:** I move the motion.

**Leanne Wood:** Cynigiaf y cynnig.

I would like to start by explaining the reasons behind tabling this motion today on the greenprint document that I published last year on behalf of Plaid Cymru. The greenprint document was launched as a starting point for the debate, as a consultation document. Initially, it was about one specific area of Wales—the Valleys—but, in general, it was a call for a debate that it is absolutely essential to have in all parts of our nation, if we are to tackle the structural problems that lie beneath Wales's poor economic performance. The greenprint does not claim to have all the answers. It is the foundation on which greater ideas can be built. It is a start, a statement of intent—an intent to change course, an intent to learn anew and, yes, to make use of what has worked well elsewhere and in the past. However, what it demonstrates is that intent in itself and determination to see that through

Hoffwn ddechrau drwy egluro'r rhesymau sydd wrth wraidd cyflwyno'r cynnig hwn heddiw ynghylch y cynllun gwyrdd a gyhoeddais y llynedd ar ran Plaid Cymru. Cafodd y cynllun gwyrdd ei lansio fel man cychwyn ar gyfer y ddadl, fel dogfen ymgynghori. I ddechrau, roedd yn ymwneud ag un ardal benodol yng Nghymru—y Cymoedd—ond, yn gyffredinol, roedd yn galw am ddadl y mae'n gwbl hanfodol ein bod yn ei chynnal ym mhob rhan o'n cenedl, os ydym am fynd i'r afael â'r problemau strwythurol sydd wrth wraidd perfformiad economaidd gwael Cymru. Nid yw'r cynllun gwyrdd yn honni bod ganddo'r holl atebion. Sylfaen i ddatblygu rhagor o syniadau ydyw. Mae'n ddechrau, yn ddatganiad o fwriad—bwriad i newid cyfeiriad, bwriad i ddysgu o'r newydd ac, ydy, mae'n fwriad i ddefnyddio'r hyn sydd wedi gweithio'n dda mewn mannau

are essential if we are to improve the lives of our people.

eraill ac yn y gorffennol. Fodd bynnag, yr hyn y mae'n ei ddangos yw bod bwriad ynddo'i hun a bod yn benderfynol o gyflawni hynny yn hanfodol os ydym am wella bywydau pobl Cymru.

Back in October 2011, I asked the First Minister to consider the job-creating ideas outlined in the greenprint. Initially, he said that he would read it. On a later occasion, when I asked how he was getting on, he said that he had started to look at it, but did not make it through to the end. I do not think we are in a position where we can afford to dismiss ideas that have the potential to make a contribution to turn around the Welsh economy. Every time a new set of statistics is released, we see that the Welsh economy is getting weaker and weaker. We have not learnt the lessons of our past mistakes and successes. We keep doing things the old way, not challenging the system or the structure of our economy.

Yn ôl ym mis Hydref 2011, gofynnais i'r Prif Weinidog ystyried y syniadau i greu swyddi a amlinellir yn y cynllun gwyrdd. Ar y dechrau, dywedodd y byddai'n ei ddarllen. Pan ofynnais iddo'n ddiweddarach sut roedd pethau'n mynd, dywedodd ei fod wedi dechrau edrych arno, ond nad oedd wedi cyrraedd y diwedd. Nid wyf yn meddwl ein bod mewn sefyllfa lle gallwn fforddio diystyru syniadau sydd â'r potensial i wneud cyfraniad i weddnewid economi Cymru. Bob tro y mae set newydd o ystadegau yn cael ei rhyddhau, rydym yn gweld bod economi Cymru yn mynd yn wannach ac yn wannach. Nid ydym wedi dysgu gwersi o'n camgymeriadau a'n llwyddiannau yn y gorffennol. Rydym yn dal i wneud pethau yn yr hen ffordd, heb herio system na strwythur ein heconomi.

The greenprint proposes a set of interconnected proposals that, if taken as a whole, have the potential to transform declining communities by not only creating jobs, but building in resilience to the challenges people in our communities face now, as well as the problems they are likely to face in future. It aims to address long-term unemployment and the associated social problems. It aims to address the reducing welfare safety net and the threats posed by peak oil, the energy crunch and climate change. Were these proposals to be implemented—and that would take longer than one political term—they would change the structure of the Welsh economy. Small is beautiful. Co-operation comes from a different starting point to competition. Independence and interdependence are better than dependence. It is about communities doing things for themselves and not expecting someone from elsewhere to help them out, and it is about self-sufficiency and subsidiarity, decentralisation, sustainability and living within our means. These are the buzzwords, the basic principles that underpin the greenprint and that come from deep within the psyche and thinking of my party, Plaid Cymru.

Mae'r cynllun gwyrdd yn cynnig set o gynigion cysylltiedig sydd â'r potensial, os cânt eu mabwysiadu yn eu cyfanrwydd, i weddnewid cymunedau sy'n dirywio, nid yn unig drwy greu swyddi ond hefyd drwy feithrin gwytnwch i wrthsefyll yr heriau y mae pobl yn ein cymunedau yn eu hwynebu yn awr, yn ogystal â'r problemau y maent yn debygol o'u hwynebu yn y dyfodol. Mae'n ceisio mynd i'r afael â diweithdra hirdymor a'r problemau cymdeithasol cysylltiedig. Mae'n ceisio mynd i'r afael â rhwyd ddiogelwch y system les sy'n mynd yn llai ac yn llai, a'r bygythiadau a achosir gan benllanw olew, y wasgfa ynni a'r newid yn yr hinsawdd. Pe bai'r cynigion hyn yn cael eu gweithredu—a byddai hynny'n cymryd mwy o amser nag un tymor gwleidyddol—byddent yn newid strwythur economi Cymru. Mae pethau bach yn wych. Mae gwreiddiau cydweithio yn wahanol i wreiddiau cystadleuaeth. Mae annibyniaeth a chyd-ddibyniaeth yn well na dibyniaeth. Mae'n ymwneud â chymunedau yn gwneud pethau drostynt eu hunain, ac nid disgwyl i rywun o rywle arall eu helpu, ac mae'n ymwneud â hunanddigonedd a datganoliaeth, datganoliad, cynaliadwyedd a byw o fewn ein modd. Dyna yw'r geiriau allweddol, yr

egwyddorion sylfaenol sy'n sail i'r cynllun gwyrdd ac sy'n ddwfn yn ysbryd a meddylfryd fy mhlaid i, Plaid Cymru.

4.30 p.m.

D.J. Davies and Noelle Davies were among those who founded Plaid Cymru. They worked as a two-person research unit for Plaid, struggling over many years to provide a Welsh response to the near-global depression of the 1930s, which was affecting people in Wales disproportionately compared to those in other parts of the UK. Does that sound familiar? They came up with a form of socialism that rejected the large impersonal controlling state, instead encouraging localism, enterprise and self-reliance. In the greenprint, this thinking is fused with that of Robert Owen, the grandfather of co-operatives, Leopold Kohr, tutor to Schumacher, who wrote the famous 1960s book, *Small is Beautiful,* the 1930s new deal in the United States, the great cultural critic and Welsh political thinker Raymond Williams, together with the practice of the multitude of small and medium-sized co-operatives, social enterprises, community organisations and networks that already exist all over Wales. Of course, that has to be balanced against national objectives such as the redistribution of wealth and environmental considerations, which transcend national boundaries anyway, and, of course, questions of infrastructure. Systems set up to ensure the participation of people at local, regional and national level via a democratic network of co-operation, as proposed in the greenprint, should enable those national objectives to be implemented at a local level.

Roedd D.J. Davies a Noelle Davies ymysg y rheini a sefydlodd Blaid Cymru. Buont yn gweithio fel uned ymchwil o ddau berson dros Blaid Cymru, yn ymlafnio dros flynyddoedd lawer i ddarparu ymateb Cymreig i'r dirwasgiad a fu bron yn fyd-eang yn y 1930au, a oedd yn cael effaith anghyfartal ar bobl yng Nghymru o'u cymharu â phobl mewn rhannau eraill o'r DU. A yw hynny'n swnio'n gyfarwydd? Gwnaethant feddwl am fath o sosialaeth a oedd yn gwrthod y wladwriaeth reolaethol amhersonol fawr, gan annog brogarwch, menter a hunanddibyniaeth yn lle hynny. Yn y cynllun gwyrdd, mae'r meddylfryd hwn yn cyd-fynd â meddylfryd Robert Owen, sylfaenydd mentrau cydweithredol, meddylfryd Leopold Kohr, tiwtor Schumacher a ysgrifennodd y llyfr enwog '*Small is Beautiful'* yn y 1960au, y fargen newydd yn y 1930au yn yr Unol Daleithiau, meddylfryd Raymond Williams, y beirniad diwylliannol mawr a'r meddyliwr gwleidyddol o Gymru, ynghyd ag arferion y llu o fentrau cymdeithasol, mudiadau cymunedol, rhwydweithiau a mentrau cymunedol bach a chanolig sydd eisoes yn bodoli ar hyd a lled Cymru. Wrth gwrs, mae'n rhaid cydbwyso hynny yn erbyn amcanion cenedlaethol fel ailddosbarthu cyfoeth ac ystyriaethau amgylcheddol, sydd uwchlaw ffiniau cenedlaethol beth bynnag, ac, wrth gwrs, cwestiynau ynghylch seilwaith. Dylai systemau a sefydlir i sicrhau cyfranogiad pobl ar lefel leol, lefel ranbarthol a lefel genedlaethol drwy rwydwaith democrataidd o gydweithredu—fel y cynigir yn y cynllun gwyrdd—ei gwneud yn bosibl i gyflawni’r amcanion cenedlaethol hynny ar lefel leol.

The one part of the greenprint that it is essential to have in place before it can be started is the finance vehicle. The greenprint suggests that local authorities set up arm’s-length people’s investment funds to provide no-up-front-cost and low-cost loans and grants to fund home energy efficiency schemes and microgeneration capacity for homes and businesses. This could be

Mae'n hanfodol bod un rhan o'r cynllun gwyrdd yn ei lle cyn y gellir dechrau arno, sef yr elfen gyllid. Mae'r cynllun gwyrdd yn awgrymu bod awdurdodau lleol yn sefydlu cronfeydd buddsoddi mewn pobl hyd braich i ddarparu benthyciadau a grantiau cost isel a heb gostau ymlaen llaw i gyllido cynlluniau effeithlonrwydd ynni cartref a chapasiti microgynhyrchu ar gyfer cartrefi a busnesau.

established by pulling together the borrowing power of local government, pension funds, Finance Wales, European funds, local private investment through the selling of community shares, the involvement of the Co-operative Bank, the unfortunately-named Principality Building Society, some banks and other building societies, as well as credit unions and any other funds that could be pulled in.

Gellid sefydlu hyn drwy ddwyn ynghyd bŵer benthyca llywodraeth leol, cronfeydd pensiwn, Cyllid Cymru, cronfeydd Ewropeaidd a buddsoddiad lleol preifat drwy werthu cyfranddaliadau cymunedol, gan fanteisio ar Co-operative Bank, Cymdeithas Adeiladu’r Principality—sydd ag enw anffodus—rhai banciau a chymdeithasau adeiladu eraill, yn ogystal ag undebau credyd ac unrhyw gronfeydd eraill y gellid eu denu.

Members will be aware that Plaid Cymru has long championed a model for financing infrastructure investment, the Build for Wales scheme, which, unfortunately, the Welsh Government seems to be missing an opportunity to pursue. I cannot understand why the Government is not being as creative as it possibly can and why it is not prepared to take on new ideas that will get us out of the mess that we are in. We could be looking at examples from other countries, such the example from Quebec, the Capital Régional et Coopératif Desjardins investment fund, to create these local investment funds, because, without the money, we can do nothing. Those funds could be especially targeted at starting up co-operatives that can contribute to the key aims of increasing the self-sufficiency of communities and their ability to meet their own energy needs renewably as far as possible. They could also be made available for firms to produce food and to process or re-use waste.

Bydd yr aelodau'n gwybod bod Plaid Cymru wedi bod yn hyrwyddo model ar gyfer cyllido buddsoddiad seilwaith ers tro, sef cynllun Build 4 Wales—nid yw Llywodraeth Cymru, i bob golwg, yn mynd ar drywydd hyn yn anffodus. Ni allaf ddeall pam nad yw'r Llywodraeth yn bod mor greadigol â phosibl, a pham nad yw'n fodlon ystyried syniadau newydd a fydd yn ein tynnu o'r llanastr rydym ynddo. Gallem fod yn edrych ar enghreifftiau o wledydd eraill, fel yr enghraifft o Quebec, cronfa fuddsoddi Capital Régional et Coopératif Desjardins, i greu'r cronfeydd buddsoddi lleol hyn, oherwydd ni allwn wneud dim byd heb yr arian. Gallai'r arian hwnnw gael ei gyfeirio'n arbennig at ddechrau mentrau cydweithredol sy'n gallu cyfrannu at y nodau allweddol o gynyddu hunan-gynhaliaeth cymunedau a'u gallu i ddiwallu eu hanghenion ynni eu hunain cyn belled ag y bo modd. Gallent hefyd fod ar gael i gwmnïau i gynhyrchu bwyd, ac i brosesu neu ailddefnyddio gwastraff.

Demand for the work of these co-operatives would be stimulated by offering low and no-cost loans and grants to homeowners to contract those firms to improve their home energy and to create renewable energy. We understand that big employers will bring benefits. However, the question we face now is whether we can realistically depend on such employers investing in Wales from outside in the future. There is no doubt in my mind that to rest all our hopes for the Welsh economy on such an unlikely possibility would be unwise to say the least. If it was unlikely before the banking crash, it is surely much more difficult now.

Byddai'r galw am waith y mentrau cydweithredol hyn yn cael ei ysgogi drwy gynnig benthyciadau a grantiau cost isel a heb gost i berchnogion tai, er mwyn iddynt roi contract i'r cwmnïau hynny i wella eu hynni yn y cartref ac i greu ynni adnewyddadwy. Rydym yn deall bod cyflogwyr mawr yn cynnig manteision. Fodd bynnag, y cwestiwn sy'n ein hwynebu yn awr yw a allwn, yn realistig, ddibynnu ar gyflogwyr o'r fath i fuddsoddi yng Nghymru o'r tu allan yn y dyfodol. Nid oes amheuaeth yn fy meddwl i y byddai seilio ein holl obeithion ar gyfer economi Cymru ar bosibilrwydd mor annhebygol yn annoeth a dweud y lleiaf. Os oedd yn annhebygol cyn cwymp y banciau, mae'n sicr yn llawer anos yn awr.

I am not saying that we should not do everything we possibly can to attract inward investment. Of course we should, but we know that we cannot attract it on the basis of cheap labour, as we have done in the past. I would argue that, if we want to develop our economy in a way that is going to create long-term and good-quality jobs that will enable and promote the development of high levels of skills, which would build an infrastructure fit for the twenty-first century, which is futureproofed against those coming threats, which will look after and not harm our amazing and precious environment in Wales, and in a way that keeps the wealth that is created here circulating in local communities, where it is needed to keep those local economies ticking over, then we have to be prepared to think about our economy in a way that we have not thought about it before. The alternative for Wales is to continue on our current trajectory. That cannot be an option.

Nid wyf yn dweud na ddylem wneud popeth o fewn ein gallu i ddenu mewnfuddsoddiad. Wrth gwrs y dylem, ond rydym yn gwybod na allwn ei ddenu ar sail llafur rhad, fel rydym wedi'i wneud yn y gorffennol. Byddwn i'n dadlau, os ydym am ddatblygu ein heconomi mewn modd sy'n mynd i greu swyddi hirdymor o ansawdd da a fydd yn galluogi ac yn hyrwyddo datblygiad lefelau sgiliau uchel, a fyddai'n adeiladu seilwaith addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain sy'n cael ei gwarchod rhag y bygythiadau hynny yn y dyfodol, a fydd yn gofalu am ein hamgylchedd anhygoel a gwerthfawr yng Nghymru yn hytrach na'i niweidio, ac mewn modd sy'n cadw'r cyfoeth sy'n cael ei greu yma a'i ddosbarthu mewn cymunedau lleol lle mae ei angen er mwyn cynnal yr economïau lleol hynny, yna mae'n rhaid inni fod yn barod i feddwl am ein heconomi mewn ffordd nad ydym wedi meddwl amdani o'r blaen. Y dewis arall i Gymru yw parhau ar hyd ein llwybr presennol. Ni all hynny fod yn opsiwn.

We all know that this economic crisis is affecting people on lower incomes disproportionately. We have more people in that category in Wales because of our weak economy and that is the vicious circle that we have to break. We know that our economy is weak and vulnerable to external economic shocks. That is outside our control. We also know that we have little resilience, and, if we are to change that, that change will have to come from us, the people of Wales. We might not be able to control the storm, but we could work to build a better, stronger and more resilient boat. We could aim to have a boat that can steer us away from the rocks and to maintain a better, clearer and safer course.

Mae pob un ohonom yn gwybod bod yr argyfwng economaidd hwn yn cael effaith anghyfartal ar bobl ar incwm is. Mae gennym fwy o bobl yn y categori hwnnw yng Nghymru oherwydd ein heconomi wan, a rhaid inni dorri’r cylch dieflig hwnnw. Gwyddom fod ein heconomi yn wan ac yn agored i sioc economaidd allanol. Mae hynny y tu hwnt i'n rheolaeth. Rydym hefyd yn gwybod nad oes gennym lawer o wytnwch, ac os ydym am newid hynny, bydd rhaid i'r newid hwnnw ddod gennym ni, pobl Cymru. Efallai na allwn reoli'r storm, ond gallem weithio i greu cwch gwell, cryfach a mwy gwydn. Gallem anelu at gael cwch a all ein tywys oddi wrth y creigiau ac at lwybr gwell, cliriach a mwy diogel.

I am not sure where Wales will end up as a result of this economic crisis if it continues to play out as it is doing, where the wider eurozone will end up, or, indeed, where western capitalism will end up. I do know that this crisis is a very deep one, and I do not think that we have seen the worst of it yet. I also know that carrying on as we are—and I sometimes feel, as I sit in the Senedd, that there is a high level of denial about the scale of the crisis that we are in—will certainly not get out of the mess that we are in. Refusal to

Nid wyf yn siŵr beth fydd sefyllfa Cymru yn y pen draw o ganlyniad i'r argyfwng economaidd hwn os bydd yn parhau fel y mae, beth fydd sefyllfa ehangach ardal yr ewro yn y pen draw, nac, yn wir, beth fydd sefyllfa cyfalafiaeth orllewinol yn y pen draw. Rwyf yn gwybod bod yr argyfwng hwn yn un difrifol iawn, ac rwyf yn meddwl bod gwaeth i ddod. Rwyf hefyd yn gwybod na fydd dal ati fel yr ydym—ac rwyf yn teimlo weithiau, wrth imi eistedd yn y Senedd, bod llawer yn gwrthod derbyn maint yr argyfwng

look at the seriousness of the situation or to consider what the options out of this crisis are can only lead to complacency and further decline.

rydym ynddo—yn sicr ddim yn ein harwain o'r llanastr rydym ynddo. Mae gwrthod edrych ar ddifrifoldeb y sefyllfa neu ystyried beth yw'r opsiynau i ddod allan o'r argyfwng hwn yn siŵr o arwain at laesu dwylo a rhagor o ddirwyiad.

Therefore, the question is: what will the Government of Wales do? Is the challenge too big or even too difficult to face? Is that the explanation for the denial? We need radically different and new responses to these problems if our younger generations are to have any hope of a bright future. My party is contributing to the start of this important debate and the greenprint is evidence of that. I hope that, as elected Members of this institution, you will all recognise that such a debate must go ahead, and I sincerely hope that you will engage with it honestly for the good of our nation.

Felly, y cwestiwn yw: beth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud? A yw'r her yn rhy fawr neu hyd yn oed yn rhy anodd ei hwynebu? Ai dyna pam mae pobl yn gwrthod derbyn y sefyllfa? Mae arnom angen atebion hollol wahanol a newydd i'r problemau hyn os yw ein cenedlaethau iau am gael unrhyw obaith o ddyfodol disglair. Mae fy mhlaid i'n cyfrannu at ddechrau'r ddadl bwysig hon, ac mae'r cynllun gwyrdd yn dystiolaeth o hynny. Gobeithio y byddwch i gyd yn cydnabod, fel Aelodau etholedig y sefydliad hwn, bod rhaid cael y ddadl hon, ac rwyf yn mawr obeithio y byddwch yn ymdrin â'r ddadl yn onest er lles ein cenedl.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Dileu pwynt 1.*

*Delete point 1.*

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 2 William Graham*

*Amendment 2 William Graham*

*Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 1 and replace with:*

*Yn cydnabod bod 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd' yn cydnabod sefyllfa economaidd wael Cymoedd De Cymru.*

*Acknowledges that 'A Greenprint for the Valleys' recognises the poor economic situation of the South Wales Valleys.*

*Gwelliant 4 William Graham*

*Amendment 4 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu nad yw 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd' yn mynd ati'n gynhwysfawr i archwilio sut y mae datblygu'r sector preifat yng Nghymoedd De Cymru.*

*Regrets that 'A Greenprint for the Valleys' is not comprehensive in its examination of how to develop the private sector in the South Wales Valleys.*

**Nick Ramsay:** I move amendments 2 and 4 in the name of William Graham.

**Nick Ramsay:** Cynigiaf welliannau 2 a 4 yn enw William Graham.

I thank Plaid Cymru for bringing this debate to us today and Leanne Wood for opening. I must admit that I am glad that, at the start of

Diolch i Blaid Cymru am ddod â'r ddadl hon ger ein bron heddiw, ac i Leanne Wood am agor y ddadl. Rhaid cyfaddef fy mod yn falch

your contribution, Leanne, you set out the reasons why you have brought this motion before us, because there was a little puzzlement about that. It is not often that I am asked to read in detail a Plaid Cymru policy document or to vote on approving one. In many ways, you raised a lot of interesting ideas that are more usually heard in the after-dinner speech or lecture domains, but you bought them to the Chamber and that is, in part, to be valued.

ichi egluro'r rhesymau pam rydych wedi dwyn y cynnig hwn ger ein bron ar ddechrau eich cyfraniad Leanne, oherwydd roedd ychydig o ddryswch ynghylch hynny. Nid yn aml y gofynnir imi ddarllen dogfen bolisi gan Blaid Cymru yn fanwl neu i bleidleisio ynghylch cymeradwyo un. Mewn sawl ffordd, gwnaethoch godi llawer o syniadau diddorol sy'n fwy tebygol o gael eu clywed mewn areithiau ar ôl cinio neu ystafelloedd darlith, ond rydych wedi'u cyflwyno i'r Siambr ac mae hynny, yn rhannol, yn rhywbeth i'w werthfawrogi.

Our amendment 2 recognises what your document says, namely that there is a poor economic situation in the Valleys, and amendment 4 regrets the lack of any real ideas in the document about the role of the private sector in developing the Valleys economy. On the first point, I was a little intrigued that you seemed to be able to get away with talking about a decline in the economic viability of the Valleys. If we even mention a 1% decline in gross domestic product per capita, you would think that it was the end of the world, given some of the criticisms that come across to us. However, we should be able to talk about problems where they exist and to talk about a lack of creativity. We should be able to bring forward ideas that some of us might not be in a position to accept, but, nonetheless, we can appreciate that there is a desire to, as I said in my contribution to the last debate, think outside of the box, and you have done that.

Mae gwelliant 2 a gynigir gennym yn cydnabod yr hyn y mae'ch dogfen yn ei ddweud, sef y ceir sefyllfa economaidd wael yn y Cymoedd, ac mae gwelliant 4 yn gresynu at brinder unrhyw syniadau go iawn yn y ddogfen am rôl y sector preifat i ddatblygu economi'r Cymoedd. O ran y pwynt cyntaf, roeddwn yn synnu braidd eich bod wedi gallu sôn am ostyngiad yn hyfywedd economaidd y Cymoedd. Hyd yn oed os ydym yn sôn am ostyngiad o 1 y cant mewn cynnyrch mewnwladol crynswth y pen, byddech yn meddwl ei bod yn ddiwedd y byd, o ystyried rhai o'r beirniadaethau a gafodd eu cyfleu inni. Fodd bynnag, dylem allu sôn am broblemau lle maent yn bodoli, a sôn am ddiffyg creadigrwydd. Dylem allu cyflwyno syniadau na fyddai rhai ohonom mewn sefyllfa i'w derbyn o bosibl, ond, er hynny, rydym yn gallu gwerthfawrogi dyhead i feddwl yn greadigol, fel y dywedais yn fy nghyfraniad i'r ddadl ddiwethaf, ac rydych wedi gwneud hynny.

On the second point about the private sector and our amendment 4, I was pleased to hear you mention enterprise in your contribution. I was disappointed, looking through this document, that it did not feature more, because while you can talk about the value of co-operatives and volunteering, which I largely agree with, you cannot ignore the importance of the private sector in helping to drive forward economic growth, particularly in some of those poorer areas. That has not happened to date as much as it should have.

O ran yr ail bwynt am y sector preifat a gwelliant 4 a gynigir gennym, roeddwn yn falch o'ch clywed yn sôn am fenter yn eich cyfraniad. Wrth ddarllen y ddogfen hon, roeddwn yn siomedig nad oedd mwy o sylw’n cael ei roi i hynny, oherwydd er y gallwch siarad am werth mentrau cydweithredol a gwirfoddoli—ac rwyf yn cytuno â hynny i raddau helaeth—ni allwch anwybyddu pwysigrwydd y sector preifat o ran helpu i hybu twf economaidd, yn enwedig yn rhai o'r ardaloedd tlotach hynny. Nid yw hynny wedi digwydd hyd yma, er y dylai fod wedi digwydd.

On the detail of the document, there were a couple of sections that—how shall I put it—

O ran manylion y ddogfen, roedd ambell adran—sut y gallaf ddweud—yn fy nifyrru

amused or bemused me. There was a section on building community buildings. In essence, I could see what you were driving at. Indeed, there were some shades of the big society in that. Leanne is turning green at the very suggestion—pardon the pun. [*Interruption.*] I could have said blue instead of green. Nevertheless, there are elements of a crossover there. In the section on building community buildings, Leanne mentioned the desire to convert heritage buildings, such as disused pubs—of which I was fully appreciative—into new housing. I must say that most of the disused pubs that I know of do not stay disused for very long. They are usually converted into homes, if they are not knocked down. I am not really sure that people want people traipsing through their kitchens and living rooms asking for advice on environmentally friendly policies, but there we are; I appreciate that you recognise the importance of community buildings. [*Interruption.*] Well, it is in there.

neu'n fy synnu. Roedd yn cynnwys adran ar adeiladu adeiladau cymunedol. Yn ei hanfod, roeddwn yn gallu gweld beth roeddech yn anelu ato. Yn wir, roedd arlliw o'r gymdeithas fawr i'w weld yn hynny. Mae Leanne yn troi'n wyrdd ar yr awgrym hwnnw—maddeuwch y chwarae ar eiriau. [*Torri ar draws.*] Gallwn fod wedi dweud glas yn hytrach na gwyrdd. Serch hynny, ceir elfennau o groesi drosodd yno. Yn yr adran ar adeiladu adeiladau cymunedol, soniodd Leanne am y dyhead i droi adeiladau treftadaeth, fel tafarndai segur—ac roeddwn yn gwerthfawrogi hynny'n llwyr—yn dai newydd. Rhaid imi ddweud nad yw'r rhan fwyaf o'r tafarndai segur y gwn i amdanynt yn aros yn segur am hir iawn. Fel arfer maent yn cael eu troi'n gartrefi, os nad ydynt yn cael eu dymchwel. Nid wyf yn siŵr a yw pobl yn dymuno gweld pobl yn troedio drwy eu ceginau a'u hystafelloedd byw yn gofyn am gyngor ar bolisïau ecogyfeillgar, ond dyna ni; rwyf yn sylweddoli eich bod yn cydnabod pwysigrwydd adeiladau cymunedol. [*Torri ar draws.*] Wel, mae'n dweud hynny.

Another section that I did not quite get on first reading mentioned disused railway tunnels being reopened, funded by a levy on retailers that provide out-of-town parking. I thought at first that you were talking about using tunnels for out-of-town parking, but then I read it the other way around and it made more sense: you are talking about opening up railway tunnels to trains again, which might well work in some areas. However, once a tunnel is closed, bats tend to move in, and people do not like to see bats moved out of their natural habitat, but that is probably something that we can look after.

Roedd adran arall na wneuthum ei deall yn iawn ar y darlleniad cyntaf yn sôn am ailagor twneli rheilffordd segur, a rhoi ardoll ar adwerthwyr sy'n darparu meysydd parcio y tu allan i'r dref er mwyn cyllido hynny. Roeddwn yn meddwl ar y dechrau eich bod yn sôn am ddefnyddio twneli ar gyfer meysydd parcio y tu allan i'r dref, ond yna fe'i darllenais y ffordd arall ac roedd yn gwneud mwy o synnwyr: rydych yn sôn am agor twneli rheilffordd i drenau eto, ac mae'n bosibl y gallai hynny weithio mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, pan fydd twnnel yn cau, mae ystlumod yn tueddu i ymgartrefu, ac nid yw pobl yn hoffi gweld ystlumod yn cael eu symud o'u cynefin naturiol, ond mae'n siŵr bod hynny'n rhywbeth y gallwn ofalu amdano.

With regard to the positive stuff in this, you mention the importance of apprenticeships. All of us would agree with that. The Enterprise and Business Committee—some members of that committee in the Chamber—is currently looking at apprenticeships, their importance and how we can encourage them in Wales. I do not want to pre-empt the findings of the committee, other than to say

O ran y pethau cadarnhaol yn hyn, rydych yn sôn am bwysigrwydd prentisiaethau. Byddai pob un ohonom yn cytuno â hynny. Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes—mae rhai aelodau o'r pwyllgor hwnnw yn y Siambr—yn ystyried prentisiaethau ar hyn o bryd, o ran eu pwysigrwydd a sut y gallwn eu hybu yng Nghymru. Nid wyf yn dymuno achub y blaen ar ganfyddiadau'r pwyllgor, ar wahân i

that I agree with you that we need to develop the apprenticeship culture much more than it has been developed in the past.

ddweud fy mod yn cytuno â chi fod angen inni ddatblygu'r diwylliant prentisiaeth llawer mwy nag y mae wedi cael ei ddatblygu yn y gorffennol.

You had a go at the Principality Building Society. I am not going to go there, as I do not really care what a building society is called, so long as it actually works. However, I do agree with you that the Government needs to be more creative and, as you say, we need to attract more inward investment. I thought that that was a very positive remark that you made towards the end of your contribution.

Roeddech yn dirmygu Cymdeithas Adeiladu'r Principality. Nid wyf yn mynd i sôn am hynny, gan nad wyf wir yn poeni beth yw enw cymdeithas adeiladu, cyn belled â'i bod yn llwyddo. Fodd bynnag, rwyf yn cytuno â chi fod angen i'r Llywodraeth fod yn fwy creadigol ac, fel y dywedwch, mae angen inni ddenu mwy o fewnfuddsoddiad. Roeddwn yn meddwl fod y sylw hwnnw a wnaethoch tua diwedd eich cyfraniad yn un cadarnhaol iawn.

Again, thank you for bringing this document to us. I hope that people will take our amendments in the spirit in which they are intended. I am all for a Member such as yourself bringing creative and new ideas to this Chamber.

Unwaith eto, diolch ichi am ddod â'r ddogfen hon ger ein bron. Rwyf yn gobeithio y bydd pobl yn ystyried ein gwelliannau yn yr ysbryd y maent wedi'u bwriadu. Rwyf yn gefnogol iawn o Aelodau fel chi yn cynnig syniadau creadigol a newydd i'r Siambr hon.

*Gwelliant 3 Aled Roberts*

*Amendment 3 Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cefnogi datblygu 'metro'r Cymoedd' ar gyfer rheilffyrdd y Cymoedd a fydd yn helpu i adfywio cymunedau yng nghymoedd de Cymru.*

*Supports the development of a 'Valleys metro' for the Valleys Lines which will help revitalise communities in the South Wales Valleys.*

**Eluned Parrott:** I move amendment 3 in the name of Aled Roberts.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf welliant 3 yn enw Aled Roberts.

I thank Plaid Cymru for bringing forward this debate today. I am sure that it has encouraged Members to read 'A Greenprint for the Valleys'—after all, as you might mention to the First Minister, it is only 18 pages long. I hope the leader of Plaid Cymru will forgive me if I suggest that she might just possibly have mentioned it once or twice before. However, it is brave of her to put her own ideas forward in this way for scrutiny, particularly as this is a consultation document and therefore not a formal and tested policy statement. This kind of debate can become a hostage to fortune, as it gives opponents, particularly those on the Government benches, a rare chance to go on the attack. However I will not take that opportunity, because I believe that there is a positive role

Diolch i Blaid Cymru am ddod â'r ddadl hon gerbron heddiw. Rwyf yn siŵr ei fod wedi annog yr Aelodau i ddarllen 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd'—wedi'r cyfan, fel y gallech sôn wrth y Prif Weinidog, nid yw ond yn 18 tudalen o hyd. Gobeithio y bydd arweinydd Plaid Cymru yn maddau imi os awgrymaf ei bod, o bosibl, wedi ei grybwyll unwaith neu ddwy o'r blaen. Fodd bynnag, mae'n ddewr yn cyflwyno ei syniadau ei hun fel hyn er mwyn inni graffu arnynt, yn enwedig gan fod hon yn ddogfen ymgynghori ac felly nid yn ddatganiad polisi ffurfiol wedi'i brofi. Gall y math hwn o ddadl fod yn wystl ffawd gan ei fod yn rhoi cyfle prin i wrthwynebwyr, yn enwedig y rheini ar feinciau'r Llywodraeth, fynd ati i ymosod. Fodd bynnag, ni fyddaf yn manteisio ar y

for opposition parties to play in bringing ideas to the table, and we do not do that enough—certainly, I recognise that I do not do that enough. I would therefore like to deal with this debate in that positive spirit.

cyfle hwnnw, gan fy mod yn credu bod gan bleidiau gwrthbleidiol rôl gadarnhaol i'w chwarae wrth gynnig syniadau, ac nid ydym yn gwneud hynny ddigon—yn sicr, rwyf yn cydnabod nad ydw i'n gwneud hynny ddigon. Felly, hoffwn ymdrin â'r ddadl hon yn yr ysbryd cadarnhaol hwnnw.

The south Wales Valleys have some significant structural problems in terms of economic development, and it is clear to me that radical action is needed to turn the legacy of decay around. There are some interesting starting points for discussion here, but I am sure that Leanne herself would not suggest that this document provides us with all the answers to transform the Valleys overnight. I have a lot of sympathy with what I perceive to be this document's underlying principle, namely that economic sustainability and environmental sustainability are not necessarily mutually exclusive. In fact, it is possible for them to be complimentary, and there are broader benefits if you can make that happen. However, it is not necessarily easy to make that happen. If you look at the practical implications of some of the ideas that you have put forward, you will see that there are difficulties implicit in a number of them.

Mae gan Gymoedd y de broblemau strwythurol sylweddol o ran datblygu economaidd, ac mae'n amlwg i mi fod angen camau radical i weddnewid yr etifeddiaeth o ddirwyiad. Ceir rhai pwyntiau diddorol cychwynnol ar gyfer trafodaeth yma, ond rwyf yn siŵr na fyddai Leanne ei hun yn awgrymu bod y ddogfen hon yn rhoi'r holl atebion inni weddnewid y Cymoedd dros nos. Mae gennyf lawer o gydymdeimlad â'r hyn rwyf yn ei ystyried yn egwyddor sylfaenol y ddogfen hon, sef nad yw cynaliadwyedd economaidd a chynaliadwyedd amgylcheddol o reidrwydd yn annibynnol ar ei gilydd. Yn wir, mae'n bosibl iddynt ategu ei gilydd, a cheir manteision ehangach os gallwch wneud i hynny ddigwydd. Fodd bynnag, nid yw o reidrwydd yn hawdd gwneud hynny. Os edrychwch ar oblygiadau ymarferol rhai o'r syniadau a gyflwynwyd gennych, byddwch yn gweld bod anawsterau ynghlwm wrth nifer ohonynt.

I read with interest the section on renewable energy co-operatives. I am aware of a similar local project in Cwm Clydach, which I visited a couple of months ago. It is a water turbine that provides free energy to some local community facilities. However, I think that it would be a really big mistake to think of it as a major employer, or as supporting major employment in any way. Unless you were to link it with the much less green manufacturing industry of designing and building those turbines, I believe that it would be unlikely that this form of project would have a significant direct impact on unemployment, although there are obvious environmental and community benefits. The project that I am thinking of does not support any direct employment, so this would need further development and work to marry it with the aim of job creation.

Darllenais yr adran ar fentrau cydweithredol ym maes ynni adnewyddadwy gyda diddordeb. Gwn am brosiect lleol tebyg yng Nghwm Clydach y bûm yn ymweld ag ef ychydig fisoedd yn ôl. Ceir tyrbin dŵr yno sy'n darparu ynni am ddim i rai cyfleusterau cymunedol lleol. Fodd bynnag, rwyf yn meddwl y byddai'n gamgymeriad mawr iawn meddwl amdano fel cyflogwr mawr, neu ei fod yn cefnogi llawer o swyddi, mewn unrhyw ffordd. Oni bai y byddech yn ei gysylltu â'r diwydiant gweithgynhyrchu llawer llai gwyrdd o gynllunio ac adeiladu'r tyrbinau hynny, credaf y byddai'n annhebygol y byddai'r math hwn o brosiect yn cael effaith uniongyrchol sylweddol ar ddiweithdra, er bod manteision amgylcheddol a chymunedol amlwg. Nid yw'r prosiect rwyf fi'n meddwl amdano yn cefnogi unrhyw swyddi'n uniongyrchol, felly byddai angen datblygiad pellach ar hyn a'i gyplysu â'r nod o greu swyddi.

4.45 p.m.

I also read the section on alternative financial models with great interest. Alongside the leader of Plaid Cymru, I took part in an environmental debate in Penarth hosted by Gwyrddio Penarth Greening. Things such as the Totnes pound were discussed, which is extolled as a fantastic example of an alternative currency, but in truth local people would describe it as more of a loyalty scheme, and Penarth has a loyalty card scheme for local businesses. There are real practical problems in creating an alternative currency—for example security, the cost of creating it, and the attractiveness of such a currency if it can be spent only in a limited area. Why would you choose the Totnes pound, which has the same value as £1, when that can be spent only in Totnes but you can spend £1 anywhere? That is a question that I ask you to think about.

Roedd gennyf hefyd ddiddordeb mawr yn yr adran ar fodelau ariannol amgen. Ochr yn ochr ag arweinydd Plaid Cymru, bûm yn cymryd rhan mewn dadl amgylcheddol ym Mhenarth a gynhaliwyd gan Gwyrddio Penarth Greening. Trafodwyd pethau fel punt Totnes, sy'n cael ei chlodfori fel enghraifft wych o arian amgen, ond mewn gwirionedd byddai pobl leol yn ei ddisgrifio fel mwy o gynllun teyrngarwch, ac mae gan Benarth gynllun cerdyn teyrngarwch i fusnesau lleol. Mae problemau ymarferol go iawn ynghlwm wrth greu arian amgen—er enghraifft, diogelwch, y gost o'i greu, ac atyniad arian o'r fath os dim ond mewn ardal gyfyngedig y gellir ei wario. Pam y byddech yn dewis punt Totnes, sydd â'r un gwerth â £1, a chithau ond yn gallu ei gwario yn Totnes, ond y gallwch wario £1 yn unrhyw le? Mae hwnnw'n gwestiwn rwyf yn gofyn ichi feddwl amdano.

I also looked at the time banks idea, and they are now a tried and tested method of exchange, although, dare I say it, I thought it came over as the dreaded big society 2—depending on whose definition of the ‘big society’ you listen to, of course.

Bûm hefyd yn edrych ar y syniad o fanciau amser, ac maent bellach yn ddull llwyddiannus o gyfnewid er, os mentraf ddweud, roeddwn yn meddwl ei fod yn swnio’n debyg i’r gymdeithas fawr 2 sy’n ddigon i godi arswyd ar rywun—gan ddibynnu ar ddiffiniad pwy o ‘gymdeithas fawr’ rydych yn gwrando arno, wrth gwrs.

Finally, looking at the document as a whole, I was a little disappointed that there was not more focus on transport. There were just 10 words in the entire document on the electrification of the Valleys lines. I am a rail enthusiast—please do not tell anyone—and I would welcome a more developed look at how we use our transport infrastructure. That is not just in respect of the electrification of the Valleys lines, but also in how the bus networks interacts with that, and how we might use light rail if we opened rail tunnels. It is not possible with the current system, because tunnels have often had roads built above them. I would welcome more development of that idea.

Yn olaf, wrth edrych ar y ddogfen yn ei chyfanrwydd, roeddwn ychydig yn siomedig na roddwyd mwy o sylw i drafnidiaeth. Dim ond 10 gair oedd yn y ddogfen gyfan ynghylch trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Mae gennyf ddiddordeb brwd mewn rheilffyrdd—peidiwch â dweud wrth neb—a byddwn yn croesawu ystyriaeth fwy datblygedig o'r modd rydym yn defnyddio ein seilwaith trafnidiaeth. Nid dim ond mewn perthynas â thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, ond hefyd o ran sut y mae'r rhwydweithiau bysiau yn rhyngweithio â hynny, a sut y gellid defnyddio rheilffyrdd ysgafn petaem yn agor twneli rheilffordd. Nid yw'n bosibl gyda'r system bresennol, gan fod ffyrdd wedi cael eu hadeiladu uwchben twneli’n aml. Byddwn yn croesawu datblygu’r syniad hwnnw ymhellach.

I thank Leanne Wood for bringing this debate to the Chamber and look forward to the results of the consultation when they are

Diolch i Leanne Wood am ddod â'r ddadl hon i'r Siambr, ac rwyf yn edrych ymlaen at ganlyniadau'r ymgynghoriad pan gânt eu

published.

cyhoeddi.

**Alun Ffred Jones:** Os ewch chi i lawer iawn o bentrefi'r cymoedd chwareli yn fy etholaeth i, gwelwch ddarlun sy'n gyffredin iawn ar hyd a lled Cymru. Gwelech siopau sydd wedi cau, adeiladau gwag, a golwg gweddol druenus ar y stryd fawr, yn aml. Mae cynlluniau digon diddorol mewn rhai lleoedd, ac mae rhai mentrau trydydd sector fel Antur Nantlle, sydd wedi prynu adeiladau yn y pentref a'u troi yn swyddfeydd ac yn lleoedd i gwmnïau bychain sefydlu ynddynt. Mae dwy antur lwyddiannus iawn yn yr etholaeth: Antur Waunfawr a Menter Fachwen yng nghwm Peris. Maent yn rhoi cyfleoedd i bobl sydd ag anableddau. Fodd bynnag, maent yn fentrau sydd erbyn hyn wedi ennill contractau gyda'r sector cyhoeddus ac wedi dod yn hunangynhaliol i raddau pell iawn, ac yn sicr maent yn codi refeniw.

**Alun Ffred Jones:** If you visit many villages in the quarrying area in my constituency, you will see a picture that is similar to that throughout Wales. You would see shops that have been closed down, vacant buildings and a high street in a pitiful state, very often. There are some interesting schemes in certain areas, and some third sector initiatives such as Antur Nantlle, which has purchased buildings in the village and transformed them into offices and spaces for small companies. There are two very successful enterprises—Antur Waunfawr and Menter Fachwen—in the Peris valley, and they give people with disabilities opportunities. However, they are initiatives that have gained public sector contracts and have become self-sufficient, to a great extent, and they certainly generate revenue.

Yr hyn sy'n ddiddorol am y mentrau hynny yw eu bod wedi creu cyflogaeth ond hefyd wedi codi hyder o fewn y cymunedau hynny. Gallwn nodi'r un peth am Fethesda, lle mae becws, a Chaffi Coed-y-Brenin, eto yng nghanol y gymuned. Gallwn hefyd gyfeirio at amryw gwmnïau preifat bychain sy'n gwneud y pethau rhyfeddaf ac annisgwyl ac sy'n dal i weithredu yn y cymoedd a'r pentrefi hynny. Fodd bynnag, y gwir amdani yw bod diweithdra, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, a diffyg hyder a gobaith yn nodweddu'r cymunedau hyn, yn union fel cymunedau ôl-ddiwydiannol ar hyd a lled Cymru. Y diffyg uchelgais hwnnw yn aml iawn a'r diffyg gobaith a chyfleon gwaith sy'n bla ar yr ardaloedd hynny. Mae'r un peth i'w weld mewn ffordd wahanol mewn cymoedd gwledig hefyd, lle mae'n rhaid i bobl ifanc adael oherwydd diffyg cyfleon gwaith.

What is interesting about those initiatives is that they have created employment, but they have also increased confidence in those communities. I could say the same about Bethesda, where there is a bakery, and Caffi Coed-y-Brenin, which is at the heart of the community. I could also refer to a number of very small private companies that do the most incredible and unexpected things and are still active in those valleys and villages. However, the truth is that unemployment, particularly among young people, and a lack of confidence and hope actually characterise these communities, exactly as is the case in the post-industrial communities the length and breadth of Wales. It is that lack of ambition and the absence of hope and employment opportunities that plague those areas. The same thing can be seen in a different way in rural valleys, too, where young people are forced to leave because of a lack of work opportunities.

Gallwn edrych ar y darlun hwnnw a bod yn ddigalon, ond hoffwn gyfeirio at un agwedd a geir yn y ddogfen, sef ynni adnewyddol a'r cyfleon i gymunedau fanteisio ar hynny. Mae'n cynnig cyflogaeth ac mae'n cynnig refeniw, a gall hwnnw gael ei ddefnyddio gan fentrau cymunedol. Yn anffodus, mae targedau'r Llywodraeth o ran creu ynni a thrydan o ffynonellau adnewyddol wedi methu'n llwyr dros y 10 mlynedd diwethaf.

We can look at that picture and be downhearted, but I would like to refer to one aspect in the document, that is, renewable energy and the opportunities for communities to take advantage of that. It offers employment and revenue, and that can be used by community enterprises. Unfortunately, the Government's targets for generating energy and electricity from renewable sources have failed completely

Os edrychwn ni ar wlad fel Denmarc, ar y llaw arall, gwelwn fod 30% o'r ynni a ddefnyddir mewn cartrefi yno yn dod o ffynonellau adnewyddol, o gymharu â 5% yng Nghymru, a bod 20,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn y diwydiant yno. Yr hyn sy'n ddiddorol am Ddenmarc yw bod 80% o'r tyrbeini gwynt sydd ar y tir yn eiddo i unigolion neu i gwmnïau cydweithredol, ac mae bron i hanner yr elw a ddaw o'r dreth gorfforaethol ar dyrbeini gwynt yn mynd i gynghorau lleol a mudiadau cydweithredol. Dyna'r chwyldro yn Nenmarc sydd wedi grymuso cymunedau ac unigolion ar hyd a lled y wlad, a dyna lle mae Cymru wedi methu'n llwyr oherwydd diffyg cynllunio.

over the last 10 years. If we look at a country such as Denmark, on the other hand, we will see that 30% of the energy used in homes there comes from renewable sources, compared with 5% in Wales, and that 20,000 people are employed in the industry there. What is interesting about Denmark is that 80% of the onshore wind turbines are owned by individuals or co-operative companies, and almost half the profit generated from the corporation tax on wind turbines goes to local councils and co-operative organisations. That is the revolution that has happened in Denmark that has empowered communities and individuals across the country, and that is where Wales has failed entirely due to the absence of effective planning.

Un agwedd y dylai'r Llywodraeth weithredu arni ar fyrder yw ynni a thrydan o ddŵr. Mae'r ffynhonnell a'r potensial yn hyn o beth yn fawr iawn, nid yn unig yn y cymoedd gwledig ond hefyd yn y cymoedd diwydiannol. Gwn am un cwm yng nghanolbarth Cymru sydd â chwech o gynlluniau'n barod i fynd. Fodd bynnag, mae dau rwystr. Y cyntaf yw'r drefn gynllunio eithriadol o gymhleth. Clywais un stori yn yr Eisteddfod y diwrnod o'r blaen am swyddog o un o'r asiantaethau yn dod heibio ac yn dweud yn hollol glir wrth y tirfeddiannwr ei fod yno i rwystro'r cynllun hwn rhag digwydd. Dyna sut y bu i'r drafodaeth ddechrau. Yr ail rwystr yw diffyg llinellau a gwifrau *three phase*. Os nad yw'r rheini yn y cymoedd, nid yw'n bosibl cychwyn unrhyw gynlluniau. Felly, mae gan y Llywodraeth ddyletswydd i sicrhau bod y cwmnïau a'r rhwydwaith trydan yn dod â gwifrau i mewn i'r ardaloedd hyn i sicrhau y gall y cynlluniau hyn gael eu bwrw ymlaen a bod elw'n gallu aros o fewn y cymunedau hynny.

One aspect that the Government should be taking action on urgently is energy and electricity from water. This source has great potential, not only in rural valleys, but also in the industrial valleys. I know of one valley in mid Wales that has six schemes that are on the starting blocks. However, there are two barriers. The first is the exceptionally complex planning system. I heard a story in the Eisteddfod the other day about an official from one of the agencies coming by and saying quite clearly to the landowner that he was there to prevent the scheme from moving forward. That is how the discussion started. The second barrier is the absence of three-phase lines and cables. If they are not present in the valleys, it is not possible to commence any schemes. Therefore, the Government has a duty to ensure that the electricity companies and grid bring cables into these areas to ensure that these schemes can proceed and so that the profit can remain in those communities.

**Mick Antoniw:** I also welcome the opportunity to participate in this debate on community and social regeneration. It is important and of value to explore and promote these ideas and identify where they fit within our social and economic regeneration. The document pulls together a number of interesting community ideas, based on projects and experiences, some of which are already in operation in parts of Wales and, indeed, in England. They include projects such as Timebanking Wales, projects

**Mick Antoniw:** Rwyf finnau hefyd yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon ar adfywio cymunedol a chymdeithasol. Mae'n bwysig ac yn werth ystyried a hyrwyddo'r syniadau hyn, a nodi lle maent yn addas yng nghyswllt ein gwaith adfywio cymdeithasol ac economaidd. Mae'r ddogfen yn dwyn ynghyd nifer o syniadau cymunedol diddorol, sy'n seiliedig ar brosiectau a phrofiadau, gyda rhai ohonynt eisoes yn weithredol mewn rhannau o Gymru ac, yn wir, yn Lloegr. Maent yn cynnwys prosiectau

in Blaengarw, Glyncoch and other parts of Wales, renewable energy co-operatives, integrated transport projects, and so on.

fel Bancio Amser Cymru, prosiectau ym Mlaengarw, Glyncoch a rhannau eraill o Gymru, mentrau cydweithredol ym maes ynni adnewyddadwy a phrosiectau trafnidiaeth integredig ac ati.

Important as these projects representing community mutualism are, they are not on their own the panacea for the Valleys or other communities. Community mutualism can, and should, form part of a broader economic regeneration plan, although not as a substitute for one. A number of these projects are under way in my constituency, which I am engaged in and fully support. For example, there is the Treforest residents’ hydroelectric project, the Pontyclun and Rhydyfelin foodbanks, the Capel Farm food co-operative, and I am currently involved in some work in Tonyrefail to set up a strategic partnership and also a local community trust, to mention but a few. Many of these are supported by Communities First, and I welcome the massive contribution that it makes, as well as local councils, the Welsh Government, the lottery funding and other forms of support, including European funding.

Er mor bwysig yw'r prosiectau hyn sy'n cynrychioli cydymddibyniaeth gymunedol, nid yw’r rheini ar eu pen eu hunain yn ateb i holl broblemau'r Cymoedd na chymunedau eraill. Mae cydymddibyniaeth gymunedol yn gallu bod yn rhan o gynllun adfywio economaidd ehangach, a dylai fod yn rhan ohono, ond ni ddylai gymryd lle cynllun o'r fath. Mae nifer o'r prosiectau hyn ar y gweill yn fy etholaeth i, ac rwyf yn ymwneud â hwy ac yn eu cefnogi'n llwyr. Er enghraifft, ceir prosiect trydan dŵr trigolion Trefforest, banciau bwyd Pont-y-clun a Rhydfelen, cydweithfa fwyd Capel Farm, ac rwyf yn ymwneud â rhywfaint o waith yn Nhonyrefail ar hyn o bryd i sefydlu partneriaeth strategol ac ymddiriedolaeth gymuned leol hefyd, i enwi dim ond rhai. Mae llawer o'r rhain yn cael cefnogaeth gan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a chroesawaf y cyfraniad enfawr y mae'r rhaglen yn ei wneud, yn ogystal â chyfraniad cynghorau lleol, Llywodraeth Cymru, arian y loteri a mathau eraill o gefnogaeth gan gynnwys arian Ewropeaidd.

As an Assembly, we must focus more on the large macroeconomic generation stimuli, and one of the major projects that commands all-party support in this Chamber is the south Wales metro project, contingent on funding for electrification of the Valleys lines and a creation of an integrated south Wales transport system. I welcome the cross-party and Welsh Government support for that. That one project could transform the Valleys and create opportunities for economic regeneration by opening access up, down and across the Valleys for businesses and local people and linking communities, towns, cities and the airport. I take on board the points raised about railway lines. The Pontyclun to Beddau line is capable of being, and should be, reopened, and there are other stretches that could contribute to improving our transport and community problems. The jobs growth fund, which supports training and employment, is another and the Government’s microbusiness strategy and the establishment of enterprise zones in city

Fel Cynulliad, mae'n rhaid inni ganolbwyntio mwy ar yr ysgogiad ar gyfer cynhyrchu macro-economaidd ar raddfa fawr, ac un o'r prosiectau mawr sy'n ennyn cefnogaeth hollbleidiol yn y Siambr hon yw prosiect metro'r de, sy’n dibynnu ar gyllid ar gyfer trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a chreu system drafnidiaeth integredig yn y de. Rwyf yn croesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i hynny. Gallai'r un prosiect hwnnw weddnewid y Cymoedd a chreu cyfleoedd ar gyfer adfywio economaidd drwy wneud bob rhan o’r Cymoedd yn agored i fusnesau a phobl leol, gan gysylltu cymunedau, trefi, dinasoedd a'r maes awyr. Rwyf yn derbyn y pwyntiau a godwyd am reilffyrdd. Byddai modd agor y rheilffordd o bentref Pontyclun i bentref Beddau, a dylid gwneud hynny, a cheir rhannau eraill a allai gyfrannu at wella ein problemau trafnidiaeth a chymunedol. Mae'r gronfa twf swyddi—sy'n cefnogi hyfforddiant a chyflogaeth—yn un arall, a strategaeth microfusnes y Llywodraeth a

regions are others.

sefydlu ardaloedd menter mewn dinas-ranbarthau yn rhai eraill.

I also want to mention the importance of housing as an integral part of this, both in satisfying housing need and in contributing to economic stimulus. Learning from the experiences of other parts of the world is important, and I would like my contribution to draw on experiences in parts of America. Substantial economic community regeneration plans have been particularly successful there, and they incorporate many features that already form part of the Welsh Government's economic regeneration strategy. I have in mind projects such as the San Joaquin Valley project, based on the establishment of a business, transportation and housing agency, the Portland regional economic greenprint, or the many other similar projects in Denver, Silicon Valley and Tennessee. All have at their core the recognition of the link between housing need, investment funding, city regions—or what they call 'country-wide preferred growth scenarios'—specialised and focused enterprise zones—or what they call 'developing industry clusters'—and integrated transport, which are encompassed in a regional economic development strategy. They all identify the importance of engagement with business as the key to success.

Hoffwn sôn hefyd am bwysigrwydd tai fel rhan annatod o hyn, o ran diwallu anghenion tai a chyfrannu at ysgogiad economaidd. Mae'n bwysig dysgu o brofiadau rhannau eraill o'r byd, a hoffwn sôn am brofiadau mewn rhannau o America yn fy nghyfraniad. Mae cynlluniau adfywio cymunedol economaidd sylweddol wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yno, ac maent yn cynnwys llawer o nodweddion sydd eisoes yn rhan o strategaeth adfywio economaidd Llywodraeth Cymru. Rwyf yn meddwl am brosiectau fel prosiect San Joaquin Valley, sy'n seiliedig ar sefydlu asiantaeth fusnes, cludo a thai, cynllun gwyrdd economaidd rhanbarthol Portland, neu amryw o brosiectau tebyg eraill yn Denver, Silicon Valley a Tennessee. Yn ganolog i bob un ohonynt y mae'r gydnabyddiaeth y ceir cysylltiad rhwng anghenion tai, cyllid buddsoddi, dinas-ranbarthau—neu yr hyn y maent hwy'n ei alw'n sefyllfaoedd twf a ffefrir ledled y wlad—ardaloedd menter arbenigol a phenodol—neu'r hyn y maent hwy'n ei alw'n glystyrau datblygu diwydiant—a thrafnidiaeth integredig, sy'n cael eu cynnwys mewn strategaethau datblygu economaidd rhanbarthol. Maent i gyd yn cydnabod pa mor bwysig yw ymgysylltu â busnesau fel yr allwedd i lwyddiant.

Much of this will sound familiar and similar in many ways to policies being pursued by the Welsh Government. We could also learn from how American projects have put statistical knowledge and data at the core of their plans—data on land use, land availability, housing need, demographic change and so on. That has enabled them to develop long-term strategies on which they have engaged in major consultations. That engagement has included seminars, workshops and other forms of community involvement. Much of the community involvement is based on the need for climate-sensitive economic development. Putting all those things together, one of the big areas where we can learn from is not only the way in which they use their databases but the way in which they have used databases to develop models for evaluating the progress that they are making and setting targets for

Bydd llawer o hyn yn swnio'n gyfarwydd, ac yn debyg mewn nifer o ffyrdd i bolisïau y mae Llywodraeth Cymru yn eu dilyn. Gallem hefyd ddysgu o'r modd y mae prosiectau yn America wedi rhoi gwybodaeth a data ystadegol wrth graidd eu cynlluniau—data ar ddefnydd tir, argaeledd tir, anghenion tai, newid demograffig ac ati. Mae hynny wedi eu galluogi i ddatblygu strategaethau hirdymor y maent wedi cynnal ymgynghoriadau mawr yn eu cylch. Mae hynny wedi cynnwys seminarau, gweithdai a mathau eraill o ddulliau o gynnwys y gymuned. Mae llawer o'r dulliau o gynnwys y gymuned yn seiliedig ar yr angen am ddatblygu economaidd sy'n ystyrlon o'r hinsawdd. Wrth roi'r holl bethau hynny at ei gilydd, un o'r elfennau mawr y gallwn ddysgu oddi wrthi yw nid yn unig y ffordd y maent yn defnyddio eu cronfeydd data, ond y ffordd y maent wedi defnyddio cronfeydd

development, regeneration—

data i ddatblygu modelau i werthuso'r cynnydd y maent yn ei wneud ac i osod targedau ar gyfer datblygu, adfywio—

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. Could you wind up, please?

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. A allech ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

**Mick Antoniw:** I welcome the debate and think that it is a valuable debate that is worth continuing, but within the context of a global economic strategy.

**Mick Antoniw:** Rwyf yn falch o gael y ddadl, ac yn meddwl ei bod yn ddadl werthfawr y mae'n werth parhau â hi, ond o fewn cyd-destun strategaeth economaidd fyd-eang.

**Llyr Huws Gruffydd:** Hanfod y cynllun gwyrdd yw amlygu syniadau, fel yr ydym wedi clywed, a dangos enghreifftiau o ffyrdd o gryfhau economïau lleol mewn modd cynaliadwy sy'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol Cymru a thalentau pobl Cymru. Mae hynny'n gynsail i adeiladu a chryfhau cymunedau ym mhob rhan o Gymru. Mae'r holl egwyddorion yn berthnasol i bob rhan o Gymru, ac nid i'r Cymoedd yn unig. Rwyf am ffocysu'n bennaf yn fy nghyfraniad at y ddadl hon ar yr angen i wella effeithlonrwydd ynni a thorri allyriadau nwyon tŷ gwydr, a'r manteision ehangach sy'n dod gyda hynny. Gyda mwy na phumed ran o allyriadau'n dod o dai, maent yn chwarae rôl bwysig iawn o ran ceisio cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru o dorri allyriadau carbon 40% erbyn 2020.

**Llyr Huws Gruffydd:** The essence of the greenprint is to highlight ideas, as we have heard, and to provide examples of methods of making local economics more robust in a sustainable way that makes the best possible use of Wales's natural resources and the talents of the people of Wales. That is a foundation to build and strengthen communities in every part of Wales. All these principles are relevant to every part of Wales, not only the Valleys. In my contribution to this debate, I will focus mainly on the need to improve energy efficiency and to reduce greenhouse gas emissions, and the broader benefits that emerge from that. With more than a fifth of emissions coming from houses, they play a very important role in trying to achieve the Welsh Government's target of a 40% reduction in carbon emissions by 2020.

Mae adran yn y ddogfen sy'n sôn am adeiladu ar yr hyn sydd gennym. Mae gennym enghraifft ardderchog yng Nghymru yn y cyd-destun hwn, a ddaeth i fod o dan 'Cymru'n Un', sef Arbed. Lansiwyd yr ail gyfnod yr wythnos diwethaf gyda'r nod o wella effeithlonrwydd ynni 4,800 o gartrefi yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae hynny i'w groesawu. Mae Arbed yn gam i'r cyfeiriad iawn ond cam bach iawn ydyw o gymharu â maint yr her sy'n ein hwynebu—ac nid yn unig o safbwynt amgylcheddol ond hefyd o ran uchafu'r buddion economaidd a chymdeithasol a fydd yn cyfrannu at greu cymunedau mwy cynaliadwy.

There is a section in the document that covers building on what we already have. We already have an excellent example in Wales in this context, which came into existence under 'One Wales', and that is Arbed. The second phase was launched last week with the aim of improving energy efficiency in 4,800 homes in some of the most disadvantaged areas of Wales. That is to be welcomed. Arbed is a step in the right direction, but it is very small step when compared with the size of the challenge that we face—and not only from an environmental point of view, but in terms of maximising the economic and social benefits that will contribute to creating more sustainable communities.

5.00 p.m.

Er enghraifft, mae ymchwil gan Gyfeillion y Ddaear a'r WWF wedi awgrymu bod angen

For example, research by Friends of the Earth and WWF has suggested that we need to

gwella 400,000 o dai yng Nghymru, sef traean o'r stoc bresennol, yn y 10 mlynedd nesaf i lefel sy'n torri allyriadau carbon dros 60% os ydym am gwrdd â rhai o'r targedau sydd wedi eu gosod gan Lywodraeth Cymru. Ni fyddai gwella 4,800 o dai bob blwyddyn am 10 mlynedd yn dod yn agos at gyflawni'r hyn sydd ei angen.
s

improve 400,000 houses in Wales, which equates to a third of the current stock, over the next 10 years to a level that cuts carbon emissions by more than 60% if we are to meet some of the targets set by the Welsh Government. Improving 4,800 houses a year for 10 years will not come close to achieving what is actually required.

Mae'r WWF wedi edrych ar gynlluniau sy'n ffocysu ar ardaloedd penodol wrth wella effeithlonrwydd ynni, gan ffocysu'n benodol ar dri chynllun insiwleiddio cartrefi yn yr Alban. Mae'r cynllun cyntaf yn Hadyard Hill yn ne Ayrshire, sy'n darparu mesurau insiwleiddio yn rhad ac am ddim i bob cartref yn y gymuned. Mae'n brosiect sydd wedi datblygu ar y cyd gan y cyngor lleol, wedi ei ariannu gan y sector preifat a'i reoli gan yr asiantaeth ynni. Mae dau gynllun arall yn Fintry a Girvan sy'n dilyn trywydd tebyg.

WWF has looked at schemes that focus on specific areas in improving energy efficiency, focusing in particular on three home insulation schemes in Scotland. The first scheme, in Hadyard Hill in south Ayrshire, provides free insulation for all homes in the community. It is a project that has been developed jointly by the local council, funded by the private sector and managed by the energy agency. There are a further two schemes, in Fintry and Girvan, that follow a similar line.

Rwyf yn cyfeirio at y rhain achos mae'r astudiaeth wedi dangos bod y dull hwnnw o weithredu wedi gweithio o safbwynt amgylcheddol, a hefyd wedi arwain at impact cymdeithasol ffafriol sylweddol, a'r cyfan yn gost-effeithlon. Er enghraifft, yn Girvan, ardal â 3,000 o gartrefi-rydym yn sôn am 4,800 o gartrefi ar draws Cymru gydag Arbed-cynyddodd incwm gwario trigolion yr ardal honno dros £500,000 y flwyddyn yn sgîl yr arbedion a ddaeth o ganlyniad i'r insiwleiddio. Disgynnodd nifer yr achosion o dlodi tanwydd lleol rhwng 13% a 26%. Yn Fintry, roedd y gost o arbed tunnell o garbon deuocsid yn £196 o gymharu â £350 o dan gynllun Warm Deal Llywodraeth yr Alban. Ar gyfartaledd, roedd cartrefi wedi arbed rhwng 1.3 tunnell a 3.1 tunnell o garbon y flwyddyn, sy'n rhoi gostyngiad ar gyfartaledd o tua 19% mewn allyriadau. Mae hynny'n tanlinellu gwerth y prosiectau hyn, ac mae'n tanlinellu potensial prosiect Arbed.

I refer to these schemes because a study has demonstrated that this approach has worked from an environmental point of view, while at the same time leading to significant, favourable social impacts, and all in a cost-effective way. For example, in Girvan, which has 3,000 homes—we are talking about 4,800 homes across Wales with Arbed—the disposable income of the area's residents increased by more than £500,000 a year as a result of the savings made due to the insulation. The number of fuel poverty cases fell by between 13% and 26%. In Fintry, the cost of saving a tonne of carbon dioxide was £196 as compared with £350 under the Scottish Government's Warm Deal scheme. On average, homes saved between 1.3 tonnes and 3.1 tonnes of carbon a year, which gives an average decline of some 19% in emissions. This underlines the value of these projects and the potential of the Arbed project.

Mae'r Llywodraeth yn ein hatgoffa, ac mae'n iawn i wneud hyn, am y budd economaidd sydd wedi dod hyd yma o Arbed, sef bod 70% o'r cynnyrch a osodwyd gan y cynllun wedi ei gynhyrchu yng Nghymru, a bod dros 80% o'r cwmnïau a oedd yn eu gosod wedi eu lleoli'n bennaf neu yn llwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, y raddfa yw'r broblem.

The Government reminds us, and is right to do so, about the economic benefits that have accrued to date from Arbed, which stem from the fact that 70% of the products provided by the scheme were produced in Wales, and that more than 80 % of the companies installing those products were based predominantly or entirely in Wales. However, it is the scale that is the problem.

Roedd adroddiad blynyddol Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn dweud bod y cynnydd gan y Llywodraeth yn y maes hwn yn araf, a bod rhaglenni Arbed a Nyth wedi gwella rhwng 0.1% a 0.5% o'r stoc dai, a bod angen cynyddu hynny'n sylweddol. Yr hyn yr ydym yn ei ganfod yw bod cynllun Arbed wedi gwella 7,500 o dai yn y cyfnod cyntaf, a'i fod bellach yn edrych i wella 4,800 o dai yn yr ail gyfnod. Felly, rydym yn symud yn ôl o lle rydym angen bod.

The annual report of the Climate Change Commission for Wales stated that progress by the Government in this field was slow, that Arbed and Nest had improved between 0.1% and 0.5% of the housing stock, and that that needed to be increased significantly. What we have seen is that Arbed has improved 7,500 houses in the initial phase and will now seek to improve a further 4,800 homes in the second phase. Therefore, this is a retrograde step in terms of where we need to be.

Mae'r 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd' wedi rhoi blas o'r hyn sy'n bosibl. Mae'n amlygu enghreifftiau o'r potensial a'r dulliau ariannu amgen sydd ar gael, fel y dywedodd Leanne wrth agor y ddadl. Mae'n dangos beth sy'n cael ei wneud mewn ardaloedd a gwledydd eraill i greu cymunedau cryfach.

'A Greenprint for the Valleys' has given us a taster of what is possible. It highlights examples of what is possible and the alternative funding sources available, as Leanne mentioned in opening the debate. It demonstrates what is being done in other areas and countries in order to create stronger communities.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. Could you conclude, please?

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. A allech ddirwyn i ben os gwelwch yn dda?

**Llyr Huws Gruffydd:** Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yr un mor greadigol yn ei rhagolwg ac yr un mor uchelgeisiol.

**Llyr Huws Gruffydd:** The Welsh Government needs to be just as creative in its vision and just as ambitious.

**Suzy Davies:** Thank you for the opportunity to take part in this debate. Your cunning plan to get us to read 'A Greenprint for the Valleys' has worked, and it was something of a pleasure to open its pages and see line after line which could have come straight from the big Welsh society pages of the Welsh Conservatives' manifesto. It was a pleasure for me, but, I suspect, a horror for you, Leanne.

**Suzy Davies:** Diolch am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Mae eich cynllun cyfrwys i'n cael i ddarllen 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd' wedi gweithio, ac roedd yn dipyn o bleser agor ei dudalennau a gweld llinell ar ôl llinell a allai fod wedi dod yn syth o dudalennau maniffesto'r Ceidwadwyr Cymreig ynghylch y gymdeithas fawr Gymreig. Roedd yn bleser i mi, ond, tybiaf ei fod yn erchyll i chi, Leanne.

The document gives some first-class examples of co-operative institutions and community groups making a difference, including a structural difference, to the social and economic cohesion of the area in which they operate. I am sure that we would all be able to quote examples of our own of collectivism as it was, before the word was claimed and politically polarised by the left.

Mae'r ddogfen yn rhoi enghreifftiau o'r radd flaenaf o fudiadau cydweithredol a grwpiau cymunedol yn gwneud gwahaniaeth, gan gynnwys gwahaniaeth strwythurol, i gydlyniant cymdeithasol ac economaidd yr ardal y maent yn gweithredu ynddi. Rwyf yn siŵr y byddai pob un ohonom yn gallu dyfynnu enghreifftiau ein hunain o gydberchnogaeth fel yr oedd, cyn i'r gair gael ei hawlio a'i lusgo'n wleidyddol i'r ochr chwith.

I have mentioned the Creation Development Trust in my region before, which brings together ideas of local currency, local food

Rwyf wedi sôn am Ymddiriedolaeth Ddatblygu Creation yn fy rhanbarth i o'r blaen, sy'n dwyn ynghyd syniadau ynghylch

production and trade, building skills and using them locally, and, significantly, nurturing pride in place and other people. It also creates a sense of mutual responsibility where you do not get something for nothing and you do not get it by crushing other people, but where you get a sense of confidence in your ability and ambition, which means that competition is nothing to fear. Without ambition and confidence, you are going to struggle to develop any kind of local economy to any significant degree, particularly structurally.

arian lleol, cynhyrchu a masnachu bwyd lleol, sgiliau adeiladu a'u defnyddio'n lleol, ac, yn arwyddocaol, meithrin balchder pobl yn eu hardal ac mewn pobl eraill. Mae hefyd yn creu ymdeimlad o gydgyfrifoldeb lle nad ydych yn cael rhywbeth am ddim ac nad ydych yn ei gael drwy sathru ar bobl eraill, ond lle byddwch yn cael ymdeimlad o hyder yn eich gallu a'ch uchelgais, sy'n golygu nad yw cystadleuaeth yn ddim byd i'w ofni. Heb uchelgais a hyder, rydych yn mynd i gael trafferth datblygu unrhyw fath o economi leol i unrhyw raddau sylweddol, yn enwedig yn strwythurol.

However, there are, of course, important differences between where we and Plaid would run with this idea. The first is the focus of this document on the Valleys. Quite simply put, why limit the vision? I have seen the success of some community power in some of the Valley areas of my region and regret that the imposition of Communities First has not always allowed it to flourish and expand responsibly, sometimes even resulting in wasteful duplication. However, I have also observed communities in rural Wales where the existence of Communities First and European funds is scarcely known, despite pockets of shocking poverty in financial and opportunity terms. The demands created by sparsity and the lack of infrastructure have been of little interest to successive Labour Governments here in Wales.

Fodd bynnag, ceir gwahaniaethau pwysig rhwng sut y byddem ni a Plaid yn datblygu'r syniad hwn. Y cyntaf yw ffocws y ddogfen hon ar y Cymoedd. Gan ofyn yn syml, pam cyfyngu'r weledigaeth? Rwyf wedi gweld llwyddiant rhywfaint o bŵer cymunedol yn rhai o ardaloedd y Cymoedd yn fy rhanbarth i, ac yn gresynu nad yw strwythur Cymunedau yn Gyntaf bob amser wedi caniatáu i hynny ffynnu ac ehangu yn gyfrifol, gan arwain weithiau at ddyblygu gwastraffus hyd yn oed. Fodd bynnag, rwyf hefyd wedi gweld cymunedau yng nghefn gwlad Cymru lle nad ydynt yn gwybod bod cyllid Ewropeaidd a Cymunedau yn Gyntaf yn bodoli, er gwaethaf pocedi o dlodi syfrdanol mewn termau ariannol a chyfleoedd. Prin iawn fu diddordeb Llywodraethau Llafur olynol yma yng Nghymru yn y gofynion a grëwyd gan deneurwydd poblogaeth a diffyg seilwaith.

Beyond our urban boundaries is a Wales that is home to a part of our population that has had to rely on its own resourcefulness and institutions that have grown out of the needs and interests of communities rather than the bureaucratic conventions of Government. It may not have had that much state money but, to some degree, it has avoided the pointless burden of state bureaucracy and interference. The greenprint talks about learning the lessons from EU-funded projects and Communities First programmes, but we also need to learn lessons from rural citizens whose community resilience and power depend on neither of those levers and who could probably use those to better advantage if they had access to them.

Y tu hwnt i'n ffiniau trefol gwelwn Gymru sy'n gartref i ran o'n poblogaeth sydd wedi gorfod dibynnu ar ei dyfeisgarwch ei hun, a sefydliadau sydd wedi deillio o anghenion a buddiannau cymunedau yn hytrach na chonfensiynau biwrocrataidd y Llywodraeth. Efallai nad yw wedi cael llawer o arian gan y wladwriaeth ond mae, i ryw raddau, wedi osgoi'r baich dibwrpas o fiwrocratiaeth ac ymyrraeth gan y wladwriaeth. Mae'r cynllun gwyrdd yn sôn am ddysgu gwersi o'r prosiectau a gyllidir gan yr UE a rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, ond mae angen inni hefyd ddysgu gwersi gan ddinasyddion yng nghefn gwlad nad yw eu gwytnwch na’u pŵer cymunedol yn dibynnu ar ddim un o'r rheini, a fyddai, mae’n siŵr yn gallu eu defnyddio er gwell budd iddynt pe bai

ganddynt fynediad atynt.

For me, the one major disappointment of this document is its self-limitation, its commitment to maintaining existing publicly run services within the public sector. Why? We are happy to allow voluntary organisations to provide adoption services. If community co-operatives are trustworthy enough to run financial institutions, community buildings and energy supplies, why stop there? A few weeks ago, I gave the Assembly examples of a school, a medical practice, a housing support organisation and a care organisation, all of which are sustainable social enterprises run on co-operative models. Surely, the ambition for our public services is that they should be the best they can be, whether provided by the third and not-for-profit sector, the traditional private sector—which, as Nick Ramsay has already said, is completely overlooked in this greenprint—or, indeed, by the traditional public sector.

I mi, un siom fawr yn y ddogfen hon oedd y ffaith ei bod yn cyfyngu ei hun, a'i hymrwymiad i gadw gwasanaethau a reolir yn gyhoeddus o fewn y sector cyhoeddus. Pam? Rydym yn fodlon caniatáu i fudiadau gwirfoddol ddarparu gwasanaethau mabwysiadu. Os yw mentrau cydweithredol cymunedol yn ddigon dibynadwy i redeg sefydliadau ariannol, adeiladau cymunedol a chyflenwadau ynni, pam stopio gyda hynny? Ychydig wythnosau'n ôl, rhoddais enghreifftiau i'r Cynulliad o ysgol, practis meddygol, sefydliad tai â chymorth a sefydliad gofal, sydd oll yn fentrau cymdeithasol cynaliadwy sy'n cael eu rhedeg ar fodelau cydweithredol. Does bosibl mai'r uchelgais ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus yw y dylent fod y gorau y gallant fod, p'un ai a ydynt yn cael eu darparu gan y trydydd sector a'r sector dielw, y sector preifat traddodiadol—sydd, fel y mae Nick Ramsay wedi dweud yn barod, yn cael ei anwybyddu'n llwyr yn y cynllun gwyrdd hwn—neu, yn wir, gan y sector cyhoeddus traddodiadol.

A number of the aspirations for local power expressed in this document are already being met. Only this month, Swansea BID—its third name check today, incidentally—has negotiated a deal with National Car Parks for cheap town-centre parking. Credit unions are starting to take advantage of new responsible lending opportunities for small businesses. Groundwork continues to develop its environmental volunteer army. The coalition UK Government is delivering on the Green Deal, the big society bank, energy company obligations, the National Citizen Service and community ownership through the Localism Act 2011. When we on these benches talk about the big Welsh society, it is partnered with the aspiration for a smaller state, a fundamental rebalancing of where the power lies. It does not demand the end of the public sector or the dominance of the private sector, but rather an equal space at the table for civil society and its bank of social capital.

Mae nifer o'r dyheadau am bŵer lleol a fynegir yn y ddogfen hon eisoes yn cael eu cyflawni. Dim ond y mis hwn, mae Ardal Gwella Busnes Abertawe—y trydydd tro iddo gael ei enwi heddiw, gyda llaw—wedi negodi cytundeb gyda National Car Parks i ddarparu maes parcio rhad yng nghanol y dref. Mae undebau credyd yn dechrau manteisio ar gyfleoedd benthyca cyfrifol newydd i fusnesau bach. Mae Groundwork yn parhau i ddatblygu ei fyddin o wirfoddolwyr amgylcheddol. Mae Llywodraeth glymblaid y DU yn cyflawni o ran y Fargen Werdd, banc y gymdeithas fawr, rhwymedigaethau cwmnïau ynni, y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol a pherchnogaeth gymunedol drwy Ddeddf Lleoliaeth 2011. Pan fyddwn ni ar y meinciau hyn yn sôn am gymdeithas fawr Gymreig, mae'n cyd-fynd â'r dyhead am wladwriaeth lai, gan newid cydbwysedd y pŵer yn sylfaenol. Nid yw'n gofyn am ddiwedd y sector cyhoeddus na goruchafiaeth y sector preifat, ond yn hytrach mae'n gofyn am le cyfartal wrth y bwrdd i gymdeithas sifil a'i banc o gyfalaf cymdeithasol.

Plaid concedes that there are many reasons why its plan will not work. The document states that

Mae Plaid yn cyfaddef bod llawer o resymau pam na fydd ei chynllun gweithio. Yn ôl y ddogfen

‘too many people in the valleys have lost confidence and hope in our ability to do things for ourselves.’

‘mae gormod o bobl yn y cymoedd wedi colli gobaith a hyder yn ein gallu i wneud pethau dros ein hunain.’

That is what keeps the Labour Party in business in the Valleys. Why would they look for new ideas where they have had power for half a century or more? Like the big Welsh society, the greenprint requires Government trust backed by repatriation of power to the electorate. Therefore, perhaps the main reason that the greenprint will not work is that the Welsh Labour Government will not let it.

Dyna sy'n cadw'r Blaid Lafur mewn grym yn y Cymoedd. Pam y byddent yn chwilio am syniadau newydd a hwythau wedi bod mewn grym am hanner canrif neu fwy? Fel y gymdeithas fawr Gymreig, mae'r cynllun gwyrdd yn gofyn am ffydd y Llywodraeth, gan roi'r pŵer yn ôl i'r etholwyr i ategu hynny. Felly, efallai mai dyna'r prif reswm na fydd y papur gwyrdd yn gweithio, sef na fydd Llywodraeth Lafur Cymru yn gadael iddo weithio.

**Bethan Jenkins:** Rwy’n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn nadl y prynhawn yma am y ‘Cynllun Gwyrdd i’r Cymoedd’. Yn yr un modd â phawb arall ym Mhlaid Cymru, rwyf wedi cael fy ysbrydoli gan y weledigaeth a’r syniadau yn y ddogfen-a syniadau yw'r rheini. Nid yw’r hen ffyrdd yn gweithio ac rydym ni i gyd yn gwybod hynny. Mae’n amser inni edrych am drywydd newydd ar gyfer y dyfodol. Nid wyf yn disgwyl i bawb yn y Siambr gytuno â fi. Wedi’r cyfan, mae nifer o’r pleidiau sydd yma yn ysgwyddo llawer o’r bai am fethu â dod o hyd i atebion hirdymor i broblemau a ddaeth yn sgîl dad-ddiwydiannu. Hyd yn oed pan mae pleidiau Prydeinig wedi ceisio datrys y sefyllfa, fel yn achos y buddsoddiad yn y 1970au, maent wedi glynu plasteri bregus ar economi de Cymru.

**Bethan Jenkins:** I am grateful for the opportunity to contribute to this afternoon’s debate on ‘A Greenprint for the Valleys’. As all other contributors from Plaid Cymru, I have been inspired by the vision and ideas contained in the document—and they are ideas. The old ways are not working and we all know that. It is now time for us to look for a new path for the future. I do not expect everyone in the Chamber to agree with me. After all, many of the parties here shoulder much of the blame for failing to provide long-term solutions to the problems caused by deindustrialisation. Even when British parties have tried to resolve these problems, as with the investment in the 1970s, they have merely put sticking plasters on the south Wales economy.

O ganlyniad, mae awyrgylch o anobaith ymhlith cynllunwyr yn y rhan hon o’r byd a pharodrwydd i ystyried atebion na fyddai’n dderbyniol mewn mannau lle nad yw problemau economaidd hirdymor mor gyffredin. Mae hyn yn aml yn arwain at ganlyniadau annerbyniol ar gyfer cymunedau, fel pyllau glo brig enfawr ger cartrefi yn Ochr-y-waun yng Nghwmllynfell, ac yng Nglyn-nedd a Merthyr, er enghraifft. Rydym yn aml yn rhamantu gorffennol mwyngloddio fel pe bai’n adeg chwedlonol pur pan oedd popeth yn iawn. Nid hynny oedd realiti’r sefyllfa. Roedd nifer o deuluoedd yn dangos anobaith ac am wneud

As a result, there is often a feeling of hopelessness among planners in this part of the world and a willingness to look at solutions that would not be acceptable in areas where long-term economic problems are less common. This often leads to unacceptable outcomes for communities, such as huge opencast mines near homes in Ochr-y-waun in Cwmllynfell, and in Glynneath and Merthyr, for example. We often romanticise our mining past as if it were pure mythology and a time when everything was fine. That is not the reality. Many families were showing signs of hopelessness and would do anything to

rhywbeth i ddianc o'u bywydau. Aethant ati i greu sefydliadau addysgiadol, i lowyr yn bennaf, er mwyn sicrhau na fyddai eu plant, neu blant eu plant, yn dilyn eu gwaith o dan y ddaear.

escape from their lives. They formed educational institutions, primarily for miners, to ensure that their children, or their children's children, would not have to follow them into those pits.

Those people who think that the days of coal and employment can come again are only fooling themselves. Across all of south Wales, with its population of 1.5 million people, fewer than 500 are directly involved in opencasting. The industry's argument is simple: 'We have coal, they have jobs; let's do this'. However, the jobs are few and skills are limited, so the wages match the skills. The pay-off to what is hardly the economic panacea we are led to believe is community suffering. Think about it: have you come across an opencast mine where there is not vehement and widespread local opposition to its presence among local people? We know all the problems they cause and now, because planners and the Welsh Government are slowly making it harder to operate them in Wales, it has become a growth industry for lawyers. That does not benefit local communities and it does not benefit the Valleys. Instead, I would like to see renewable projects created and run by local people. We do not need big companies to come into the Valleys and tell us how to create our own energy, much less 'dig it out of the ground'. If it is run by local people, it is run in the interests of those local people.

Mae'r bobl hynny sy'n meddwl y gall dyddiau glo a swyddi ddychwelyd yn twyllo eu hunain. Ar draws y de i gyd, gyda'i phoblogaeth o 1.5 miliwn o bobl, mae llai na 500 o bobl yn ymwneud yn uniongyrchol â glo brig. Mae dadl y diwydiant yn syml: 'Mae gennym lo, mae ganddynt swyddi; gadewch inni wneud hyn'. Fodd bynnag, mae'r swyddi'n brin a'r sgiliau'n gyfyngedig, felly mae'r cyflogau yn cyd-fynd â'r sgiliau. Byddai'r ateb honedig i'r broblem economaidd yn arwain at gymunedau'n dioddef. Meddyliwch am y peth: a ydych wedi dod ar draws safle glo brig lle nad oes gwrthwynebiad eang a chwyrn i'w bresenoldeb ymysg pobl leol? Rydym yn gwybod am yr holl broblemau maent yn eu hachosi ac yn awr, gan fod cynllunwyr a Llywodraeth Cymru yn araf ddigon yn ei gwneud yn anos eu gweithredu yng Nghymru, mae wedi dod yn ddiwydiant o dwf i gyfreithwyr. Nid yw hynny o fudd i gymunedau lleol, ac nid yw o fudd i'r Cymoedd. Yn hytrach na hynny, byddwn yn hoffi gweld prosiectau adnewyddadwy yn cael eu creu a'u rhedeg gan bobl leol. Nid oes arnom angen i gwmnïau mawr ddod i'r Cymoedd i ddweud wrthym sut i greu ein hynni eu hunain, ac yn sicr nid i'w gloddio o'r ddaear. Os yw'n cael ei redeg gan bobl leol, bydd yn cael ei redeg er budd y bobl leol hynny.

Rwy'n gweld y syniadau yn y cynllun gwyrdd fel dechrau effaith domino yng Nghymru. Pan fyddwch yn sefydlu prosiect lleol, busnes neu brosiect cymunedol ac yn dangos i bobl eraill yn yr ardal honno sut y gallent wneud hynny hefyd a sut y gallent greu eu busnesau eu hunain, mae hynny'n ychwanegu at eu hyder ac maent yn newid eu canfyddiadau hirdymor o ran sut maent yn teimlo amdanynt eu hunain. Mae'n caniatáu inni roi heibio'r syniad y dylem ymddiheuro am y sefyllfa yr ydym ynddi heddiw, i ymddiheuro am bwy ydym ni fel cymuned neu fel Cymry. Mae'n ein galluogi i fod yn ddeinamig unwaith eto.

I see the ideas in the greenprint as starting a domino effect in Wales. When you establish a local project, business or community project and show others in the area how they could follow suit and establish their own businesses, it adds to people's confidence and changes their long-term perceptions of, and how they feel about themselves. This allows us to put to one side the idea that we should apologise for the situation in which we find ourselves today, to apologise for who we are as a community or as a nation. It enables us to be dynamic once again.

Mae rhai o'n gwrthwynebwyr yn dweud bod Plaid Cymru yn blaid sy'n dal i edrych i'r gorffennol, yn edrych yn ôl ac yn ceisio gwneud yn iawn am gamweddau hanesyddol, ond mae'r ddogfen hon yn edrych mewn un ffordd yn unig, sef ymlaen. Rydym wedi cael digon o'r glas, rydym wedi rhoi cyfle digonol i'r coch, ac rwy'n eich annog yn awr i roi cyfle i'r gwyrdd.

Some of our opponents say that Plaid Cymru is a party that looks to the past, looks backwards and tries to right historical wrongs, but this document looks only in one direction, and that is forward. We have had enough of the blue, we have given adequate opportunity to the red, and I now encourage you to give green a chance.

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I am grateful for this opportunity for us to reflect collectively on the challenges facing local communities in these uncertain economic times, particularly as I prepare to consult on the future of regeneration policy after the summer recess. Members have raised some important points and I will try to take them into consideration as my policy review proceeds. I think that there is a degree of consensus among all Members about the importance of strengthening local economies, of making them more resilient and responsive to new opportunities as well as new threats. It is a pity, then, that the motion for this debate has been deliberately drafted, so it seems, so that the Government cannot support it in its entirety. We are invited, compelled even, by its wording to divide along party-political lines. I will not dwell on the document tabled in support of the motion. It seems to me that it was produced for a particular electoral purpose. The people of Wales, including those in the Valleys, have had their say on that and I, for one, respect their views. However, in the spirit of co-operation, let me agree with the principle, at least, behind the motion.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle hwn inni bwyso a mesur ar y cyd yr heriau sy'n wynebu cymunedau lleol yn y cyfnod economaidd ansicr hwn, yn enwedig gan fy mod yn paratoi i ymgynghori ar ddyfodol y polisi adfywio ar ôl toriad yr haf. Mae Aelodau wedi codi rhai pwyntiau pwysig, a byddaf yn ceisio eu hystyried wrth i fy adolygiad polisi fynd rhagddo. Credaf y ceir rhywfaint o gonsensws ymysg yr holl Aelodau am bwysigrwydd cryfhau economïau lleol, gan eu gwneud yn fwy gwydn ac ymatebol i gyfleoedd newydd yn ogystal â bygythiadau newydd. Mae'n drueni felly bod y cynnig ar gyfer y ddadl hon wedi cael ei ddrafftio'n fwriadol—felly y mae'n ymddangos—fel na all y Llywodraeth ei gefnogi yn ei gyfanrwydd. Mae ei eiriad yn gwahodd—neu'n gorfodi hyd un oed—rhaniad ar hyd ffiniau gwleidyddiaeth plaid. Ni fyddaf yn rhoi gormod o sylw i'r ddogfen a gyflwynwyd o blaid y cynnig. Mae'n ymddangos i mi iddi gael ei llunio at ddiben etholiadol penodol. Mae pobl Cymru, gan gynnwys y rheini yn y Cymoedd, wedi cael dweud eu dweud ar hynny, ac rwyf fi yn parchu eu barn. Fodd bynnag, yn unol â'r ysbryd o gydweithredu, gadewch imi gytuno â'r egwyddor, o leiaf, sydd wrth wraidd y cynnig.

The viability of communities, and ways of revitalising them, must lie at the heart of our agenda. We are focusing on jobs and growth because we want to raise prosperity and wellbeing for everybody living in Wales, including the poorest. Pooling resources and working together has been at the heart of our approach to regeneration for some time. In 2006, for example, we launched 'Turning Heads—A Strategy for the Heads of the Valleys 2020'. Our regeneration partnership brought together key players from across different sectors to deliver a co-ordinated

Rhaid i hyfywedd cymunedau, a ffyrdd o'u hadfywio, fod yn ganolog i'n hagenda. Rydym yn canolbwyntio ar swyddi a thwf oherwydd bod arnom eisiau sicrhau mwy o ffyniant a lles i bawb sy'n byw yng Nghymru, gan gynnwys y bobl dlotaf. Mae dod ag adnoddau ynghyd a gweithio gyda'n gilydd wedi bod yn ganolog i'n hymagwedd at adfywio ers cryn amser. Yn 2006, er enghraifft, gwnaethom lansio 'Syniadau Blaengar—Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020'. Daeth ein partneriaeth adfywio â chyfranwyr allweddol o wahanol

plan for Valleys communities. We are using existing investment, including major housing renewal, as a driver for regeneration. Low-carbon initiatives have formed a key part of the programme. You can see all this at work at The Works in Ebbw Vale and in the many communities benefiting from Arbed funding. Just six years on, we are well ahead of our target of delivering £140 million of additional investment in that part of Wales by 2020.

sectorau at ei gilydd i gyflwyno cynllun cydlynol ar gyfer cymunedau'r Cymoedd. Rydym yn defnyddio buddsoddiad presennol, gan gynnwys y gwaith adnewyddu tai allweddol, fel sbardun ar gyfer adfywio. Mae mentrau carbon isel wedi bod yn rhan allweddol o'r rhaglen. Gallwch weld hyn i gyd ar waith yn Y Gweithfeydd yng Nglynebwy, ac yn y cymunedau niferus sy'n elwa o gyllid Arbed. Dim ond chwe mlynedd yn ddiweddarach, rydym ymhell ar y blaen i'n targed o ddarparu gwerth £140 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol yn y rhan honno o Gymru erbyn 2020.

5.15 p.m.

We have replicated that partnership approach in the western Valleys and, over a larger spatial area, we are working through the Valleys regional park partnership to make the most of both the natural environment and our built heritage. It makes sense to do this across the whole south Wales coalfield, but we recognise local distinctiveness as well, through our smaller regeneration areas. We also continue to support the work of the Coalfields Regeneration Trust and other organisations to help communities to realise their aspirations. Our review will identify the best practice that we have seen and use it as a basis for developing our regeneration strategy going forward.

Rydym wedi efelychu'r ymagwedd honno o bartneriaeth yn y Cymoedd gorllewinol a, dros ardal ofodol fwy, rydym yn gweithio drwy bartneriaeth parc rhanbarthol y Cymoedd i fanteisio i'r eithaf ar yr amgylchedd naturiol a'n treftadaeth adeiledig. Mae'n gwneud synnwyr inni wneud hyn ar draws meysydd glo'r de, ond rydym yn cydnabod nodweddion unigryw lleol hefyd, drwy ein hardaloedd adfywio llai. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi gwaith Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo a sefydliadau eraill i helpu cymunedau i wireddu eu dyheadau. Bydd ein hadolygiad yn nodi'r arferion gorau rydym wedi’u gweld, ac yn eu defnyddio fel sail i ddatblygu ein strategaeth adfywio yn y dyfodol.

Our approach is a cross-governmental one. My colleague Edwina Hart has recently announced an enterprise zone for Ebbw Vale. The local workforce has high-quality skills and experience, and the area already has a reputation for being able to attract innovative UK and international manufacturing companies. Edwina is also looking at the potential for a city-region approach to economic development across the south-east and for other parts of Wales. This is part of a range of strategic and co-ordinated initiatives to support the economy across the country. A keen focus on sectoral, regional and community issues is extremely important, but it must complement a broader whole-economy approach to growth and sustainable jobs. This balanced approach is already at the heart of our programme for government, and delivering growth and sustainable jobs

Mae ein hymagwedd yn un traws-lywodraethol. Mae fy nghyd-Weinidog, Edwina Hart, wedi cyhoeddi ardal fenter ar gyfer Glynebwy yn ddiweddar. Mae gan y gweithlu lleol brofiad a sgiliau o ansawdd uchel, ac mae gan yr ardal enw da yn barod am ei gallu i ddenu cwmnïau gweithgynhyrchu arloesol rhyngwladol ac o'r DU. Mae Edwina hefyd yn edrych ar y potensial am ymagwedd dinas-ranbarth ar gyfer datblygiad economaidd ar draws y de-ddwyrain, ac ar gyfer rhannau eraill o Gymru. Mae hyn yn rhan o amrywiaeth o fentrau strategol a chydlynol i gefnogi'r economi ar draws y wlad. Mae ffocws brwd ar faterion sectoraidd, rhanbarthol a chymunedol yn hynod bwysig, ond rhaid iddo gyd-fynd ag ymagwedd ehangach ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy sy'n cynnwys yr economi gyfan. Mae'r ymagwedd gytbwys

remains our priority.

hon eisoes wrth wraidd ein rhaglen lywodraethu, ac mae sicrhau twf a swyddi cynaliadwy yn dal yn flaenoriaeth inni.

Looking ahead, Alun Davies has made it clear that we expect the next round of European funding programmes to contribute to a transformational impact on the Welsh economy, particularly for west Wales and the Valleys. Carl Sargeant is implementing the next phase of Communities First. The Valleys have benefited significantly from that programme in its first years of operation and will continue to benefit with a renewed focus on bringing communities out of poverty through job creation and improving health and education, while retaining the community focus that has empowered so many people in the most disadvantaged parts of Wales. Given the significance of this programme to the Valleys, it is worth reminding the Chamber that Welsh Labour was the only party to commit to maintaining this investment in our manifesto at the last election. Indeed, it has been undermined yet again today by the Welsh Conservatives. Alongside that, we are continuing with our investment in community buildings through the community facilities and activities programme, which is bringing buildings back into use and improving existing facilities for the benefit of local communities.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae Alun Davies wedi'i gwneud yn glir ein bod yn disgwyl y bydd y cylch nesaf o raglenni cyllid Ewropeaidd yn cyfrannu at effaith drawsnewidiol ar economi Cymru, yn enwedig ar gyfer y gorllewin a'r Cymoedd. Mae Carl Sargeant yn gweithredu cyfnod nesaf y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Cymoedd wedi elwa'n sylweddol o'r rhaglen honno yn ystod ei blynyddoedd cyntaf o weithredu, a bydd yn parhau i elwa gyda ffocws newydd ar dynnu cymunedau o dlodi drwy greu swyddi a gwella iechyd ac addysg, gan gadw'r ffocws cymunedol sydd wedi grymuso cynifer o bobl yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru. O ystyried arwyddocâd y rhaglen hon i'r Cymoedd, mae'n werth atgoffa'r Siambr mai Llafur Cymru oedd yr unig blaid wnaeth ymrwymo i gynnal y buddsoddiad hwn yn ein maniffesto yn yr etholiad diwethaf. Yn wir, mae wedi cael ei danseilio unwaith eto heddiw gan y Ceidwadwyr Cymreig. Ochr yn ochr â hynny, rydym yn parhau â'n buddsoddiad mewn adeiladau cymunedol drwy'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol, sy'n dechrau ailddefnyddio adeiladau a gwella cyfleusterau presennol er budd cymunedau lleol.

The organisational challenge for the Government is to bring all these strands of investment and activity together. We are very aware of this at Cabinet level and throughout the organisation of the Welsh Government. The amendment that was tabled by Aled Roberts, amendment 3, which we support, demonstrates the partnership working required. The electrification of rail lines in Wales, including the Valleys lines can, and I hope will, be a key driver in development. There is no one policy area that will achieve our aim of supporting sustainable communities and promoting economic growth. No one Minister has a magic bullet. However, we are all committed to delivering for our Valleys communities and for the whole of Wales.

Yr her drefniadaethol i'r Llywodraeth yw dod â'r holl elfennau hyn o fuddsoddiad a gweithgarwch ynghyd. Rydym yn ymwybodol iawn o hyn ar lefel y Cabinet, ac ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r gwelliant a gyflwynwyd gan Aled Roberts, gwelliant 3—ac rydym yn cefnogi’r gwelliant hwnnw—yn dangos y gwaith partneriaeth y mae ei angen. Bydd trydaneiddio rheilffyrdd yng Nghymru, gan gynnwys rheilffyrdd y Cymoedd yn gallu bod yn sbardun allweddol, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn sbardun allweddol, o ran datblygu. Nid oes un maes polisi a fydd yn cyrraedd ein nod o gefnogi cymunedau cynaliadwy a hyrwyddo twf economaidd. Nid oes gan unrhyw Weinidog ffon hud. Fodd bynnag, mae pob un ohonom yn ymrwymedig i gyflawni ar gyfer ein cymunedau yn y Cymoedd, ac ar gyfer Cymru gyfan.

To come back to the document, while there are some interesting propositions and good sentiments in Leanne's document, we should remember that this was Plaid Cymru's manifesto for the Valleys for the Assembly elections in 2011 and the voters overwhelmingly rejected it. In the local elections, they rejected it all over again. As a collection of ideas, there is some interesting reading in 'A Greenprint for the Valleys', but, as a whole, it offers little. It could not, in part or even as a whole, transform the prospects of my community or any other Valleys community. The people of Wales want a co-ordinated, grown-up and, above all, deliverable plan for creating jobs and supporting communities. Unfortunately, this is not it. Taken as a whole, this is not serious politics and people have twice seen right through it. Plaid Cymru can stick with it if it will, but people will see through it all over again.

I ddychwelyd at y ddogfen, er bod rhai cynigion diddorol a bwriadau da yn nogfen Leanne, dylem gofio mai dyma oedd maniffesto Plaid Cymru ar gyfer y Cymoedd yn etholiadau'r Cynulliad yn 2011, a bod y mwyafrif llethol o bleidleiswyr wedi'i wrthod. Yn yr etholiadau lleol, gwnaethant wrthod y cyfan eto. Fel casgliad o syniadau, mae ychydig o ddeunydd darllen diddorol yn y 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd', ond, ar y cyfan, nid yw'n cynnig llawer. Ni allai, yn rhannol na hyd yn oed yn ei gyfanrwydd, weddnewid rhagolygon fy nghymuned i nac unrhyw gymuned arall yn y Cymoedd. Mae ar bobl Cymru eisiau cynllun cydlynol, aeddfed ac, yn anad dim, cynllun y gellir ei gyflawni er mwyn creu swyddi a chefnogi cymunedau. Yn anffodus, nid y cynllun hwn yw hwnnw. Wrth edrych ar y ddogfen gyfan, nid yw hyn yn wleidyddiaeth ddifrifol, ac mae pobl wedi gweld drwyddo ddwywaith. Gall Plaid Cymru gadw ato os yw'n dymuno, ond bydd pobl yn gweld drwyddo unwaith eto.

**Leanne Wood:** Unfortunately, I do not have a huge amount of time left to respond in detail to everybody's comments, but I will start by responding to what Nick Ramsay said. I am glad to have been able to amuse you, Nick. You drew parallels with the big society. Other people did the same, but I have to tell you that this could not be further from the big society. It is absolutely not about rolling back and reducing the size of the state. The greenprint is the opposite of that. I must add that we have had a Welsh society here for many decades, if not for a century, so this thinking is not anything new.

**Leanne Wood:** Yn anffodus, nid oes gennyf lawer o amser ar ôl i ymateb yn fanwl i sylwadau pawb, ond dechreuaf drwy ymateb i'r hyn a ddywedodd Nick Ramsay. Rwyf yn falch fy mod wedi gallu eich difyrru, Nick. Gwnaethoch gymariaethau â'r gymdeithas fawr. Gwnaeth pobl eraill yr un peth, ond rhaid imi ddweud wrthych na allai hwn fod ymhellach o'r gymdeithas fawr. Yn sicr, nid yw hyn yn ymwneud â mynd yn ôl a lleihau maint y wladwriaeth. Mae'r cynllun gwyrdd yn mynd yn groes i hynny. Rhaid imi ychwanegu fod gennym gymdeithas Gymreig yma ers degawdau lawer, os nad ers canrif, felly nid yw'r meddylfryd hwn yn ddim byd newydd.

Eluned Parrott was correct in saying that it is not easy to get projects such as this off the ground. That is true. She was also correct in saying that small projects, in and of themselves, will not necessarily create large numbers of jobs. Their important link to the manufacturing of renewable energy kit is an essential part of the vision. I therefore accept that this is not the entire answer, but I am glad that you have acknowledged that it can form part of the answer. The security and governance issues of alternative currency and community organisations are also things that

Roedd Eluned Parrott yn gywir wrth ddweud nad yw'n hawdd rhoi prosiectau fel hyn ar waith. Mae hynny'n wir. Roedd hefyd yn gywir wrth ddweud na fydd prosiectau bach, ar eu pen eu hunain, o reidrwydd yn creu nifer helaeth o swyddi. Mae eu cysylltiad pwysig â gweithgynhyrchu offer ynni adnewyddadwy yn rhan hanfodol o'r weledigaeth. Felly, rwyf yn derbyn nad dyma yw'r ateb cyflawn, ond rwyf yn falch eich bod wedi cydnabod y gall fod yn rhan o'r ateb. Mae'r materion diogelwch a llywodraethu yn ymwneud ag arian amgen a

it is important to get right, and your point about transport was well made—a lot more work needs to go into community transport and bigger transport solutions.

mudiadau cymunedol hefyd yn bethau y mae'n bwysig eu cael yn iawn, a gwnaethoch gyflwyno eich pwynt am drafnidiaeth yn dda—mae angen gwneud llawer mwy o waith yng nghyswllt trafnidiaeth gymunedol ac atebion trafnidiaeth mwy.

Alun Ffred usefully pointed out the all-important increase in confidence that comes about when people and communities do things for themselves, and Mick Antoniw's points on public transport and housing were good. I thank you, Mick, for those examples from the United States.

Cyfeiriodd Alun Ffred at bwynt defnyddiol, sef y bydd gan bobl a chymunedau fwy o hyder pan fyddant yn gwneud pethau drostynt eu hunain—sy'n hollbwysig—ac roedd pwyntiau Mick Antoniw am drafnidiaeth gyhoeddus a thai yn dda. Diolch ichi, Mick, am yr enghreifftiau hynny o'r Unol Daleithiau.

Suzy, I think that you might need to re-read the greenprint. I am grateful that you took the time to read it, but you might need to look at it again. It is absolutely not the big society. [*Interruption.*] No, it is not.

Suzy, rwyf yn meddwl efallai fod angen i chi ail-ddarllen y cynllun gwyrdd. Rwyf yn ddiolchgar ichi am roi o'ch amser i'w ddarllen, ond efallai fod angen ichi ailedrych arno. Nid y gymdeithas fawr ydyw o gwbl. [*Torri ar draws.*] Na, nid dyna ydyw.

In my opening remarks, I covered the fact that these ideas are not confined to the Valleys, and that they can be rolled out in any community. In fact, they can work better in more remote and rural communities. You say that you were disappointed at what you called the limitation of, or lack of, privatisation. Well, I am sorry to disappoint you, Suzy, but that is exactly why the greenprint is so different from the big society, as it opposes privatisation and believes in the value of publicly owned, collective services.

Yn fy sylwadau agoriadol, rhoddais sylw i'r ffaith nad yw'r syniadau hyn wedi cael eu cyfyngu i'r Cymoedd, ac y gellir eu rhoi ar waith mewn unrhyw gymuned. Yn wir, gallant weithio'n well mewn cymunedau mwy anghysbell a gwledig. Rydych yn dweud eich bod yn siomedig â'r hyn y gwnaethoch ei alw'n gyfyngiad preifateiddio, neu ddiffyg preifateiddio. Wel, mae'n ddrwg gennyf eich siomi, Suzy, ond dyna'n union pam y mae'r cynllun gwyrdd mor wahanol i'r gymdeithas fawr, gan ei fod yn gwrthwynebu preifateiddio ac yn credu yng ngwerth gwasanaethau ar y cyd sy'n eiddo i'r cyhoedd.

**Suzy Davies:** Thank you for taking this intervention, Leanne. My point, of course, was that we need a space for civic society and social capital when we deliver public services. It was not about the privatisation you suggested.

**Suzy Davies:** Diolch ichi am dderbyn yr ymyriad hwn, Leanne. Fy mhwynt, wrth gwrs, oedd bod angen cynnwys cymdeithas ddinesig a chyfalaf cymdeithasol wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Nid oedd yn ymwneud â'r preifateiddio a awgrymwyd gennych.

**Leanne Wood:** Plaid Cymru very much believes in the value of public services. Your party clearly does not.

**Leanne Wood:** Mae Plaid Cymru yn credu'n gryf yng ngwerth gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n amlwg nad yw eich plaid chi yn credu yn hynny.

Finally, I would remind the Minister that Labour does not have a monopoly on wisdom. It might be worth your while sometimes to be open to the ideas of others

Yn olaf, hoffwn atgoffa'r Gweinidog nad oes gan Lafur fonopoli ar ddoethineb. Efallai y byddai'n werth ichi fod yn agored i syniadau pobl eraill weithiau, a pheidio â'u diystyru

and not to write them off in such a dismissive manner. Who knows? At some point, such an approach may even be beneficial to the politics of Wales.

mewn ffordd mor ddibrisiol. Pwy â ŵyr? Efallai y gallai ymagwedd o'r fath fod yn fuddiol i wleidyddiaeth Cymru rywbryd hyd yn oed.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there are objections and therefore defer voting on this item until voting time. The Business Committee has agreed that voting time will take place before the short debate. Do three Members wish for the bell to be rung? I see that no-one does and therefore we will proceed directly to voting time.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw ein bod yn cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, ac felly byddaf yn gohirio'r holl bleidleisiau ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y bydd y cyfnod pleidleisio yn digwydd cyn y ddadl fer. A oes tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes, felly symudwn yn syth at y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM5007: O blaid 9, Ymatal 0, Yn erbyn 34.*
*Motion NDM5007: For 9, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
George, Russell
Isherwood, Mark
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda

Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM5007: O blaid 30, Ymatal 0, Yn erbyn 13.*
*Amendment 1 to NDM5007: For 30, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
George, Russell
Isherwood, Mark
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM5007: O blaid 30, Ymatal 0, Yn erbyn 13.*
*Amendment 2 to NDM5007: For 30, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
George, Russell
Isherwood, Mark
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette

Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Wood, Leanne

Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol.*
*Amendment 3 deselected.*

*Gwelliant 4 i NDM5007: O blaid 30, Ymatal 0, Yn erbyn 13.*
*Amendment 4 to NDM5007: For 30, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
George, Russell
Isherwood, Mark
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

Cynnig NDM5007 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi'r modd y mae Llywodraethau olynol Cymru, awdurdodau lleol, y sector preifat, Addysg Uwch a'r trydydd sector wedi defnyddio cronfeydd yr UE.*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda phrifysgolion Cymru a sefydliadau yn y sector gwirfoddol a'r sector preifat i ddatblygu strategaeth arloesi a fydd yn sail i raglen Horizon 2020 yr UE ar gyfer y cylch cyllido nesaf.*

Motion NDM5007 as amended:

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Notes the use that successive Welsh Governments, local authorities, the private sector, Higher Education and the third sector have made of EU funds.*

*2. Calls on the Welsh Government to work with Welsh universities, voluntary and private sector organisations in developing an innovation strategy which will inform the EU's Horizon 2020 programme for the next round of funding.*

*Cynnig NDM5007 fel y'i diwygiwyd: O blaid 30, Ymatal 0, Yn erbyn 13.*
*Motion NDM5007 as amended: For 30, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
George, Russell
Isherwood, Mark
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd cynnig NDM5007 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM5007 as amended agreed.*

*Cynnig NDM5003: O blaid 8, Ymatal 0, Yn erbyn 35.*
*Motion NDM5003: For 8, Abstain 0, Against 35.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Evans, Rebecca
George, Russell
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Ann
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM5003: O blaid 26, Ymatal 0, Yn erbyn 17.*
*Amendment 1 to NDM5003: For 26, Abstain 0, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Parrott, Eluned

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
George, Russell
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Wood, Leanne

Powell, William
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.*
*Amendment 2 deselected.*

*Gwelliant 3 i NDM5003: O blaid 43, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 3 to NDM5003: For 43, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
George, Russell
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM5003: O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 8.*
*Amendment 4 to NDM5003: For 35, Abstain 0, Against 8.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Evans, Rebecca
George, Russell
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Ann
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Gruffydd, Llyr Huws
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

Cynnig NDM5003 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o ddatblygu rhaglen benodol i adfywio cymunedau a thrwy hynny sicrhau bod ganddynt ddyfodol economaidd ffyniannus a chynaliadwy.*

*2. Yn cefnogi datblygu 'metro'r Cymoedd' ar gyfer rheilffyrdd y Cymoedd a fydd yn helpu i adfywio cymunedau yng nghymoedd de*

Motion NDM5003 as amended:

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Calls on the Welsh Government to explore ways of developing a specific programme for revitalising communities thereby ensuring that they have a viable and sustainable economic future.*

*2. Supports the development of a 'Valleys metro' for the Valleys Lines which will help revitalise communities in the South Wales*

*Cymru.*

*3. Yn gresynu nad yw 'Cynllun Gwyrdd i'r Cymoedd' yn mynd ati'n gynhwysfawr i archwilio sut y mae datblygu'r sector preifat yng Nghymoedd De Cymru.*

*Valleys.*

*3. Regrets that 'A Greenprint for the Valleys' is not comprehensive in its examination of how to develop the private sector in the South Wales Valleys.*

*Cynnig NDM5003 fel y'i diwygiwyd: O blaid 42, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM5003 as amended: For 42, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
George, Russell
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM5003 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM5003 as amended agreed.*

# Dadl Fer
# Short Debate

## Treftadaeth—Ein Gorffennol a’n Dyfodol
## Heritage—Our Past and Future

**Sandy Mewies:** I know that Mike Hedges and Rebecca Evans will speak in this debate.

As this debate is about our heritage and history, I would first like to take you back in time—not too far, but just to 5 May 2012. It was a day to remember, because it was the day that the all-Wales coastal path opened. In north Wales, we had the perfect venue of Flint castle, and it really was a wonderful day. The sun shone, the castle and the Dee estuary made a perfect backdrop, and the added bonus for everyone who was there was that one of Airbus’s famous wings floated past on the first part of its journey to Toulouse. What more could anyone ask? Hundreds of people attended and there were lots of activities for them to see and do.

**Sandy Mewies:** Gwn y bydd Mike Hedges a Rebecca Evans yn siarad yn y ddadl hon.

Gan fod y ddadl hon yn ymwneud â'n treftadaeth a'n hanes, hoffwn fynd â chi yn ôl mewn amser yn gyntaf—ddim yn rhy bell yn ôl, dim ond i 5 Mai 2012. Roedd yn ddiwrnod i'w gofio, oherwydd dyna pryd agorwyd llwybr arfordir Cymru gyfan. Yng ngogledd Cymru, cawsom y lleoliad perffaith yng nghastell y Fflint, ac roedd hi wir yn ddiwrnod bendigedig. Roedd yr haul yn disgleirio, a'r castell ac aber Afon Ddyfrdwy yn gefndir perffaith. Aeth un o adenydd enwog *Airbus* heibio ar ran gyntaf ei daith i Toulouse ac roedd hyn yn ychwanegu rhywbeth arbennig i’r diwrnod. Beth mwy oedd ei angen? Roedd cannoedd o bobl yn bresennol ac roedd llawer o bethau iddynt eu gweld a'u gwneud.

However, there was one blot on the landscape, so to speak, because although everyone from the town and surrounding area was well aware of the proud history of Flint castle—for example, it is Edward I’s first Welsh castle, dating from 1277; the great keep is unlike any other in Britain; it is the site where Richard II surrendered to Henry Bolingbroke, as dramatically recreated by William Shakespeare; and much more—it was disappointing how many people from the slightly wider community in north Wales, while telling me they had had a fantastic day, had not realised that the castle had such a remarkable and important history, and was located in such a splendid setting. Indeed, one complaint that I received was that, despite its importance to Welsh history, you could not obtain a leaflet about Flint castle in the town itself. This is surely something that ought to be considered by Cadw to help promote the castle to a wider audience.

Fodd bynnag, roedd un peth yn tynnu oddi ar y perffeithwch, fel petai. Er bod pawb o'r dref a'r ardal gyfagos yn ymwybodol iawn o hanes balch castell y Fflint—er enghraifft, dyma oedd castell cyntaf Edward I yng Nghymru, sy'n dyddio yn ôl i 1277; mae'r tŵr mawr yn wahanol i unrhyw un arall ym Mhrydain; dyma lle ildiodd Richard II i Henry Bolingbroke, fel yr ail-grëwyd yn ddramatig gan William Shakespeare; a llawer mwy—roedd yn siomedig faint o bobl o'r gymuned ychydig yn ehangach yn y gogledd nad oedd wedi sylweddoli bod gan y castell hanes mor hynod a phwysig, a’i fod wedi ei leoli mewn lleoliad mor ysblennydd, er eu bod yn dweud wrthyf eu bod wedi cael diwrnod gwerth chweil. Yn wir, un gŵyn a gefais oedd nad oedd modd ichi gael taflen am gastell y Fflint yn y dref ei hun, er ei bwysigrwydd yn hanes Cymru. Mae hyn yn sicr yn rhywbeth y dylai Cadw ei ystyried er mwyn helpu i hyrwyddo'r castell i gynulleidfa ehangach.

5.30 p.m.

5.30 p.m.

Many people said they would be back to learn more about the history of the castle and, indeed, the town of Flint, and ideas came forward on how the castle could be used—

Dywedodd llawer o bobl y byddent yn dod yn ôl i ddysgu rhagor am hanes y castell ac, yn wir, am dref y Fflint, a daeth syniadau i law ynglŷn â sut y gallai'r castell gael ei

from open air concerts to food and craft festivals. However, first and foremost, people wanted to see the castle presented as a premier attraction for tourists, hosting events for the local community and for visitors. Do not get me wrong: the people of Flint are very proud of their castle. The town and county councillors have long recognised its place in the history of the town and—if you knew Flint council, you would know why I say this—the town’s place in the history of the world. In fact, they will proudly tell you that Flint is the birthplace of democracy in Wales, with a mayoralty dating back to the thirteenth century. The present mayor, Vicky Perfect, is a local historian, and she has just published a fascinating account of the castle’s history. She also volunteers every day to open and lock the castle, come rain or shine, as the official custodian and keeper of the keys.

ddefnyddio—o gyngherddau awyr agored i wyliau bwyd a chrefftau. Fodd bynnag, yn anad dim, roedd ar bobl eisiau gweld y castell yn cael ei gyflwyno fel prif atyniad i dwristiaid, gan gynnal digwyddiadau ar gyfer y gymuned leol ac ymwelwyr. Peidiwch â'm camddeall: mae pobl y Fflint yn falch iawn o'u castell. Mae'r cynghorwyr tref a sir wedi cydnabod ers tro ei le yn hanes y dref a—phe baech yn adnabod cyngor y Fflint, byddech yn gwybod pam fy mod yn dweud hyn—lle y dref yn hanes y byd. Yn wir, byddant yn dweud wrthych yn falch mai'r Fflint yw man geni democratiaeth yng Nghymru, gyda maeryddiaeth sy’n dyddio'n ôl i'r drydedd ganrif ar ddeg. Mae'r maer presennol, Vicky Perfect, yn hanesydd lleol, ac mae hi newydd gyhoeddi cyfrif diddorol o hanes y castell. Mae hi hefyd yn gwirfoddoli bob dydd i agor a chloi'r castell, boed law neu hindda, fel y ceidwad swyddogol a cheidwad yr allweddi.

The town council ensures that the castle always features in its annual festival and in other events. It is even included in the 999 day, with the police helicopter landing at the site, which is an example of connecting the past with the modern day. I am sure that this is true of many other heritage sites throughout Wales, but the message that I believe needs to be conveyed is that Flint, and other communities, need support to ensure that the widest possible number of people can access and enjoy our great monuments, and that local communities must be encouraged to take ownership of their historical environment.

Mae cyngor y dref yn sicrhau bod y castell bob amser yn rhan o'i ŵyl flynyddol a digwyddiadau eraill. Mae hyd yn oed yn rhan o'r diwrnod 999, gyda hofrennydd yr heddlu'n glanio ar y safle, sy'n enghraifft o gysylltu'r gorffennol â'r presennol. Rwyf yn siŵr bod hyn yn wir am lawer o safleoedd treftadaeth eraill ledled Cymru, ond y neges sydd angen ei chyfleu, yn fy marn i, yw bod ar y Fflint a chymunedau eraill angen cymorth i sicrhau y gall y nifer mwyaf posibl o bobl gael mynediad at ein henebion arbennig, a'u mwynhau, a bod yn rhaid i gymunedau lleol gael eu hannog i gymryd perchnogaeth dros eu hamgylchedd hanesyddol.

In my Delyn constituency, as in other parts of Wales, we are fortunate in that it almost overflows with heritage, often in lovely settings—from St Winifrede’s well to the Greenfield Valley Museum and Heritage Park of Holywell, to the Bailey Hill and Daniel Owen story of Mold, Flint’s magnificent castle and its industrial heritage and former dock. These are historic truths that need to be told to new generations, so that they can understand what stands behind their villages and towns today. There is so much more, of course, with Bagillt to Brynford steeped in Roman history. All in all, it is a past to be proud of, and a past to be preserved for the future and to be made accessible for the enjoyment of local people

Yn fy etholaeth, sef Delyn, fel mewn rhannau eraill o Gymru, rydym yn ffodus ei bod bron yn gorlifo â threftadaeth, yn aml mewn lleoliadau hyfryd—o ffynnon Gwenffrewi i Amgueddfa a Pharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas yn Nhreffynnon, i Fryn y Beili a hanes Daniel Owen yn yr Wyddgrug, castell godidog y Fflint a threftadaeth ddiwydiannol a hen ddoc y dref. Mae'r rhain yn wirioneddau hanesyddol y mae angen eu hadrodd wrth genedlaethau newydd, er mwyn iddynt allu deall beth sydd y tu cefn i'w pentrefi a'u trefi heddiw. Mae cymaint mwy, wrth gwrs, gyda mannau o Fagillt i Frynffordd yn llawn hanes y Rhufeiniaid. Ar y cyfan, mae'n orffennol y dylem fod yn falch ohono, ac yn orffennol y dylid ei roi ar gof a

and visitors.

chadw ar gyfer y dyfodol a sicrhau ei fod ar gael i bobl leol ac ymwelwyr ei fwynhau.

Local people and organisations in these places, just as in Flint, have stepped in to do their bit to preserve our heritage. The historic lodge that stands on Mold’s Bailey Hill was targeted by metal thieves. Mold town council is now taking over its ownership, following a petition signed by hundreds of local people anxious to secure the future of this 100-year old building, which, when restored, will be the centre of a master plan for the Bailey Hill, where the Normans built a castle during the reign of William Rufus to overlook the town. At Greenfield heritage park, trustees worked selflessly for many years to secure the site and its industrial heritage, including innovative features such as its water wheel. Recently, officials at the park have restored full access after popular paths were closed when old mill buildings were discovered to be in a dangerous condition. Welsh Government money, through Cadw, and Flintshire County Council funding for security fencing made that possible.

Mae pobl a chyrff lleol yn y mannau hyn, fel yn y Fflint, wedi camu i’r adwy i wneud eu rhan i ddiogelu ein treftadaeth. Bu i ladron metel dargedu’r porthdy hanesyddol sy'n sefyll ar Fryn y Beili yn yr Wyddgrug. Mae cyngor tref yr Wyddgrug bellach wedi cymryd perchnogaeth drosto, o ganlyniad i ddeiseb a lofnodwyd gan gannoedd o bobl leol a oedd yn awyddus i sicrhau dyfodol yr adeilad 100 mlwydd oed hwn a fydd, ar ôl ei adfer, yn ganolbwynt i gynllun arbennig ar gyfer Bryn y Beili, lle bu i'r Normaniaid adeiladu castell yn ystod teyrnasiad William Rufus i edrych dros y dref. Ym mharc treftadaeth Maes Glas, bu ymddiriedolwyr yn gweithio'n ddiflino am flynyddoedd lawer i sicrhau'r safle a'i dreftadaeth ddiwydiannol, gan gynnwys nodweddion arloesol fel ei olwyn ddŵr. Yn ddiweddar, mae swyddogion yn y parc wedi adfer mynediad llawn ar ôl i lwybrau poblogaidd gael eu cau ar ôl canfod bod rhai o hen adeiladau'r felin mewn cyflwr peryglus. Bu i arian Llywodraeth Cymru, drwy Cadw, a chyllid Cyngor Sir y Fflint ar gyfer ffensys diogelwch wneud hynny'n bosibl.

Cadw has responsibility for Flint castle, and work has gone on in recent years to improve access and security to the site. Flintshire council’s countryside rangers have built up local support and interest with a wide range of events and Tidy Towns holds litter picks to achieve this aim. However, the bottom line is that Flint castle is not a pay-to-enter monument, which seems to restrict proactive rather than reactive results. I realise that there are limitations at sites like Flint because of its open nature. However, we must not again see a situation where Cadw closes the castle because of problems of anti-social behaviour. Instead, solutions must be found for these sites to become a focus for the community—sites that more visitors from home and abroad are encouraged to visit to benefit local economies, as well as helping to preserve our heritage.

Cadw sy'n gyfrifol am gastell y Fflint, ac mae gwaith wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf i wella mynediad a diogelwch i'r safle. Mae ceidwaid cefn gwlad Cyngor Sir y Fflint wedi ennyn cefnogaeth a diddordeb yn lleol gydag ystod eang o ddigwyddiadau ac mae Trefi Taclus yn cynnal digwyddiadau codi sbwriel er mwyn cyrraedd y nod hwn. Fodd bynnag, yn y pen draw, nid yw castell y Fflint yn heneb sydd â thâl mynediad, ac mae hynny i’w weld yn cyfyngu canlyniadau rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol. Rwyf yn sylweddoli bod cyfyngiadau mewn safleoedd fel y Fflint oherwydd eu natur agored. Fodd bynnag, rhaid inni beidio â gweld sefyllfa eto lle mae Cadw yn cau'r castell oherwydd problemau'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn hytrach, rhaid dod o hyd i atebion er mwyn i'r safleoedd hyn fod yn ffocws ar gyfer y gymuned—safleoedd y mae mwy o ymwelwyr o gartref a thramor yn cael eu hannog i ymweld â hwy er budd i economïau lleol, yn ogystal ag i helpu i ddiogelu ein treftadaeth.

A sense of community ownership is central to this, which is why it is so encouraging that events such as the cauldrons and furnaces programme for the cultural Olympiad are being held at sites such as Flint, and not confined to perhaps more well-known sites. Hundreds of local schoolchildren have been taking part in this programme. They have been undertaking workshops. It is a tribute, again, to the work being done by the local authority. I know that those children have learned much more about their historic environment and I am hopeful that such events will leave a lasting legacy. All these examples, in my view, illustrate what can be done by communities, individuals and local authorities, as well as major organisations and the Government. Now, with the proposed heritage Bill, we should be able to build on such examples.

Mae ymdeimlad o berchnogaeth gymunedol yn ganolog i hyn, a dyna pam ei bod mor galonogol bod digwyddiadau fel y rhaglen crochan a ffwrnais ar gyfer yr Olympiad diwylliannol yn cael eu cynnal ar safleoedd fel y Fflint, ac nid yn gyfyngedig i safleoedd sy'n fwy adnabyddus, efallai. Mae cannoedd o blant ysgol lleol wedi bod yn cymryd rhan yn y rhaglen hon. Maent wedi bod mewn gweithdai. Mae'n deyrnged, unwaith eto, i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr awdurdod lleol. Gwn fod y plant hynny wedi dysgu llawer mwy am eu hamgylchedd hanesyddol ac rwyf yn obeithiol y bydd digwyddiadau o'r fath yn gadael argraff barhaol. Mae'r holl enghreifftiau hyn, yn fy marn i, yn dangos beth y gall cymunedau, unigolion ac awdurdodau lleol ei wneud, yn ogystal â sefydliadau mawr a'r Llywodraeth. Yn awr, gyda'r Bil treftadaeth arfaethedig, dylem allu datblygu ar enghreifftiau o'r fath.

Personally, I am very excited about the heritage Bill. It is a marvellous opportunity to preserve what has happened in the past and to change how we present it for future generations so that it carries on as living history and part of individuals' heritage. Minister, I hope that we can ensure that your aspirations for the proposed heritage Bill are met. Heritage sites should be enjoyable and accessible to the people of Wales and to visitors and that needs exciting ideas, events and support—financial and otherwise—from everyone who wants to see our history preserved for our future.

Yn bersonol, rwyf yn teimlo'n gyffrous iawn am y Bil treftadaeth. Mae'n gyfle gwych i roi'r hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol ar gof a chadw ac i newid y ffordd rydym yn ei gyflwyno ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, fel ei fod yn parhau yn hanes byw ac yn rhan o dreftadaeth unigolion. Weinidog, rwyf yn gobeithio y gallwn sicrhau bod eich dyheadau ar gyfer y Bil treftadaeth arfaethedig yn cael eu bodloni. Dylai safleoedd treftadaeth fod yn bleserus ac yn hygyrch i bobl Cymru ac i ymwelwyr ac mae hyn yn golygu syniadau cyffrous, digwyddiadau a chefnogaeth—ariannol ac fel arall—gan bawb sydd am weld ein hanes yn cael ei ddiogelu ar gyfer ein dyfodol.

I know that sites in state care are the focus of your strategy and that Cadw will be a major player on this exciting stage. Minister, I ask you to ensure the following to make certain that the Bill does exactly what you and the people of Wales want for our future. I ask you to ensure that Cadw works with partners—large and small, young and old—to ensure that the local and wider communities have the widest possible access to our culture and heritage. I ask you also to ensure that consultation on the Bill is wide and imaginative, encompassing not just the traditional or professional organisations—if you will forgive me—that we usually see

Gwn mai safleoedd sydd yng ngofal y wladwriaeth yw canolbwynt eich strategaeth ac y bydd Cadw yn chwaraewr o bwys yn y cyfnod cyffrous hwn. Weinidog, rwyf yn gofyn ichi sicrhau'r canlynol er mwyn gwneud yn siŵr bod y Bil yn gwneud yn union beth y mae arnoch chi a phobl Cymru ei eisiau ar gyfer ein dyfodol. Gofynnaf ichi sicrhau bod Cadw yn gweithio gyda phartneriaid—mawr a bach, hen ac ifanc—i sicrhau bod y cymunedau lleol ac ehangach yn cael y mynediad ehangaf posibl at ein diwylliant a'n treftadaeth. Gofynnaf ichi hefyd sicrhau yr ymgynghorir yn eang ac yn llawn dychymyg ar y Bil, gan beidio â

taking part, and encourages debate by those already playing a part, whether large or small, in preserving our heritage or who want to do so but who have not had the opportunity to do so before or have felt inhibited in coming forward.

chynnwys dim ond y cyrff traddodiadol neu broffesiynol—os maddeuwch imi—yr ydym fel arfer yn eu gweld yn cymryd rhan. Dylech hefyd sicrhau bod y broses ymgynghori yn annog trafodaeth rhwng y rheini sydd eisoes yn chwarae rhan, boed fawr neu fach, wrth warchod ein treftadaeth, neu sydd am chwarae rhan ond heb gael y cyfle i wneud hynny cyn hyn neu sydd wedi teimlo bod rhywbeth yn eu rhwystro rhag gwneud hynny.

Minister, I acknowledge that work is being done in these areas. For example, the Heritage Lottery Fund is playing a part in encouraging local communities to research and interpret their local heritage. It has awarded grants to voluntary groups working to protect and research their historic environment—these are not just heritage sites, by the way. I was interested to note that the Clwyd Denbigh Federation of Women’s Institutes recently received a grant to provide training and equipment for committee members and volunteers to catalogue, preserve and digitise their regional archive. The material will be available online and will also form part of a touring exhibition to widen interest in the WI. That is a fantastic example of community involvement.

Weinidog, rwyf yn cydnabod bod gwaith yn cael ei wneud yn y meysydd hyn. Er enghraifft, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn chwarae rhan wrth annog cymunedau lleol i ymchwilio i’w treftadaeth leol, a’i dehongli. Mae wedi dyfarnu grantiau i grwpiau gwirfoddol sy'n gweithio i warchod eu hamgylchedd hanesyddol ac ymchwilio iddo—nid safleoedd treftadaeth yn unig yw'r rhain, gyda llaw. Roedd yn ddiddorol nodi bod Ffederasiwn Sefydliadau'r Merched Clwyd Dinbych wedi derbyn grant yn ddiweddar i ddarparu hyfforddiant ac offer ar gyfer aelodau'r pwyllgor a gwirfoddolwyr, er mwyn catalogio, cadw a digideiddio’r archif ranbarthol. Bydd y deunydd ar gael ar-lein a bydd hefyd yn ffurfio rhan o arddangosfa deithiol i gynyddu diddordeb yn Sefydliad y Merched. Mae hon yn enghraifft wych o gynnwys y gymuned.

Minister, while it is important that we preserve our heritage, let us not do it in aspic. It must be presented for the future in ways that are exciting, vibrant and relevant to new generations, to those who live locally, and also to visitors from other parts of the UK and abroad. In Wales, we can celebrate our culture and our heritage and we do—it is one of our great strengths. However, it must not be kept under wraps to become the preserve of only a professional few or the heritage experts. It must be opened up to new and wider audiences to enjoy. To enable that, Cadw should work with local partners and involve them in decision making over the future use and promotion of heritage sites.

Weinidog, er ei bod yn bwysig ein bod yn cadw ein treftadaeth, gadewch inni beidio â gwneud hynny mewn asbig. Rhaid iddi gael ei chyflwyno ar gyfer y dyfodol mewn ffyrdd sy'n gyffrous, yn fywiog ac yn berthnasol i genedlaethau newydd, i'r rheini sy'n byw yn lleol, a hefyd i ymwelwyr o rannau eraill o'r DU a thramor. Yng Nghymru, gallwn ddathlu ein diwylliant a'n treftadaeth ac rydym yn gwneud hynny—dyna un o'n cryfderau mawr. Fodd bynnag, rhaid peidio â’i chadw o'r neilltu fel rhywbeth ar gyfer yr ychydig bobl broffesiynol hynny neu’r arbenigwyr treftadaeth. Rhaid iddi fod yn agored er mwyn i gynulleidfaoedd newydd ac ehangach ei mwynhau. I ganiatáu hynny, dylai Cadw weithio gyda phartneriaid lleol a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â defnyddio a hyrwyddo safleoedd treftadaeth yn y dyfodol.

To return to Flint castle, the council has

Gan ddychwelyd at gastell y Fflint, yr

revealed this week that it hopes to make the castle a key focus for the town's master plan. In doing so, it hopes to make Flint more attractive to visitors by connecting the waterfront with the town and promoting Flint along with its heritage. That, in my view, is an excellent example of the community taking ownership of its heritage and is the sort of plan that I hope will be encouraged by the forthcoming heritage Bill. Plans such as that are not just about history, but about regeneration, which is so important, and about education.

wythnos hon, mae'r cyngor wedi datgelu ei fod yn gobeithio gwneud y castell yn ganolbwynt allweddol i'r cynllun arbennig ar gyfer y dref. Wrth wneud hynny, mae'n gobeithio gwneud y Fflint yn fwy deniadol i ymwelwyr drwy gysylltu glan y dŵr gyda'r dref a thrwy hyrwyddo'r Fflint ynghyd â'i threftadaeth. Mae hynny, yn fy marn i, yn enghraifft ardderchog o'r gymuned yn cymryd perchnogaeth dros ei threftadaeth. Dyma'r math o gynllun a fydd yn cael ei annog, gobeithio, gan y Bil treftadaeth sydd ar y gweill. Nid yw cynlluniau o'r fath yn ymwneud â hanes yn unig. Maent hefyd yn ymwneud ag adfywio, sy'n hynod o bwysig, yn ogystal ag addysg.

Finally, Minister, I take this opportunity to invite you to see for yourself the splendour of Flint castle and the other heritage sites in Delyn. They are culturally significant, not just to their region, but to Wales as a whole. While they are, naturally, rooted in the past, they can still play an important part in the area's future, both economically and culturally, given the right support from Cadw and other major partners.

Yn olaf, Weinidog, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i'ch gwahodd i weld drosoch eich hun ysblennydd castell y Fflint a safleoedd treftadaeth eraill Delyn. Maent yn ddiwylliannol arwyddocaol, nid yn unig i'w rhanbarth eu hunain, ond i Gymru gyfan. Er eu bod, yn naturiol, wedi'u gwreiddio yn y gorffennol, gallant chwarae rhan bwysig yn nyfodol yr ardal o hyd, yn economaidd ac yn ddiwylliannol, ond iddynt gael y cymorth priodol gan Cadw a phartneriaid pwysig eraill.

**The Presiding Officer:** Thank you. Sandy Mewies has left three minutes, so Mike Hedges and Rebecca Evans will have a minute and a half each.

**Y Llywydd:** Diolch. Mae Sandy Mewies wedi gadael tri munud, felly bydd gan Mike Hedges a Rebecca Evans funud a hanner yr un.

**Mike Hedges:** Thank you, Presiding Officer, and thank you, Sandy, for allowing me to say a few words on this. I will concentrate on the late nineteenth century, a bit further forward, and the history of industrial Wales, specifically Morriston and Swansea East. The big developments in working-class communities during that time were the building of chapels. Many of those were built all over communities; some have become derelict and some are still going. I have spoken to the Minister about this before, but I say again that it is important that we find end uses for them and that the best are kept. It is impossible to keep all of them. Some have already been converted into flats, but it is important to keep the major chapels, such as the Tabernacle in Morriston, and the Minister has been invited next month to attend its reopening, which is thanks to funding from

**Mike Hedges:** Diolch ichi, Lywydd, a diolch ichi, Sandy, am roi cyfle imi ddweud ychydig o eiriau ynghylch hyn. Byddaf yn canolbwyntio ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ychydig ymhellach ymlaen, a hanes diwydiannol Cymru—Treforys a Dwyrain Abertawe yn benodol. Y datblygiadau mawr mewn cymunedau dosbarth gweithiol yn ystod y cyfnod hwnnw oedd adeiladu capeli. Roedd llawer o'r rheini wedi eu hadeiladu dros gymunedau cyfan, mae rhai wedi mynd yn ddiffaith ac mae eraill yn dal ati i weithredu. Rwyf wedi siarad â'r Gweinidog am hyn o'r blaen, ond dywedaf eto ei bod yn bwysig ein bod yn dod o hyd i ffyrdd o'u defnyddio hyd ddiwedd eu hoes a bod y goreuon yn cael eu cadw. Mae'n amhosibl cadw pob un ohonynt. Mae rhai eisoes wedi cael eu trawsnewid yn fflatiau, ond mae'n bwysig cadw'r capeli mawr, fel y

the Assembly.

Tabernacl yn Nhreforys, ac mae'r Gweinidog wedi cael ei wahodd i fynychu digwyddiad i'w ailagor fis nesaf, diolch i gyllid gan y Cynulliad.

I will finish with two points. One is that we have an opportunity to develop tourism around our culture and around some of our religious buildings. Secondly, we need to decide what we want to keep and what we want to do with those buildings, and not keep everything and let them all fall down.

Rwyf am orffen gyda dau bwynt. Yn gyntaf, mae gennym gyfle i ddatblygu twristiaeth o amgylch ein diwylliant ac o amgylch rhai o'n hadeiladau crefyddol. Yn ail, mae angen inni benderfynu beth yr ydym am ei gadw a beth yr ydym am ei wneud gyda'r adeiladau hynny, a pheidio â chadw popeth a gadael iddyn nhw i gyd syrthio i'r llawr.

**Rebecca Evans:** The Minister will know that Mike Hedges and I share a keen interest in places of worship. Historic churches in Wales, as you know, are nationally important assets, which are key to our heritage, and they are maintained and preserved by local people. The Church in Wales, for example, owns 1,400 places of worship, just under 1,000 of which are listed buildings, and they make up 29% of all of Wales's grade I listed buildings. I would like to take this opportunity to pay tribute to the hard work and dedication of congregations up and down Wales in their management of these historic assets, which are so important to our heritage. This often involves a significant amount of fundraising. I would also like to pay tribute to the volunteers who ensure that churches are kept open to visitors. One million people each year visit Wales's churches and cathedrals and countless others also visit places of other denominations and faiths. These people do not just visit the places of worship; they also visit the local areas and spend money supporting local businesses and local communities. I hope the Minister will join me today in paying tribute to congregations who keep these important assets, which are vital and viable parts of our heritage.

**Rebecca Evans:** Bydd y Gweinidog yn gwybod bod Mike Hedges a minnau'n rhannu diddordeb brwd mewn mannau addoli. Mae eglwysi hanesyddol yng Nghymru, fel y gwyddoch, yn asedau cenedlaethol pwysig sy'n allweddol i'n treftadaeth, ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw gan bobl leol. Mae'r Eglwys yng Nghymru, er enghraifft, yn berchen ar 1,400 o fannau addoli ac mae bron iawn i 1,000 ohonynt yn adeiladau rhestredig—29 y cant o holl adeiladau rhestredig gradd I Cymru. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i dalu teyrnged i waith caled ac ymroddiad cynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru wrth iddynt reoli'r asedau hanesyddol hyn sydd mor bwysig i'n treftadaeth. Mae hyn yn aml yn cynnwys cryn dipyn o godi arian. Hoffwn hefyd dalu teyrnged i'r gwirfoddolwyr sy'n sicrhau bod eglwysi yn parhau i agor eu drysau i ymwelwyr. Mae miliwn o bobl bob blwyddyn yn ymweld ag eglwysi ac eglwysi cadeiriol Cymru ac mae llu o bobl eraill hefyd yn ymweld â mannau addoli enwadau a chrefyddau eraill. Nid yw'r bobl hyn yn ymweld â'r mannau addoli yn unig, maent hefyd yn ymweld â'r ardaloedd lleol ac yn gwario arian wrth gefnogi busnesau lleol a chymunedau lleol. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn ymuno â mi heddiw i dalu teyrnged i gynulleidfaoedd sy'n cadw'r asedau pwysig hyn, sydd yn rhan hanfodol ac ymarferol o'n treftadaeth.

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** Thank you, Sandy, for bringing this debate forward today and Mike and Rebecca for your contributions. I enjoyed Sandy's speech enormously, not least because it stated some self-evident truths, but because it also reminded me of a number of contributions

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Diolch ichi, Sandy, am gyflwyno'r ddadl hon heddiw a diolch i Mike a Rebecca am eich cyfraniadau. Gwnes fwynhau araith Sandy yn fawr iawn, nid yn unig am ei bod yn nodi rhai gwirioneddau amlwg, ond am ei bod hefyd yn fy atgoffa o nifer o gyfraniadau rwyf wedi bod yn ceisio

that I have been attempting to make on this issue of properly tapping into our heritage in Wales since devolution came about. I remember in particular some years ago, before a debate similar to this one, Googling ‘Carcassonne’, which is a walled French town—you can find it on Google, which is fantastic stuff—and then doing the same for ‘Caernarfon’, and—unfortunately, Jeff has left us—‘Caerphilly’. They are similar, in that they are castellated towns, although Carcassonne is much more restored than the others. Try Googling them and comparing and contrasting the presentation of those historical assets to the wider world and you will, as I did, become utterly depressed by the contrast between the way in which that French community presents itself to the world and the way in which some of our Welsh communities do. They are clear equals in terms of built heritage, but the shop window, if you like, was something very different, and it was quite a depressing experience.

eu gwneud ar fanteisio'n briodol ar ein treftadaeth yng Nghymru ers datganoli. Rwyf yn cofio'n arbennig, rai blynyddoedd yn ôl, cyn dadl debyg i hon, chwilio yn *Google* am 'Carcassonne', sef tref furiog yn Ffrainc—gallwch ddod o hyd iddi ar *Google,* sy'n wych—a gwneud yr un peth ar gyfer 'Caernarfon', ac—yn anffodus, mae Jeff wedi ein gadael—'Caerffili'. Maent yn debyg gan eu bod yn drefi castellog, er bod Carcassonne wedi'i hadfer ar raddfa fwy o lawer na'r lleill. Ceisiwch chwilio amdanynt ar *Google* a chymharu a chyferbynnu'r modd y cyflwynir yr asedau hanesyddol hynny i'r byd ehangach, a byddwch chithau, fel finnau, yn isel iawn eich ysbryd o ganlyniad i'r cyferbyniad rhwng y ffordd y mae'r gymuned honno yn Ffrainc yn ei chyflwyno’i hun i'r byd a'r ffordd y mae rhai o'n cymunedau ni yng Nghymru yn gwneud hynny. Maent yn amlwg yn gyfartal o ran treftadaeth adeiledig, ond roedd ffenestr y siop, fel petai, yn rhywbeth gwahanol iawn. Roedd yn brofiad digon digalon.

If you do it, you will see that Carcassonne is presented to the world as a historical tourist attraction, but it is also about it being alive with possibilities, and about events and happenings that that go ahead there. There is a list of artistic events that can be tapped into, and there is a way in which, on almost every day of the year, the population of that town is connected to its heritage and to the possibilities, not least the economic possibilities, that the heritage around them bestows upon them. That is just one example. What it means, together with Sandy’s insight this afternoon, is that we have to change our approach. I have demanded that consistently of Cadw particularly since becoming Minister. The upcoming heritage Bill is a real chance to revolutionise how we think about our history as a nation. It was shocking to hear that Sandy could not find even a leaflet in Flint about the town’s own castle, and it was good to hear about the community itself in Flint taking its own steps to improve things like accessibility and the level of interest in and understanding of what is their most important built heritage asset.

Pe baech yn gwneud hynny, byddwch yn gweld bod Carcassonne yn cael ei chyflwyno i'r byd fel atyniad hanesyddol i dwristiaid. Ond yr hyn sydd hefyd yn bwysig yw ei bod yn llawn posibiliadau, a bod digwyddiadau a phethau cyffrous eraill yn cael eu cynnal yno. Ceir rhestr o ddigwyddiadau celfyddydol y gellir manteisio arnynt, a cheir ffordd o gysylltu poblogaeth y dref honno, bron bob dydd o'r flwyddyn, â'i threftadaeth ac â'r posibiliadau, yn arbennig y posibiliadau economaidd, y mae'r dreftadaeth o'u hamgylch yn eu cynnig iddynt. Dim ond un enghraifft yw'r dref honno. Beth y mae'n ei olygu, ynghyd â geiriau Sandy y prynhawn yma, yw bod yn rhaid inni newid ein hymagwedd. Rwyf wedi mynnu hynny'n gyson gan Cadw, yn enwedig ers fy mhenodi'n Weinidog. Mae'r Bil treftadaeth sydd ar y gweill yn gyfle go iawn i chwyldroi’r ffordd rydym yn meddwl am ein hanes fel cenedl. Syndod mawr oedd clywed nad oedd Sandy'n gallu dod o hyd i daflen, hyd yn oed, yn y Fflint am gastell y dref ei hun. Ar y llaw arall, braf oedd clywed bod y gymuned ei hun yn y Fflint yn cymryd ei chamau ei hun i wella pethau fel hygyrchedd a lefel y diddordeb yn eu hased treftadaeth adeiledig fwyaf pwysig, a’r ddealltwriaeth ohono.

5.45 p.m.

5.45 p.m.

In the past, we have not had the confidence and ambition to tell the stories of some of our Welsh communities, to retell our history, first of all back to the local community in which it is embedded, let alone the wider world around that community. We are a very long way away from fully exploiting the incredible tapestry of built heritage up and down the country. We have to be a lot more ambitious.

Yn y gorffennol, nid oedd gennym yr hyder na'r uchelgais i adrodd straeon rhai o'n cymunedau yng Nghymru; i ailadrodd ein hanes, yn gyntaf oll yn ôl i'r gymuned leol y mae wedi ei wreiddio ynddi, heb sôn am i'r byd ehangach o amgylch y gymuned honno. Mae'r ffordd yn bell o hyd nes inni allu manteisio i'r eithaf ar y tapestri anhygoel o dreftadaeth adeiledig ar hyd a lled y wlad. Rhaid inni fod yn llawer mwy uchelgeisiol.

When I launched my draft priorities for the historic environment in Wales, they included a commitment to foster a better appreciation of the value and impact of local heritage in communities and for their own sustainable development. I want to encourage people to understand, enjoy and value the features and stories that give places character and distinctiveness, and to use that to inform new development and community wellbeing. Unless people local to, for instance, Flint castle, or countless other buildings and monuments that Wales is home to feel an appreciation and ownership of the history that is on their doorstep, how can we expect the wider world to show any interest at all in what Wales has to offer? This is as much about the process towards the heritage Bill and as much about the input of teenagers in Flint as it is about any historical expert who might step forward to the microphone during the run-up to the making of this new law.

Pan fu imi lansio fy mlaenoriaethau drafft ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, roeddent yn cynnwys ymrwymiad i feithrin gwell gwerthfawrogiad o werth ac effaith treftadaeth leol mewn cymunedau ac ar gyfer eu datblygiad cynaliadwy eu hunain. Rwyf am annog pobl i ddeall, i fwynhau ac i werthfawrogi'r nodweddion a'r straeon sy'n rhoi cymeriad a natur unigryw i leoedd, ac i ddefnyddio hynny i fod yn sail i ddatblygiad newydd a lles y gymuned. Oni bai fod pobl sy'n lleol i gastell y Fflint, er enghraifft, neu adeiladau a henebion eraill di-ri yng Nghymru, yn teimlo eu bod yn gwerthfawrogi ac yn berchen ar yr hanes sydd ar garreg eu drws, sut y gallwn ddisgwyl i'r byd ehangach ddangos unrhyw ddiddordeb o gwbl yn yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig? Mae hyn yn ymwneud cymaint â'r broses tuag at y Bil treftadaeth, a chymaint â mewnbwn pobl ifanc yn y Fflint, ag y mae'n ymwneud ag unrhyw arbenigwr hanesyddol a allai gamu ymlaen yn ystod y cyfnod cyn gwneud y ddeddf newydd hon.

We are making progress. Underpinning everything that Cadw does is the recognition that the historic environment is a shared resource; it is part of our collective inheritance. These themes have already featured prominently in the programme of workshops and debate that I launched in February. These discussions are helping to shape future policy for the historic environment, as well as the content of that heritage Bill.

Rydym yn gwneud cynnydd. Yn sail i bopeth y mae Cadw yn ei wneud mae'r gydnabyddiaeth bod yr amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir; mae'n rhan o'n cyd-etifeddiaeth. Mae'r themâu hyn eisoes wedi bod yn amlwg yn y rhaglen o weithdai ac yn y ddadl a lansiwyd gennyf ym mis Chwefror. Mae'r trafodaethau hyn yn helpu i lunio polisi'r dyfodol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, yn ogystal â chynnwys y Bil treftadaeth hwnnw.

However, we need much more bold and imaginative thinking and many more ways of exploiting and understanding our precious heritage sites, because this is the best

Fodd bynnag, mae arnom angen llawer mwy o syniadau dewr a dychmygus a llawer mwy o ffyrdd o fanteisio ar ein safleoedd treftadaeth gwerthfawr a’u deall. Dyma'r

opportunity we have of preserving them for the future. We cannot keep these sites for the privileged few. We cannot lock them up, as Flint castle was locked up, because the disconnection between local young people and that precious piece of heritage was so great that they were prepared to vandalise it. However, it is no solution to lock it away from those very young people.

cyfle gorau sydd gennym o'u diogelu ar gyfer y dyfodol. Ni allwn gadw'r safleoedd hyn ar gyfer yr ychydig rai breintiedig. Ni allwn eu cloi, fel y rhoddwyd castell y Fflint dan glo gan fod y diffyg cysylltiad rhwng y bobl ifanc leol a'r darn gwerthfawr o dreftadaeth mor ddifrifol eu bod yn barod i'w fandaleiddio. Fodd bynnag, nid yw eu cloi oddi wrth y bobl ifanc iawn hynny yn ateb.

It is not, lord bless them, the dedicated history buffs and the anoraks—and thank heavens for them, because they play their part—who visit such sites, come rain or shine, who matter so much as those teenagers in towns like Flint, who hold within their attitude towards Welsh heritage and Welsh history and within their hands the future of monuments like Flint’s. It does not matter how many anoraks you throw at Flint castle. It will only survive through the good graces of the people of that community.

Chwarae teg iddynt, nid y rhai ymroddedig hynny sy’n ymddiddori mewn hanes a'r anoracs sy'n ymweld â safleoedd o'r fath boed law neu hindda—a diolch i'r nefoedd amdanynt, oherwydd maent yn chwarae eu rhan—sydd bwysicaf. Y rheini yn eu harddegau mewn trefi fel y Fflint sydd bwysicaf gan fod dyfodol henebion fel heneb y Fflint yn ddibynnol are u hagwedd tuag at dreftadaeth Cymru a hanes Cymru. Does dim ots faint o anoracs y byddwch yn eu taflu at gastell y Fflint. Dim ond drwy ewyllys dda pobl y gymuned honno y bydd yn goroesi.

If people are to care about heritage, they need to have positive, relevant and contemporary experiences. I am not just talking about tourists, but about the people who live next door to these monuments. As I say, we are making progress with our upcoming heritage Bill, and the first national heritage interpretation plan, which is a European first for Wales, is making progress on this agenda.

Os yw pobl yn mynd i falio am dreftadaeth, mae angen iddynt gael profiadau cadarnhaol, perthnasol a chyfoes. Nid wyf yn sôn am dwristiaid yn unig, ond am y bobl sy'n byw'r drws nesaf i'r henebion hyn. Fel rwyf yn ei ddweud, rydym yn gwneud cynnydd gyda'n Bil treftadaeth arfaethedig, ac mae'r cynllun dehongli treftadaeth genedlaethol cyntaf, sef y cyntaf i Gymru yn y cyd-destun Ewropeaidd, yn gwneud cynnydd ar yr agenda hon.

We all accept that the heritage of Wales is unique and precious. We all know that. I am personally committed to ensuring that, through this new legislation, our aim is not solely to preserve, but to reunderstand, reinterpret and reinvigorate interest among the young people of Wales, in particular, in that built heritage that surrounds us.

Rydym i gyd yn derbyn bod treftadaeth Cymru yn unigryw ac yn werthfawr. Rydym i gyd yn gwybod hynny. Rwyf wedi ymrwymo'n bersonol i sicrhau, drwy gyfrwng y ddeddfwriaeth newydd hon, nad cadw yn unig yw ein nod, ond hefyd ail ddeall, ail ddehongli ac adfywio diddordeb ymhlith pobl ifanc Cymru, yn arbennig, yn y dreftadaeth adeiledig honno sydd o'n hamgylch.

**The Presiding Officer:** That brings today’s proceedings to a close.

**Y Llywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.50 p.m.*
*The meeting ended at 5.50 p.m.*

**Aelodau a’u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)